



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 30 Ionawr 2008
Wednesday, 30 January 2008**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Counsel General and Leader of the House
15	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs
32	Datganiad am yr Ymgynghoriad ar Raglen Cymunedau Nesaf Statement on the Communities Next Consultation
49	Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
49	Sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan Establishment of a Committee of the Whole Assembly
50	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Camddefnyddio Sylweddau Welsh Conservatives Debate: Substance Misuse
74	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Heddluoedd yng Nghymru Welsh Conservatives Debate: Police Forces in Wales
103	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Setliad Llywodraeth Leol Welsh Liberal Democrats Debate: The Local Government Settlement
121	Dadl Fer: Treialu Canolfannau Galw i Mewn—yr Achos dros Gaerdydd Short Debate: Piloting Walk-in Centres—the Case for Cardiff
130	Amser Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Deputy Presiding Officer: I call the Assembly to order. **Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Counsel General and Leader of the House

Role and Responsibilities

Q1 Paul Davies: Will the Counsel General make a statement on his role and responsibilities? OAQ(3)0085(CGE)

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I am the final and authoritative legal adviser to the Welsh Assembly Government and I oversee its representation in the courts. I have statutory duties in relation to devolution issues, and I represent the Welsh Assembly Government in exchanges with the other law officers. I can make representations about any matter affecting Wales.

Paul Davies: The role and responsibilities of the Counsel General and Leader of the House also includes managing Government business which, I presume, includes advising Ministers on the way in which they communicate Government policy. There is anger in my constituency that the announcement of the merger of the three health trusts in west Wales was made only a few days before Christmas. My constituents and I feel that the announcement should have been made in the Chamber so that it could be democratically scrutinised. In the circumstances, will the Counsel General and Leader of the House confirm that, in future, the Assembly Government will ensure that important statements of this nature are made on the floor of the Assembly Chamber?

Carwyn Jones: I do not believe that that has anything to do with my role as Counsel General.

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

C1 Paul Davies: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau? OAQ(3)0085(CGE)

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Myfi yw'r cynghorydd cyfreithiol terfynol ac awdurdodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yr wyf yn goruchwyllo ei chynrychiolaeth yn y llysoedd. Mae gennyf ddyletswyddau statudol yng nghyswllt materion yn ymwneud â datganoli, ac yr wyf yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyfnewidiadau â swyddogion eraill y gyfraith. Gallaf roi sylwadau am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

Paul Davies: Mae swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ hefyd yn cynnwys rheoli busnes y Llywodraeth sydd, tybiaf, yn cynnwys cynghori Gweinidogion ynghylch sut y byddant yn cyfathrebu polisïau'r Llywodraeth. Cythruddwyd pobl yn f'etholaeth mai dim ond ychydig ddyddiau cyn y Nadolig y cyhoeddwyd y byddai'r tair ymddiriedolaeth iechyd yn y gorllewin yn cael eu huno. Teimla f'etholwyr a minnau y dylai bod y cyhoeddiad wedi'i wneud yn y Siambr er mwyn cael craffu arno mewn modd democrataidd. Dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ gadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod datganiadau pwysig fel y rhain yn cael eu gwneud ar lawr Siambr y Cynulliad yn y dyfodol?

Carwyn Jones: Ni chredaf fod gan hynny ddim oll i'w wneud â'm swyddogaeth fel Cwnsler Cyffredinol.

Legislative Competence Orders

Q2 Jenny Randerson: What assessment has the Counsel General made on widening the scope of future legislative competence Orders? OAQ(3)0080(CGE)

Carwyn Jones: The scope of an individual legislative competence Order is drawn up in such a way as to ensure that the Government's policies can be delivered. There is no limit on the breadth of the scope of an LCO as long as it seeks to insert a matter into a field that already exists under Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006.

Jenny Randerson: Thank you for that helpful answer. The Welsh Liberal Democrats believe that the Assembly should be ensuring the widest and deepest possible legislative competence Orders. However, Huw Irranca-Davies MP has said that Members of Parliament:

'would hope that we are not looking at a generality, a sort of broad brush of Orders in Council, but...at quite focused Orders in Council'.

Do you agree with the Liberal Democrats, or do you take the parliamentary Labour Party view of Huw Irranca-Davies that the Assembly should be thinking small?

Carwyn Jones: I do not think that there is any dispute over this, as it is accepted that LCOs are meant to be broad. LCOs are not meant to refer to specific pieces of Westminster legislation. The danger of so doing is that, were that legislation to be repealed, the LCO would cease to have the effect of transferring a matter to us. Therefore, I see no difficulty with what you say. It is generally accepted that we will seek to have LCOs that are broad enough to deliver the policies that the Government wishes to deliver.

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

C2 Jenny Randerson: Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud ar ehangu cwrpas Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn y dyfodol? OAQ(3)0080(CGE)

Carwyn Jones: Llunnir cwrpas Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol unigol mewn modd sy'n sicrhau y gellir darparu polisiau'r Llywodraeth. Ni cheir cyfyngiad ar ehanger cwrpas Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, cyn belled â'i fod yn anelu at fewnosod mater mewn maes sy'n bodoli'n barod dan Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Jenny Randerson: Diolch ichi am yr ateb buddiol hwnnw. Cred Democrataid Rhyddfrydol Cymru y dylai bod y Cynulliad yn sicrhau'r Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol ehangaf a dyfnaf posib. Fodd bynnag, mae Huw Irranca-Davies AS wedi dweud y byddai Aelodau Seneddol:

yn gobeithio nad ydym yn edrych ar rywbeth cyffredinol, ryw domen eang o Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor, ond...ar Orchmynion sydd â ffocws pendant yn y Cyfrin Gyngor.

A gytunwch â'r Democrataid Rhyddfrydol, ynteu a gytunwch â barn seneddol Plaid Lafur Huw Irranca-Davies, sef y dylai bod y Cynulliad yn meddwl mewn termau bach?

Carwyn Jones: Ni chredaf fod unrhyw anghydfod ynghylch hyn, oherwydd derbynnir mai bwriad Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yw bod yn eang. Nid bwriad Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yw cyfeirio at ddarnau penodol o ddeddfwriaethau San Steffan. Drwy wneud hynny, petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diddymu, y perygl fyddai i'r Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol golli ei effaith o drosglwyddo mater i ni. Felly, ni welaf unrhyw anhawster â'r hyn a ddywedwch. Derbynnir yn gyffredinol y byddwn yn ceisio cael Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol sy'n ddigon eang i gyflawni'r polisiau y mae'r Llywodraeth yn dymuno'u darparu.

Priorities

Q3 Nick Ramsay: Will the Counsel General make a statement on his priorities for the next six months? OAQ(3)0083(CGE)

Carwyn Jones: As a member of the Welsh Assembly Government, the One Wales Government, my priority is to achieve the objectives set out in 'One Wales', particularly to give legal advice as and when required.

Nick Ramsay: A previous question related to the progress of LCOs. I want to ask you specifically about the progress of the LCO outlawing the physical punishment of children, as I know that several of your colleagues have expressed some concern about the frustrations that have built up between Westminster and Cardiff regarding the legality of the Assembly dealing with that issue. Do you believe that that LCO is in danger, and what discussions have you had regarding that?

Carwyn Jones: As you know, I cannot confirm whether or not I have been asked to advise on a particular LCO, but it is a matter of record that the Welsh Assembly Government does not agree with the Wales Office's assessment of how broad the LCO would be, and of whether it could, in its present wording, achieve the end of the defence of reasonable chastisement to common assault, or banning smacking as it is sometimes put in short. Nevertheless, it is also a matter of record that it is not the intention of the Government to pursue the power to ban smacking at this stage.

UK Planning Bill

Q4 Leanne Wood: Has the Counsel General responded to any consultation on the UK Planning Bill? OAQ(3)0090(CGE)

Carwyn Jones: No, I have not. The Planning

Blaenoriaethau

C3 Nick Ramsay: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0083(CGE)

Carwyn Jones: Fel aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth Cymru'n Un, fy mlaenoriaeth yw cyflawni'r amcanion sydd wedi'u gosod allan yn 'Cymru'n Un', ac yn arbennig i roi cyngor cyfreithiol pan fydd angen.

Nick Ramsay: Yr oedd cwestiwn blaenorol yn ymwneud â symud y Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn eu blaen. Dymunaf eich holi'n benodol am ddatblygiad y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol sy'n gwahardd cosbi plant yn gorfforol, oherwydd gwn i amryw o'ch cyd-Aelodau fynegi rhywfaint o bryder am y rhwystredigaeth sydd wedi datblygu rhwng San Steffan a Chaerdydd o ran cyfreithlondeb y Cynulliad yn delio â'r mater hwnnw. A gredwch fod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw mewn perygl, a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael yng nghyswllt hynny?

Carwyn Jones: Fel y gwyddoch, ni allaf gadarnhau a ofynnwyd imi roi cyngor ynghylch Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol penodol ai peidio, ond mae ar glawr nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ag asesiad Swyddfa Cymru o ran pa mor eang y byddai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, ac o ran a allai'r Gorchymyn, yn y modd y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, roi diwedd ar yr amddiffyniad o gosb rhesymol i'r cyhuddiad o ymosod cyffredinol, neu wahardd smacio fel y'i gelwir yn gryno weithiau. Serch hynny, mae hefyd ar glawr nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu parhau i geisio cael y grym i wahardd smacio ar hyn o bryd.

Mesur Cynllunio'r DU

C4 Leanne Wood: A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar Fesur Cynllunio'r Deyrnas Unedig? OAQ(3)0090(CGE)

Carwyn Jones: Na, nid wyf wedi gwneud

Bill is a matter for the Minister for Environment, Sustainability and Housing who responded to the consultation on the 'Planning for a Sustainable Future' White Paper in the autumn. She has been working closely with UK Government Ministers on the detail of the Bill.

Leanne Wood: I know that you will be aware, Counsel General, of the tragic story of Tryweryn, the valley near Bala, where the river was dammed and people were evicted from their homes. Every Member of Parliament in Wales bar one voted against that, but the Westminster Government forced it through regardless and a Welsh-speaking community was destroyed. Fifty years on, despite the fact that we have this devolved Assembly, we face, if it were possible, an even worse situation because of the UK Planning Bill.

Under this proposed legislation, unelected officials in London—not democratically elected representatives from Wales—will decide the future of proposals such as that for the Severn barrage or any that might be made for new nuclear power stations in Wales. The Bill provides a good opportunity to devolve decision-making responsibility for large energy projects. However, that opportunity is not being taken.

The Deputy Presiding Officer: Order. Ask your question, please.

Leanne Wood: Will you raise these concerns with the UK Government and press a rethink on this anti-democratic Bill?

Carwyn Jones: The First Minister has made it clear that we will not support the legislation that would restrict or remove any of the Assembly's powers. He is on record as saying that our position remains that we would wish to see planning powers devolved for power stations over 50 MW. He has said that many times. However, it is right to say that many years have passed since the drowning of Capel Celyn and the Tryweryn

hynny. Mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yw'r Mesur Cynllunio. Ymatebodd y Gweinidog i'r Papur Gwyn, 'Planning for a Sustainable Future', yn ystod yr hydref. Mae hi wedi bod yn gweithio'n glòs gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch manylion y Mesur.

Leanne Wood: Gwn y byddwch yn ymwybodol, Gwnsler Cyffredinol, o stori drasig Tryweryn, y cwm ger y Bala. Yno, codwyd argae dros yr afon a gyrrwyd pobl o'u cartrefi. Pleidleisiodd pob Aelod Seneddol yng Nghymru namyn un yn erbyn hynny, ond fe'i gorfodwyd yn ei flaen gan Lywodraeth San Steffan serch hynny, a dinistriwyd cymuned Gymraeg ei hiaith. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, er bod gennym Gynulliad datganoledig, wynebwn, os yw hynny'n bosibl, sefyllfa waeth hyd yn oed oherwydd Mesur Cynllunio'r DU.

Dan y ddeddfwriaeth arfaethedig hon, swyddogion yn Llundain nad ydynt wedi cael eu hethol—nad ydynt yn gynrychiolwyr o Gymru a etholwyd yn ddemocrataidd—fydd yn penderfynu ar ddyfodol cynigion megis hwnnw ar gyfer morglawdd aber Hafren, neu ar gyfer unrhyw gynnydd y gellid ei wneud ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yng Nghymru. Mae'r Mesur yn gyfle da i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau ynni mawr. Fodd bynnag, ni fanteisir ar y cyfle hwnnw.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gofynnwch eich cwestiwn os gwelwch yn dda.

Leanne Wood: A godwch y pryderon hyn â Llywodraeth y DU a phwyso arni i ailfeddwl am y Mesur gwrth-ddemocrataidd hwn?

Carwyn Jones: Mae'r Prif Weinidog wedi mynegi'n glir na fyddwn yn cefnogi'r ddeddfwriaeth a fyddai'n cyfyngu ar unrhyw un o bwerau'r Cynulliad neu'n cael gwared ar unrhyw un o'r pwerau hynny. Fe'i cofnodwyd yn dweud bod ein sefyllfa'n aros fel y mae, sef y byddem yn dymuno gweld pwerau cynllunio'n cael eu datganoli ar gyfer gorsafoedd pŵer dros 50 MW. Mae wedi dweud hynny droeon. Fodd bynnag, mae'n

valley, and it is unlikely that such a scenario would occur again. Times have changed, and Wales has a much stronger voice now than it did in 1965.

Alun Davies: Following on from that answer, you are aware that the Sustainability Committee discussed the Planning Bill at its meeting last week and that, following its deliberations and the evidence that it took from the Minister, it will be making representations to the UK Government. It is fair to say that the committee felt that there was a great element of centralisation implicit and explicit in this proposed legislation. Will you play a role in ensuring that the devolution settlement in Wales is protected and, wherever possible, enhanced through framework powers contained in the legislation?

Carwyn Jones: It is a matter for individual Ministers to decide how they wish to proceed policy-wise, but I have a role in providing legal advice to them on their proposals.

Policy Objectives

Q5 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): What assessment has the Counsel General made of the need to justify policy objectives to Westminster when presenting legislative competence Orders? OAQ(3)0081(CGE)

Carwyn Jones: There is no requirement to justify policy objectives to Westminster; that is not laid down in the Government of Wales Act 2006. The question that is raised in both Houses of Parliament is whether it would be appropriate for the Assembly to have a particular power devolved to it, but not how the Assembly should use that power.

Michael German: Thank you for that answer. Can you therefore comment on the words of the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales Huw Irranca-Davies, who said:

‘It is, however, for Parliament to decide on a case-by-case basis whether legislative

wir dweud bod llawer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers boddi Capel Celyn a chwam Tryweryn, ac mae’n annhebygol y cyfyd sefyllfa debyg eto. Mae’r oes wedi newid, ac mae gan Gymru lais cryfach o lawer nag yr oedd ganddi yn 1965.

Alun Davies: A dilyn ymlaen o’r ateb hwnnw, yr ydych yn ymwybodol i’r Pwyllgor Cynaliadwyedd drafod y Mesur Cynllunio yn ei gyfarfod yr wythnos diwethaf ac y bydd, yn dilyn ei ystyriaethau a’r dystiolaeth a gymerodd gan y Gweinidog, yn cyflwyno ei sylwadau i Lywodraeth y DU. Mae’n deg dweud i’r pwyllgor deimlo bod elfen sylweddol o ganoli aneglur ac eglur yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. A wnewch gymryd rhan i sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru’n cael ei amddiffyn a, lle bynnag y bydd hynny’n bosibl, yn cael ei wella drwy gyfrwng y pwerau fframwaith sydd yn y ddeddfwriaeth?

Carwyn Jones: Mater i Weinidogion unigol yw penderfynu sut y dymunant fynd ymlaen o ran polisi, ond mae gennyf swyddogaeth i roi cyngor cyfreithiol iddynt ar eu cynigion.

Amcanion Polisi

C5 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Pa asesiad mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi’i wneud o’r angen i gyfiawnhau amcanion polisi i San Steffan wrth gyflwyno Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol? OAQ(3)0081(CGE)

Carwyn Jones: Nid yw’n ofynnol cyfiawnhau amcanion polisi i San Steffan; ni ddywedir hynny yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Y cwestiwn a godir yn nau Dŷ’r Senedd yw a fyddai’n briodol datganoli pŵer penodol i’r Cynulliad, ond nid sut y dylai’r Cynulliad ddefnyddio’r pŵer hwnnw.

Michael German: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. A allwch felly roi sylw ar eiriau Isygrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, Huw Irranca-Davies, a ddywedodd:

Y Senedd, fodd bynnag, sydd i benderfynu ar sail achos-wrth-achos a ddylid datganoli

competence in a certain area should be devolved’?

He went on to say that there will be many questions, but that a key question would be:

‘Are these powers for a purpose?’

He goes on further to say that there must be,

‘an established identifiable need for bringing this Order forward and that the powers are being sought for a particular purpose’.

I would understand establishing the particular purpose of powers as meaning asking what the Assembly will do with them. If that is the case, he is saying that we must establish the policy objective that we are trying to achieve. Perhaps you can explain the difference between a particular purpose and a need.

Carwyn Jones: That is not the view of the Welsh Assembly Government. First, when an LCO is passed, it inserts matters into the fields that are listed in Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. For example, social welfare is one such field, and the vulnerable children LCO will seek to insert into that field the matter of safeguarding children, among others. That is enough. That is an indication of the powers that we would seek to acquire. What we cannot do—and what it would be inappropriate to do—is say how we would exercise that power, because we have no way of knowing what view a future Assembly would take of that power in any event. It is not appropriate for us, in effect, to have to draw up a draft version of a Measure beforehand. That is quite clear, and I do not see that there is a difficulty. There is no particular difficulty of understanding between us and Westminster, and it is widely accepted here and in London that the question is whether a particular power should be devolved and not how it should be exercised.

cymwyseddau deddfwriaethol mewn maes penodol?

Aeth yn ei flaen i ddweud y bydd llawer o gwestiynau’n codi, ond mai un cwestiwn allweddol fyddai:

A oes pwrpas i’r pwerau hyn?

Â yn ei flaen eto i ddweud ei bod yn rhaid cael

angen dros gyflwyno’r Gorchymyn, a hwnnw’n angen sefydledig a chanfyddadwy, ac y ceisir y pwerau at bwrpas penodol.

Tybiaf mai gofyn beth fydd y Cynulliad yn ei wneud â’r pwerau yw ystyr pennu pwrpas penodol y pwerau. Os felly, mae’n dweud ei bod yn rhaid inni bennu amcan y polisi yr ydym yn ceisio’i gyflawni. Efallai y gallwch egluro’r gwahaniaeth rhwng pwrpas penodol ac angen.

Carwyn Jones: Nid dyna farn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyntaf, pan fydd Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei basio, mae’n mewnosod materion yn y meysydd a restrir yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Er enghraifft, mae lles cymdeithasol yn un o’r meysydd hyn a bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant sy’n agored i niwed yn mynd ati i fewnosod diogelu plant, ymhlith materion eraill, yn y maes hwnnw. Mae hynny’n ddigon. Mae hynny’n dynodi’r pwerau y byddem yn ceisio’u cael. Yr hyn na allwn ei wneud—a’r hyn a fyddai’n amhriodol i’w wneud—yw dweud sut y byddem yn defnyddio’r pŵer hwnnw, oherwydd nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod sut y byddai Cynulliad yn y dyfodol yn gweld y grym hwnnw pa un bynnag. Nid yw’n briodol inni orfod llunio fersiwn ddrafft o Fesur ymlaen llaw i bob pwrpas. Mae hynny’n bur amlwg, ac ni welaf broblem gyda hynny. Nid ydym ni a San Steffan yn cael trafferth penodol wrth ddeall ein gilydd, a derbynnir yn y fan hon ac yn Llundain mai’r cwestiwn yw a ddylid datganoli pŵer penodol, nid sut y dylid ei ddefnyddio.

Orders in Council Process and Framework Powers

Q6 Kirsty Williams: Will the Counsel General make a statement on the disparity between the number of matters devolved to Wales through the Orders in Council process and those granted as framework powers? OAQ(3)0082(CGE)

Carwyn Jones: It does not matter how the powers are devolved, provided that they are devolved. There are many ways to get powers devolved. It is possible to do it through framework powers, and, when a Bill is passing through Parliament, it is sensible to look for the inclusion of framework powers in that Bill, rather than waiting for it to become an Act and only then drafting an LCO for the powers to be devolved in that way. Transfer of functions Orders, LCOs and framework powers are all appropriate ways of devolving power to this place.

12.40 p.m.

Kirsty Williams: Does the Counsel General therefore share my concern that the Government's seeming preoccupation with the LCO process at the Assembly is leading to our missing out on the opportunity to devolve more powers, more quickly through requests for framework powers? Would he also agree that the use of framework powers has the added benefit of ensuring that we could avoid the less than helpful interference of the Tory members of the Select Committee on Welsh Affairs?

Carwyn Jones: I would agree with you on the second point, of course, on the views expressed by some Members of Parliament for the other side. On the split between framework powers and LCOs, I can say that there are three Bills in this parliamentary session that will provide us with framework Measure-making powers in the Assembly, and five LCOs have so far been published by the Welsh Assembly Government. I do not think that that split is any way unbalanced; it simply reflects the practicality of getting the powers that we want as quickly as possible.

Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a Phwerau Fframwaith

C6 Kirsty Williams: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y gwahaniaeth rhwng nifer y materion a ddatganolwyd i Gymru drwy'r broses Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a'r rheini a roddwyd fel pwerau fframwaith? OAQ(3)0082(CGE)

Carwyn Jones: Nid oes ots sut y datganolir y pwerau, cyn belled â'u bod yn cael eu datganoli. Mae llawer o ffyrdd o ddatganoli pwerau. Mae'n bosibl gwneud hynny gyda phwerau fframwaith, a phan fydd Mesur yn mynd drwy'r Senedd, mae'n gwneud synnwyr edrych ar gynnwys pwerau fframwaith yn y Mesur hwnnw, yn hytrach nag aros iddo ddod yn Ddeddf a mynd ati bryd hynny i ddrafftio Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol i'r pwerau gael eu datganoli yn y ffordd honno. Mae Gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau, Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a phwerau fframwaith i gyd yn ffyrdd priodol o ddatganoli pŵer i'r fan hon.

Kirsty Williams: A yw'r Cwnsler Cyffredinol yn rhannu fy mhryder, sef y bydd y Llywodraeth, sydd, yn ôl pob golwg wedi rhoi ei bryd ar brosesau'r Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn y Cynulliad, yn peri inni golli'r cyfle i ddatganoli mwy o bwerau'n gynt drwy wneud ceisiadau am bwerau fframwaith? A fyddai hefyd yn cytuno bod mantais ychwanegol i ddefnyddio pwerau fframwaith, sef sicrhau y byddem yn osgoi ymyrraeth aelodau Torïaidd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, sy'n ddim help?

Carwyn Jones: Byddwn yn cytuno â chi ar eich ail bwynt, wrth gwrs, ar y safbwyntiau a fynegwyd gan rai Aelodau Seneddol ar gyfer yr ochr arall. Ac ystyried y rhwyg rhwng pwerau fframwaith a Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, gallaf ddweud y ceir tri Mesur yn y sesiwn seneddol hon a fydd yn darparu pwerau fframwaith llunio Mesurau inni yn y Cynulliad, ac mae pum Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol wedi'u cyhoeddi hyd yma gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid wyf yn meddwl bod y rhwyg yn anghytwys mewn unrhyw ffordd;

yn syml, mae'n adlewyrchu ymarferoldeb cael y pwerau y mae eu heisiau arnom cyn gynted â phosibl.

Non-devolved Matters

Q7 Mohammad Asghar: Will the Counsel General make a statement on any responses he has given to consultations on non-devolved matters on behalf of the Welsh Assembly Government? OAQ(3)0088(CGE)

Carwyn Jones: Yes. As Counsel General, I have responded to two UK Government public consultations, both of which come out of the UK Government's Green Paper, 'The Governance of Britain'. The first consultation was about judicial appointments and the second concerned the role of the Attorney General.

Mohammad Asghar: I have received more than 60 representations to date from police officers in Gwent and South Wales East about the failure of the UK Government to honour their pay agreement. They point to cross-party support from MPs, including Keith Vaz, who is from your party—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is not Assembly business.

Mohammad Asghar: All four of our chief constables support—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is not Assembly business. Police issues are not devolved.

Mohammad Asghar: May I put the question?

The Deputy Presiding Officer: Not if it is on this issue, as it is not a devolved matter. I am sorry about that, Mohammad.

Mohammad Asghar: I want to ask about the power of the Welsh Assembly Government in relation to this issue. Four of our chief constables support devolving police matters to the Assembly. Would you consult with the UK Government on devolving such powers

Materion Nas Datganolwyd

C7 Mohammad Asghar: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am unrhyw ymatebion mae wedi'u rhoi i ymgynghoriadau ar faterion nas datganolwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0088(CGE)

Carwyn Jones: Gwnaf. Fel Cwnsler Cyffredinol, yr wyf wedi ymateb i ddau ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth y DU. Daeth y ddau ohonynt o Bapur Gwyrdd y DU, 'The Governance of Britain'. Yr oedd yr ymgynghoriad cyntaf yn ymwneud â phenodiadau barnwrol a'r ail yn ymwneud â swyddogaeth y Twrnai Cyffredinol.

Mohammad Asghar: Yr wyf wedi cael mwy na 60 o sylwadau hyd yma gan swyddogion yr heddlu yng Ngwent a Dwyrain De Cymru ynghylch methiant Llywodraeth y DU ag anrhydeddu eu cytundeb cyflog. Maent yn pwyntio at gefnogaeth drawsbleidiol gan ASau, gan gynnwys Keith Vaz, o'ch plaid chi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid mater i'r Cynulliad yw hwn.

Mohammad Asghar: Mae pob un o'n pedwar prif gwnstabl yn cefnogi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid mater i'r Cynulliad yw hwn. Nid yw materion yn ymwneud â'r heddlu wedi'u datganoli.

Mohammad Asghar: A gaf ofyn y cwestiwn?

Y Dirprwy Lywydd: Nid os yw'n ymwneud â'r mater hwn, oherwydd nad yw'r mater wedi'i ddatganoli. Mae'n ddrwg gennyf am hynny, Mohammad.

Mohammad Asghar: Dymunaf holi am bŵer Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt y mater hwn. Mae pedwar o'n prif gwnstablaid yn cefnogi datganoli materion sy'n gysylltiedig â'r heddlu i'r Cynulliad. A fydddech yn ymgynghori â Llywodraeth y DU

to Wales, please?

ynghylch datganoli pwerau fel hyn i Gymru, os gwelwch yn dda?

Carwyn Jones: I will bring it back to the commitment in ‘One Wales’ to examine the evidence for the devolution of the criminal justice system. That is what we need to look at next, before taking this further.

Carwyn Jones: Dof ag ef yn ôl at yr ymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’ i archwilio’r dystiolaeth ar gyfer datganoli’r system cyfiawnder troseddol. Dyna beth mae angen inni edrych arno nesaf, cyn mynd â hyn ymhellach.

Lowering the Voting Age to 16

Gostwng yr Oedran Pleidleisio i 16

Q8 Eleanor Burnham: Has the Counsel General made any assessment of the legal obstacles preventing the Assembly from lowering the voting age to 16? OAQ(3)0078(CGE)

C8 Eleanor Burnham: A yw’r Cwnsler Cyffredinol wedi gwneud unrhyw asesiad o’r rhwystrau cyfreithiol sy’n atal y Cynulliad rhag gostwng yr oed pleidleisio i 16? OAQ(3)0078(CGE)

Carwyn Jones: The voting age at Assembly elections is the same as that at local government elections and more generally—18, of course. Other than that, this is not a devolved issue.

Carwyn Jones: Mae’r oed ar gyfer pleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad yr un fath â’r oed ar gyfer pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol ac yn fwy cyffredinol—18, wrth gwrs. Fel arall, nid yw hwnnw’n fater a ddatganolwyd.

Eleanor Burnham: Notwithstanding awaiting your approval, Dirprwy Lywydd, I wonder whether the Counsel General—

Eleanor Burnham: Er fy mod yn gorfod disgwyl eich cymeradwyaeth, Ddirprwy Lywydd, tybed a yw’r Cwnsler Cyffredinol—

The Deputy Presiding Officer: Order. Do not tempt me, Eleanor. [*Laughter.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Peidiwch â’m temptio, Eleanor. [*Chwerthin.*]

Eleanor Burnham: Does the Counsel General not agree that, in our consensual devolved Wales, it would be quite timely for him to reconsider the extremely important matter of engaging youth in our democratic, devolved Wales?

Eleanor Burnham: Yn y Gymru ddatganoledig gydsyniol sydd gennym, oni chytuna’r Cwnsler Cyffredinol y byddai’n amser priodol iddo ailystyried y mater pwysig iawn o gynnwys ieuencid yn ein Cymru ddemocrataidd, ddatganoledig?

Carwyn Jones: I understand that there are some who advocate the reduction of the voting age to 16, but the Welsh Assembly Government has no view on the matter, as it is not devolved.

Carwyn Jones: Deallaf fod rhai sy’n hyrwyddo gostwng yr oed pleidleisio i 16, ond nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru farn ar y mater, oherwydd ei fod yn fater nas datganolwyd.

Legal Issues

Materion Cyfreithiol

Q9 William Graham: Will the Counsel General make a statement concerning how he determines when it is appropriate to express a view on issues pertaining to legal issues? OAQ(3)0084(CGE)

C9 William Graham: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sut y mae’n pennu pryd y bydd yn briodol mynegi safbwynt ar faterion sy’n ymwneud â materion cyfreithiol? OAQ(3)0084(CGE)

Carwyn Jones: There are many ways in

Carwyn Jones: Gall hynny ddigwydd mewn

which that can happen. First, I might be asked by a colleague in the Government to provide legal advice, either in written or in oral form, and that advice is then recorded. There will be other occasions, although it has not happened yet, when I will have to make an assessment as to whether to refer matters to court. For example, I have the power under the Government of Wales Act 2006 to refer to what will be the Supreme Court from next year, any issue over which there is a question mark as to whether a matter or particular piece of legislation comes within the Assembly's powers. I also have a role to play in determining whether it is in the public interest to intervene in court proceedings from time to time, among other things, but all of the responsibilities that I have are laid down on the face of the Act.

William Graham: Thank you for your answer. What I am trying to determine from you today is a clear audit trail, as it were, of how we can scrutinise your decisions. How will those be published? I appreciate that they will vary from time to time, having regard to the advice, but how can there be public scrutiny?

Carwyn Jones: Legal advice would not be published. That remains the case elsewhere in the UK and I do not propose to change that. I understand Members wishing to see the responses that are made by the Welsh Assembly Government on legal issues, and I see no difficulty in those responses being made available to Members.

Prosesau Deddfwriaethol

C10 Alun Ffred Jones: Pa ystyriaeth mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i rhoi i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau deddfwriaethol y Cynulliad? OAQ(3)0091(CGE)

Carwyn Jones: Nid wyf yn rhoi ystyriaeth i hynny fel Cwnsler Cyffredinol. Mae gennyf rôl arall—ac nid wyf yn ateb cwestiynau ar hynny heddiw, ond yn y rôl honno y byddwn yn ystyried hynny'n fanwl.

Alun Ffred Jones: Gyda golwg ar

nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, efallai y gofynna cyd-Aelod yn y Llywodraeth imi roi cyngor cyfreithiol, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, a bydd y cyngor hwnnw wedyn yn cael ei gofnodi. Bydd adegau eraill, er nad yw hyn wedi digwydd eto, pan fydd yn rhaid imi lunio asesiad ar a ddylid cyfeirio materion at y llys ai peidio. Er enghraifft, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵer gennyf i gyfeirio unrhyw beth y ceir cwestiwn yn ei gylch o ran a yw mater neu ddarn penodol o ddeddfwriaeth yn gynwysedig ym mhwerau'r Cynulliad, at yr hyn a fydd yn Oruchaf Lys o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mae gennyf ran i'w chwarae hefyd wrth benderfynu a yw er budd y cyhoedd ymyrryd mewn achosion llys o bryd i'w gilydd, ymysg pethau eraill, ond mae'r holl gyfrifoldebau sydd gennyf wedi'u nodi yn y Ddeddf.

William Graham: Diolch i chi am eich ateb. Yr hyn yr wyf yn ceisio cael ei bennu gennych heddiw yw trywydd archwilio clir, fel petai, ar gyfer y modd y gallwn graffu ar eich penderfyniadau. Sut y cyhoeddir y rheini? Sylweddolaf y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd, yn ôl y math o gyngor, ond sut y gellir cael craffu cyhoeddus?

Carwyn Jones: Ni fyddid yn cyhoeddi cyngor cyfreithiol. Mae felly o hyd mewn manau eraill yn y DU ac nid wyf yn bwriadu newid hynny. Yr wyf yn deall dymuniad Aelodau i weld yr ymatebion a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion cyfreithiol, ac ni welaf anhawster ynghylch darparu'r ymatebion hynny i Aelodau.

Legislative Processes

Q10 Alun Ffred Jones: What consideration has the Counsel General given to the efficiency and effectiveness of the Assembly's legislative processes? OAQ(3)0091(CGE)

Carwyn Jones: I do not give that any consideration as Counsel General. I have another role—and I am not answering questions in that capacity today, but it is in that role that I would consider that carefully.

Alun Ffred Jones: In respect of the

Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol sy'n dechrau eu taith o'r Cynulliad, a ydych yn fodlon gyda'u cynnydd drwy weithdrefnau San Steffan?

Carwyn Jones: Credaf fod y system yn gweithio'n dda iawn. Wrth gwrs, o ran y Gorchmynion cyntaf a ddaeth o'r Cynulliad, bu raid sefydlu pwyllgorau yma cyn bod pwyllgorau yn cael eu sefydlu yn San Steffan. Fodd bynnag, credaf fod y system yn gweithio'n dda iawn o'r safbwynt cyfreithiol.

The Deputy Presiding Officer: Question 11, OAQ(3)0073(CGE), is withdrawn.

Building Regulations

Q12 Mick Bates: What discussions has the Counsel General had regarding the legal process by which building regulations can be devolved? OAQ(3)0079(CGE)

Carwyn Jones: That is a matter for the appropriate Minister, but I can inform the Assembly that the available processes are a matter of public record. The ministerial functions relating to building regulations could be devolved to Welsh Ministers by a transfer of functions Order or, alternatively, by a UK Bill.

Mick Bates: I continue to admire your persistence in answering Members' questions.

You made reference earlier to the political dimension of this and there is a commitment in 'One Wales' to pursue the devolution of building regulations to the Assembly. However, there are restrictions on what we can do, particularly when we look at Schedule 7 to the Act, which says that we have a potential to pass laws that relate to home energy efficiency 'otherwise than by prohibition or regulation'. How confident are you that we can convince Westminster that we need full powers so that these restrictions do not stop us from legislating effectively in Wales?

Carwyn Jones: Schedule 7 to the Act is not yet in force. It would only come into force after a referendum and after the Assembly

legislative competence Orders beginning their journey from the Assembly, are you satisfied with their progress through the procedures at Westminster?

Carwyn Jones: I believe that the system is working very well. Of course, with the first Orders to come through the Assembly, we had to establish committees here before committees were established at Westminster. However, I think that the system works very well from the legal perspective.

Y Dirprwy Lywydd: Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)0073(CGE), yn ôl.

Rheoliadau Adeiladu

C12 Mick Bates: Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch y broses gyfreithiol y gellir ei defnyddio i ddatganoli rheoliadau adeiladu? OAQ(3)0079(CGE)

Carwyn Jones: Mae hynny'n fater i'r Gweinidog priodol, ond gallaf hysbysu'r Cynulliad bod y prosesau sydd ar gael wedi'u cyhoeddi. Gellid datganoli'r swyddogaethau gweinidogol sy'n ymwneud â rheoliadau adeiladu i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn trosglwyddo swyddogaethau neu, fel arall, drwy un o Fesurau'r DU.

Mick Bates: Yr wyf yn dal i edmygu'ch dyfalbarhad wrth ateb cwestiynau Aelodau.

Cyfeiriasoch yn gynharach at yr agwedd wleidyddol ar hyn ac mae ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i geisio datganoli rheoliadau adeiladu i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei wneud, yn enwedig pan edrychwn ar Atodlen 7 i'r Ddeddf, sy'n dweud bod gennym allu i wneud deddfau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni cartref 'heblaw drwy wahardd neu reoleiddio'. Pa mor ffyddiog yr ydych y gallwn ddarbwylo San Steffan bod arnom angen pwerau llawn fel na fydd y cyfyngiadau hyn yn ein hatal rhag deddfu'n effeithiol yng Nghymru?

Carwyn Jones: Nid yw Atodlen 7 i'r Ddeddf mewn grym eto. Ni fyddai ond yn dod i rym ar ôl refferendwm ac wedi i'r Cynulliad gael

gets primary powers. Schedule 5 is the Schedule in force at the moment, and it is that Schedule that determines the Assembly's fields of competence. Schedule 7 would kick in following a referendum and the granting of primary powers, so it is not relevant at the moment to anything that we do here or, indeed, anything that is done in Westminster.

All-Wales Convention

Q13 Peter Black: Will the Counsel General outline the legal status of the All-Wales Convention and its relationship to the Welsh Assembly Government? OAQ(3)0093(CGE)

Carwyn Jones: The All-Wales Convention has been set up following a commitment in the 'One Wales' agreement.

Peter Black: I will repeat the question. What is the legal status of the convention and will you, in your role as Counsel General, be giving it legal advice on matters that it considers?

Carwyn Jones: The convention is not part of the Government, and my role is to give advice to the Government. It is a body that has been set up by the Government, and I will, of course, have a role in terms of my other role in the Government in liaising with it, but in terms of its status, it is a convention that was established following a commitment in the coalition agreement.

12.50 p.m.

The Government of Wales Act 2006

Q14 Peter Black: Will the Counsel General outline his statutory responsibilities under the Government of Wales Act 2006? OAQ(3)0094(CGE)

Carwyn Jones: They are clearly set out on the face of the Government of Wales Act 2006, and are publicly accessible.

Peter Black: Guidance issued by the Welsh Assembly Government states that the Counsel General, where appropriate, may

pwerau deddfu sylfaenol. Atodlen 5 yw'r Atodlen sydd mewn grym ar hyn o bryd, a'r Atodlen honno sy'n pennu meysydd cymhwysedd y Cynulliad. Byddai Atodlen 7 yn dod i rym ar ôl refferendwm ac ar ôl rhoi pwerau deddfu sylfaenol, felly nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd i unrhyw beth a wnawn yma nac, yn wir, i unrhyw beth a wneir yn San Steffan.

Confensiwn Cymru Gyfan

C13 Peter Black: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu statws cyfreithiol Confensiwn Cymru Gyfan a'i berthynas gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0093(CGE)

Carwyn Jones: Mae Confensiwn Cymru Gyfan wedi'i sefydlu'n dilyn ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

Peter Black: Ailadroddaf y cwestiwn. Beth yw statws cyfreithiol y confensiwn ac a fyddwch chi, yn eich rôl fel Cwnsler Cyffredinol, yn rhoi cyngor cyfreithiol iddo ar faterion y mae'n eu hystyried?

Carwyn Jones: Nid yw'r confensiwn yn rhan o'r Llywodraeth, a'r rôl sydd gennyf fi yw rhoi cyngor i'r Llywodraeth. Mae'n gorff sydd wedi'i sefydlu gan y Llywodraeth, a bydd gennyf rôl, wrth gwrs, yng nghydestun y rôl arall sydd gennyf yn y Llywodraeth o ran cydgysylltu ag ef, ond o ran ei statws, mae'n gonfensiwn a sefydlwyd yn dilyn ymrwymiad yng nghytundeb y glymblaid.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

C14 Peter Black: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu ei gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? OAQ(3)0094(CGE)

Carwyn Jones: Maent wedi'u gosod allan yn glir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, ac maent ar gael i'w gweld gan y cyhoedd.

Peter Black: Mae arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan y caiff y Cwnsler Cyffredinol ateb

answer questions by expressing a view on legal issues. Will the Counsel General give us his interpretation of what that means and would he be prepared to be more lax in his attitude to answering questions in terms of giving a view on those matters?

Carwyn Jones: That is uncharitable, given that I have just given Mick Bates a comprehensive answer on how building regulations can be devolved.

cwestiynau drwy fynegi barn am faterion cyfreithiol, os yw hynny'n briodol. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi i ni ei ddehongliad ef o'r hyn y mae hynny'n ei olygu ac a fyddai'n barod i fod yn fwy rhyddfrydig wrth ateb cwestiynau o ran datgan barn am y materion hynny?

Carwyn Jones: Mae hynny'n angharedig, o gofio fy mod newydd roi ateb cynhwysfawr i Mick Bates am y modd y gellir datganoli rheoliadau adeiladu.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

The Social and Economic Wellbeing of Rural Communities

Q1 Janice Gregory: Will the Minister give a progress report on what the Welsh Assembly Government is doing to enhance the social and economic wellbeing of rural communities by encouraging more diverse groups of people to visit the Welsh countryside? OAQ(3)0201(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The Assembly Government is supporting a range of actions to secure wider access to the countryside by different groups and to deliver social and economic benefits. This includes work under the rural development plan, the coastal access improvement programme, and Forestry Commission schemes such as Cydcoed and Tir Coed.

Janice Gregory: Thank you for mentioning Cydcoed, which is the subject of my supplementary question. I take this opportunity to thank every Member who attended the Cydcoed Woodlands for All event held at the Assembly on 15 January. This £18 million Forestry Commission programme is largely funded by the Assembly, as you will know, and has helped more than 160 groups in some of the poorest areas of Wales to create new community enterprises, jobs and businesses—no more so than in my constituency of Ogmere, where Cydcoed has invested some £940,000 in nine community projects. I congratulate Garw Valley Community Council and its clerk,

Lles Cymdeithasol ac Economaidd Cymunedau Gwledig

C1 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig drwy annog grwpiau mwy amrywiol o bobl i ymweld â chefn gwlad Cymru? OAQ(3)0201(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi amryw o gamau gweithredu i sicrhau mynediad ehangach i gefn gwlad gan wahanol grwpiau ac i ddod â buddion cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn cynnwys gwaith dan y cynllun datblygu gwledig, y rhaglen gwella mynediad i'r arfordir, a chynlluniau'r Comisiwn Coedwigaeth fel Cydcoed a Tir Coed.

Janice Gregory: Diolch i chi am grybwyll Cydcoed, gan mai hwnnw yw testun fy nghwestiwn atodol. Achubaf ar y cyfle hwn i ddiolch i bob Aelod a ddaeth i ddigwyddiad Coetiroedd i Bawb Cydcoed a gynhaliwyd yn y Cynulliad ar 15 Ionawr. Mae'r rhaglen hon o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n werth £18 miliwn, yn cael ei ariannu gan y Cynulliad yn bennaf, fel y gwyddoch, ac mae wedi helpu mwy na 160 o grwpiau yn rhai o'r ardaloedd tlotaf yng Nghymru i greu mentrau cymunedol, swyddi a busnesau newydd—a'r un lle'n fwy nag yn fy etholaeth i, sef Ogwr, lle mae Cydcoed wedi buddsoddi tua £940,000 mewn naw prosiect cymunedol. Llongyfarchaf Gyngor Cymuned Cwm Garw

Wyn Davies, in particular, on securing substantial funding to create a wonderful new woodland park. Will you join me in celebrating the success of Cydcoed and do you agree that its work on widening access throughout community-controlled projects provides a model for rural regeneration?

Elin Jones: Thank you for that, and hosting the event for Cydcoed at the Assembly. I was able to attend the exhibition and there are Cydcoed projects in my own constituency. It was good to hear about the experience of projects throughout Wales and in your area in particular, where the work of Cydcoed has been well received and developed. You will know that the current European funding for Cydcoed finishes at the end of March. The Forestry Commission is currently evaluating and discussing the future of Cydcoed and similar schemes with a view to mainstreaming the role that it has played in the general work of the Forestry Commission with regard to the woodland and the national forest of Wales to ensure that communities feel ownership of the forestry on their doorsteps, and have access to it.

Brynle Williams: I also express my support for the Cydcoed project and what Janice said. Do you not agree, Minister, that many shows and events in rural Wales have an enormous role to play in promoting the Welsh countryside to the wider British audience and international tourists, even? What discussions have you had with the Minister for Heritage about how these events can be helped to grow so that rural Wales can be showcased to an even wider audience?

Elin Jones: I have not had any specific discussions on this particular issue with the Minister for Heritage, but I am very much aware of the role that agricultural and local shows play throughout Wales. I visit many of them in my constituency and elsewhere during the summer in particular. The Royal Welsh Show and other large shows are important tourist events, because they draw in competitors and visitors from further afield

a'i glerc, Wyn Davies, yn benodol, ar sicrhau cyllid sylweddol i greu parc coetir newydd gwych. A wnewch ymuno â mi i ganmol llwyddiant Cydcoed ac a ydych yn cytuno bod ei waith ar ehangu mynediad drwy brosiectau a reolir gan y gymuned yn cynnig patrwm ar gyfer adfywio gwledig?

Elin Jones: Diolch i chi am hynny, ac am lywyddu'r digwyddiad ar ran Cydcoed yn y Cynulliad. Yr oeddwn yn gallu dod i weld yr arddangosfa ac mae prosiectau o eiddo Cydcoed yn fy etholaeth fy hun. Yr oedd yn dda clywed am brofiad prosiectau ledled Cymru a rhai yn eich ardal chi'n benodol, lle mae gwaith Cydcoed wedi cael croeso mawr ac wedi'i ddatblygu. Gwyddoch y bydd y cyllid Ewropeaidd presennol ar gyfer Cydcoed yn dod i ben ddiwedd Mawrth. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwerthuso ac yn trafod dyfodol Cydcoed a chynlluniau tebyg gyda'r bwriad o brif ffrydio'r rôl y mae wedi'i chyflawni yng ngwaith cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth mewn cysylltiad â choetiroedd a choedwig genedlaethol Cymru i sicrhau bod cymunedau'n teimlo eu bod yn berchen ar y coetiroedd sydd ar garreg eu drws, a'u bod yn cael mynediad iddynt.

Brynle Williams: Gwnaf finnau ddatgan fy nghefnogaeth i brosiect Cydcoed ac i'r hyn a ddywedodd Janice. Oni chytunwch, Weinidog, y gall llawer o sioeau a digwyddiadau yng Nghymru wledig chwarae rhan o bwys wrth hyrwyddo cefn gwlad Cymru ymysg y gynulleidfa ehangach ym Mhrydain ac ymysg ymwelwyr o wledydd tramor, hyd yn oed? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch y modd y gellir helpu'r digwyddiadau hyn i dyfu fel y gellir cyflwyno Cymru wledig i gynulleidfa ehangach byth?

Elin Jones: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol am y mater neilltuol hwn gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth, ond yr wyf yn ymwybodol iawn o'r rhan y mae sioeau amaethyddol a sioeau lleol yn ei chwarae ledled Cymru. Byddaf yn ymweld â llawer ohonynt yn fy etholaeth ac mewn manau eraill yn ystod yr haf yn enwedig. Mae Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mawr eraill yn ddigwyddiadau pwysig ar gyfer

than the local community and Wales. You make an important point about the economic contribution of agricultural and local shows in Wales. I am happy to discuss that further with my colleague, the Minister with responsibility for tourism.

Chris Franks: Minister, you will be aware that over 6,000 schoolchildren visit Welsh wildlife reserves each year. How will you promote the wider public benefits that arise from opportunities for people to see and understand wildlife?

Elin Jones: There are excellent wildlife centres in many parts of Wales, which, as you suggest, provide excellent opportunities for schoolchildren, in particular, to interact with and learn about the wildlife that exists around us all in our urban and rural communities. They play a particularly important role in educating not only young people, but all of us, about the interaction of the human world with wildlife. If you have any specific comments or representations that you would like to make to me or the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills as to how this can be achieved, I am sure that we would both welcome them.

Local Produce

Q2 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on her plans for the promotion of the use of local produce? OAQ(3)0198(RAF)

Elin Jones: Yr wyf yn hyrwyddo defnyddio cynnyrch lleol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, yfory byddaf yn mynychu digwyddiad i gyfarfod prynwyr yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, lle bydd 27 o gynhyrchwyr bwyd o dde-orllewin a chanolbarth Cymru yn cyfarfod â swyddogion caffael y sector gyhoeddus.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch iawn o gymeradwyo gwaith pwysig y Llywodraeth. Yn sir Gâr, cynigir llawer o gynnyrch lleol yn yr ysgolion lleol. Sut allwn fod yn sicr, pan

ymwelwyr, gan eu bod yn denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o gylch ehangach na'r gymuned leol a Chymru. Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig am gyfraniad economaidd sioeau amaethyddol a sioeau lleol yng Nghymru. Byddaf yn falch o drafod hynny ymhellach gyda'm cyd-Weinidog, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros dwristiaeth.

Chris Franks: Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod mwy na 6,000 o blant ysgol yn ymweld â gwarchodfeydd bywyd gwyllt yng Nghymru bob blwyddyn. Sut y gwnewch hyrwyddo'r buddion mwy cyffredinol i'r cyhoedd sy'n deillio o gyfleoedd i bobl gael gweld a deall bywyd gwyllt?

Elin Jones: Mae canolfannau bywyd gwyllt rhagorol mewn llawer rhan o Gymru sydd, fel yr awgrymwch, yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant ysgol, yn enwedig, i ryngweithio â'r bywyd gwyllt sydd o'n cwmpas ni i gyd yn ein cymunedau trefol a gwledig, ac i ddysgu amdano. Maent yn chwarae rhan neilltuol bwysig wrth addysgu nid yn unig pobl ifanc, ond pob un ohonom, am y rhyngweithio rhwng byd pobl a bywyd gwyllt. Os oes gennych unrhyw sylwadau penodol y carech eu cyflwyno i mi neu i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch y modd y gellir cyflawni hynny, yr wyf yn siŵr y byddem ni'n dwy'n eu croesawu.

Cynnyrch Lleol

C2 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i hyrwyddo defnyddio cynnyrch lleol? OAQ(3)0198(RAF)

Elin Jones: I am promoting the use of local produce in many different ways. For example, tomorrow I will be attending a meet-the-buyer event in Trinity College, Carmarthen, where 27 producers from across south-west and mid Wales will be meeting with public sector procurement officers.

Helen Mary Jones: I am pleased to commend the Government's important work. In Carmarthenshire, a great deal of local produce is on offer in local schools. When

fydd cyngor sir yn prynu llaeth gan gyflenwyr lleol fod y llaeth wedi'i gynhyrchu yn lleol? Efallai y prynwyd y llaeth o ardal arall. Pan drafodwch gyda chyflenwyr a phrynwyr, a wnewch gymryd camau i annog prynwyr mawr, a chynghorau sir yn enwedig, i sicrhau bod cynnyrch sydd, er enghraifft, wedi'i roi mewn poteli yn lleol, yn gynnrych lleol gwirioneddol ac nad ydyw wedi teithio am filltiroedd, efallai dros y ffin o Loegr?

Elin Jones: Derbyniaf eich pwynt. Mae rhai pobl eisoes wedi gwneud pwynt tebyg. Pan soniwn am fwyd lleol a phrynu bwyd lleol gan y sector gyhoeddus, mae'n bwysig, os yw'n bosibl, sicrhau bod y bwyd hwnnw wedi ei gynhyrchu yn lleol, ac nad ydyw wedi'i gyflenwi yn lleol yn unig. Yr wyf yn siŵr y caf gyfle i godi'r pwynt hwnnw yfory gyda chynhyrchwyr yn unigol a chyda'r rhai sy'n prynu yn y sector gyhoeddus. Yr wyf yn edrych ymlaen at y digwyddiad yfory. Mae'n debyg ei fod yn gweithredu yn unol â model *speed-dating*—mae'r cynhyrchwyr a'r rhai sy'n cynrychioli'r sector gyhoeddus yn cael cyfnod byr, dwys, gyda'i gilydd i weld a oes *match* posibl.

Andrew R.T. Davies: Before Christmas, I raised the fact that the Westminster Government was pulling back its subsidy to the Meat Hygiene Service. At the time, you had not received any industry representations on this issue. There is little point in trying to promote local produce if we cannot secure the capacity to process that produce. Have you had any representations from the industry and have you had a chance to formulate with your civil servants an approach to the industry to secure funding, to make sure that the £35 million that is projected to be taken out of the industry will be safeguarded in some way, to protect the smaller processing capacity that we have in Wales for red meat?

Elin Jones: I can confirm that, since you asked your question in December, I have had representations from various slaughterhouses in Wales that are responding currently to the Meat Hygiene Service consultation on the proposed changes to its charging policy. I met Cig Cibyn in Caernarfon last week. I also had the opportunity last week to meet the

county councils purchase milk from local suppliers, how can we be sure that it was produced locally? Perhaps the milk was bought from another area. When you hold discussions with suppliers and buyers, will you take steps to encourage the big buyers, particularly county councils, to ensure that produce that has been bottled locally, for instance, is genuinely local and has not travelled for miles, perhaps even over the border from England?

Elin Jones: I accept your point. Others have already made similar points. When we talk about local foods and the public sector purchasing local food, it is important to ensure, if possible, that that food has been produced locally, and is not just supplied locally. I am sure that I will get an opportunity to raise that point tomorrow with the individual producers, and with those who buy for the public sector. I look forward to tomorrow's event. I understand that it follows the same model as that of speed dating—producers and those representing the public sector are given a short intensive period with each other to see whether there is a possible match.

Andrew R.T. Davies: Cyn y Nadolig, tynnais sylw at y ffaith bod Llywodraeth San Steffan yn tynnu'n ôl ei chymorthdal i'r Gwasanaeth Hylendid Cig. Bryd hynny, nid oeddech wedi cael unrhyw sylwadau gan y diwydiant am y mater hwn. Nid oes fawr o werth mewn ceisio hyrwyddo cynnyrch lleol os na allwn sicrhau'r gallu i brosesu'r cynnyrch hwnnw. A ydych wedi cael unrhyw sylwadau gan y diwydiant ac a ydych wedi cael cyfle i bennu modd gyda'ch gweision sifil i gysylltu â'r diwydiant i sicrhau cyllid, er mwyn gofalu y bydd y £35 miliwn y rhagwelir ei gymryd allan o'r diwydiant wedi'i ddiogelu mewn rhyw fodd, i warchod y gallu prosesu llai sydd gennym yng Nghymru ar gyfer cig coch?

Elin Jones: Gallaf gadarnhau fy mod wedi cael sylwadau gan amryw o ladd-dai yng Nghymru sy'n ymateb ar hyn o bryd i ymgynghoriad y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y newidiadau arfaethedig yn ei bolisi codi tâl, ers ichi ofyn eich cwestiwn ym mis Rhagfyr. Cyfarfûm â chwmni Cig Cibyn yng Nghaernarfon yr wythnos diwethaf. Cefais

new chairman of the Meat Hygiene Service, a member of the Food Standards Agency. We had an extensive discussion about the way that the possible increase in its charges and changes to its charging regime and pattern of charging will impact on the Welsh slaughter industry. I am keen that we preserve the mixed form of slaughterhouses that we have in Wales, small, large and medium, and we must ensure that any changes to the charging system do not jeopardise those businesses. I will look at how we, as an Assembly Government, can form a collective view on how we would like these changes to be implemented in future.

gyfle hefyd yr wythnos diwethaf i gwrdd â chadeirydd newydd y Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n aelod o'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Cawsom drafodaeth hir am y modd y bydd y cynnydd posibl yn ei ffioedd a'r newidiadau yn ei gyfundrefn codi tâl ac yn ei batrwm codi tâl yn effeithio ar y diwydiant cigydda yng Nghymru. Yr wyf yn awyddus inni gadw'r mathau cymysg o ladd-dai sydd gennym yng Nghymru, rhai bach, rhai mawr a rhai canolig eu maint, ac mae'n rhaid inni sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn y system daliadau yn peryglu'r busnesau hynny. Ymchwiliat i sut y gallwn, fel Llywodraeth Cynulliad, ffurfio barn gytûn ynghylch sut y dymunem i'r newidiadau hyn gael eu gweithredu yn y dyfodol.

1.00 p.m.

Joyce Watson: Would the Minister agree that the grant support for local food processing facilities, as part of the new rural development plan, is another step forward for local producers in Wales? It will mean that more people will be able to buy quality Welsh produce that can be described in terms of food yards rather than food miles. The fact is that people are becoming increasingly aware of issues to do with quality, environmental stability and welfare in food production, and this presents farmers, retailers and policymakers with real opportunities to make the case for providing and selling a Welsh brand of quality local produce. Pembrokeshire County Council—

Joyce Watson: A gytunai'r Gweinidog fod y cymorth grant ar gyfer cyfleusterau prosesu bwyd lleol, fel rhan o'r cynllun datblygu gwledig newydd, yn gam arall ymlaen i gynhyrchwyr lleol yng Nghymru? Bydd yn golygu y gall mwy o bobl brynu cynnyrch safonol o Gymru, y gellir eu disgrifio yn nhermau llathenni bwyd yn hytrach na milltiroedd bwyd. Y gwir amdani yw fod pobl yn fwyfwy ymwybodol o faterion yn ymwneud ag ansawdd, sefydlogrwydd amgylcheddol a lles o ran cynhyrchu bwyd, a rhydd hyn gyfleoedd gwirioneddol i ffermwyr, adwerthwyr a llunwyr polisi ddadlau o blaid darparu a gwerthu cynnyrch lleol o ansawdd, a fydd yn gynnyrch brand o Gymru. Mae Cyngor Sir Penfro—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can I have your question, please?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A gaf eich cwestiwn os gwelwch yn dda?

Joyce Watson: Certainly. Could the Minister provide an update on the local sourcing strategic plan, and outline how she envisages that it will benefit rural Wales?

Joyce Watson: A chroeso. A allai'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun strategol cyrchu lleol, ac amlinellu sut y mae'n rhagweld y bydd o fudd i Gymru wledig?

Elin Jones: I agree with your description of the links that we must build between food production and food processing; we need to ensure that that happens within Wales as much as possible. The food and marketing grants that have been available, and which will continue to be available under the rural development plan, are key to securing those

Elin Jones: Cytunaf â'ch disgrifiad o'r cysylltiadau y mae'n rhaid inni eu meithrin rhwng cynhyrchu bwyd a phrosesu bwyd; mae angen inni sicrhau y digwydd hynny yng Nghymru gymaint â phosibl. Mae'r grantiau bwyd a marchnata a ddarparwyd, ac a fydd yn dal i gael eu darparu o dan y cynllun datblygu gwledig, yn allweddol i sicrhau'r

developments.

In terms of the local sourcing programme, and the 'One Wales' commitment to increasing the amount of local food procurement, I have commissioned work from Cardiff University to provide a basis for our plan to increase the amount of local, Welsh food that is bought by the Welsh public sector.

Michael German: One of the big problems is ensuring that producers can work together, and are able to bid for larger-scale public sector contracts. Will your training budget for producers this year be exceeded next year, and if so, by how much?

Elin Jones: I am not quite sure what you mean by an exceeded budget, in this financial year, for training producers. As a One Wales Government, we are committed to developing a plan to increase the amount of public sector procurement of Welsh food. Your point about ensuring that producers are able to work together to provide a package for the public sector is key to ensuring that that happens, because one of the issues that local authorities and the national health service will raise is that they need continuity of supply throughout the year, and consistency of supply. In order to make that happen, we need to look at how producers can work together on a comprehensive contract for the public sector.

The Deputy Presiding Officer: The Minister referred to speed dating; if we had some speed questioning, that would be helpful. Otherwise, people lower down the list of questions will not get an opportunity to speak. I ask Members and the Minister to be a little briefer in their contributions.

Aims and Goals for Rural Communities

Q3 The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Will the Minister make a statement on her aims and goals for rural communities in 2008? OAQ(3)0167(RAF)

Elin Jones: You will be aware of my recently announced plans for new entrants,

datblygiadau hynny.

O ran y rhaglen cyrchu lleol, ac ymrwymiad 'Cymru'n Un' i gynyddu faint o fwyd lleol sy'n cael ei gaffael, yr wyf wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i wneud gwaith i ddarparu sail i'n cynllun i gynyddu faint o fwyd lleol o Gymru a brynir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Michael German: Un o'r problemau mawr yw sicrhau y gall cynhyrchwyr gydweithio, ac y gallant lunio ceisiadau am gontractau sector cyhoeddus sydd ar raddfa fwy. A fydd eich cyllideb hyfforddi ar gyfer cynhyrchwyr yn fwy'r flwyddyn nesaf nag yw eleni, ac os bydd, faint yn fwy?

Elin Jones: Nid wyf yn gwbl siŵr o'r hyn a olygwch wrth gyllideb fwy yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer hyfforddi cynhyrchwyr. Yr ydym yn ymroddgar, fel Llywodraeth Cymru'n Un, i ddatblygu cynllun i gynyddu faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei gaffael yn y sector cyhoeddus. Mae'ch pwynt ynghylch sicrhau y gall cynhyrchwyr gydweithio i ddarparu pecyn ar gyfer y sector cyhoeddus yn allweddol i sicrhau y digwydd hynny, oherwydd un o'r materion a gaiff ei godi gan awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gwladol yw bod angen cyflenwad di-dor gydol y flwyddyn arnynt, a chyflenwad cyson. Er mwyn gwireddu hynny, mae angen inni edrych ar sut y gall cynhyrchwyr gydweithio ar gontract cynhwysfawr ar gyfer y sector cyhoeddus.

Y Dirprwy Lywydd: Cyfeiriodd y Gweinidog at garu cyflym; pe caem rywfaint o gwestiynu cyflym, byddai hynny'n ddefnyddiol. Fel arall, ni chaiff pobl sy'n is ar y rhestr gwestiynau gyfle i siarad. Gofynnaf i'r Aelodau a'r Gweinidog wneud cyfraniadau ychydig mwy cryno.

Nodau ar gyfer Cymunedau Gwledig

C3 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei nodau ar gyfer cymunedau gwledig yn 2008? OAQ(3)0167(RAF)

Elin Jones: Byddwch yn ymwybodol o'm cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar

and a review of farming industry checks. I intend to make an early announcement on bovine TB, and on establishing an advisory group for my farming strategy, in response to the '2020: Sustainable Farming and Environment' report.

Nick Bourne: I will ask about the implementation of the rural development plan 2007-13. That refers, quite rightly, to developing green, niche and sustainable tourist markets, and local markets for local produce. How do you propose to tackle the growing problem of the domination of the retail sector by supermarkets, which affects both consumers and suppliers—particularly in our area?

Elin Jones: You may know that the One Wales Government has a commitment to developing farmers' markets, which is something that I am particularly keen on. There is a particular interest from consumers in having direct access to producers, and the farmers' markets allow that to happen. We must ensure that we have the ability in rural Wales to connect with urban Wales's larger markets and we must ensure that that connection is made directly from the producer to the consumer. People have a growing interest in this, and the media debate around all kinds of cooking issues recently with celebrity chefs has highlighted that and we need to ensure that we can put schemes in place that allow it to happen in Wales.

Lesley Griffiths: In my constituency of Wrexham, there is a farming diversification scheme to end all others. It is currently being considered by the local community and the local authority. It uses slurry and food waste to produce energy for the village of Holt via the process of anaerobic digestion. If it comes to fruition, it could set a new trend for rural communities. Will you, along with your ministerial colleague, Jane Davidson, look closely at this scheme as a possible template for the rest of rural Wales?

Elin Jones: I have seen reference to the

gyfer newydd-ddyfodiaid ac adolygiad o archwiliadau yn y diwydiant ffermio. Bwriadaf wneud cyhoeddiad cynnar am TB mewn gwartheg, ac am sefydlu grŵp ymgynghori ar gyfer fy strategaeth ffermio, mewn ymateb i adroddiad '2020: Ffermio Cynaliadwy a'r Amgylchedd'.

Nick Bourne: Holaf am weithredu cynllun datblygu gwledig 2007-13. Cyfeiria'r cynllun, a hynny'n gwbl gywir, at ddatblygu marchnadoedd i dwristiaid a fydd yn arbenigol, yn wyrdd ac yn gynaliadwy, a marchnadoedd lleol ar gyfer cynnyrch lleol. Sut y bwriadwch fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o ran archfarchnadoedd yn dominyddu'r sector adwerthu, sy'n effeithio ar y prynwyr ac ar y cyflenwyr—yn arbennig yn ein hardal ni?

Elin Jones: Mae'n bosibl y gwyddoch fod gan Lywodraeth Cymru'n Un ymrwymiad i ddatblygu marchnadoedd ffermwyr, ac yr wyf fi'n arbennig o frwd ynghylch hyn. Mae gan brynwyr ddiddordeb arbennig mewn cael mynediad uniongyrchol at gynhyrchwyr, ac mae'r marchnadoedd ffermwyr yn caniatáu i hynny ddigwydd. Rhaid inni sicrhau bod gennym y gallu yng Nghymru wledig i gysylltu â'r marchnadoedd mwy yng Nghymru drefol, ac mae'n rhaid inni sicrhau y gwneir y cysylltiad hwnnw yn uniongyrchol rhwng y cynhyrchwr a'r prynwr. Mae gan bobl ddiddordeb cynyddol yn hyn, a phwysleisiwyd hynny yn ddiweddar yn y ddadl yn y cyfryngau gan gogyddion enwog ynghylch pob math o faterion yn ymwneud â choginio. Mae angen inni sicrhau y gallwn roi cynlluniau ar waith sy'n caniatáu iddo ddigwydd yng Nghymru.

Lesley Griffiths: Yn fy etholaeth i, sef Wrecsam, ceir cynllun arallgyfeirio ffermio diguro. Mae'r gymuned leol a'r awdurdod lleol yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'n defnyddio slyri a gwastraff bwyd i gynhyrchu ynni ar gyfer pentref Holt, drwy broses treuliad anaerobig. Os y'i gwiredir, gallai greu tuedd newydd ar gyfer cymunedau gwledig. A wnewch chi, ynghyd â'ch cyd-Weinidog, Jane Davidson, ystyried y cynllun hwn yn ofalus fel templed arfaethedig ar gyfer gweddill Cymru wledig?

Elin Jones: Yr wyf wedi gweld cyfeiriadau

project in the press, although I am not aware of the exact details. You will know that the One Wales Government has a commitment to look at further developing on-farm, renewable energy generation, which will feature quite evidently in the new Farming Connect programme that we will announce later on this year.

Kirsty Williams: I am sure that you would agree that one of your goals is to create a vibrant rural economy, yet many traditional farming businesses that are trying to diversify often fall foul of planning and highways issues. One such business in my constituency is currently in danger of losing out on the opportunity to diversify, because of the rulings of the Welsh Assembly Government's highways department. While no-one wants to put drivers and motorists at risk, do you agree that a can-do attitude from the highways department, rather than an attitude that simply says 'no' all the time, is what is needed? Will you undertake to have discussions with your ministerial colleague, Ieuan Wyn Jones, to see what can be done to assist businesses of this kind?

Elin Jones: My experience on issues such as this is that they have to be discussed on an individual basis in terms of the application itself, because there are many different types of highways and byways throughout Wales. Applications under discussion need to be treated on an individual basis. Therefore, I cannot comment on this case—I do not know what it is and you did not tell me what it was. It is important that such applications are treated on an individual basis.

Alun Ffred Jones: Gwyddoch fod lladd-dai yn bwysig i'r diwydiant amaeth a bod diflaniad nifer ohonynt dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ergyd. O gofio bod lladd-dai, ar un adeg, yn sicr, yn cael eu hystyried fel rhan o'r diwydiant amaeth ac nid fel rhan o'r diwydiant prosesu bwyd, pa grantiau sydd bellach ar gael ar gyfer lladd-dai? A ydynt yn gymwys, er enghraifft, ar gyfer grantiau prosesu bwyd?

Elin Jones: Cefais y cyfle i ymweld â lladd-dy yn eich ardal, yng Nghaernarfon, ddydd

at y prosiect yn y wasg, er nid wyf yn ymwybodol o'r union fanylion. Byddwch yn ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru'n Un ymrwymiad i edrych ar ddatblygu cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm ymhellach, a fydd yn gymharol amlwg yn y rhaglen Cyswllt Ffermio newydd a gyhoeddwn yn ddiweddarach eleni.

Kirsty Williams: Yr wyf yn siŵr y cytunech mai un o'ch nodau yw creu economi wledig ffyniannus, ond, mae nifer o fusnesau ffermio traddodiadol sy'n ceisio arallgyfeirio yn aml yn methu oherwydd materion yn ymwneud â chynllunio a phriffyrdd. Mae un busnes o'r fath yn fy etholaeth mewn perygl ar hyn o bryd o golli'r cyfle i arallgyfeirio oherwydd dyfarniadau adran priffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad oes neb am roi gyrwyr a modurwyr mewn perygl, a gytunwch mai agwedd gadarnhaol gan yr adran priffyrdd yn hytrach nag agwedd sy'n dweud 'na' byth a beunydd y mae ei hangen? A ymgymerwch i gynnal trafodaethau gyda'ch cyd-Weinidog, Ieuan Wyn Jones, er mwyn gweld yr hyn y gellir ei wneud i gynorthwyo busnesau o'r fath?

Elin Jones: O'm profiad i gyda materion fel hyn, mae'n rhaid eu trafod ar sail unigol o ran y cais ei hun, oherwydd ceir nifer o wahanol fathau o briffyrdd a chilffyrdd ledled Cymru. Mae angen ymdrin â'r ceisiadau dan sylw ar sail unigol. Felly, ni allaf gynnig sylwadau am yr achos hwn—ni wn beth yw'r achos ac ni ddywedasoeh wrthyf beth ydoedd. Mae'n bwysig ymdrin â cheisiadau o'r fath ar sail unigol.

Alun Ffred Jones: You will know that slaughterhouses are important to the agricultural industry and that the disappearance of a number of them over recent years has been a blow. Bearing in mind that slaughterhouses, at one time, certainly were considered to be part of the agricultural industry and not part of the food processing industry, what grants are now available for slaughterhouses? Are they eligible, for example, for food processing grants?

Elin Jones: I had the opportunity to visit a slaughterhouse in your area, in Caernarfon,

Iau diwethaf, lle y buom yn trafod datblygu'r lladd-dŷ penodol hwnnw a'r grantiau sydd ar gael gan y Llywodraeth. Byddai lladd-dŷ fel Cig Cibyn Cyf yn gymwys am yr un grant â lladd-dai bach eraill, sef y grant prosesu a marchnata sydd yn dod o dan y cynllun datblygu gwledig a fydd yn cael ei gymeradwyo yn fuan, gobeithio.

last Thursday, and we discussed developing that specific slaughterhouse with grants available from the Government. A slaughterhouse such as Cig Cibyn Ltd would be eligible for the same grant as other small slaughterhouses, namely the processing and marketing grant, which comes under the rural development plan that will soon be approved, hopefully.

Alun Davies: In terms of taking forward your overall agenda for developing the rural economy, I would like to bring your attention to Wyn and Richard Morgan, who set up an internet cafe in Llangadog about three years ago and who, since then, have been able to transform the community. For example, the local publican has learned to use PowerPoint and the local choir can make all their communications electronically. It has transformed the experience of life for people in those communities. We talk about creating sustainable communities, so will you work alongside the Deputy First Minister and others to ensure that opportunities such as this are funded by Government and that Government plays an active part in sustaining them with creativity, allowing the unleashing of the energy of people who live and work in rural Wales?

Alun Davies: O ran bwrw ymlaen â'ch agenda gyffredinol ar gyfer datblygu'r economi wledig, carwn dynnu'ch sylw at Wyn a Richard Morgan, a sefydlodd gaffi rhyngwyd yn Llangadog oddeutu tair blynedd yn ôl, ac sydd, ers hynny, wedi gallu trawsnewid y gymuned. Er enghraifft, mae'r tafarnwr lleol wedi dysgu sut mae defnyddio PowerPoint a gall aelodau'r côr lleol wneud eu holl ohebu ar ffurf electronig. Mae wedi trawsnewid profiadau bywyd y bobl yn y cymunedau hynny. Soniwn am greu cymunedau cynaliadwy, felly a weithiuch ochr yn ochr â'r Dirprwy Brif Weinidog ac eraill, i sicrhau y bydd y Llywodraeth yn ariannu cyfleoedd o'r fath, ac y bydd y Llywodraeth yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o'u gwneud yn gynaliadwy drwy ddefnyddio creadigrwydd, gan ganiatáu i'r bobl sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru wledig ryddhau'u hegri?

1.10 p.m.

Elin Jones: I do not know of this particular case but it certainly seems to be creative. It shows that answers to issues around rural community cohesion and economic development are not always about the old-fashioned ways of making that happen, but about using modern technology and interaction in a different kind of way. The issues that you raise on the future of rural economic development, and how we can look at new ways of making that happen, are key. Information technology and all the interest and potential around that are key to what I want to achieve in my ministerial responsibility.

Elin Jones: Nid wyf yn ymwybodol o'r achos penodol hwn, ond mae'n bendant yn greadigol i bob golwg. Mae'n dangos nad yw'r atebion i broblemau ynghylch cydlynid cymunedol gwledig a datblygu economaidd bob amser yn ymwneud â'r ffyrdd henffasiwn o wireddu hynny—mae'n ymwneud â defnyddio technoleg fodern a rhyngweithio mewn ffordd wahanol. Mae'r materion a godwch ynghylch dyfodol datblygu economaidd gwledig, a sut y gallwn edrych ar ffyrdd newydd o wireddu hynny, yn allweddol. Mae technoleg gwybodaeth a'r holl ddiddordeb a photensial sydd ynghlwm wrth hynny yn allweddol i'r hyn yr wyf am ei gyflawni yn fy nghyfrifoldeb gweinidogol.

Bird Flu

Ffliw Adar

Q4 Sandy Mewies: What steps are being taken by the Minister to monitor the H5N1

C4 Sandy Mewies: Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Gweinidog i fonitro straen

strain of bird flu in Wales?
 OAQ(3)0185(RAF)

Elin Jones: The UK strategy for avian influenza surveillance includes Wales. It comprises a wild bird survey, a survey of domestic poultry, and an investigation of suspect cases of avian notifiable disease and of the causes of unusually high mortality in wild birds.

Sandy Mewies: My question follows the positive testing of swans in Dorset. I appreciate that Dr Christianne Glossop has said that there is no evidence to suggest that the H5N1 virus has spread further. However, you will be aware of the huge population of wild birds migrating to Deeside in Flintshire, so I urge the Government to continue rigorous monitoring on Deeside and to keep local Assembly Members informed of those results regularly.

Elin Jones: There are no control orders in place in Wales as a result of the outbreak in Dorset—the only control orders are in the Dorset area. The areas of current targeted monitoring in Wales are Anglesey, Torfaen and Llanelli. However, you mentioned Deeside and I know of the large waterfowl population there. I will write to you on the monitoring that is or is not happening there at the moment, so that we can be clear about it.

Darren Millar: Given the reports of funding cuts for local authority animal health teams in Conway and Denbighshire and elsewhere in Wales, what lessons have been learnt as a result of the avian bird flu outbreak that occurred in my constituency last year?

Elin Jones: You will know that much of the budget for animal health issues is retained by the UK Government. That has been the subject of much discussion in the Chamber over the last months. As you suggest, I am aware of the fact that there are currently discussions between local authorities in Wales and the Department for Environment, Food and Rural Affairs on funding for animal

H5N1 o'r fflw adar yng Nghymru?
 OAQ(3)0185(RAF)

Elin Jones: Mae strategaeth y DU ar gyfer goruchwylio fflw adar yn cynnwys Cymru. Mae'n cynnwys arolwg o adar gwyllt, arolwg o ddofednod domestig ac ymchwiliad i achosion honedig o glefyd adar hysbysadwy, a'r achosion o gyfraddau marwolaeth anarferol o uchel mewn adar gwyllt.

Sandy Mewies: Mae fy nghwestiwn yn dilyn trywydd profion positif ar elyrch yn Dorset. Sylweddolaf fod Dr Christianne Glossop wedi dweud nad oes dim tystiolaeth i awgrymu bod y feirws H5N1 wedi lledaenu ymhellach. Fodd bynnag, gwyddoch am y boblogaeth enfawr o adar gwyllt sy'n mudo i Lannau Dyfrdwy yn sir y Fflint, felly anogaf y Llywodraeth i barhau i fonitro'n fanwl yng Nglannau Dyfrdwy ac i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am y canlyniadau hynny'n rheolaidd.

Elin Jones: Nid oes dim gorchmynion rheoli ar waith yng Nghymru yn sgil yr achos a welwyd yn Dorset—dim ond yn ardal Dorset y ceir gorchmynion rheoli. Yr ardaloedd yng Nghymru sydd wedi'u targedu ar gyfer eu monitro yw Ynys Môn, Tor-faen a Llanelli. Fodd bynnag, soniasoch am Lannau Dyfrdwy, ac yr wyf yn ymwybodol o'r boblogaeth enfawr o adar dŵr sydd yno. Ysgrifennaf atoch ynghylch y monitro sydd yn digwydd neu nad yw'n digwydd yno ar hyn o bryd, er mwyn inni allu bod yn glir yn ei gylch.

Darren Millar: Ac ystyried yr adroddiadau am leihau'r cyllid ar gyfer timau iechyd anifeiliaid yr awdurdod lleol yng Nghonwy, sir Ddinbych ac mewn mannau eraill yng Nghymru, pa wersi a ddysgwyd yn sgil yr achos fflw adar a gafwyd yn fy etholaeth y llynedd?

Elin Jones: Gwyddoch fod Llywodraeth y DU yn cadw llawer o'r gyllideb ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Bu hynny'n destun llawer o drafodaethau yn y Siambr yn ystod y misoedd diwethaf. Fel yr awgrymwch, yr wyf yn ymwybodol o'r ffaith y ceir trafodaethau ar hyn o bryd rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

health issues at a local authority level. My officials are involved in those discussions although we do not have a budget to put right the shortfall that is currently coming from DEFRA. However, we are clearly concerned if that means that local authorities play less of a role on key animal welfare issues locally.

Jenny Randerson: A recent survey of local GPs in England indicated that most of them do not feel prepared for the outbreak of the human form of bird flu, if the H5N1 virus were to be transmitted from to humans. What links do you have with your counterparts in the Welsh Assembly Government to ensure that Wales is very much better prepared if, and when, this outbreak occurs? How are your colleagues in the rest of the Assembly Government informed of the results of your monitoring of the bird population?

Elin Jones: There are no reported cases of bird flu in Wales. In light of the outbreak that was seen last year in north Wales, we have put in place the necessary procedures to ensure links between our chief veterinary and chief medical officers in Wales, because you are right to say that this disease could be transmitted from animal to human. We hope that that does not happen, but we need to be prepared if it does.

Aid Package for Welsh Farmers

Q5 Mick Bates: When did the Minister last meet with the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs to discuss an aid package for Welsh farmers? OAQ(3)0208(RAF)

Elin Jones: I have had numerous discussions with the Secretary of State on foot and mouth disease. I will next meet him on Wednesday, 6 February.

Mick Bates: Thank you for that information. I am sure that it will provide an opportunity for me to ask my supplementary question. I do not need to remind you, Minister, that

ynghylch cyllid ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid ar lefel awdurdod lleol. Mae fy swyddogion yn rhan o'r trafodaethau hynny, er nid oes gennym gyllideb i wneud iawn am y prinder arian a geir gan DEFRA ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr ydym yn amlwg yn pryderu a yw hynny'n golygu y bydd gan awdurdodau lleol ran lai i'w chwarae ar faterion allweddol lleol yn ymwneud â lles anifeiliaid.

Jenny Randerson: Dangosodd arolwg diweddar o feddygon teulu yn Lloegr nad yw'r mwyafrif ohonynt yn teimlo eu bod yn barod ar gyfer ffurf ddynol y fflw adar, pe trosglwyddai'r feirws H5N1 o adar i bobl. Pa gysylltiadau sydd gennych â'ch cyd-Weinidogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Cymru'n fwy parod o lawer os a phan ddigwydd hyn? Sut y rhoddir gwybod i weddill eich cyd-Aelodau yn Llywodraeth y Cynulliad am ganlyniadau eich gwaith o fonitro'r boblogaeth adar?

Elin Jones: Ni chafwyd dim achosion o fflw adar yng Nghymru. Yng ngoleuni'r achos a welwyd y llynedd yn y gogledd, yr ydym wedi gweithredu'r gweithdrefnau angenrheidiol i sicrhau cysylltiadau rhwng ein prif swyddogion milfeddygol a'n prif swyddogion meddygol yng Nghymru, oherwydd yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud y gallai'r clefyd hwn drosglwyddo o anifeiliaid i bobl. Gobeithiwn na ddigwydd hynny, ond mae angen inni fod yn barod os digwydd hynny.

Pecyn Cymorth ar gyfer Ffermwyr Cymru

C5 Mick Bates: Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog gwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i drafod pecyn cymorth ar gyfer ffermwyr Cymru? OAQ(3)0208(RAF)

Elin Jones: Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau ynghylch clwy'r traed a'r genau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Byddaf yn cyfarfod ag ef nesaf ddydd Mercher, 6 Chwefror.

Mick Bates: Diolch am y wybodaeth honno. Yr wyf yn siŵr y bydd yn gyfle imi ofyn fy nghwestiwn atodol. Nid oes angen imi eich atgoffa, Weinidog, bod ffermwyr Cymru yn

Welsh farmers feel let down by your inability to persuade either Westminster or your Government in Cardiff to provide decent compensation for farmers after the foot and mouth disease outbreak. Why is there such a massive difference between your Government's compensation package and the Finance Committee's evidence that the loss to Welsh farmers was around £40 million? Is it that you do not believe the evidence from the Farmers' Union of Wales or the National Farmers' Union?

Elin Jones: You will know that the reports of the Rural Development Sub-committee and the Finance Committee came to Government 10 days ago. We are actively considering the recommendations of those reports, and we will make a statement in the coming weeks.

Mick Bates: I am sure that we will all look forward to that. One of my great concerns is that, at present, you have told us that you have tried for compensation here and in Westminster. If that is the case, why do you not publish the minutes of any meetings or correspondence that have formed part of your attempts to gain a compensation package?

Elin Jones: These are inter-governmental and inter-ministerial meetings between Governments. These meetings happen as a matter of course, and we ensure that Wales's views are put strongly to the Secretary of State. We have made those views known to the Secretary of State in Department for Environment, Food and Rural Affairs directly, and we have made those views public, here in the Chamber and throughout Wales. I am not aware that the inter-governmental meetings involving Liberal Democrat Ministers of a previous Assembly Government were in the public domain.

Brynle Williams: As you are well aware, sheep farmers have faced significant losses and hardship due to foot and mouth disease, simply because of the Westminster Government's incompetence in releasing this virus. Without wishing to take away anything from the agriculture sectors that have suffered, are you aware that dairy farmers

teimlo iddynt gael eu siomi gan eich anallu i ddwyn perswâd nac ar San Steffan nac ar eich Llywodraeth yng Nghaerdydd i ddarparu iawndal addas ar gyfer ffermwyr ar ôl yr achos clwy'r traed a'r genau. Pam mae gwahaniaeth mor enfawr rhwng pecyn iawndal eich Llywodraeth a thystiolaeth y Pwyllgor Cyllid bod y golled i ffermwyr Cymru oddeutu £40 miliwn? Onid ydych yn credu'r dystiolaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru nac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr?

Elin Jones: Byddwch yn gwybod i adroddiadau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Cyllid ddod i'r Llywodraeth 10 diwrnod yn ôl. Yr ydym yn ystyried argymhellion yr adroddiadau hynny, a byddwn yn gwneud datganiad yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mick Bates: Yr wyf yn ffyddiog y byddwn i gyd yn edrych ymlaen at hynny. Un o fy mhryderon mawr yw, ar hyn o bryd, eich bod wedi dweud wrthym ichi geisio cael iawndal yma ac yn San Steffan. Os yw hynny'n wir, pam na wnewch gyhoeddi cofnodion unrhyw gyfarfodydd neu ohebiaeth a fu'n rhan o'ch ymdrechion i gael pecyn iawndal?

Elin Jones: Mae'r rhain yn gyfarfodydd rhynglywodraethol a rhyngweinidogol rhwng Llywodraethau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd fel mater o drefn, ac yr ydym yn sicrhau y caiff barn Cymru ei chyfleu'n gryf i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yr ydym wedi cyflwyno'r sylwadau hynny'n uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac yr ydym wedi darparu'r sylwadau hynny i'r cyhoedd, yma yn y Siambr a ledled Cymru. Nid wyf yn ymwybodol bod manylion cyfarfodydd rhynglywodraethol gyda Gweinidogion Democratiaid Rhyddfrydol un o Lywodraethau blaenorol y Cynulliad ar gael i'r cyhoedd.

Brynle Williams: Fel y gwyddoch yn iawn, mae ffermwyr defaid wedi wynebu colledion a chaledi sylweddol oherwydd clwy'r traed a'r genau, a hynny'n syml oherwydd blerwch Llywodraeth San Steffan yn rhyddhau'r firws hwn. Heb fychanu'r sectorau amaethyddol sydd wedi dioddef mewn unrhyw fodd, a ydych yn gwybod bod ffermwyr llaeth hefyd

have also experienced direct losses, running into tens of thousands of pounds, and that our friends in the Livestock Auctioneers' Association have suffered more than most, because they have had no income? Several companies in north and mid Wales have experienced losses approaching over £0.5 million per company. These will be essential members of the community when life returns to normal again. When you represent Wales's interests in your discussions with the Treasury, what emphasis have you placed on obtaining compensation for the significant financial losses that have been incurred outside of the sheep sector?

Elin Jones: In my representations to the UK Government, I have not sought direct compensation to each individual farmer, or to rural businesses; to do that would require an analysis of the exact loss to each individual business. The representations that I continue to make are on the basis of ensuring that Wales has the ability to fund the light lamb welfare disposal scheme, and of providing an economic package to generally support the revitalisation of the agriculture industry.

Janet Ryder: You will be aware, Minister, that many farmers fully appreciate the efforts that you have made on their behalf through this whole business. Do you not agree that, as I believe Brynle was about to say, it is DEFRA's responsibility to pick this up, and that, in an year when the Assembly has had such a tight settlement, it is a disgrace that DEFRA has not moved before this and provided a full settlement?

Elin Jones: The Finance Committee drew attention to this subject, and many Members, including the First Minister and the Minister for Finance and Public Service Delivery, have referred to it in the Chamber. There is a moral case for the UK Government to provide the funding for Wales, Scotland and DEFRA, to ensure that the rural areas that suffered as a result of last year's foot and mouth disease outbreak are assisted by a package that supports the rejuvenation of businesses in those areas that were affected.

wedi dioddef colledion uniongyrchol, sydd wedi codi i ddegau o filoedd o bunnoedd, a bod ein cyfeillion yn y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw wedi dioddef mwy na neb oherwydd na chawsant incwm? Mae llawer o gwmnïau yn y gogledd a'r canolbarth wedi dioddef colledion o bron dros £0.5 miliwn fesul cwmni. Bydd y rhain yn aelodau hanfodol o'r gymuned pan fydd bywyd yn dychwelyd i'r arfer eto. Pan fyddwch yn cynrychioli buddiannau Cymru yn eich trafodaethau gyda'r Trysorlys, pa bwyslais ydych wedi'i roi ar gael iawndal am y colledion ariannol sylweddol a welwyd y tu allan i'r sector defaid?

Elin Jones: Yn fy sylwadau i Lywodraeth y DU, nid wyf wedi ceisio iawndal uniongyrchol ar gyfer pob ffermwr unigol, nac i fusnesau gwledig; byddai gwneud hynny'n galw am ddadansoddiad o'r union golled i bob busnes unigol. Mae'r sylwadau a wnaaf ar sail sicrhau bod Cymru'n gallu cyllido'r cynllun lles gwaredu wyn ysgafn, ac yn gallu darparu pecyn economaidd i gefnogi ailfywiogi'r diwydiant amaethyddol yn gyffredinol.

Janet Ryder: Byddwch yn gwybod, Weinidog, bod nifer o ffermwyr yn llawn werthfawrogi'r ymdrechion yr ydych wedi'u gwneud ar eu rhan drwy gydol yr holl fusnes hwn. Onid ydych yn cytuno, fel yr wyf yn meddwl yr oedd Brynle ar fin ei ddweud, mai DEFRA sy'n gyfrifol am hyn ac, mewn blwyddyn pan gafodd y Cynulliad setliad mor dynn, ei bod yn warthus nad yw DEFRA wedi symud cyn hyn a darparu setliad llawn?

Elin Jones: Tynnodd y Pwyllgor Cyllid sylw at y pwnc hwn, ac mae nifer o Aelodau, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfeirio ato yn y Siambr. Ceir achos moesol i Lywodraeth y DU ddarparu'r cyllid ar gyfer Cymru, yr Alban a DEFRA, i sicrhau bod yr ardaloedd gwledig a ddioddefodd o ganlyniad i achos clwy'r traed a'r genau y llynedd yn cael eu helpu gan becyn sy'n cefnogi ailfywiogi busnesau yn yr ardaloedd hynny yr effeithiwyd arnynt.

1.20 p.m.

Strategaeth Pysgodfeydd

C6 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth pysgodfeydd? OAQ(3)0217(RAF)

Elin Jones: Mae strategaeth pysgodfeydd Cymru yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rheoli pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn ymwneud â phob sector, gan gynnwys dyframaethu a physgodfeydd masnachol a hamdden, a chafodd ei pharatoi mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Lansiais yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 6 Rhagfyr 2007.

Nerys Evans: Gobaith grŵp aber y tair afon yn sir Gâr yw y bydd pwyllgor pysgodfeydd môr de Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn creu mesur rheoleiddio er mwyn rheoli'r torfeydd sy'n dod i bysgota cocos yn yr aber yn flynyddol, a hynny heb ystyried y bobl leol a chadwraeth. Cyn creu mesur rheoleiddio, mae angen asesiad, ac, yn dilyn cyfarfod diweddar rhwng cynrychiolwyr grŵp aber y tair afon a swyddogion yr adran bysgodfeydd, nodwyd y byddai asesiad o'r aber yn digwydd o fewn tri mis. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwnnw wedi dod i ben ers dros fis. A fyddai modd i chi ymchwilio i'r mater hwn er mwyn darganfod pam mae cymaint o oedi wedi bod yn y broses o asesu aber afonydd Tywi, Taf a Gwendraeth?

Elin Jones: Nid wyf yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn am yr amserlen yr oedd y pysgotwyr yn ei disgwyl gan Lywodraeth y Cynulliad, ond ysgrifennaf atoch gyda'r manylion.

Paul Davies: Yn affodus, mae'r diwydiant pysgota wedi dirywio'n sylweddol yn fy etholaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr oeddwn yn croesawu'r datganid a wnaeth y Gweinidog ym mis Rhagfyr ar yr ymgynghoriad ar y strategaeth i'r diwydiant pysgota. Mae'r strategaeth yn sôn am bwysigrwydd pysgotwyr yn cydweithio er mwyn sicrhau marchnadoedd. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau cydweithio rhwng

Fisheries Strategy

Q6 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the fisheries strategy? OAQ(3)0217(RAF)

Elin Jones: The Wales fisheries strategy sets out the long-term vision to support the development and management of viable and sustainable fisheries in Wales. The strategy will deal with all sectors, aquaculture, and commercial and recreational fisheries, and it was prepared in partnership with stakeholders. I launched the public consultation on 6 December 2007.

Nerys Evans: The hope of the three rivers estuary action group in Carmarthenshire is that the south Wales sea fisheries committee and the Welsh Assembly Government will create a regulatory measure in order to control the crowds of people who come to gather cockles in the estuary annually without giving any consideration to local people or conservation. An assessment needs to be undertaken before a regulatory measure can be made, and, following a recent meeting between representatives of this group and officials in the fisheries department, it was stated that an assessment of the estuary would be undertaken within three months. However, that three-month period ended over a month ago. Will you look into this matter in order to find out why the work of assessing the Towy, Taf and Gwendraeth estuary has been delayed?

Elin Jones: I do not know the answer to the question about the timetable that the fishermen were expecting the Assembly Government to follow, but I will write to you with the details.

Paul Davies: Unfortunately, the fishing industry in my constituency has declined significantly in recent years. I welcomed the Minister's statement in December on the consultation on the strategy for the industry. The strategy refers to the importance of collaboration between fishermen in order to ensure that they have markets available to them. Will the Minister confirm how the Government will ensure that fishermen do collaborate in future?

pysgotwyr yn y dyfodol?

Elin Jones: Yr wyf wedi fy nghalonogi gan y modd y mae'r elfennau gwahanol yn y diwydiant pysgota wedi dod at ei gilydd i gydweithio â'r Llywodraeth ac eraill yn y sector gyhoeddus i ddatblygu'r strategaeth bysgota fel ag y mae ar hyn o bryd, cyn iddi gael ei chyhoeddi yn ei ffurf derfynol. Er mwyn hyrwyddo cydweithio a sicrhau bod cynnyrch pysgota yn bwydo i mewn i'r gadwyn fwyd ac ar gael yn lleol, gallwn ddefnyddio'r gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd, a fydd yn awr ar gael i ni ac yn gwneud cyfraniad ariannol. Fel Llywodraeth y Cynulliad, byddwn yn cyfrannu at y gwaith hwn hefyd. Felly, bydd gennym gyllideb nid ansylweddol i'w defnyddio yn y meysydd pwysig hyn.

Mohammad Asghar: I wish to ask the Minister about heritage fishery. I fully support the Black Rock Lave Net Heritage Fishery in Monmouthshire; it is a traditional fishery that is part of Welsh heritage, but the fishermen are worried that the Environment Agency may want to curb their activities. Will the Minister tell us what is the latest information she has on the future of lave net fishermen at Black Rock?

Elin Jones: Following my meeting with you, John Griffiths, Jocelyn Davies and the Black Rock fishermen, I am aware that my officials and the Environment Agency have discussed proposals with the Black Rock fishery in terms of its future development. The Assembly Government yesterday received a response to that discussion from the Black Rock fishery, and I will consider my response. I will ensure that you are made aware of my response at an early stage. I highly value the Black Rock fishery in terms of its role as a heritage fishery in Wales.

Ffermio Organig

C7 Eleanor Burnham: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hybu ffermio organig yng Nghymru? OAQ(3)0171(RAF)

Elin Jones: Cyhoeddais yn ddiweddar fod y cynllun ffermio organig yn aildechrau. Mae'r cynllun newydd yn cynnwys

Elin Jones: I have been heartened by the way in which different elements of the fishing industry have come together to collaborate with the Government and other stakeholders in the public sector to develop the draft fisheries strategy, before the final version is published. In order to promote collaboration and ensure that the industry's produce feed into the food chain and is made available locally, we can use the European fisheries fund, which will now be available to us and will make a financial contribution. As an Assembly Government, we will also contribute to this work. Therefore, we will have quite a substantial budget for use in these important areas.

Mohammad Asghar: Dymunaf ofyn i'r Gweinidog am bysgodfeydd treftadaeth. Yr wyf yn cefnogi Pysgodfa Treftadaeth Rhwydi Gafll Black Rock yn sir Fynwy; mae'n bysgodfa draddodiadol sy'n rhan o dreftadaeth Cymru, ond mae'r pysgotwyr yn poeni y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd eisiau ffrwyno eu gweithgareddau. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ganddi inni am ddyfodol pysgotwyr rhwydi geifl yn Black Rock?

Elin Jones: Yn dilyn fy nghyfarfod gyda chi, John Griffiths, Jocelyn Davies a physgotwyr Black Rock, yr wyf yn gwybod bod fy swyddogion ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi trafod cynigion gyda physgodfa'r Black Rock o ran ei datblygiad yn y dyfodol. Ddoe, cafodd Llywodraeth y Cynulliad ymateb i'r drafodaeth honno gan bysgodfa Black Rock, a byddaf yn ystyried fy ymateb. Byddaf yn sicrhau y byddwch yn ymwybodol o'm hymateb yn gynnar. Rhoddaf gryn werth ar bysgodfa Black Rock o ran ei swyddogaeth fel pysgodfa treftadaeth yng Nghymru.

Organic Farming

Q7 Eleanor Burnham: What plans does the Minister have to encourage organic farming in Wales? OAQ(3)0171(RAF)

Elin Jones: I recently announced the reopening of the organic farming scheme. The new scheme includes significant

gwelliannau sylweddol, megis taliadau uwch, cymorth i arddwriaeth organig a threfniadau gweinyddu symlach. Bydd yn adeiladu ar fesurau eraill megis ffermydd arddangos organig a'r cyllid i Ganolfan Organig Cymru a'r gwasanaeth gwybodaeth am droi'n organig.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr eich bod yn cyd-weld â fi, ac eraill, fod pryder mawr ar hyn o bryd ynglŷn ag effaith amgylcheddol hedfan cynnyrch ar draws y byd i'w werthu yng Nghymru. Beth yn union yw'r cynllun hwn a faint o arian y byddwch yn ei fuddsoddi? Faint o gynnydd yr ydych yn ei ddisgwyl a faint o ffermwyr yr ydych yn gobeithio eu hannog? A fydd y cynllun yn gweithredu drwy Gymru neu mewn mannau arbennig yn unig?

Elin Jones: Mae'r cynllun organig yn agored ar hyd a lled Cymru. O ran hedfan bwydydd ar draws y byd, yr wyf yn ymwybodol iawn fod bwydydd organig hefyd yn cael eu hedfan ar draws y byd, felly nid oes un agwedd benodol ar amaethyddiaeth sydd heb ei fai yn y cyd-destun hwnnw. Fel y dywedais, mae'r cynllun yn cynnig taliad uwch ar gyfer trosi i ffermio'n organig, a bydd £1,000 yr hectar ar gael yn awr. Mae'n bwysig nodi y bydd y cynllun yn cynnwys llyisiau a ffrwythau am y tro cyntaf oherwydd mae galw nid yn unig am gig a chynnyrch llaeth organig, ond am lysiau a ffrwythau organig.

Andrew R.T. Davies: Minister, with commodity prices rising, it will become increasingly difficult to encourage people to sign over to organic farming, whereas when farming was under more pressure, it looked like an attractive proposition. What impetus are you putting behind the marketing of the organic conversion scheme so that farmers are fully aware of the new format that is now out there and, above all, will embrace that new format and supply organic produce for Welsh shelves?

Elin Jones: You will know, Andrew, that the real driver for organic change or for any decision that a farming business takes is the market that they foresee for the products concerned. It is not about Government support primarily. Government support is

improvements, such as higher payments, support for organic horticulture and streamlined administration. It will build on other measures such as organic demonstration farms and the funding of Organic Centre Wales and the organic conversion information service.

Eleanor Burnham: I am sure that you would agree with me, and others, that there are grave concerns at present about the environmental effects of flying produce from all over the world to be sold in Wales. What exactly will the plan entail and how much money will you invest? How much progress do you expect to make and how many farmers do you hope to reach? Will the scheme operate throughout Wales or in specific areas only?

Elin Jones: The organic scheme applies to all of Wales. As regards produce being transported by air from all over the world, I am very aware that organic food is also flown from all parts of the world, therefore there is no aspect of agriculture that is without fault in this context. As I said, the scheme now offers a higher payment for organic conversion, which amounts to £1,000 per hectare. It is important to note that the scheme will now apply to fruit and vegetables for the first time, because there is demand not just for organic meat and dairy produce, but for organic fruit and vegetables.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, gyda phrisiau nwyddau yn codi, bydd yn anos annog pobl i newid i ffermio organig. Edrychai yn bosibilrwydd deniadol pan oedd ffermio dan fwy o bwysau. Pa symbyliad ydych yn ei roi y tu ôl i farchnata'r cynllun troi'n organig er mwyn i'r ffermwyr fod yn hollol ymwybodol o'r fformat newydd sydd ar gael yn awr ac, yn anad dim, y byddant yn cofleidio'r fformat newydd hwnnw ac yn cyflenwi cynnyrch organig ar gyfer silffoedd Cymru?

Elin Jones: Byddwch yn gwybod, Andrew, mai'r symbyliad go iawn ar gyfer newid yn organig neu ar gyfer unrhyw benderfyniad y bydd busnes ffermio'n ei wneud yw'r farchnad a ragwelant a'r cynnyrch dan sylw. Nid yw'n ymwneud â chefnogaeth y

important in the context of organic farming in order to allow the conversion to take place, but the decision on whether a farmer becomes organic or not is a commercial decision on his or her part. Therefore, the premium that is available for organic produce is a key part in that decision-making process. If that premium is an incentive, as it has been for certain products over the last few years, farmers will of course make that decision. However, it is up to individual farmers whether they become organic or not. We believe, and the retailers tell us, that there continues to be a strong driver for the consumption of organic products and therefore we want Welsh agriculture to play a key role in supplying that increasing demand.

Lesley Griffiths: Minister, one of the main aims of the Government's excellent 'Second Organic Action Plan for Wales 2005-2010' is to increase the area of agricultural land in Wales under organic management by between 10 per cent and 15 per cent by 2010, by means of a new and generous payment to Welsh farmers. Will you take every step possible to ensure that the Organic Conversion Information Service spreads the word to Welsh farmers, to help them to diversify into the burgeoning and lucrative organic products market?

Elin Jones: Yes. I think that you raised a point that was also made by Andrew R.T. Davies, which I did not answer, and therefore I will take this opportunity to answer it now. The marketing of our organic conversion scheme is key. We use *Gwlad* as one vehicle to ensure that farmers are aware of the potential market opportunities for them and of the finance scheme that we have in place. We are seeking to ensure that we will meet the target that you referred to for increasing organic farming in Wales, so that the agriculture industry can take advantage of the increasing consumer demand for all kinds of organic produce.

The Deputy Presiding Officer: Thank you, Minister. There will be no more questions today.

Llywodraeth yn bennaf. Mae cefnogaeth y Llywodraeth yn bwysig yng nghyd-destun ffermio organig er mwyn galluogi'r newid, ond penderfyniad masnachol gan y ffermwr ei hun yw'r penderfyniad a fydd yn troi'n organig ai peidio. Felly, mae'r premiwm sydd ar gael ar gyfer cynnyrch organig yn rhan allweddol o'r broses benderfynu honno. Os yw'r premiwm hwnnw'n gymhelliant, fel y bu ar gyfer rhai cynnyrch dros y blynyddoedd diwethaf, bydd ffermwyr wrth gwrs yn gwneud y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, ffermwyr unigol sydd i benderfynu a ydynt am droi'r organig ai peidio. Credwn fod cymhelliant cryf yn dal i fodoli ar gyfer defnyddio cynnyrch organig, ac mae'r adwerthwyr yn dweud hynny wrthym hefyd, felly yr ydym am i amaethyddiaeth Cymru chwarae rhan allweddol o ran cyflenwi'r galw cynyddol hwnnw.

Lesley Griffiths: Weinidog, un o brif nodau 'Ail Gynllun Gweithredu Organig Cymru 2005-2010' gwyh y Llywodraeth yw cynyddu rhwng 10 y cant a 15 y cant ar arwyneb y tir amaethyddol yng Nghymru sydd dan reolaeth organig erbyn 2010, drwy daliad newydd a hael i ffermwyr Cymru. A gymerwch bob cam posibl i sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth am Droï'n Organig yn lledaenu'r gair i ffermwyr Cymru, i'w helpu i arallgyfeirio i'r farchnad cynnyrch organig proffidiol a chynyddol?

Elin Jones: Gwnaf. Credaf ichi godi pwynt a wnaethpwyd gan Andrew R.T. Davies hefyd, nad oeddwn wedi'i ateb, felly achubaf ar y cyfle hwn i'w ateb yn awr. Mae marchnata ein cynllun troi'n organig yn allweddol. Yr ydym yn defnyddio *Gwlad* fel un ffordd o sicrhau bod ffermwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd marchnad posibl sydd ar gael iddynt ac o'r cynllun cyllid sydd gennym ar waith. Yr ydym yn ceisio sicrhau y byddwn yn cyrraedd y targed y cyfeiriasoch ato ar gyfer cynyddu ffermio organig yng Nghymru, er mwyn i'r diwydiant amaethyddol allu manteisio ar y cynnydd yng ngalw defnyddwyr am bob math o gynnyrch organig.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch, Weinidog. Ni fydd rhagor o gwestiynau heddiw.

Datganiad am yr Ymgynghoriad ar Raglen Cymunedau Nesaf Statement on the Communities Next Consultation

The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews): Today, the Assembly Government publishes its proposals for taking the Communities First programme forward. In 'One Wales', we made a commitment to continued investment in Communities First. In doing this, we must celebrate and build on the achievements made across Wales under the programme to date.

Many Communities First partnerships across Wales are at the heart of regeneration projects in their communities. Examples of good practice include partnerships that are managing important community assets, such as community centres. They may be involved in the development of youth activities or in supporting Assembly policies, running healthy eating and cooking schemes, organising food co-ops, and organising Walking the Way to Health schemes. They may be involved in benefits take-up and debt advice.

1.30 p.m.

They are also involved in many cases in skills training, both formal and informal. They are engaged in time-banking, and run environmental projects, from local clean-up activities and town centre brightening schemes to the Cydcoed forestry scheme. They promote local history and a sense of community pride, and work with local businesses to promote annual town carnivals.

However, we must also recognise that there is a need for strengthening the programme in key respects. The independent evaluation of the programme, published 18 months ago, made that clear. In particular, the Welsh Assembly Government's view is that Communities First needs to have a clearer focus on addressing community regeneration in practical ways.

We will be looking to see successful evidence of programmes that are working

Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews): Heddiw, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi ei chynigion ar gyfer mynd â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf rhagddi. Yn 'Cymru'n Un', rhoesom ymrwymiad i barhau i fuddsoddi yn Cymunedau yn Gyntaf. Drwy wneud hyn, rhaid inni ddathlu ac adeiladu ar y llwyddiannau a wnaethpwyd ledled Cymru dan y rhaglen hyd yn hyn.

Mae nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru wrth galon prosiectau adfywio yn eu cymunedau. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys partneriaethau sy'n rheoli asedau cymunedol pwysig, megis canolfannau cymunedol. Efallai eu bod yn ymwneud â datblygu gweithgareddau ieuencid neu gefnogi polisiau'r Cynulliad, cynnal cynlluniau coginio a bwyta'n iach, trefnu cydweithfeydd bwyd, a threfnu'r cynlluniau Cerdded Llwybr Iechyd. Mae'n bosibl eu bod yn ymwneud â chynorthwyo pobl i gael budd-daliadau a'u cynghori am ddyled.

Maent yn ymwneud hefyd, mewn nifer o achosion, â hyfforddiant sgiliau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Maent yn ymwneud â bancio-amser, ac yn cynnal prosiectau amgylcheddol, o weithgareddau glanhau lleol, a rhoi sglein ar ganol trefi i gynllun coedwigaeth Cydcoed. Maent yn hyrwyddo hanes lleol ac ymdeimlad o falchder yn y gymuned, ac yn gweithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo carnifalau blynyddol yn eu trefi.

Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod bod angen cryfhau rhai agweddau allweddol ar y rhaglen. Gwnaethpwyd hynny'n glir pan gyhoeddwyd y gwerthusiad annibynnol ar y rhaglen 18 mis yn ôl. Yn benodol, barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw bod angen i Gymunedau yn Gyntaf ganolbwyntio'n fwy clir ar fynd i'r afael yn ymarferol ag adfywio cymunedau.

Byddwn yn chwilio am dystiolaeth lwyddiannus o raglenni sy'n gweithio gyda

with other partners, such as local authorities, local health boards and the police. Partnerships will have to agree a set of strategic priorities for their area, set out which outcomes are required to achieve improvement, and how they will work with local partners. To underpin this, we will develop and strengthen the delivery framework for Communities First, which is currently called the Communities First vision framework.

Currently, activities undertaken by Communities First partnerships must address six thematic areas: jobs and business; the environment; health and wellbeing; education and training; community safety; and active communities. Evidence shows that, with some notable exceptions, Communities First partnerships are less likely to focus activities on creating jobs, improving the employability of local people or generating income. We propose to revise the vision framework overall.

We will expect activities aimed at developing jobs and business to improve income generation within their communities. In addition, we will look at what can be done to strengthen the links between Communities First and town centre regeneration. Finally, we will add a new theme of tackling child poverty.

The Communities First programme is dependent on communities being active; therefore, the notion of active communities should underpin the whole programme rather than being a theme in itself. Partnerships have asked the Welsh Assembly Government to make clear what is expected from Communities First in its next phase and also to ensure that other key stakeholders, especially statutory service providers, play their part in delivering shared objectives.

As highlighted in the evaluation of the programme, the success of Communities First is often dependent on the active engagement—or bending—of mainstream programme resources. It is essential that the main services and programmes of the Assembly Government, its agencies and local

phartneriaid eraill, megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r heddlu. Bydd yn rhaid i bartneriaethau gytuno ar set o flaenoriaethau strategol ar gyfer eu hardal, gosod allan pa ganlyniadau sy'n ofynnol er mwyn gwella, a sut y byddant yn gweithio gyda phartneriaid lleol. Yn sail i hyn, byddwn yn datblygu ac yn cryfhau fframwaith darparu Cymunedau yn Gyntaf, a elwir ar hyn o bryd yn fframwaith gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Ar hyn o bryd, rhaid i weithgareddau y bydd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ymgymryd â hwy fynd i'r afael â chwe maes thematig: swyddi a busnes; yr amgylchedd; iechyd a lles; addysg a hyfforddiant; diogelwch cymunedol; a chymdeithasau byw. Dengys y dystiolaeth, gydag ambell eithriad nodedig, fod partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn llai tebygol o ganolbwyntio gweithgareddau ar greu swyddi, gwneud pobl leol yn fwy cyflogadwy neu gynhyrchu incwm. Bwriadwn ddiwygio'r fframwaith gweledigaeth drwyddo draw.

Byddwn yn disgwyl i weithgareddau a anelir at ddatblygu swyddi a busnes gynhyrchu mwy o incwm yn eu cymunedau. Hefyd, byddwn yn edrych ar beth y gellir ei wneud i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Cymunedau yn Gyntaf ac adfywio canol trefi. Yn olaf, byddwn yn ychwanegu thema newydd, sef mynd i'r afael â thlodi plant.

Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar gael cymdeithasau byw; felly, dylai'r syniad o gymdeithasau byw fod yn sail i'r rhaglen gyfan, yn hytrach na bod yn thema'i hun. Mae partneriaethau wedi gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan Gymunedau yn Gyntaf yn ystod cyfnod nesaf y rhaglen a hefyd sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol eraill, yn enwedig darparwyr gwasanaethau statudol, yn chwarae eu rhan wrth wireddu cydamcanion.

Wrth bwysio a mesur y rhaglen gyntaf, tynnwyd sylw at y ffaith bod llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf yn aml yn dibynnu ar fynd ati i feithrin cysylltiad ag adnoddau rhaglenni'r brif ffrwd neu blygu'r adnoddau hynny. Mae'n hanfodol bod prif wasanaethau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad, ei

authorities deliver long-term sustainable regeneration and decent public services for all.

In order to support effective programme bending and the mainstreaming of successful projects, we will seek to establish a new outcomes fund. Bids to the fund will be led by Communities First partnerships, working in co-operation with local service providers. We will expect these projects to show real evidence of engaging the statutory sector in delivering its services more effectively and more appropriately to people in Communities First areas. Service providers will be expected to demonstrate commitment to the programme by providing additional and equal resources throughout the activity.

We do not intend to lose the essential nature of Communities First as a community-led programme, dependent for its success on increasing citizen engagement. Indeed, our view is that the term 'Communities First' should continue to be used at a local level. Citizen engagement is not an end in itself; it is a means to engage local people in the planning and delivery of innovative local solutions to local problems. Communities must be involved for a purpose.

We want to see a greater proportion of the Communities First budget going directly to Communities First partnerships. We are therefore reviewing the wide-ranging support arrangements that have been in place since the beginning of the programme. As partnerships develop, they should have less need for external support and we will be looking to switch that spending to the front line.

We will also take action to deal with partnerships that are failing. The consultation document suggests a number of critical success factors by which progress may be judged. These include, for example, external funding levered into communities from outside the Communities First programme.

hasiantaethau ac awdurdodau lleol yn sicrhau adfywio cynaliadwy tymor hir a gwasanaethau cyhoeddus teilwng i bawb.

Er mwyn cefnogi plygu rhaglenni effeithiol a phrif-ffrydio prosiectau llwyddiannus, byddwn yn ceisio sefydlu cronfa canlyniadau newydd. Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fydd yn arwain ceisiadau i'r gronfa, gan gydweithio â darparwyr gwasanaethau lleol. Byddwn yn disgwyl i'r prosiectau hyn ddangos tystiolaeth wirioneddol eu bod yn meithrin cysylltiad â'r sector statudol er mwyn iddo ddarparu ei wasanaethau'n fwy effeithiol ac yn fwy priodol ar gyfer pobl ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau ddangos ymrwymiad i'r rhaglen drwy ddarparu adnoddau ychwanegol a chyfartal drwy gydol y gweithgarwch.

Nid ydym yn bwriadu colli natur hanfodol Cymunedau yn Gyntaf, sef mai rhaglen a arweinir gan y gymuned ydyw, sy'n dibynnu ar gynyddu cyfraniad dinasyddion er mwyn llwyddo. Yn wir, ein barn yw y dylid dal i ddefnyddio'r term 'Cymunedau yn Gyntaf' ar lefel leol. Nid oes diben meithrin cysylltiad â dinasyddion er ei fwyn ei hun; ffordd o gael pobl leol i ymwneud â chynllunio a chanfod atebion arloesol lleol i broblemau lleol ydyw. Rhaid i gymunedau gymryd rhan at ryw bwrpas.

Yr ydym am weld mwy o gyfran o gyllideb Cymunedau yn Gyntaf yn mynd yn uniongyrchol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Felly, yr ydym yn adolygu'r trefniadau cefnogi eang sydd wedi'u sefydlu ers dechrau'r rhaglen. Wrth i bartneriaethau ddatblygu, dylai fod llai o angen cymorth allanol arnynt a'n bwriad fydd symud y gwariant hwnnw i'r rheng flaen.

Byddwn hefyd yn cymryd camau i ddelio â phartneriaethau sy'n methu. Mae'r ddogfen ymgynghori'n awgrymu nifer o ffactorau hanfodol sy'n dangos llwyddiant y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Ymhlith y rhain, er enghraifft, mae denu arian allanol i gymunedau o'r tu allan i raglen Cymunedau yn Gyntaf.

Successful partnerships face different challenges and often aspire to become social enterprises. We have commissioned a review of our social enterprise strategy and will publish a revised social enterprise action plan later this year. The most successful partnerships will be encouraged to provide support to other Communities First areas. The consultation document sets out our proposals in more detail and invites key stakeholders to discuss and comment before the work is taken forward. Following the completion of the consultation, Communities First partnerships will be invited to submit applications for funding in line with the principles of Communities Next for the three years from 2009 to 2012.

I thank the external members of the task and finish group, Professor Dave Adamson, Barbara Castle, Anne Delaney, Roger Tarling and Dr Tim Williams, for their contribution. As we say in the document, we want to see a real translation of power and wealth to people in the poorest communities in particular. I commend this consultation document to the Assembly.

Mark Isherwood: Thank you for that statement, Deputy Minister. We all wish to see a move away from what you referred to as 'programme bending' to real delivery in the form of sustainable economic and social community regeneration. You referred to the evaluation, which I recall referred to concerns about training for Communities First co-ordinators. Perhaps there was a lack of understanding at the outset of what would be involved. How have you, or are you, addressing that? The evaluation also referred to concerns about reluctance on the part of politicians to let go and understand that this was about empowering citizens to have a real say in their communities and lives. How are you addressing that and recognising the need to manage that change? People who have worked in one way all their lives, absolutely correctly, cannot move to a different way of working without appropriate training and support.

Bydd partneriaethau llwyddiannus yn wynebu gwahanol heriau a byddant yn aml yn dyheu am ddod yn fentrau cymdeithasol. Yr ydym wedi comisiynu adolygiad o'n strategaeth mentrau cymdeithasol a byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu mentrau cymdeithasol diwygiedig yn ddiweddarach eleni. Anogir y partneriaethau mwyaf llwyddiannus i gefnogi ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf eraill. Mae'r ddogfen ymgynghori'n gosod allan ein cynigion yn fwy manwl ac yn gwahodd rhanddeiliaid allweddol i'w trafod a chynnig eu sylwadau cyn y bwrir ymlaen â'r gwaith. Ar ôl cwblhau'r ymgynghori, gwahoddir partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i gyflwyno ceisiadau am arian yn unol ag egwyddorion Cymunedau Nesaf am y tair blynedd rhwng 2009 a 2012.

Diolchaf i aelodau allanol y grŵp gorchwyl a gorffen, yr Athro Dave Adamson, Barbara Castle, Anne Delaney, Roger Tarling a'r Dr Tim Williams, am eu cyfraniad. Fel y dywedwn yn y ddogfen, yr ydym am weld trosi pŵer a chyfoeth go iawn i bobl yn y cymunedau tlotaf yn benodol. Cymeradwyaf y ddogfen ymgynghori hon i'r Cynulliad.

Mark Isherwood: Diolch ichi am y datganiad hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Yr ydym i gyd am weld symud oddi wrth yr hyn a alwyd gennych yn 'blygu rhaglenni' i wireddu go iawn drwy adfywio cymunedau'n economaidd ac yn gymdeithasol. Soniasoch am y gwerthusiad, a gyfeiriodd, os cofiaf, at bryderon ynghylch hyfforddiant i gydgyssylltwyr Cymunedau yn Gyntaf. Efallai fod diffyg dealltwriaeth ar y dechrau ynglŷn â'r hyn y byddai'n ei olygu. Sut yr ydych chi wedi mynd i'r afael â hynny, neu sut yr ydych yn gwneud hynny'n awr? Yr oedd cyfeiriad yn y gwerthusiad hefyd at bryderon ynglŷn â chyndynrwydd gwleidyddion i ollwng pethau a deall mai grymuso dinasyddion i gael llais gwirioneddol yn eu cymunedau a'u bywydau oedd hanfod hyn. Sut yr ydych yn mynd i'r afael â hynny ac yn cydnabod bod angen rheoli'r newid hwnnw? Ni all pobl sydd wedi dilyn un drefn weithio ar hyd eu hoes, a hynny'n gwbl gywir, newid a gweithio mewn ffordd wahanol, heb gael y gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol.

You mentioned outcomes in relation to continuous improvement. Will target measures be put in place? Can you tell us what those will be? If not, when might you be able to do that? In addition to the many activities undertaken through Communities First, there are other links with other areas essential to sustainable economic development and regeneration and to tackling child poverty. Some of these areas are non-devolved, such as the benefits system; others include housing and links with health, education and economic inactivity. How will you lever in those other areas that are not directly within the programme?

How will you be reaching out to those other pockets of deprivation that fall outside Communities First areas to ensure that those citizens are also engaged? You mentioned engaging the statutory sector, but I could not see anything in your statement about the voluntary sector, beyond your reference to reviewing the social enterprise strategy. Therefore, can you confirm that you will continue to seek to engage the voluntary sector at the top table—the strategic level—as well as in delivery?

The Deputy Presiding Officer: Order. I remind you that this is a statement rather than a debate. Therefore, you may have a short-ish preamble before asking questions.

Mark Isherwood: My final question relates to your reference to switching funding costs to the front line. We would all welcome that in light of the financial revelations in the evaluation that more than 70 per cent of funding has gone into administration costs. How will you ensure that European convergence fund money will be levered in? During the first phase of Communities First, only some £14 million of Communities First money—

The Deputy Presiding Officer: Order. Please wind up.

Mark Isherwood: Only £14 million of Communities First money was used to fund projects supported by Objective 1.

Soniasoch am ganlyniadau o ran gwella'n barhaus. A gaiff targedau eu gosod? A allwch ddweud wrthym beth fydd y rheini? Oni allwch, pa bryd y gallech wneud hynny? Yn ogystal â'r holl weithgareddau yr ymgwymerir â hwy drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf, ceir cysylltiadau â meysydd eraill sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau datblygu ac adfywio economaidd cynaliadwy a mynd i'r afael â thlodi plant. Nid yw'r meysydd hyn i gyd wedi'u datganoli, y system budd-daliadau er enghraifft; meysydd eraill yw tai a'r cysylltiadau ag iechyd, addysg ac anweithgarwch economaidd. Sut y byddwch yn cynnwys y meysydd eraill hynny nad dynt yn rhan uniongyrchol o'r rhaglen?

Sut y byddwch yn estyn allan i'r pocedi amddifad eraill sydd y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod cysylltiad yn cael ei feithrin â'r dinasyddion hynny hefyd? Soniasoch am feithrin cysylltiad â'r sector statudol, ond ni allwn weld dim yn eich datganiad am y sector gwirfoddol, heblaw am eich cyfeiriad at adolygu'r strategaeth mentrau cymdeithasol. Felly, a allwch gadarnhau y byddwch yn parhau i geisio sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael cyfrannu ar y lefel uchaf—ar y lefel strategol—yn ogystal ag ar y lefel darparu?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Fe'ch atgoffaf mai datganiad yn hytrach na dadl yw hwn. Felly, cewch ragymadroddi'n lled gryno cyn gofyn cwestiynau.

Mark Isherwood: Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â'ch cyfeiriad at symud costau cyllido i'r rheng flaen. Byddem i gyd yn croesawu hynny yn sgil yr hyn a ddatgelwyd am y sefyllfa ariannol yn y gwerthusiad, sef bod mwy na 70 y cant o'r arian wedi'i wario ar gostau gweinyddu. Sut y byddwch yn sicrhau y gellir defnyddio arian cronfa gydgyfeirio Ewrop? Yn ystod cyfnod cyntaf Cymunedau yn Gyntaf, dim ond rhyw £14 miliwn o arian Cymunedau yn Gyntaf—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Tynnwch i ben os gwelwch yn dda.

Mark Isherwood: Dim ond £14 miliwn o arian Cymunedau yn Gyntaf a ddefnyddiwyd i ariannu prosiectau a gefnogwyd gan Amcan

1.

Leighton Andrews: The consultation document contains several points on the training of Communities First co-ordinators and other development staff. The point about the engagement of, for example, local councillors with Communities First partnerships in their wards is important. It is important that we get a good relationship and we refer to that in the consultation document. Some recent work has been done by the Joseph Rowntree Foundation, I think, looking at local engagement. To be frank, it is better if the partnership and local councillors are engaged together actively in working for solutions for their communities.

Leighton Andrews: Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys amryw o bwyntiau ynglŷn â hyfforddi cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf a staff datblygu eraill. Mae'r pwynt ynglŷn â sicrhau bod cynghorwyr lleol, er enghraifft, yn meithrin cysylltiad â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn bwysig. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau perthynas dda a chyfeiriwn at hynny yn y ddogfen ymgynghori. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud yn ddiweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree, yr wyf yn credu, sy'n edrych ar ymgysylltu'n lleol. A dweud y gwir, mae'n well os bydd y bartneriaeth a chynghorwyr lleol yn mynd ati gyda'i gilydd i geisio atebion i'w cymunedau.

1.40 p.m.

In respect of outcomes, it is important that we retain the community-led aspect of Communities First. We all want to see communities engaged in setting targets themselves, while working within the context of the relevant Assembly Government strategies. Each of the themes relates directly to a strategy agreed by the Assembly Government.

Y gymuned sy'n arwain yn Cymunedau yn Gyntaf ac, o ran canlyniadau, mae'n bwysig inni lynu wrth yr agwedd honno. Yr ydym i gyd am weld cymunedau'n ymwneud â gosod targedau eu hunain, gan weithio o fewn cyddestun strategaethau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Mae pob un o'r themâu'n ymwneud yn uniongyrchol â strategaeth y cytunwyd arni gan Lywodraeth y Cynulliad.

You are right to say that many of the levers in respect to child poverty lie with the Department for Work and Pensions, and we refer to that in the document. We have two schemes engaged in getting people back into work in Wales with the Department for Work and Pensions, under its City Strategy scheme: one in the Heads of the Valleys and the other in Rhyl. We believe that Communities First partnerships can make a significant difference in respect of the provision of child support and other activities in relation to other issues, and we give a series of examples in the consultation document.

Yr ydych yn llygad eich lle mai'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am lawer o'r elfennau sy'n dylanwadu ar dlodi plant, a chyfeiriwn at hynny yn y ddogfen. Mae gennym ddau gynllun sy'n ymwneud â chael pobl yn ôl i'r gwaith yng Nghymru gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, dan ei chynllun Strategaeth Dinasoedd: un ym Mlaenau'r Cymoedd a'r llall yn y Rhyl. Credwn y gall partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wneud gwahaniaeth sylweddol o ran darparu gwasanaethau cynnal plant a gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i faterion eraill, a rhoddwn gyfres o enghreifftiau yn y ddogfen ymgynghori.

On housing, I am aware of the engagement and interest being shown by many Communities First partnerships, for example, in the opportunities for jobs and training being thrown up by progress made towards achieving the Welsh housing quality standard. I visited New Sandfields with the Minister this morning, and we saw that,

O ran tai, gwn fod llawer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud â'r maes ac yn dangos diddordeb ynddo, er enghraifft, o ran cyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant sy'n codi yn sgil y cynnydd tuag at sicrhau safon ansawdd tai Cymru. Ymwelais â Sandfields Newydd gyda'r Gweinidog y bore yma, a gwelsom, yng

within the Sandfields training resource initiative developing employment skills project—STRIDES—people are already being trained in plumbing schemes and home maintenance schemes, which are directly relevant to the issue of housing.

We are creating an outcome fund, which will be one way of better incentivising programme bending with the statutory sector, which is important.

We have our wider regeneration programme in respect of pockets of deprivation outside the Communities First programme. We also need to consider how that can be targeted more strategically, which is very much a part of the work that we have been doing.

In respect of the third sector, or the voluntary sector, I have already had two formal meetings with the voluntary sector. I also spoke at the Wales Council for Voluntary Action conference in the autumn at which we outlined the Government's third sector strategy. We have had many discussions therefore about its relationship with Communities First. We are reviewing the support arrangements and we want to see more money going into the front line, but we will probably have more to say about that in due course.

You underplay the way in which Communities First partnerships have often engaged directly with Objective 1 funds in the past. There will be opportunities under the new programme, and it is important that community regeneration is approached strategically so that the programme delivers real benefits to communities.

Peter Black: I welcome the statement and the general direction of travel that it signals. It is important that the programme be reviewed so that it is better focused at delivering the sort of outcomes that we all expect.

I have a number of questions arising from the statement, though I understand that it is a consultation and that, no doubt, they will be answered at a later stage. The Deputy Minister referred to targets and monitoring,

ngynllun prosiect adnoddau hyfforddi Sandfields sy'n datblygu sgiliau ar gyfer gwaith —STRIDES—fod pobl eisoes yn cael eu hyfforddi mewn cynlluniau plymio a chynlluniau cynnal a chadw cartrefi sy'n uniongyrchol berthnasol i fater tai.

Yr ydym yn creu cronfa canlyniadau. Dyma un ffordd o roi mwy o gymhelliant i blygu rhaglenni gyda'r sector statudol ac mae hynny'n bwysig.

Mae gennym ein rhaglen adfywio ehangach o ran pocedi amddifad sydd y tu allan i raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen inni ystyried hefyd sut y gellir targedu hynny'n fwy strategol. Mae hyn yn rhan bwysig o'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud.

O ran y trydydd sector, neu'r sector gwirfoddol, yr wyf eisoes wedi cael dau gyfarfod ffurfiol gyda'r sector gwirfoddol. Bûm yn siarad hefyd yng nghynhadledd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn yr hydref lle'r amlinellwyd strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y trydydd sector. Yr ydym wedi cael llawer o drafodaethau felly ynglŷn â'i berthynas â Chymunedau yn Gyntaf. Yr ydym yn adolygu'r trefniadau cefnogi ac yn dymuno gweld mwy o arian yn mynd i'r rheng flaen, ond mae'n debygol y bydd gennym fwy i'w ddweud am hynny maes o law.

Nid ydych yn rhoi digon o glod i'r ffordd y mae partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi ymwneud yn uniongyrchol yn aml â chronfeydd Amcan 1 yn y gorffennol. Bydd cyfleoedd dan y rhaglen newydd, ac mae'n bwysig mynd ati'n strategol i adfywio cymunedau er mwyn i'r rhaglen ddod â budd gwirioneddol i gymunedau.

Peter Black: Croesawaf y datganiad a chyfeiriad cyffredinol y daith y mae'n ei hawgrymu. Mae'n bwysig adolygu'r rhaglen er mwyn iddi ganolbwyntio'n well ar wireddu'r math o ganlyniadau yr ydym i gyd yn eu disgwyl.

Mae gennyf nifer o gwestiynau'n codi o'r datganiad, er fy mod yn deall mai ymgynghoriad yw hwn ac, yn ddiamau, y cânt eu hateb ryw bryd eto. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at dargedau a monitro, er

to focus the scheme better. I am interested in how those targets will be set and monitored, and in the level of transparency and accountability that will be applied to them. Do we expect that to happen at a local level or at a Welsh Assembly Government level? Who will be scrutinising that process?

The Minister mentioned many different partners in his statement, but the one that seemed to be missing was local businesses. When Huw Lewis carried out the original evaluation of Communities First, an identified weakness was that local businesses were not as engaged with the process as they could have been. Therefore, it will be interesting to see how the Minister proposes to address that issue.

The Minister also refers to a process of dealing with failing partnerships, and I am interested in getting some more detail on that. Are we talking about taking money away from these partnerships if they fail, or are we talking about intervention? What process is being put in place to cope with partnerships that, in the Minister's and other people's eyes, are failing?

Will there be scope for these schemes to expand into new communities? We have started off with a set number of communities and there has been talk in the past of bringing additional communities on board. Is that a likely future outcome of this review? Is there scope for leakage beyond ward boundaries or existing Communities First partnerships, particularly where a group is looking for funding that would clearly benefit a Communities First area but it is not based in that area? What is being considered in relation to that?

You also referred to the link to town-centre regeneration. Are you considering links to other regeneration initiatives? I am thinking of housing regeneration initiatives, perhaps—stock transfer or other housing schemes, such as an enveloping scheme, for example, in a private sector housing area. Will they also be included, because not every area will have a town centre?

What role will local councils have in this?

mwyn canolbwyntio'r cynllun yn well. Hoffwn gael gwybod sut y gosodir y targedau hynny a'u monitro, i ba raddau y byddant yn dryloyw ac yn atebol. A ydym yn disgwyl i hynny ddigwydd ar lefel leol ynteu ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru? Pwy fydd yn craffu ar y broses honno?

Crybwyllodd y Gweinidog lawer o wahanol bartneriaid yn ei ddatganiad, ond yr un a oedd ar goll, i bob golwg, oedd busnesau lleol. Pan werthuswyd rhaglen wreiddiol Cymunedau yn Gyntaf gan Huw Lewis, un gwendid a welwyd oedd nad oedd busnesau lleol yn ymwneud gymaint â'r broses ag y gallasant. Felly, bydd yn ddiddorol gweld sut mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â hynny.

Mae'r Gweinidog yn cyfeirio hefyd at broses i ddelio â phartneriaethau sy'n methu, a hoffwn gael ychydig mwy o fanylion am hynny. Ai sôn yr ydym am dynnu arian oddi ar y partneriaethau hyn os methant, ynteu ai sôn am ymyrryd yr ydym? Pa broses sy'n cael ei sefydlu i ymdopi â phartneriaethau sydd, yng ngolwg y Gweinidog ac yng ngolwg pobl eraill, yn methu?

A fydd lle i'r cynlluniau hyn ehangu i gymunedau newydd? Yr ydym wedi cychwyn â nifer penodol o gymunedau a bu sôn yn y gorffennol am gynnwys cymunedau ychwanegol. A yw hynny'n un o ganlyniadau tebygol yr adolygiad hwn yn y dyfodol? A oes cyfle i ymestyn y tu hwnt i ffiniau wardiau neu bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli eisoes, yn enwedig pan fydd grŵp yn chwilio am nawdd a fyddai'n amlwg o fudd i ardal Cymunedau yn Gyntaf ond nad yw wedi'i leoli yn yr ardal honno? Beth sy'n cael ei ystyried yng nghyswllt hynny?

Gwnaethoch gyfeirio hefyd at y cysylltiad ag adfywio canol trefi. A ydych yn ystyried cysylltiadau â mentrau adfywio eraill? Yr wyf yn meddwl am fentrau adfywio tai, efallai—trosglwyddo stoc neu gynlluniau tai eraill, megis cynllun amlennu, er enghraifft, mewn ardal o dai sector preifat. A fyddant hwy'n cael eu cynnwys hefyd, oherwydd ni fydd canol tref ym mhob ardal?

Beth fydd rhan cynghorau lleol yn hyn? A

Will they be allowed to interfere in the process? Are you expecting them to provide the local accountability and focus for these schemes in their areas?

Leighton Andrews: I thank Peter for welcoming the statement. As he said, this is a consultation and some of the areas will be clarified in the course of the consultation.

On reporting back on targets and outcomes, there is already a process in place whereby partnerships must produce an annual report. That has been introduced in response to the interim evaluation. We have received the first reports this year, and the partnerships must report back to the Assembly Government on how they have enacted their local plans. Clearly, we want local input; we would expect the local plans that are drafted in future to take into account activities that are taking place with regard to local health boards, for example, or the community strategies that are being drafted by local authorities, and for there to be a two-way engagement on those issues.

I completely agree with you about the business sector, Peter. You will find in the document quite a long section about the engagement of the private sector in Communities First. Some areas have done well in engaging local businesses, while others have not. We have already had a number of meetings to discuss this, and it will be an important issue for us as we progress to the drafting of the final statements.

In terms of failing partnerships, at the extreme end, it could mean taking money away from them. However, I would hope that our approach to failing partnerships would be responsible and incremental, and that we would look for ways in which to turn them around first. However, I want to be absolutely clear that if a partnership continues to fail its community, we will take the money away.

You mentioned the issue of new communities. We have added, as a result of

ganiateir iddynt ymyrryd yn y broses? A ydych yn disgwyl iddynt fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd a'r ffocws lleol ar gyfer y cynlluniau hyn yn eu hardaloedd?

Leighton Andrews: Hoffwn ddiolch i Peter am groesawu'r datganiad. Fel y dywedodd, ymgynghoriad yw hwn a bydd rhai o'r meysydd yn cael eu hegluro yn ystod yr ymgynghoriad.

O ran adrodd yn ôl ar dargedau a chanlyniadau, mae proses ar waith eisoes sy'n golygu bod partneriaethau'n gorfod paratoi adroddiad blynyddol. Cyflwynwyd hynny mewn ymateb i'r gwerthusiad dros dro. Yr ydym wedi cael yr adroddiadau cyntaf eleni, ac mae'n rhaid i'r partneriaethau adrodd yn ôl i Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â sut y maent wedi rhoi eu cynlluniau lleol ar waith. Yn amlwg, mae arnom eisiau mewnbyn lleol; byddem yn disgwyl i'r cynlluniau lleol a gaiff eu drafftio yn y dyfodol ystyried gweithgareddau sy'n digwydd yng nghyswllt byrddau iechyd lleol, er enghraifft, neu'r strategaethau cymunedol sy'n cael eu drafftio gan awdurdodau lleol, a byddem yn disgwyl trafodaeth ddwyffordd ar y materion hynny.

Cytunaf yn llwyr â chi ynglŷn â'r sector busnes, Peter. Byddwch yn gweld bod y ddogfen yn cynnwys adran eithaf hir ynglŷn â chynnwys y sector preifat yn Cymunedau yn Gyntaf. Mae rhai ardaloedd wedi gwneud yn dda o ran cynnwys busnesau lleol, ond nid yw hynny'n wir am eraill. Yr ydym eisoes wedi cael nifer o gyfarfodydd i drafod hyn, a bydd yn fater pwysig inni wrth inni fwrw ymlaen â drafftio'r datganiadau terfynol.

O ran partneriaethau sy'n methu, yn y terfyn eithaf, gallai olygu cymryd arian oddi arnynt. Fodd bynnag, gobeithiaf y byddem yn ymdrin â phartneriaethau sy'n methu mewn modd cyfrifol, cam-wrth-gam, ac y byddem yn chwilio am ffyrdd o'u hachub yn gyntaf. Fodd bynnag, yr wyf am fod yn gwbl bendant y byddwn yn cymryd yr arian oddi ar bartneriaeth sy'n parhau i fethu â darparu ar gyfer ei chymuned.

Gwnaethoch grybwyll cymunedau newydd. Yn sgil mynegai amddifadedd lluosog

the revised Welsh index of multiple deprivation, an additional 46 communities to the programme. Those are being added at the moment. Some of them will be partnerships in their own right, while some will link to existing partnerships.

You asked about funding moving across ward boundaries into wards that are not Communities First wards. Groups that operate in wards that are not Communities First wards, but which provide services for people in Communities First wards, can already derive funding. We have specifically identified that there may be an issue around town centres. Sometimes town centres do not qualify as Communities First wards as their income is a degree higher than that in the wards that surround them. However they are very important hubs for those Communities First wards. So there are issues around town-centre regeneration and we want to improve those linkages.

I covered the housing point in my response to Mark Isherwood, but I will add one point, which is that there are schemes already in place that are looking to engage with Communities First partnerships, which include some where stock transfer has taken place. However, the Communities First programme cannot do everything in respect of regeneration. We have always said that bending mainstream resources to support Communities First is important to us.

On local councils, I hope that there will be a two-way relationship in the drawing up of plans and that local councils will be involved in their local partnerships in an active and constructive way, and not in an obstructive way. However, while it is important that we have local support arrangements in place on the ground within local authorities, this is an Assembly-funded scheme and we have a responsibility to provide leadership on it.

1.50 p.m.

Christine Chapman: I very much welcome the statement today. Communities First has achieved a great deal in my constituency in

diwygiedig Cymru, yr ydym wedi ychwanegu 46 cymuned ychwanegol at y rhaglen. Mae'r rheini'n cael eu hychwanegu ar hyn o bryd. Bydd rhai ohonynt yn bartneriaethau yn eu rhinwedd eu hunain, a bydd eraill yn cael eu cysylltu â phartneriaethau sy'n bodoli eisoes.

Gwnaethoch ofyn am gyllid yn symud ar draws ffiniau wardiau i wardiau nad ydynt yn rhai Cymunedau yn Gyntaf. Mae grwpiau sy'n gweithredu mewn wardiau nad ydynt yn rhai Cymunedau yn Gyntaf, ond sy'n rhoi gwasanaethau i bobl mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf, eisoes yn gallu cael cyllid. Yr ydym wedi nodi'n benodol y gall canol trefi fod yn fater i'w ystyried. Weithiau nid yw canol trefi yn gymwys i fod yn wardiau Cymunedau yn Gyntaf gan fod eu hincwm rywfaint yn uwch nag incwm y wardiau sydd o'u cwmpas. Fodd bynnag, maent yn ganolfannau pwysig iawn i'r wardiau Cymunedau yn Gyntaf hynny. Felly ceir materion ynglŷn ag adfywio canol trefi ac mae arnom eisiau gwella'r cysylltiadau hynny.

Trafodais y pwynt ynglŷn â thai yn fy ymateb i Mark Isherwood, ond ychwanegaf un pwynt, sef fod cynlluniau eisoes ar gael sy'n ceisio ymwneud â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys rhai lle bu trosglwyddo stoc. Fodd bynnag, ni all rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wneud popeth o ran adfywio. Yr ydym wastad wedi dweud bod plygu adnoddau'r brif ffrwd i gefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn bwysig inni.

O ran cynghorau lleol, gobeithiaf y bydd perthynas ddwyffordd wrth baratoi cynlluniau ac y bydd cynghorau lleol yn ymwneud â'u partneriaethau lleol mewn modd gweithredol ac adeiladol, ac nid yn eu rhwystro. Fodd bynnag, er ei bod yn bwysig bod gennym drefniadau cefnogi lleol ar waith ar lawr gwlad mewn awdurdodau lleol, cynllun dan nawdd y Cynulliad yw hwn, a ni sy'n gyfrifol am roi arweiniad ar ei gyfer.

Christine Chapman: Croesawaf y datganiad heddiw yn fawr. Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cyflawni cryn dipyn yn fy etholaeth o

enabling local people to actively participate in creating a better living environment through a range of activities, all of which were achieved as a result of effective working relationships involving all agencies—the local authority, the police, schools, the health service. What are your thoughts on how we can involve the business community more—you alluded to this earlier—in the next stage, with its emphasis on economic regeneration? The economic aspect is important—the Valleys need higher levels of disposable income through high-quality jobs, and spending in the local economy to support and sustain local businesses. If we are to continue to lift these communities out of disadvantage, then economic empowerment is the key.

Secondly, I know that the partnerships that I have spoken to feel the need for a continued emphasis on the capacity-building element of Communities First. Would you give me your assurance that this element will not be totally lost? It is only when you get that right that the rest will follow—we talked about skills and employment, in particular. Finally, we should be sensitive to the fact that any sort of disruption or change, even if it is for the better, not only causes delays, but can demotivate staff and volunteers if it is not handled correctly. Those people are absolutely essential and without them partnerships would simply fall apart. Would you therefore agree that this is about building on their good work, and that it is their renewed enthusiasm and commitment that we need to make the programme even better?

Leighton Andrews: Indeed, and there are a number of examples of successful Communities First partnerships in the Cynon Valley, and that experience has been directly shared with us on the task and finish group. There was a programme in the past that ran with Business in the Community—and I declare an interest here, Deputy Presiding Officer, as my wife is chair of Business in the Community Wales—as well as with the Prince's Trust. That was a useful way, in some communities, of getting private sector engagement. We have already had discussions with a number of organisations

ran galluogi pobl leol i gymryd rhan weithgar wrth greu gwell amgylchedd i fyw ynddo drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, a phob un ohonynt wedi'u cyflawni yn sgil perthynas waith effeithiol a oedd yn cynnwys yr holl asiantaethau—yr awdurdod lleol, yr heddlu, ysgolion, a'r gwasanaeth iechyd. Beth yw eich barn ynglŷn â sut y gallwn gynnwys y gymuned fusnes i raddau mwy helaeth—gwnaethoch gyfeirio at hyn yn gynharach—yn y cam nesaf, â'i bwyslais ar adfywio economaidd? Mae'r agwedd economaidd yn bwysig—mae ar y Cymoedd angen lefelau uwch o incwm gwario drwy gyfrwng swyddi o ansawdd uchel, a gwario yn yr economi leol i gefnogi a chynnal busnesau lleol. Os ydym am barhau i godi'r cymunedau hyn o anfantais, mae grymuso economaidd yn allweddol.

Yn ail, gwn fod y partneriaethau y bŵm i'n siarad â hwy yn teimlo bod angen parhau â'r pwyslais ar elfen creu capasiti Cymunedau yn Gyntaf. A wnewch fy sicrhau na chaiff yr elfen hon ei cholli'n llwyr? Dim ond pan fydd hynny'n gweithio'n iawn y bydd y gweddill yn dilyn—buom yn siarad am sgiliau a chyflogaeth, yn enwedig. Yn olaf, dylem fod yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw fath o amharu neu newid, hyd yn oed os newid er gwell ydyw, nid yn unig yn peri oedi ond hefyd yn gallu achosi i staff a gwirfoddolwyr golli eu hysgogiad os na chaiff ei drin yn iawn. Mae'r bobl hynny'n gwbl hanfodol a hebddynt byddai'r partneriaethau'n chwalu. A fydech yn cytuno felly mai adeiladu ar sail eu gwaith da hwy sy'n bwysig yma, a bod arnom angen eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad o'r newydd i wneud y rhaglen hyd yn oed yn well?

Leighton Andrews: Mae hynny'n wir, a cheir nifer o enghreifftiau o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf llwyddiannus yng Nghwm Cynon, ac mae'r profiad hwnnw wedi'i rannu'n uniongyrchol â ni yn y grŵp gorchwyl a gorffen. Yr oedd rhaglen yn y gorffennol a oedd yn cael ei rhedeg gyda Busnes yn y Gymuned—a datganaf ddiddordeb yma, Ddirprwy Lywydd, gan mai fy ngwraig yw cadeirydd Busnes yn y Gymuned Cymru—a chydag Ymddiriedolaeth y Tywysog hefyd. Yr oedd honno'n ffordd ddefnyddiol, mewn rhai cymunedau, o gynnwys y sector preifat. Yr

that are interested in helping us to bring more private sector partners to the table, and we will follow through on those.

Capacity building will be important where new areas joining the programme. If an area has had a partnership for five to six years, it ought to be moving out of the capacity-building stage and into real delivery. In practice, however, I know that there are some partnerships that are still well behind the pace on that, but we will be looking to move them through the programme faster, frankly.

You rightly raise the issue of disruption and changes in programmes. We have given a long lead-in to the transition to Communities Next. The Minister issued a statement in August in which it was indicated that we would move to Communities Next in April 2009, so that gave more than 18 months' notice to partnerships of the direction in which we are going. We also made it clear that we are looking to have three-year funding from April 2009, so I would hope that that would give people stability, and a guarantee. I agree that stability is important if people are to be confident about putting their plans into practice, and we want to encourage their confidence and commitment.

Nerys Evans: Thank you for the statement. Plaid supports the aims of the development of the Communities First programme into Communities Next. We must ensure, as has been said previously, that the money is spent effectively. With child poverty and deprivation still far too prevalent, we cannot afford to be spending this money without seeing tangible outcomes. It has been hard for the Communities First partnerships to make a real difference, because the basic question as to what constituted success was not addressed at the start of the Communities First programme. What would you regard as success at the end of the programme? The previous Welsh Assembly Government did not have a clear definition of success across Communities First areas as a whole, and that is a basic issue that we should address right at the start.

ydym eisoes wedi cael trafodaethau gyda nifer o sefydliadau sydd â diddordeb yn ein helpu i ddod â rhagor o bartneriaid o'r sector preifat at y bwrdd, a byddwn yn gweithredu ar sail y trafodaethau hynny.

Bydd meithrin gallu'n bwysig lle mae ardaloedd newydd yn ymuno â'r rhaglen. Os bu partneriaeth mewn ardal am bum neu chwe mlynedd, dylai fod yn symud allan o'r cyfnod meithrin gallu ac yn bwrw ymlaen â chyflawni o ddifrif. Yn ymarferol, fodd bynnag, gwn fod rhai partneriaethau yn dal ymhell ar ei hôl hi o ran hynny, ond ein bwriad, a bod yn onest, yw eu symud ymlaen yn gyflymach drwy'r rhaglen.

Yr ydych yn iawn i godi mater amharu a newidiadau mewn rhaglenni. Yr ydym wedi rhoi cyfnod rhagarweiniol hir i'r newid i Cymunedau Nesaf. Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ym mis Awst yn nodi y byddem yn symud i Cymunedau Nesaf ym mis Ebrill 2009, felly rhoddodd hynny dros 18 mis o rybudd i'r partneriaethau ynglŷn â'r cyfeiriad yr ydym yn symud ynddo. Gwnaethom yn eglur hefyd ein bod yn bwriadu cael cyllid tair blynedd o fis Ebrill 2009, felly byddwn yn gobeithio y byddai hynny'n rhoi sefydlogrwydd i bobl, a gwarant. Cytunaf fod sefydlogrwydd yn bwysig os yw pobl am fod yn hyderus ynglŷn â gweithredu eu cynlluniau, ac mae arnom eisiau annog eu hyder a'u hymrwymiad.

Nerys Evans: Diolch ichi am y datganiad. Mae Plaid Cymru'n cefnogi amcanion datblygu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i greu Cymunedau Nesaf. Rhaid inni sicrhau, fel y dywedwyd eisoes, bod yr arian yn cael ei wario'n effeithiol. Mae tlodi plant ac amddifadedd yn dal yn llawer rhy gyffredin, ac felly ni allwn fforddio gwario'r arian hwn heb weld canlyniadau sylweddol. Bu'n anodd i'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wneud gwir wahaniaeth, a hynny oherwydd nad aethpwyd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol ynghylch beth oedd gyfystyr â llwyddiant ar ddechrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Beth fydddech chi'n ei ystyried yn llwyddiant ar ddiwedd y rhaglen? Nid oedd gan Lywodraeth flaenorol Cynulliad Cymru ddiffiniad clir o lwyddiant ledled yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf oll ynghyd, ac mae hwnnw'n fater sylfaenol y dylem

fynd i'r afael ag ef ar y cychwyn cyntaf.

I welcome the fact that Plaid's concerns have been taken on board, and that Plaid in Government is changing policy and delivering where the previous administration failed. We also welcome, in that regard, the introduction of the SMART concept, whereby all partnerships will agree targets that are SMART—specific, measurable, achievable, realistic and timed. Within the Communities First budget, some money was allocated for capital projects. What will the situation be under Communities Next? Also, under the Communities First programme, there were 10 communities of interest, covering issues such as rural deprivation, and young people's groups in Pembrokeshire. How will you develop and enhance this category under Communities Next, and how do you assess the continuation of funding for those groups?

Hoffwn hefyd ofyn am fecanwaith gweithredu Cymunedau Nesaf. Ai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw edrych ar ddatblygu a chefnogi ardaloedd yn fwy eang i gyflawni ystod eang o brosiectau dros sawl ardal Cymunedau yn Gyntaf, fel y gwelwn mewn sawl ardal ar hyn o bryd? O ystyried maint y gyllideb, mae'n rhaid ystyried a all Cymunedau Nesaf cael ei alw yn rhaglen adfywio. Yn Lloegr, gwerir, yn gyfatebol, hanner holl gyllideb Cymru ar gyfer rhaglenni adfywio mewn un ward mewn rhai ardaloedd.

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn rhaglen datblygu cymunedol mewn sawl ardal. Mae hynny'n wahanol i adfywio. Mae gan ddatblygu cymunedol rôl bwysig i'w chwarae. Beth yw eich barn ar hwn?

Leighton Andrews: I agree with some of that. The SMART targets were introduced by the last administration as a result of the interim evaluation. That evaluation found that the Communities First programme had been innovative in a number of key respects: that it was not prescriptive, and that it worked from the bottom up. An important element of the programme at the beginning was that we were looking to encourage

Croesawaf y ffaith bod pryderon Plaid Cymru wedi'u derbyn, a bod Plaid Cymru mewn Llywodraeth yn newid polisiau ac yn cyflawni lle methodd y weinyddiaeth flaenorol. Yn hynny o beth, yr ydym hefyd yn croesawu cyflwyno'r cysyniad CAMPUS, lle bydd pob partneriaeth yn cytuno ar dargedau CAMPUS—cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Yng nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf, dyrannwyd rhywfaint o arian ar gyfer prosiectau cyfalaf. Beth fydd y sefyllfa dan Cymunedau Nesaf? Hefyd, dan raglen Cymunedau yn Gyntaf, yr oedd 10 cymuned fuddiant, yn cwmpasu materion megis amddifadedd gwledig, a grwpiau pobl ifanc yn sir Benfro. Sut y byddwch yn datblygu ac yn hybu'r categori hwn dan Cymunedau Nesaf, a sut yr ydych yn asesu parhad y cyllid ar gyfer y grwpiau hynny?

I would also like to ask about the Communities Next operational mechanism. Is it the Welsh Assembly Government's intention to consider developing and supporting wider areas to implement a wide range of projects over a number of Communities First areas, as we are currently seeing in a number of areas? Given the size of the budget, we must consider whether Communities Next can be called a regeneration programme. In the corresponding programme in England, a sum equivalent to half the entire Welsh budget is spent on regeneration programmes in one ward in some areas.

Communities First has been a community development programme in many areas. That is not the same as regeneration. Community development has an important role to play. What do you think?

Leighton Andrews: Cytunaf â rhywfaint o hynny. Cyflwynwyd y targedau CAMPUS gan y weinyddiaeth ddiwethaf yn sgil y gwerthusiad dros dro. Canfu'r gwerthusiad hwnnw bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn arloesol mewn nifer o ffyrdd allweddol: nad oedd yn gyfarwyddol, a'i bod yn gweithio o lawr gwlad i fyny. Elfen bwysig o'r rhaglen ar y cychwyn oedd bod arnom eisiau annog cymunedau i gymryd

communities to engage directly in defining what mattered to them. In taking this forward, we will look at the 10 communities of interest, and they are referred to in the document. To put it bluntly, there are questions about the success of some of those. Some have been successful, but there are question marks over others. In terms of measuring success, we are setting out critical success factors in the consultation document.

In moving to Communities Next, it is not our intention to change the boundaries of wards or anything like that in the way that we currently support partnerships. We want to spread best practice and we want some of the most successful partnerships to consider whether they might be able to offer support more widely across the entire programme. One should not get too carried away by comparison with, for example, the new deal for communities in England. I have looked at the review of that scheme and many of the issues that are raised in relation to that are similar to those that you would expect to find in approaches to community regeneration anywhere. As for the budget for the new deal for communities, we have to recognise that it was supporting far fewer places in England. That was a deliberate decision. We have decided to support a wider range of communities. If you look proportionately at the amount of money that we have spent over the last five to six years, it compares favourably, percentage wise, with the money that has been spent on communities in England. People need to remember that we are talking about expenditure over a number of financial years, and not in single financial years.

Huw Lewis: Communities Next, as described by Leighton today, is the logical and much needed next step in our grass-roots approach to regeneration. I would like to briefly pay personal tribute to Leighton, who has certainly hit the ground running on these issues.

In taking forward Communities Next, I am glad to read that the Assembly Government will consult widely. I hope that the Deputy Minister therefore agrees with me that, as we ask partnerships in Wales to up their game, particularly in relation to focusing on the

rhan uniongyrchol wrth ddiffinio'r hyn oedd yn bwysig iddynt hwy. Wrth fwrw ymlaen â hyn, byddwn yn edrych ar y 10 cymuned fuddiant, a chyfeirir atynt yn y ddogfen hon. A dweud y gwir yn blaen, ceir cwestiynau ynglŷn â llwyddiant rhai o'r rheini. Bu rhai yn llwyddiannus, ond ceir marciau cwestiwn ynglŷn ag eraill. O ran mesur llwyddiant, yr ydym yn nodi ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo yn y ddogfen ymgynghori.

Wrth symud i Cymunedau Nesaf, nid ydym yn bwriadu newid ffiniau wardiau nac unrhyw beth felly o ran y modd yr ydym yn cefnogi partneriaethau ar hyn o bryd. Mae arnom eisiau lledaenu'r arferion gorau ac yr ydym am i rai o'r partneriaethau mwyaf llwyddiannus ystyried tybed a allent gynnig cefnogaeth yn ehangach ledled y rhaglen gyfan. Ni ddylid canolbwyntio gormod ar y gymhariaeth â'r fargen newydd i gymunedau yn Lloegr, er enghraifft. Yr wyf wedi edrych ar yr adolygiad o'r cynllun hwnnw ac mae llawer o'r materion a godir yng nghyswllt hynny yn debyg i'r rhai y byddech yn disgwyl eu canfod mewn dulliau adfywio cymunedol yn unrhyw le. O ran y gyllideb ar gyfer y fargen newydd i gymunedau, mae'n rhaid inni gydnabod ei bod yn cefnogi llawer llai o leoedd yn Lloegr. Yr oedd hwnnw'n benderfyniad bwriadol. Yr ydym wedi penderfynu cefnogi amrywiaeth ehangach o gymunedau. Os edrychwch ar faint o arian yr ydym wedi'i wario dros y pum neu'r chwe mlynedd diwethaf yn gyfatebol, mae'n cymharu'n dda, o ran y ganran, â'r arian a wariwyd ar gymunedau yn Lloegr. Mae angen i bobl gofio ein bod yn sôn am wariant dros nifer o flynyddoedd ariannol, ac nid mewn blynyddoedd ariannol unigol.

Huw Lewis: Cymunedau Nesaf, fel y'i disgrifiwyd gan Leighton heddiw, yw'r cam nesaf synhwyrol yn ein dull o adfywio ar lawr gwlad, ac mae angen mawr amdano. Hoffwn, yn fyr, roi teyrnged bersonol i Leighton, sy'n sicr wedi mynd ati'n ddiymdroi i ymdrin â'r materion hyn.

Wrth fwrw ymlaen â Chymunedau Nesaf, yr wyf yn falch o ddarllen y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori'n eang. Gobeithiaf fod y Dirprwy Weinidog yn cytuno â mi felly, wrth inni ofyn i bartneriaethau yng Nghymru fynd gam

wealth of people within their communities, we must also identify how we can improve the support offered to Communities First partnerships in Wales. You have mentioned the need to develop, or reform, the Communities First support network; I mentioned that in my review back in 2004. The 2006 evaluation also picked up the need for a revamped support mechanism. Will you agree, as part of this consultation, to look at the Scottish example of sharing best practice among partnerships and between the centre and the partnerships?

2.00 p.m.

Leighton Andrews: Thank you for your kind remarks at the beginning of your speech. The work that you did as Deputy Minister in this area has been very important in forming the approach that was taken to developing the interim evaluation. I congratulate you on that and thank you on behalf of the Assembly. I also pay tribute, in her absence, to the work done by Mrs Hart in this area. You are right to identify the need for us to look at support, and we are going to look carefully at the kind of support that is offered. As we say in the document, support for Communities First partnerships is currently given in four different ways. We can review that. It can mean savings, bluntly, that can go to the front line.

The interim evaluation had several comments to make about the operation of the Communities First support network, as have you today and previously. We must carefully examine what is being delivered and what we want to be delivered. Therefore, the Communities First support network is also one of those organisations whose work is being reviewed within the overall review of support. We have carried on funding for them for a further six months but we need to be clear about what we want to do in terms of support.

I have looked at some of the evidence from Scotland already. I do not mind where the best practice that we learn from comes from,

ymhellach, yn enwedig o ran canolbwyntio ar gyfoeth pobl yn eu cymunedau, ei bod yn rhaid inni hefyd ganfod sut y gallwn wella'r gefnogaeth a gynigir i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Yr ydych wedi sôn am yr angen i ddatblygu, neu ddiwygio, rhwydwaith cefnogi Cymunedau yn Gyntaf; soniais am hynny yn fy adolygiad yn ôl yn 2004. Tynnodd gwerthusiad 2006 sylw hefyd at yr angen i ailwampio'r dulliau cefnogi. A gytunwch, fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, i edrych ar enghraifft yr Alban o ran rhannu'r arferion gorau ymhlith y partneriaethau a rhwng y canol a'r partneriaethau?

Leighton Andrews: Diolch am eich sylwadau caredig ar ddechrau'ch araith. Mae'r gwaith a wnaethoch fel Dirprwy Weinidog yn y maes hwn wedi bod yn bwysig iawn wrth ffurfio'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gwerthusiad dros dro. Hoffwn eich llongyfarch ar hynny a diolch ichi ar ran y Cynulliad. Rhoddaf deyrnged hefyd, yn ei habsenoldeb, i'r gwaith a wnaethpwyd gan Mrs Hart yn y maes hwn. Yr ydych yn llygad eich lle fod angen inni edrych ar gefnogaeth, a byddwn yn edrych yn ofalus ar y math o gefnogaeth a gynigir. Fel y dywedwn yn y ddogfen, rhoddir cefnogaeth i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf mewn pedair ffordd wahanol ar hyn o bryd. Gallwn adolygu hynny. A siarad yn blaen, gall arwain at arbedion a all fynd i'r rheng flaen.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau yn y gwerthusiad interim, fel y gwnaethoch chi heddiw ac o'r blaen, am weithredu'r rhwydwaith cefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Rhaid inni archwilio'n ofalus yr hyn sy'n cael ei ddarparu a'r hyn y dymunwn ei ddarparu. Felly, mae gwaith y rhwydwaith cefnogi Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn cael ei adolygu, ymhlith mudiadau eraill, yn yr adolygiad cyffredinol o gefnogaeth. Yr ydym wedi parhau i ddarparu cyllid iddynt am chwe mis arall, ond mae angen inni fod yn glir am yr hyn yr ydym am ei wneud o ran cefnogaeth.

Yr wyf eisoes wedi edrych ar rywfaint o'r dystiolaeth o'r Alban. Nid wyf yn poeni o ble y daw'r arfer gorau inni ddysgu oddi wrtho,

whether it is Scotland, England, the United States or anywhere else. We should be looking to absorb the best of good practice in respect of community regeneration, and we will do that.

Jeff Cuthbert: Thank you for this statement, which I applaud. I agree in large part with my colleagues, Christine and Huw, so I do not need to repeat the points that they made, except to say that you will know that, in the constituency of Caerphilly, many Communities First wards and sub-wards have benefited from the scheme and, certainly, far more positives than negatives have come out of the work done so far.

I welcome the fact that paragraph 4.13 of the consultation document states that there will be clear engagement with the structural funds and, naturally, I look forward to working with you and the Communities Next partnerships in that regard.

In paragraph 4.14, there is a highly relevant section on sustainable structures for local leadership. Do you agree that the development of partnerships and leadership that will encourage sustainable approaches, avoiding the grant culture, is important and that people need to realise that they have to have exit strategies? This support will not be there forever and it is important that professional and business-like approaches are developed in local partnerships.

Paragraph 4.18 is on training and personal development. I applaud the notion that those engaged in the management of Communities Next partnerships, whether they are paid or voluntary, should be encouraged to develop work towards national occupational standards, so that the work that they do can be evidenced and they can receive credit and qualifications in due course for the work that they have done. That would raise their own professional status, thereby, no doubt, helping to encourage many into the full-time employment market.

Leighton Andrews: I was recently drenched in Caerphilly county borough when I was

boed o'r Alban, o Loegr, o'r Unol Daleithiau, neu o unrhyw le arall. Dylem fod yn ceisio derbyn yr arfer gorau o ran adfywio cymunedol, a byddwn yn gwneud hynny.

Jeff Cuthbert: Diolch yn fawr am y datganiad hwn. Yr wyf yn ei gymeradwyo. Cytunaf i raddau helaeth â'm cyd-Aelodau, Christine a Huw, felly, nid oes angen imi ailadrodd y pwyntiau a wnaed ganddynt, heblaw dweud y byddwch yn gwybod, yn fy etholaeth i yng Nghaerffili, fod nifer o wardiau ac is-wardiau Cymunedau yn Gyntaf wedi cael budd o'r cynllun, ac yn sicr mae llawer mwy o bethau da nag o bethau drwg wedi dod allan o'r gwaith hyd yma.

Croesawaf y ffaith fod paragraff 4.13 yn y ddogfen ymgynghori yn dweud y bydd cysylltiad clir â'r cronfeydd strwythurol, ac, yn naturiol, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'r partneriaethau Cymunedau Nesaf yn y cyswllt hwnnw.

Ym mharagraff 4.14, mae adran hynod berthnasol ar strwythurau cynaliadwy ar gyfer arweinyddiaeth leol. A ydych yn cytuno y bydd meithrin partneriaethau ac arweinyddiaeth i annog dulliau gweithio cynaliadwy, gan osgoi'r diwylliant grantiau, yn bwysig a bod angen i bobl sylweddoli ei bod yn rhaid iddynt gael strategaethau ymadael? Ni fydd y gefnogaeth hon ar gael am byth, ac mae'n bwysig i ddulliau busnes a phroffesiynol gael eu datblygu mewn partneriaethau lleol.

Mae paragraff 4.18 yn sôn am hyfforddiant a datblygiad personol. Cymeradwyaf y cysyniad y dylid annog y rheini sy'n ymwneud â rheoli partneriaethau Cymunedau Nesaf, os ydynt yn cael eu talu'n neu'n gwneud y gwaith yn wirfoddol, i ddatblygu'r gwaith tuag at safonau galwedigaethol cenedlaethol, fel y gallant roi tystiolaeth am y gwaith a wnânt a chael credydau a chymwysterau maes o law am y gwaith y maent wedi'i wneud. Byddai hynny'n codi eu statws proffesiynol, ac yn ddi-os yn helpu annog nifer ohonynt i fynd i mewn i'r farchnad waith lawn amser.

Leighton Andrews: Gwlychais at y croen ym mwrdeistref sirol Caerffili yn ddiweddar

visiting community activities there, and I have no doubt, from what I have seen on the ground, that there is a lot of good activity going on—[*Interruption.*] Yes, I was baptised. Thank you, First Minister.

We will welcome input in terms of how we can ensure that the structural funds deliver directly in respect of Communities First partnerships, but we have already indicated, specifically in relation to the outcome fund, that we would hope to create that fund and that we may well see the development of a proposal in that area.

You made a point about sustainable structures and local leadership, and that touches on what other colleagues raised earlier in respect of local, political engagement with Communities First. We want to see positive engagement with Communities First partnerships and it is important that that takes place on the ground.

You are right to identify the issue of sustainability and avoiding long-term grant dependency, but it is unlikely that many Communities First partnerships would progress to full sustainability and we perhaps need some short-term sustainability measures, which we talk about in the document. For example, it is legitimate for us to consider the ability of successful partnerships to leverage additional funding in their areas. However, many of the more successful partnerships aspire to be social enterprises, and we saw that today in New Sandfields Aberavon. They should aspire to that important goal.

In respect of the accreditation of people working in Communities First partnerships as part of their work, many Communities First co-ordinators are currently taking postgraduate qualifications at the University of Glamorgan. We are seeing a whole series of different engagements in training. At the top end, as I said, people are going on to postgraduate qualification, but people are also gathering qualifications at the entry level. Therefore, much of that is already

pan oeddwn yn ymweld â gweithgareddau cymunedol yno, ac nid oes dwywaith, o'r hyn yr wyf wedi'i weld ar lawr gwlad, nad oes llawer o weithgareddau da yn mynd ymlaen—[*Torri ar draws.*] Do, cefais fy medyddio. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Byddwn yn croesawu syniadau sut y gallwn sicrhau bod y cronfeydd strwythurol yn cyflawni'n uniongyrchol o ran partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Ond yr ydym eisoes wedi dynodi, yn benodol o ran cyllido ar sail canlyniadau, y byddem yn gobeithio sefydlu'r gronfa honno, ac mae'n ddigon posibl y caiff cynnig ei ddatblygu yn y maes hwnnw.

Codwyd pwynt gennych am strwythurau cynaliadwy ac arweinyddiaeth leol, ac mae hynny'n adleisio'r hyn a ddywedodd cyd-Aelodau eraill yn gynharach am ymlyniad lleol, gwleidyddol â Chymunedau yn Gyntaf. Yr ydym am weld ymlyniad cadarnhaol â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'n bwysig i hynny ddigwydd ar lawr gwlad.

Yr ydych yn iawn i godi mater cynaliadwyedd ac osgoi'r ddibyniaeth ar grantiau tymor hir, ond mae'n annhebygol y bydd nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn tyfu i fod yn hollol gynaliadwy, ac efallai bod arnom angen rhai mesurau cynaliadwyedd tymor byr, sef yr hyn y soniwn amdano yn y ddogfen. Er enghraifft, mae'n deg inni ystyried gallu partneriaethau llwyddiannus i geisio negodi cyllid ychwanegol yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae nifer o'r partneriaethau mwy llwyddiannus yn anelu at fod yn fentrau cymdeithasol, a gwelsom hynny heddiw yn New Sandfields yn Aberafan. Dylent anelu at y nod pwysig hwnnw.

O ran achredu pobl sy'n gweithio mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o'u gwaith, mae llawer o gydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf eisoes yn astudio am gymwysterau ôl-radd ym Mhrifysgol Morgannwg. Gwelwn gyfres gyfan o ddulliau gwahanol o ymwneud â hyfforddiant. Ar yr haen uchaf, fel y dywedais, mae pobl yn astudio am gymwysterau ôl-radd, ond mae pobl hefyd yn ennill cymwysterau ar y lefel mynediad. Felly, mae hyn yn digwydd i

taking place.

raddau helaeth yn barod.

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:

1. suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 4 to establish a Committee of the Whole Assembly to be considered in Plenary on Wednesday 30 January 2008;

1. yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 4 i sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 30 Ionawr 2008;

2. suspends Standing Order Nos. 10.29 and 10.30 in relation to the committee's meeting on Thursday 31 January 2008; and

2. yn atal Rheolau Sefydlog Rhifau 10.29 a 10.30 mewn perthynas â chyfarfod y pwyllgor ddydd Iau 31 Ionawr 2008; a

3. suspends Standing Order No. 10.18, to enable the Assembly to agree the Chair of the Committee of the Whole Assembly. (NDM3855)

3. yn atal Rheol Sefydlog Rhif 10.18, i alluogi'r Cynulliad i gytuno ar Gadeirydd y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan. (NDM3855)

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that we suspend Standing Orders. Does any Member object? I see that no-one does. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn atal Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan Establishment of a Committee of the Whole Assembly

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. in accordance with Standing Order No. 21, establishes a Committee of the Whole Assembly;

1. yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21, yn sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan;

2. determines that the membership of the

2. yn penderfynu y bydd y pwyllgor yn

committee shall comprise all the Assembly Members and shall be chaired by the Presiding Officer; cynnwys holl Aelodau'r Cynulliad ac y bydd y Llywydd yn cadeirio;

3. the committee's remit shall be to participate in discussions with Vice President Wallström on matters relating to Europe; 3. cylch gorchwyl y pwyllgor fydd cymryd rhan mewn trafodaethau â'r Is-lywydd Wallström ar faterion sy'n ymwneud ag Ewrop;

4. the committee shall cease to exist after its meeting on 31 January 2008. (NNDM3856) 4. bydd y pwyllgor yn dod i ben ar ôl ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008. (NNDM3856)

The Deputy Presiding Officer: Does any Member object to the proposal? I see that no-one does. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Y Dirprwy Lywydd: A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Camddefnyddio Sylweddau Substance Misuse

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones and amendments 2 and 3 in the name of Kirsty Williams.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Kirsty Williams.

Mark Isherwood: I propose that

Mark Isherwood: Cynigiau fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. notes the Welsh Assembly Government's 2007 annual substance misuse strategy progress report;

1. yn nodi adroddiad cynnydd blynyddol 2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y strategaeth camddefnyddio sylweddau;

2. believes the Assembly Government must urgently review its current arrangements for commissioning, contracting, assessment and management of substance misuse tier 4 treatment service in Wales. (NDM3852)

2. yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad fynd ati ar unwaith i adolygu ei threfniadau cyfredol ar gyfer comisiynu, contractio, asesu a rheoli gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau haen 4 yng Nghymru. (NDM3852)

We note the Assembly Government's 2007 annual substance misuse strategy progress report that was e-mailed to Members, but never debated. We also note the intended publication next month of the Assembly Government's draft consultation document on its new substance misuse strategy. However, we cannot welcome the Assembly Government's claimed progress in addressing

Nodwn adroddiad cynnydd blynyddol Llywodraeth y Cynulliad yn 2007 ar y strategaeth camddefnyddio sylweddau. Anfonwyd yr adroddiad at Aelodau drwy'r e-bost, ond ni chafwyd dadl yn ei gylch. Nodwn hefyd y bwriad fis nesaf i gyhoeddi drafft o ddogfen Llywodraeth y Cynulliad i ymgynghori ar ei strategaeth newydd ar gamddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, ni

substance misuse when serious concerns have been brought to our attention. We believe that the Assembly Government must, therefore, urgently review its current arrangements on commissioning, contracting, assessment and management of substance misuse treatment services.

The Assembly Government's progress report is full of good intentions, key performance indicators, toolkits and frameworks, but there is little recognition of the systematic problems and inflexible policies that hamper substance misuse treatments. It refers to increased funding, but that must be seen in the context of big increases in demand. Client numbers increased by 29 per cent to nearly 36,000 last year—that is up 20 per cent for drugs and 40 per cent for alcohol.

The Assembly Government states that its new strategy will give greater prominence to the misuse of alcohol—it will have to. That prominence needs to be massively greater. While alcohol harm has increased, the gulf between treatment and need has widened.

The Assembly Government states that its substance misuse core education prevention programme is delivered in partnership between schools and police, and that its drug intervention programmes encourage offenders to engage with treatment services and offer support when a drug-misusing offender reaches the end of a prison-based treatment programme. However, the Choose Life programme receives no Welsh funding. That programme operates in both Altcourse and Walton prisons, where most north Wales offenders are incarcerated, and I understand that it runs out of funding in April.

Choose Life also takes the message straight to young people in schools and colleges, presented by ex-offenders and ex-addicts—the very people to whom the hardest to reach and most vulnerable young people can, and will, relate. This good work must be

allwn groesawu cynnydd honedig Llywodraeth y Cynulliad wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau gan fod pryderon difrifol wedi dod i'n sylw. Credwn ei bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad, felly, adolygu ar unwaith ei threfniadau presennol ar gomisiynu, contractio, asesu a rheoli gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Mae adroddiad cynnydd Llywodraeth y Cynulliad yn llawn bwriadau da, dangosyddion perfformiad allweddol, pecynnau offer a fframweithiau, ond ychydig iawn o gydnabyddiaeth sydd i'r problemau systematig a'r polisiau anhyblyg sy'n llesteirio triniaethau am gamddefnyddio sylweddau. Mae'n cyfeirio at fwy o gyllid, ond rhaid edrych ar hynny yng nghyd-destun cynnydd sylweddol yn y galw. Cynyddodd nifer y cleientiaid 29 y cant i bron 36,000 y llynedd—cynnydd o 20 y cant ar gyfer cyffuriau a 40 y cant ar gyfer alcohol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud y bydd ei strategaeth newydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i gamddefnyddio alcohol—bydd yn rhaid iddi. Mae angen rhoi llawer iawn mwy o amlygrwydd i'r mater. Tra mae niwed alcohol wedi cynyddu, mae'r bwlch rhwng triniaeth ac angen wedi cynyddu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud bod ei rhaglen addysg graidd ar atal camddefnyddio sylweddau yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth rhwng ysgolion a'r heddlu, a bod ei rhaglenni ymyrryd ar gyffuriau yn annog troseddwr ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau triniaeth, a bod cymorth yn cael ei gynnig pan fydd troseddwr sy'n camddefnyddio cyffuriau ar fin gorffen rhaglen driniaeth yn y carchar. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen Dewis Bywyd yn cael yr un geiniog goch o Gymru. Mae'r rhaglen honno ar waith yng ngharchardai Altcourse a Walton, lle mae'r rhan fwyaf o droseddwr o'r gogledd yn cael eu carcharu, a deallaf y daw'r cyllid i ben ym mis Ebrill.

Mae Dewis Bywyd hefyd yn cyfleu'r neges yn uniongyrchol i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau, yn cael ei chyflwyno gan gyn-droseddwr a phobl a fu'n gaeth—sef yr union bobl y gall y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd

supported, as must the work of Dangerpoint in Flintshire, which delivers hands-on safety education to children and young people from across north Wales; that should be duplicated throughout Wales. It also has funding concerns. The same is true of the *Don't Touch—Tell!* scheme run by CAIS in primary schools.

The Assembly Government states that it supports the work of community safety partnerships to encourage increased GP and pharmacy engagement. There is a place for detoxification in the community, but, as a GP told the Social Justice and Regeneration Committee in the second Assembly, that is conditional on the GP having the personal commitment and necessary expertise.

Lloydspharmacy is the largest community pharmacy chain in Wales. As it states, substance misuse is a serious problem across all communities in Wales and community pharmacy makes a valuable contribution to providing services by offering needle exchange, supervised consumption and health promotion programmes. Sound advice in a community setting also improves health outcomes and reduces the burden on other healthcare professionals. Lloydspharmacy is keen to work with the Assembly Government to develop the significant role of community pharmacy, and that was said yesterday, in case the Minister is about to say that he is already working closely with it.

However, Lloydspharmacy reports barriers to service provision for substance misuse services, including ad-hoc commissioning of services, short-term funding streams, lack of adequate training provision and inconsistency in service delivery. The Assembly Government states that implementation of the 'Hidden Harm' report has been a key priority. However, UK and Assembly Government harm reduction strategies have failed to address drug and alcohol problems, either in terms of breaking the cycle of addiction, or in terms of recovery.

uniaethu â nhw. Rhaid cefnogi'r gwaith da hwn, yn ogystal â gwaith Dangerpoint yn sir y Fflint, sy'n darparu addysg ymarferol i blant a phobl ifanc ledled y gogledd am ddiogelwch; dylid dyblygu hwnnw ledled Cymru. Mae hefyd yn wynebu pryderon am gyllid. Mae'r un peth yn wir am y cynllun *Paid Cyffwrdd—Dwed!* sy'n cael ei redeg gan CAIS mewn ysgolion cynradd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud ei bod yn cefnogi gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol i annog mwy o ymwneud gan feddygon teulu a fferyllfeydd. Mae lle i ddadwenwyno yn y gymuned, ond fel y dywedodd meddyg teulu wrth y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn yr ail Gynulliad, mae hynny'n dibynnu ar y cwestiwn a oes gan y meddyg teulu yr ymrwymiad personol a'r arbenigedd angenrheidiol.

Lloydspharmacy yw'r gadwyn fwyaf o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Fel y dywedant, mae camddefnyddio sylweddau'n broblem ddifrifol ym mhob cymuned yng Nghymru, ac mae fferyllfeydd cymunedol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu gwasanaethau drwy gynnig cynlluniau cyfnewid nodwyddau, defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth, a rhaglenni hybu iechyd. Mae cael cyngor da mewn man cymunedol hefyd yn gwella canlyniadau iechyd ac yn lleihau'r baich ar weithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd. Mae Lloydspharmacy yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu swyddogaeth arwyddocaol y fferyllfa gymunedol, a dywedwyd hynny ddoe, rhag ofn bod y Gweinidog ar fin dweud ei fod eisoes yn cydweithio'n agos â nhw.

Fodd bynnag, mae Lloydspharmacy yn sôn am rwystrau rhag darparu gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau ad-hoc, ffynonellau cyllido tymor byr, diffyg darparu hyfforddiant digonol ac anghysondebau wrth ddarparu gwasanaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud bod gweithredu'r adroddiad 'Niwed Cudd' wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Fodd bynnag, mae strategaethau lleihau niwed gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â mynd

i'r afael â phroblemau cyffuriau ac alcohol, naill ai o ran torri'r cylch caethiwed neu o ran adfer.

2.10 p.m.

Harm reduction—medical management and maintenance—has a place in treatment, but it should also open many other doors, including the path towards abstinence. We need robust treatment intervention and harm prevention, not just harm reduction. That will require a societal and political commitment to understanding and addressing addiction. Further, rehabilitation treatment—rebuilding lives—has been marginalised, residential services have been run down, and there is a chronic shortage of dual diagnostic treatment for people suffering mental health problems and substance misuse.

The Royal College of Nursing has today called for nurses to have a greater role in tackling substance misuse and alcohol problems in Wales, with a greater emphasis on timely intervention to halt the rise, particularly, of problem drinking. They want an integrated, fully funded national strategy to address drug and alcohol misuse in Wales. As its director in Wales, Tim Donnelly said today,

‘The continued increase in the consumption and misuse of alcohol, along with illicit drugs, needs to be urgently addressed’.

This will require true multi-agency working, which means giving treatment service providers outside the statutory sector a real voice at the strategic level.

When I challenged the former Minister for Social Justice and Regeneration, Edwina Hart, about the loss of beds at the Hafan Wen detoxification unit in Wrexham, I was told that she had commissioned an independent review of detoxification and residential treatment in north Wales, anticipating that this would endorse a switch to detoxification

;Mewn triniaeth, mae lle i leihau niwed—sef cynnal a rheoli meddygol—ond dylai hefyd agor nifer o ddrysau eraill, gan gynnwys y llwybr at ymatal. Mae arnom angen trefniadau cadarn ar gyfer ymyriadau triniaeth ac atal niwed, nid lleihau niwed yn unig. Bydd hynny'n gofyn am ymrwymiad gwleidyddol a chymdeithasol i ddeall beth yw bod yn gaeth ac i fynd i'r afael ag ef. Yn ogystal, mae triniaeth adsefydlu—sef ailadeiladu bywydau—wedi ei gwthio i'r cyrion, mae gwasanaethau preswyl wedi dirywio ac mae prinder dybryd o driniaeth ddiagnostig ddeuaidd i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol heddiw wedi galw am gael mwy o rôl i nyrsys wrth fynd i'r afael â phroblemau alcohol a chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, a mwy o bwyslais ar ymyrryd ar yr amser cywir i atal y twf mewn yfed problemus, yn benodol. Maent am weld strategaeth genedlaethol integredig yn cael ei chyllido'n llawn i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yng Nghymru. Fel y dywedodd Tim Donnelly, y cyfarwyddwr, heddiw,

Mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r cynnydd parhaus mewn yfed a chamddefnyddio alcohol, a chymryd a chamddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon.

Bydd angen gweithio mewn modd gwirioneddol aml-asiantaethol, sy'n golygu rhoi llais go iawn ar lefel strategol i ddarparwyr gwasanaethau triniaeth sydd y tu allan i'r sector statudol.

Pan heriais Edwina Hart, y cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ynghylch colli gwelyau yn yr uned ddadwenwyno yn Hafan Wen yn Wrecsam, dywedodd wrthyf ei bod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o driniaeth dadwenwyno a phreswyl yn y gogledd, gan ragweld y byddai hwnnw'n cymeradwyo

in the community. Instead, this found that the whole service, including in-patient beds, is underfunded. When I put this to the Minister, she told me that she did not accept it. Perhaps she and her successor do not accept either the 130 people from north Wales who are on waiting lists to get in, or the deaths among those waiting.

A further independent review was then commissioned, looking at current treatment arrangements for substance misuse tier 4 treatment services in Wales. The report of this review has still not been published, although a summary was leaked to me last November. This identified numerous reports of people reoffending so as to be able to detoxed in prison, and of hospital admissions because of the unavailability of in-patient detoxification and residential rehabilitation. It found that assessment of need is inconsistent and lacking clarity for in-patient detoxification and residential rehabilitation. It also found that there are no facilities in Wales that provide residential detoxification and rehabilitation on the same site. Furthermore, in some areas, neither in-patient detoxification nor residential rehabilitation are an available treatment option, and referral and commissioning pathways are mostly bureaucratic, seemingly designed, in many instances, to prevent clients from accessing treatment.

It recommended a national strategy for developing a network of in-patient detoxification and residential rehabilitation providers. However, despite this, local health boards have refused to reverse their decision to reduce beds commissioned, stating that they are instead promoting community-based services in accordance with Assembly Government policy. Meanwhile, commissioners from England are queuing up to purchase those Welsh beds.

A 3 December conference discussed the findings of the tier 4 review, but the Assembly Government then invited residential service providers from across

newid i ddadwenwyno yn y gymuned. Yn hytrach, darganfu'r adolygiad nad oedd y gwasanaeth cyfanrwydd yn cael ei gyllido'n ddigonol, gan gynnwys gwelyau cleifion mewnol. Pan soniais wrth y Gweinidog am hyn, dywedodd nad oedd yn derbyn hynny. Efallai nad yw hi na'i holnydd yn derbyn ychwaith y 130 o bobl o'r gogledd sydd ar restr i aros i gael mynd i mewn, nac ychwaith nifer y marwolaethau wrth ddisgwyl.

Yna, comisiynwyd adolygiad annibynnol pellach, yn edrych ar y trefniadau triniaeth presennol ar gyfer gwasanaethau trin am gamddefnyddio sylweddau haen 4 yng Nghymru. Yr ydym yn dal i ddisgwyl cyhoeddi adroddiad yr adolygiad hwn, er imi gael copi o grynodedb drwy ddirgel ffyrdd fis Tachwedd diwethaf. Yr oedd hwnnw'n tynnu sylw at nifer o adroddiadau am bobl yn aildroeddu er mwyn gallu cael gwasanaeth dadwenwyno yn y carchar, a phobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty am nad oedd dadwenwyno cleifion mewnol nac adsefydlu preswyl ar gael. Darganfu'r adroddiad fod asesu angen yn anghyson ac yn brin o eglurder ar gyfer dadwenwyno cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl. Darganfu hefyd nad oes cyfleusterau yng Nghymru sy'n darparu triniaeth ddadwenwyno ac adsefydlu preswyl ar yr un safle. At hynny, mewn rhai ardaloedd nid yw dadwenwyno cleifion mewnol nac adsefydlu preswyl yn ddewis sydd ar gael, ac mae llwybrau cyfeirio a chomisiynu yn fiwrocataidd ar y cyfan ac wedi eu llunio, mae'n ymddangos, mewn llawer achos, i atal cleientiaid rhag gallu cael triniaeth.

Argymhellodd greu strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu rhwydwaith o ddarparwyr triniaeth dadwenwyno cleifion mewn ysbytai, ac adsefydlu preswyl. Fodd bynnag, er hyn, mae byrddau iechyd lleol wedi gwrthod newid eu penderfyniad i leihau nifer y gwelyau a gomisiynwyd, gan ddweud eu bod yn hytrach yn hybu gwasanaethau yn y gymuned, yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad. Yn y cyfamser, mae comisiynwyr yn Lloegr yn aros yn eiddgar i brynu'r gwelyau hynny yng Nghymru.

Mewn cynhadledd ar 3 Rhagfyr, trafodwyd darganfyddiadau'r adolygiad haen 4, ond yna gwahoddodd Llywodraeth y Cynulliad ddarparwyr gwasanaethau preswyl ledled

Wales to a 10 January meeting in Merthyr to discuss the report's recommendations. I am advised that Assembly Government officials had little will to take any positive action to implement any of the recommendations. Many service providers expressed extreme dissatisfaction, and at least two made it clear that they would be forced out of business if the process was delayed as was being suggested. The report's author was present, and I am told that he was not happy with the Assembly Government's response, particularly with the lack of will to introduce regional commissioning.

Earlier this month, Tom Hodgson died. Tom was a county councillor for Rhyl South, and he was a good man. He was determined to pilot a residential detoxification and rehabilitation scheme in Wales. At his invitation, I joined a cross-party council fact-finding visit to Ireland. Despite his proposals being rebuffed by the statutory sector partners on the community safety partnership, he was planning the next stage of his campaign. Let us deliver what he fought for as a testament to his selfless work.

We must tackle the current revolving door approach, where, after treatment, people are sent right back to the situation that they came from. Drug and alcohol abusers need treatment, training, housing and introduction to the workplace. We must deliver value for money and real multi-agency working before anyone is discharged from treatment.

The Assembly Government states that its immediate priority is to work with its partners and stakeholders to complete the development of the next substance misuse strategy for Wales. Let us pray that this is not more empty rhetoric. The independent reports will be heeded, even when they do not say what the Assembly Government wants to hear, and the voice of service providers will at last be heard.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I propose

Cymru i gyfarfod ar 10 Ionawr ym Merthyr i drafod argymhellion yr adroddiad. Deallaf fod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gyndyn iawn o gymryd unrhyw gamau cadarnhaol i roi unrhyw rai o'r argymhellion ar waith. Mynegodd nifer o ddarparwyr gwasanaeth eu hanfodlonrwydd llwyr, a dywedodd o leiaf ddau yn blwmp ac yn blaen y byddai eu cwmnïau'n mynd i'r wal petai'r broses yn cael ei gohirio fel yr awgrymwyd. Yr oedd awdur yr adroddiad yn bresennol, a chlywais nad oedd yn hapus ag ymateb Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig y diffyg ewyllys i gyflwyno comisiynu rhanbarthol.

Yn gynharach y mis hwn, bu farw Tom Hodgson. Yr oedd Tom yn gynghorydd sir dros Dde'r Rhyl, ac yn ddyn da. Yr oedd yn benderfynol o dreialu cynllun dadwenwyno ac adsefydlu preswyl yng Nghymru. Gwahoddodd fi i ymuno ag ymweliad i Iwerddon gan holl bleidiau'r cyngor i gasglu ffeithiau. Er bod partneriaid yn y sector statudol ar y bartneriaeth diogelwch cymunedol wedi wfftio'i gynigion, yr oedd wrthi'n cynllunio'r cam nesaf yn ei ymgyrch. Gadewch inni gyflawni'r hyn y bu'n brwydro drosto fel teyrnged i'w waith diflino.

Rhaid inni roi'r gorau i'r drefn bresennol lle mae pobl, ar ôl cael triniaeth, fel mewn drws tro yn cael eu hanfon yn ôl i'r union amgylchiadau y daethant ohonynt. Mae ar bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol angen triniaeth, hyfforddiant, tai a'u cyflwyno i'r man gwaith. Rhaid inni ddarparu gwerth am arian a gweithio'n wirioneddol rhwng asiantaethau cyn rhyddhau person o driniaeth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud mai ei blaenoriaeth gyntaf yw gweithio gyda'i phartneriaid a'i rhanddeiliaid i gwblhau datblygu'r strategaeth nesaf i ddelio â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Gadewch inni weddio nad mwy o rethreg wag yw hyn, y rhoir sylw i'r adroddiadau annibynnol, hyd yn oed pan na ddywedant yr hyn y mae ar Lywodraeth y Cynulliad eisiau ei glywed, ac y clywir llais darparwyr gwasanaethau o'r diwedd.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian

amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

welcomes the progress in addressing substance misuse and looks forward to the publication next month of the Assembly Government's draft consultation document on its substance misuse strategy.

Peter Black: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

believes that adequate treatment and rehabilitation services should be the cornerstone of substance misuse policy.

Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

condemns the closure of the abstinence programme in Swansea prison.

Although things are not all rosy in the area of substance misuse treatment, there have been significant advances in the past five or six years since the Assembly focused its efforts on dealing with the issue, particularly between 2002 and 2003, when a large amount of money was invested in dealing with the issue. Advances were also made subsequently under the Minister for social justice. The whole issue of substance misuse was refocused and reviewed, and much effort was put into ensuring that resources got to the point of need, that waiting times were dealt with, and that some of the worst crises at that time and which regularly featured in the Welsh media were dealt with. Since that work has been undertaken, we have not had the same sense of crisis around the substance misuse agenda, and it is important that we acknowledge that.

Having said that, not everything is rosy and there are things that need to be improved. Mark Isherwood touched on a number of issues. When we look at substance misuse, tier 4 is very important—residential detoxification and rehabilitation, often

Gibbons): Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac yn ei le rhoi:

yn croesawu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ac yn edrych ymlaen at weld dogfen ymgynghori ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei chyhoeddi mis nesaf ar ei strategaeth camddefnyddio sylweddau.

Peter Black: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu y dylai gwasanaethau trin ac adsefydlu digonol fod yn gonglfaen i bolisi camddefnyddio sylweddau.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn condemnio cau'r rhaglen ymatal yng ngharchar Abertawe.

Er nad yw pethau'n fêl i gyd ym maes triniaeth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau, cymerwyd camau sylweddol ymlaen yn y pum neu chwe blynedd ers i'r Cynulliad ganolbwyntio'i hymdrechion ar ddelio â'r mater, yn enwedig rhwng 2002 a 2003, pan fuddsoddwyd llawer iawn o arian i ddelio â'r mater. Cymerwyd camau pellach wedyn dan y Gweinidog dros gyfiawnder cymdeithasol. Ailganolbwyntiwyd ac adolygwyd holl gwestiwn camddefnyddio sylweddau, ac ymdrechwyd yn galed i sicrhau y byddai adnoddau'n cyrraedd lle'r oedd yr angen, y gwneid rhywbeth ynglŷn ag amserau aros, ac yr ymdrinnid â rhai o'r argyfyngau gwaethaf bryd hynny a oedd yn cael sylw'n rheolaidd yn y cyfryngau Cymreig. Ers ymgymryd â'r gwaith hwnnw, nid ydym wedi cael yr un teimlad o argyfwng o amgylch yr agenda ar gamddefnyddio sylweddau, ac mae'n bwysig inni gydnabod hynny.

Wedi dweud hynny, nid yw popeth yn fêl i gyd ac mae yna bethau y mae angen eu gwella. Cyfeiriodd Mark Isherwood at nifer o bethau. Pan edrychwn ar gamddefnyddio sylweddau, mae haen 4 yn bwysig iawn—mae dadwenwyno ac adsefydlu mewn man

focused on an abstinence agenda, is an important part of that process. However, it must form part of an overall service. Everyone accepts that community detoxification is the way forward, and everyone understands that that is where most of the resources go. Having said that, we must acknowledge that residential services are needed as a back-up, and that some patients who have substance misuse issues will need to go into residential care at some stage either for detoxification treatment or to help them to finally kick the habit as part of an abstinence programme.

Jenny Randerson: I draw your attention to a third aspect, which is addiction to prescription drugs. This creates specific problems that probably cannot be dealt with via the routes that you have outlined. In terms of benzodiazepines, there is only one dedicated clinic in Wales, in Mold. We need addiction clinics for people on prescription drugs throughout Wales. Would you agree that the Minister needs to undertake an audit of the size of the problem in Wales so that we know how much treatment is required?

Peter Black: You are right, Jenny; we need to look at the availability of services across Wales. Having a service in a particular part of Wales does not mean that we should not rely on it serving everyone—people from Cardiff, Swansea or Pembroke cannot be expected to go to Mold for services, and vice versa. That needs to be looked at.

We need to understand the issue in terms of the substance misuse agenda; we are not just talking about drugs and alcohol, but about the abuse of prescription drugs, glue and a whole range of different substances, all of which require a range of treatments and support if we are to deal with the problem. People have died, even when receiving treatment, as a result of addiction to these substances. If people are not treated, or are not treated promptly enough, deaths will occur.

As Mark Isherwood outlined, alcohol is one of the major problems that we face in terms

preswyl, gan ganolbwyntio'n aml ar agenda o ymwrthod, yn rhan bwysig o'r broses honno. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn rhan o wasanaeth cyffredinol. Mae pawb yn derbyn mai dadwenwyno yn y gymuned yw'r ffordd ymlaen, ac mae pawb yn deall mai dyna ble'r aiff y rhan fwyaf o'r adnoddau. Wedi dweud hynny, rhaid inni gydnabod bod angen gwasanaethau preswyl rhag ofn, ac y bydd rhai cleifion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn gorfod cael gofal preswyl ar ryw adeg, naill ai am driniaeth ddadwenwyno neu i'w helpu i roi'r gorau i'r arfer yn derfynol fel rhan o raglen ymwrthod.

Jenny Randerson: Tynnaf eich sylw at drydedd agwedd, sef bod yn gaeth i gyffuriau presgripsiwn. Mae hyn yn creu problemau penodol na ellir delio â hwy, mae'n debyg, yn y ffyrdd a amlinellwyd gennych. O safbwynt bensodiasepinau, dim ond un clinig pwrpasol sydd yng Nghymru, yn yr Wyddgrug. Mae angen clinigau i bobl sy'n gaeth i gyffuriau presgripsiwn drwy Gymru gyfan. A fydddech yn cytuno bod angen i'r Gweinidog fesur maint y broblem yng Nghymru er mwyn inni wybod faint o driniaeth y mae ei hangen?

Peter Black: Yr ydych yn iawn, Jenny; mae angen inni edrych ar argaeledd gwasanaethau ledled Cymru. Nid yw'r ffaith fod gwasanaeth ar gael mewn rhan benodol o'r wlad yn golygu y dylem ddibynnu arno i wasanaethu pawb—ni ellir disgwyl i bobl o Gaerdydd, Abertawe neu Benfro fynd i'r Wyddgrug am wasanaethau, nac i'r gwrthwyneb. Mae angen edrych ar hynny.

Mae angen inni ddeall hyn o ran yr agenda ar gamddefnyddio sylweddau; nid sôn yr ydym am gyffuriau ac alcohol yn unig, ond am gamddefnyddio cyffuriau presgripsiwn, glud a llu o wahanol sylweddau, pob un yn galw am amrediad o driniaethau a chefnogaeth os ydym i ddelio â'r broblem. Mae pobl wedi marw, hyd yn oed pan oeddent yn cael triniaeth, o fod yn gaeth i'r sylweddau hyn. Os na chaiff pobl driniaeth, neu os na chânt eu trin yn ddigon prydlon, bydd marwolaethau.

Fel yr amlinellodd Mark Isherwood, alcohol yw un o'r problemau mawr a wynebwn o ran

of the substance misuse agenda, and the number of people who have alcohol addiction problems far exceeds those who have other addiction problems. This is why a holistic approach to this issue must be taken.

2.20 p.m.

I was starting to outline my view in terms of how the service needs to be all-encompassing. While you must have community support, you must also have residential beds as support for people who need that type of care. Mark focused on the reduction in the number of those beds and the loss of support for this care. Mark referred to Hafan Wen in Wrexham and the reduction in the number of beds there; I understand that this unit used to have 20 beds and now has only 13 beds. The Rhoserchan centre near Aberystwyth is under threat, and Brynawel House, an alcohol residential unit, has issues with its funding. Clearly, there are issues that need to be addressed.

In respect of the amendment, the issue of Swansea prison needs to be highlighted again by the Welsh Assembly Government. A good programme in Swansea prison has been stopped by the Home Office. I hope that the Minister could take up again, with the Home Office, the need to restart that programme, which was clearly linked to other community-based programmes in Swansea. Its loss is regrettable.

*Daeth Lorraine Barrett i'r Gadair am 2.21 p.m.
Lorraine Barrett took the Chair at 2.21 p.m.*

Darren Millar: I am grateful to Mark Isherwood for proposing this motion and for the opportunity to contribute to this important debate. An urgent review of substance misuse tier 4 treatment in Wales is needed. As Members will be aware, I represent a north Wales constituency. Recent evidence delivers a damning verdict with regard to the scale of the substance misuse problem in north Wales. Some areas in north Wales, for example, had the highest rates of deaths per population in Wales last year, with eight out of every 100,000 people killed by drugs; a figure comparable with urban areas of the United

yr agenda ar gamddefnyddio sylweddau, ac mae nifer y bobl sydd â phroblemau o fod yn gaeth i alcohol lawer iawn yn fwy na'r rheini sydd â phroblemau caethiwed eraill. Dyna pam y mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd holistaidd.

Yr oeddwn yn dechrau amlinellu fy marn am y modd y mae angen i'r gwasanaeth fod yn holl-gwmpasol. Er bod yn rhaid wrth gefnogaeth y gymuned, rhaid wrth welyau preswyl hefyd yn gynhaliath i bobl sydd ag angen y math hwnnw o ofal. Canolbwyntiodd Mark ar y lleihad yn nifer y gwelyau hynny a'r modd y mae'r gofal hwn yn colli cefnogaeth. Cyfeiriodd Mark at Hafan Wen yn Wrecsam a'r lleihad yn nifer y gwelyau yn y fan honno; deallaf yr arferai fod 20 gwely yn yr uned hon ac mai 13 yn unig o welyau sydd yno bellach. Mae canolfan Rhoserchan ger Aberystwyth dan fygythiad, ac mae gan Dŷ Brynawel, uned breswyl i bobl sy'n gaeth i alcohol, broblemau ariannu. Yn amlwg, mae yma gwestiynau y mae angen eu hateb.

Ynglŷn â'r gwelliant, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru dynnu sylw eto at bwnc carchar Abertawe. Mae rhaglen dda yng ngharchar Abertawe wedi ei hatal gan y Swyddfa Gartref. Gobeithio y gallai'r Gweinidog sôn eto wrth y Swyddfa Gartref am yr angen i ailgychwyn y rhaglen honno, a oedd wedi'i chysylltu'n glir â rhaglenni eraill yn y gymuned yn Abertawe. Mae ei cholli'n fater i resynu yn ei gylch.

Darren Millar: Yr wyf yn ddiolchgar i Mark Isherwood am roi'r cynnig hwn gerbron ac am y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae angen adolygu triniaeth am gamddefnyddio sylweddau haen 4 yng Nghymru. Fel y gŵyr Aelodau, yr wyf yn cynrychioli etholaeth yn y Gogledd. Mae'r dystiolaeth ddiweddar yn ddamniol ynghylch maint problem camddefnyddio sylweddau yn y Gogledd. Mewn rhai ardaloedd yn y Gogledd, er enghraifft, yr oedd y cyfraddau uchaf o farwolaethau yn ôl poblogaeth yng Nghymru y llynedd, gydag wyth o bob 100,000 o bobl wedi'u lladd gan gyffuriau;

Kingdom, such as Liverpool and Brighton. Other research indicates that roughly 820 people between the ages of 15 and 44 in north Wales are using heroin. That equates to almost 1.2 per cent of the population in north-west Wales. I do not think that the comments of the chief constable of North Wales Police have helped the situation. In fact, I believe that the comments have given the impression that the force is soft on the issue of drugs. The consequences of these statistics are far-reaching, as people experience family breakdown, educational underachievement and crime. More needs to be done to prevent substance misuse taking its destructive course.

I am pleased to hear that the Labour-Plaid Government will soon be publishing a draft consultation document on its substance misuse strategy. This process is long overdue. To be fair, progress is what the people of Wales need, especially those caught up in substance misuse. The Government's failure to discuss the annual substance misuse strategy progress report within Government time demonstrates that the victims and consequences of substance misuse are not a priority for this Labour-Plaid Government. The truth is that the Labour-Plaid Government is once again failing. Not only is it failing, but it is continuing to snub those who actually do care and put that care into practice. There needs to be much more engagement with the voluntary sector, social enterprises and community groups. The Minister needs to listen to the pressing concerns that these organisations are voicing. They are concerns that are validated by the fact that they are voiced by those who are on the ground helping people as best they can on a daily basis within the current flawed framework.

Organisations such as the Touchstones 12 charity, based in Colwyn Bay in my constituency, as it states in its mission statement, is absolutely dedicated to:

'Meet the needs of anyone who is suffering from an alcohol and/or drug dependency problem'.

fffigur y gellir ei gymharu ag ardaloedd trefol y Deyrnas Unedig, fel Lerpwl a Brighton. Yn ôl ymchwil arall, mae rhyw 820 o bobl rhwng 15 a 44 oed yn y Gogledd yn defnyddio heroin. Mae hynny bron yn 1.2 y cant o'r boblogaeth yn y gogledd-orllewin. Nid wyf yn meddwl bod sylwadau prif gwnstabl Heddlu'r Gogledd wedi helpu'r sefyllfa. Yn wir, credaf fod y sylwadau wedi rhoi'r argraff fod yr heddlu'n feddal ar fater cyffuriau. Mae canlyniadau'r ystadegau hyn yn bellgyrhaeddol, wrth i bobl weld teuluoedd yn chwalu, tangyflawni addysgol a throseddau. Mae angen gwneud mwy i atal camddefnyddio sylweddau rhag dilyn ei gwrs dinistriol.

Mae'n dda gennyf glywed y bydd y Llywodraeth Lafur-Plaid yn cyhoeddi drafft o ddogfen ymgynghori cyn hir ar ei strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau. Mae'n hen bryd i hyn ddigwydd. A bod yn deg, mae angen camau cadarnhaol ar bobl Cymru, yn enwedig y rheini sydd wedi'u dal yn rhwyd camddefnyddio sylweddau. Mae'r ffaith na lwyddodd y Llywodraeth i drafod yr adroddiad blynyddol ar hynt y strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau o fewn amser y Llywodraeth yn dangos nad yw'r rhai sy'n dioddef oherwydd camddefnyddio sylweddau yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur-Plaid hon. Y gwir yw bod y Llywodraeth Lafur-Plaid yn methu unwaith eto. Nid yn unig y mae'n methu, ond mae'n parhau i droi ei chefn ar y rheini sy'n gofidio ac sy'n troi'r gofid hwnnw'n weithredu. Mae angen ymwneud llawer mwy â'r sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol. Mae angen i'r Gweinidog wrando ar y pryderon taer y mae'r cyrff hyn yn eu lleisio. Pryderon ydynt a ddilysir gan y ffaith eu bod yn cael eu lleisio gan y rhai sydd ar y ddaear yn helpu pobl gystal ag y gallant o ddydd i ddydd o fewn y fframwaith gwallus presennol.

Mae cyrff fel yr elusen Touchstones 12 ym Mae Colwyn yn fy etholaeth i, fel y dywedir yn eu datganiad cenhadaeth, yn gwbl ymroddedig i:

ateb anghenion unrhyw un sy'n dioddef gan broblem dibyniaeth ar alcohol a/neu gyffuriau.

By providing its abstinence-based residential rehabilitation service, the organisation is offering an incredibly valuable service to service-users and the surrounding area by treating people in this way. Its success stories must not be underestimated. One of its clients said recently, 'I've been to the lowest depths of existence. So much so, I believed it would be better for everybody in my life that I was dead. I tried that, and failed. Then something happened, amidst all this insanity. This organisation saved my life'. This story should be one of the many increasing success stories throughout local areas in Wales. These organisations have the potential to make a huge difference. They would be making a much greater difference if they had the proper support from this Labour-Plaid Government.

Unfortunately, also in my constituency is perhaps the worst example of how to deal with substance misuse. I can see Mark Isherwood smiling as I say this, and other Assembly Members will be aware of the ludicrous plans being pursued by North Wales Police to install a needle vending machine at the rear of a police station in Colwyn Bay.

Leanne Wood: At the beginning of your contribution, you talked about the high number of deaths from substance misuse, and yet you are opposing something that forms part of a harm reduction programme providing safe, clean needles. How on earth do those two statements join up in your thinking?

Darren Millar: If you listen to the rest of my speech, I shall make it quite clear how those two can be reconciled. If the machine is installed, it will be an unsupervised facility, close to residential properties and near to a children's nursery—a wholly inappropriate location. There are already supervised needle exchange facilities in local pharmacies where users can access advice and guidance and be signposted away from their bad habits. There has been unanimous condemnation of the plans for the machine on the part of locally elected representatives, and there is overwhelming public opposition to the plans. Despite this, a planning application was

Wrth ddarparu ei wasanaeth adsefydlu preswyl yn seiliedig ar ymwrthod, mae'r sefydliad yn cynnig gwasanaeth hynod o werthfawr i ddefnyddwyr ac i'r ardal wrth drin pobl fel hyn. Rhaid peidio â thanbrisió'i lwyddiannau. Dywedodd un o'i gleientiaid yn ddiweddar, 'Rydw i wedi bod i ddyfnderoedd isaf bodolaeth. Yn gymaint felly nes imi gredu y byddai'n well i bawb yn fy mywyd petawn yn marw. Ceisiais wneud hynny, a methais. Wedyn digwyddodd rhywbeth, yng nghanol yr holl wallgofrwydd hwn. Achubodd y sefydliad hwn fy mywyd'. Dylai'r stori hon fod yn un o'r nifer cynyddol o straeon am lwyddiant mewn ardaloedd lleol drwy Gymru. Mae gan y sefydliadau hyn y potensial i wneud gwahaniaeth aruthrol. Gwnaent wahaniaeth llawer mwy pe caent gefnogaeth briodol gan y Llywodraeth Lafur-Plaid hon.

Yn anffodus, yn fy etholaeth i hefyd y mae'r enghraifft waethaf efallai o'r ffordd i ddelio â cham-drin sylweddau. Gwelaf fod Mark Isherwood yn gwenu wrth imi ddweud hyn, a bydd Aelodau eraill o'r Cynulliad yn ymwybodol o'r cynlluniau hurt sydd gan Heddlu'r Gogledd i osod peiriant gwerthu nodwyddau y tu cefn i swyddfa heddlu ym Mae Colwyn.

Leanne Wood: Ar ddechrau eich cyfraniad, soniech am nifer uchel y marwolaethau o gamddefnyddio sylweddau, ac eto yr ydych yn gwrthwynebu rhywbeth sy'n rhan o raglen lleihau niwed sy'n darparu nodwyddau glân, diogel. Sut ar y ddaear y mae'r ddau osodiad hynny'n cyd-fynd yn eich meddwl chi?

Darren Millar: Os gwrandewch ar weddill fy araith, dangosaf yn hollol glir sut y gellir cysoni'r ddau beth hynny. Os gosodir y peiriant, bydd yn gyfleuster heb oruchwyliaeth, yn agos at dai pobl ac yn agos at feithrinfa i blant—lleoliad cwbl anaddas. Mae cyfleusterau cyfnewid nodwyddau dan oruchwyliaeth eisoes ar gael mewn fferyllfeydd lleol lle gall defnyddwyr gael cyngor ac arweiniad a chael eu cyfeirio oddi ar eu harferion drwg. Mae'r cynrychiolwyr etholedig lleol wedi bod yn unfryd eu condemniad o'r cynlluniau ar gyfer y peiriant, ac mae gwrthwynebiad llethol ymhlith y cyhoedd i'r cynlluniau. Er

submitted by North Wales Police to the local authority which, of course, refused permission. North Wales Police has appealed this decision, and it has spent almost £26,000 so far on pursuing planning permission for the project. Conwy has also spent thousands of pounds supporting its decision, and yet more thousands have been spent by the collective of other organisations that have contributed to the debate. Perhaps most tellingly—I am coming to the end—

Lorraine Barrett: I shall allow you a further 30 seconds because you took an intervention.

Darren Millar: The Welsh Assembly Government has provided in excess of £10,000 towards the cost of purchasing this machine. In response to the debate, Minister, will you acknowledge that your Government should not have supported such a project, will you withdraw its support, and will you ensure that the taxpayers of my constituency no longer have to foot the bill for such a ludicrous project?

Leanne Wood: Members will be aware that I have made many criticisms of the way in which we help—or in many cases do not help—people who have problems with drugs or alcohol. That said, I agree with Peter Black's point regarding the vast increase in resources in recent years. However, we have not resolved the problem; far from it. One of my main criticisms would be that this Assembly has its hands tied to a great extent by policies designed in Westminster. That is one of the reasons for my being a strong advocate of devolution of the criminal justice system to Wales. Without this, the Welsh Assembly Government has very little room to manoeuvre on this.

New Labour in London has continued with the long-ago lost war against illegal drugs. This war, like other wars that I could mention, has been a complete disaster. We have seen an increase in problematic substance misuse, people are using drugs at much younger ages, and that, coupled with a huge increase in the prison population, is not a good situation at all. Far too much effort

gwaethaf hyn, cyflwynwyd cais cynllunio gan Heddlu'r Gogledd i'r awdurdod lleol, a wrthododd roi caniatâd, wrth gwrs. Mae Heddlu'r Gogledd wedi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ac wedi gwario bron £26,000 hyd yn hyn i geisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect. Mae Conwy hefyd wedi gwario miloedd o bunnoedd yn cefnogi ei benderfyniad, ac mae miloedd yn fwy eto wedi'u gwario gan y lliaws o gyrff eraill sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Efallai yn fwyaf arwyddocaol—yr wyf yn dod tua'r diwedd—

Lorraine Barrett: Rhof 30 eiliad arall ichi oherwydd ichi gymryd ymyriad.

Darren Millar: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu dros £10,000 at gost prynu'r peiriant hwn. Wrth ymateb i'r ddadl, Weinidog, a wnewch chi gydnabod na ddylai eich Llywodraeth fod wedi cefnogi'r fath brosiect, a wnewch chi dynnu ei chefnogaeth yn ôl, ac a wnewch chi sicrhau na fydd yn rhaid mwyach i drethdalwyr yn fy etholaeth i dalu'r bil am brosiect mor chwerthinllyd?

Leanne Wood: Bydd aelodau'n ymwybodol fy mod i lawer gwaith wedi beirniadu'r modd yr ydym yn helpu—neu beidio â helpu, mewn llawer achos—pobl sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol. Wedi dweud hynny, cytunaf â phwynt Peter Black ynglŷn â'r cynnydd aruthrol mewn adnoddau yn y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, nid ydym wedi datrys y broblem, o bell ffordd. Un o'm prif feirniadaethau fyddai fod dwylo'r Cynulliad hwn wedi'u clymu i raddau helaeth gan bolisiâu a luniwyd yn San Steffan. Dyna un o'r rhesymau pam yr wyf yn gryf o blaid datganoli'r system cyfiawnder troseddol i Gymru. Heb hyn, ychydig iawn o le sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i symud yn y mater hwn.

Mae Llafur Newydd yn Llundain wedi parhau'r rhyfel yn erbyn cyffuriau anghyfreithlon sydd wedi'i gollu ers talwm. Mae'r rhyfel hwn, fel rhyfeloedd eraill y gallwn eu crybwyll, wedi bod yn drychineb llwyr. Gwelsom gynnydd mewn camddefnyddio sylweddau problemus, mae pobl yn defnyddio cyffuriau yn llawer iau, ac nid yw hynny, na'r cynnydd enfawr ym

has been spent locking up or punishing problematic substance misusers, instead of trying to support people in changing their behaviour. We should focus a great deal more effort and resources on providing accessible treatment and support services for people who need them, but crucially when they need them. I used to work as a probation officer, and there is nothing more frustrating than working with someone who is ready to address and work on their addiction problem only to find that there is a long waiting list for services; by the time the places become available it is often too late.

I look forward to the publication of the consultation document on the substance misuse strategy. In particular, I look forward to seeing the Conservatives' response to it, because, over the past few years, I have seen so many contradictory statements on substance misuse from them, I have no idea what their position is. However, in the long term, I look forward to the devolution of the criminal justice system and the creation of a substance misuse strategy that might actually reduce problematic substance misuse and make our communities safer.

Mark Isherwood: As my party's spokesperson on this subject for the past few years, and as the shadow Minister with responsibility for it now, could you point to one of the inconsistencies that I am responsible for? I am not aware of any.

Leanne Wood: I can tell you about a debate that I heard on Radio Wales recently in which your chief whip, William Graham, advocated criminalising all dangerous substances, including alcohol and tobacco. I am aware that that is a very different line to that which you have taken in the past. The point that I was trying to make was that there are contradictions in your party.

2.30 p.m.

We need to create a substance misuse strategy that might actually reduce

mhoblogaeth y carchardai, yn sefyllfa dda o gwbl. Bu llawer gormod o ymdrech i roi camddefnyddwyr sylweddau problemus dan glo neu eu cosbi, yn lle ceisio cefnogi pobl i newid eu hymddygiad. Dylem ganolbwyntio llawer mwy o ymdrech ac adnoddau ar ddarparu gwasanaethau triniaeth a chefnogaeth hawdd eu cael i'r bobl y mae arnynt eu hangen, a hynny, yn bwysig iawn, pan fydd arnynt eu hangen. Arferwn weithio fel swyddog prawf, ac nid oes dim byd mwy rhwystredig na gweithio gyda rhywun sy'n barod i wynebu eu problem caethiwed a gwneud rhywbeth amdani, a gweld wedyn fod rhestr aros hir am wasanaethau; erbyn i'r lleoedd fod ar gael, mae'n aml yn rhy hwyr.

Edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar y strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau. Yn enwedig, edrychaf ymlaen at weld ymateb y Ceidwadwyr iddi, oherwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gwelais gynifer o ddatganiadau ganddynt am gamddefnyddio sylweddau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd fel nad oes gennyf syniad beth yw eu safbwynt. Fodd bynnag, yn y pen draw edrychaf ymlaen at weld datganoli'r system cyfiawnder troseddol a chreu strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau a allai leihau camddefnyddio sylweddau problemus a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Mark Isherwood: Fel llefarydd fy mhlaidd ar y pwnc hwn ers rhai blynyddoedd bellach, ac fel Gweinidog yr wrthblaid sydd â chyfrifoldeb drosto yn awr, a allech bwyntio at un o'r anghysonderau yr wyf yn gyfrifol amdanynt? Nid wyf yn ymwybodol o ddim.

Leanne Wood: Gallaf sôn wrthyf am ddadl a glywais ar Radio Wales yn ddiweddar lle dadleuodd eich prif chwip, William Graham, o blaid troseddoli pob sylwedd peryglus, gan gynnwys alcohol a thybaco. Yr wyf yn ymwybodol bod hwnnw'n safbwynt gwahanol iawn i'ch safbwynt chi yn y gorffennol. Y pwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud oedd bod anghysonderau yn eich plaid.

Mae angen inni lunio strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau a allai yn wir

problematic substance misuse and make our communities safer, instead of the situation that we have at the moment—

David Melding: Will you take an intervention?

Leanne Wood: No, I have taken enough interventions from the Conservatives.

The system that we have at the moment means that people are just being recycled within the criminal justice system, and that situation desperately needs to end. [*Interruption.*]

Lorraine Barrett: Order. Excuse me, David. Have you finished, Leanne, because there was another interruption? I see that you have and therefore I call Eleanor Burnham.

Eleanor Burnham: As a former magistrate and teacher of disaffected youth—many of whom were involved in these issues—I sincerely believe that we should be discussing this matter in reference to the health portfolio rather than the criminal justice system. While I understand and respect the views of my colleagues to the left—the Welsh Tories, who are politically to my right, of course—about some of the controversial viewpoints of the chief constable of North Wales Police, I am impressed that he has brought up the issue and that he is trying to provoke a rational debate.

I presume that we all suffer from this form of Nimbyism, and I thoroughly agree with Darren Millar that this has to be discussed extremely sensitively, and that needle exchanges and so on must be appropriately sited. Notwithstanding that, this really is a health issue. That is exactly the same point as the one that Leanne made about recycling people within the judicial system. I believe that many of the misdemeanours, burglaries and petty crimes that occur, as well as more serious crimes, are the result of substance misuse, which is a form of obsessive behaviour. Some of us have obsessive behaviours—I love chocolate, for example. However, to be more serious, obsessive behaviour is a health issue and we cannot get

leihau camddefnyddio sylweddau'n broblemus a sicrhau cymunedau diogelach, yn lle'r sefyllfa sydd gennym ar hyn o bryd—

David Melding: A dderbyniwch ymyriad?

Leanne Wood: Na wnaif, yr wyf wedi derbyn digon o ymyriadau gan y Ceidwadwyr.

Mae'r system bresennol yn golygu mai'r unig beth sy'n digwydd yw bod pobl yn cael eu hailgylchu o fewn y system cyfiawnder troseddol, ac mae gwir angen i'r sefyllfa honno ddod i ben. [*Torri ar draws.*]

Lorraine Barrett: Trefn. Esgusodwch fi, David. A ydych wedi gorffen, Leanne, oherwydd yr oedd ymyriad arall? Gwelaf eich bod wedi gorffen, felly, galwaf ar Eleanor Burnham.

Eleanor Burnham: Fel cyn ynad a chyn athrawes ar bobl ifanc wedi'u dadrithio-nifer ohonynt yn ymwneud â'r materion hyn-credaf o ddifrif y dylem fod yn trafod y mater hwn yng nghyswllt y portffolio iechyd yn hytrach na'r system cyfiawnder troseddol. Er fy mod yn deall ac yn parchu barn fy nghyd-Aelodau ar y chwith-y Torïaid Cymreig, sydd ar y dde imi'n wleidyddol, wrth gwrs-am rai o safbwyntiau dadleuol prif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, yr wyf yn falch iawn ei fod wedi codi'r mater a'i fod yn ceisio ysgogi dadl resymegol.

Mae'n debyg ein bod bob un ohonom yn dioddef o'r math hwn o 'nid yn fy iard gefn i', a chytunaf yn llwyr â Darren Millar ei bod yn rhaid inni drafod hyn yn sensitif iawn, a bod yn rhaid i gyfnewidfydd nodwyddau, ac yn y blaen, fod mewn manau priodol. Er hynny, mater yn ymwneud ag iechyd yw hwn mewn gwirionedd. Dyna'n union y pwynt a wnaethpwyd gan Leanne ynglŷn ag ailgylchu pobl yn y system farnwrol. Credaf fod llawer o'r camymddwyn, y lladradau a'r mân droseddau sy'n digwydd, yn ogystal â throseddau mwy difrifol, yn deillio o gamddefnyddio sylweddau, sy'n fath o ymddygiad obsesiynol. Mae gan rai ohonom ni ymddygiad obsesiynol—yr wyf fi'n gwirioni ar siocled, er enghraifft. Fodd

away from that. We need to pay much greater attention to this issue. Unless we prevent people from becoming the next tier of drug misusers, or whatever you want to call them, we are in for even worse problems.

It is a complete catastrophe that the health board has cut the number of beds at Hafan Wen Drug and Alcohol Treatment Unit in Wrexham. I think that we should be looking at this issue in a much more constructive way, as others have said. We need to see a reduction in the waiting lists for treatment and an increase in the availability and accessibility of that treatment, as others have said. It is not a nine-to-five issue; this is a round-the-clock, 365-days-a-year issue. On that note, I thank the Conservatives for tabling this important debate and I thank you, Chair, for allowing me to speak.

Brynle Williams: I will focus my contribution on alcohol abuse, as more people are dependent on alcohol than on any other substance in Wales. According to the latest figures, more than 16,000 people are, and that figure has gone up 40 per cent in a year. These figures are totally unacceptable. Alcohol dependency is killing ever greater numbers of people: the mortality rate has more than doubled in the past 10 years. It is a form of substance abuse that is often invisible, given that alcohol is so freely available—you can get it anywhere. I do not believe that there is a simple way of solving such a complex problem as to why so many people become dependent on alcohol. There are ever increasing pressures on people today. Families break down, personal debt levels and stress levels are rising, and the list goes on. However, the most vulnerable people have not had their situation helped by the irresponsible retailers who compete to sell alcohol to them at ever cheaper prices.

Leanne Wood: It is a free market.

bynag, i fod yn fwy difrifol, mae ymddygiad obsesiynol yn fater sy'n ymwneud ag iechyd ac ni allwn wadu hynny. Mae angen inni roi llawer mwy o sylw i'r mater hwn. Os nad ataliwn bobl rhag dod yn haen nesaf o gamddefnyddwyr cyffuriau, neu beth bynnag yr ydych am eu galw, bydd gennym broblemau gwaeth hyd yn oed.

Mae'r ffaith fod y bwrdd iechyd wedi lleihau nifer y gwelyau yn yr Uned Trin Cyffuriau ac Alcohol yn Hafan Wen yn Wrecsam yn drychineb enbyd. Credaf y dylem fod yn edrych ar y mater hwn mewn ffordd lawer mwy adeiladol, fel y mae eraill wedi ei ddweud. Mae angen lleihau'r amseroedd aros am driniaeth, sicrhau bod mwy o driniaethau ar gael, a'i bod yn haws i bobl allu cael y triniaethau hynny, fel y mae eraill wedi ei ddweud. Nid mater naw tan bump yw hwn; mae'n fater pedair awr ar hugain, 365 diwrnod y flwyddyn. Ar y pwynt hwnnw, hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl bwysig hon ac i chi, Gadeirydd, am ganiatáu imi siarad.

Brynle Williams: Yr wyf am ganolbwyntio yn fy nghyfraniad ar gamddefnyddio alcohol, gan fod mwy o bobl yng Nghymru yn ddibynnol ar alcohol nag ar unrhyw sylwedd arall. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, mae dros 16,000 o bobl yn ddibynnol ar alcohol, ac mae'r ffigur hwnnw wedi cynyddu 40 y cant mewn blwyddyn. Mae'r ffigurau hyn yn gwbl annerbyniol. Mae dibyniaeth ar alcohol yn lladd mwy fyth o bobl: mae cyfradd y marwolaethau dros ddwywaith yn fwy nag ydoedd 10 mlynedd yn ôl. Mae'r math hwn o gamddefnyddio sylweddau yn aml iawn yn anweledig, gan fod alcohol mor rhwydd cael gafael arno—mae i'w gael ym mhobman. Ni chredaf fod ffordd syml o ddatrys problem mor gymhleth â pham y mae cynifer o bobl yn mynd yn ddibynnol ar alcohol. Mae mwy a mwy o bwysau ar bobl heddiw. Mae teuluoedd yn chwalu, mae dyledion personol ar gynydd ac mae o straen ar bobl. Mae'r rhestr yn faith. Fodd bynnag, mae sefyllfa'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn waeth oherwydd y manwerthwyr anghyfrifol sy'n cystadlu â'i gilydd er mwyn gwerthu alcohol iddynt am brisiau rhatach fyth.

Leanne Wood: Mae'n farchnad rydd.

Lorraine Barrett: Order. If you want to intervene, Leanne, you know the procedure.

Brynle Williams: If you want to intervene, Leanne, I will sit down. I think that that was a very cheap comment, to be quite honest.

This is not even an issue of tax. The bigger supermarkets know that alcohol is a known-value item, and they are prepared to sell it at cost price simply to get customers through the doors. For example, when several of the big supermarkets sell their cheapest lager for nearly half the price of bottled water, changing the excise duty or VAT will not have much effect. The supermarkets are already prepared to absorb the cost of brewing, canning and distribution.

The Welsh Assembly Government needs to work across the board to improve prevention work, and part of that work should involve starting discussions with the major supermarkets to end alcohol being sold at a loss, and being so readily available to vulnerable people. It is also important to work with brewers and retailers on finding ways for the industry to take greater responsibility for the harm that their products can cause, and on getting their support for prevention schemes and treatment clinics, and for transferring the message of responsible drinking.

Lesley Griffiths: I welcome the fact that the Government is fully committed to providing extra treatment places and support for substance misusers, and also the funding being given to tackling binge drinking and alcohol related anti-social behaviour across Wales.

Lorraine Barrett: Trefn. Os ydych eisiau ymyrryd, Leanne, gwyddoch beth yw'r drefn.

Brynle Williams: Os ydych am ymyrryd, Leanne, mi eisteddaf. Credaf fod hwnnw'n sylw cwbl ddi-chwaeth, a bod yn onest.

Nid yw hwn yn fater o dreth hyd yn oed. Mae'r archfarchnadoedd mwyaf yn gwybod bod alcohol yn eitem sydd â gwerth penodol, ac maent yn barod i'w werthu am bris cost, dim ond er mwyn cael cwsmeriaid drwy'r drysau. Er enghraifft, pan fydd nifer o'r archfarchnadoedd mawr yn gwerthu eu lager rhataf am bron i hanner pris dŵr potel, ni fydd newid y doll neu'r dreth ar werth yn cael llawer o effaith. Mae'r archfarchnadoedd eisoes yn barod i dderbyn cost y bragu, ei roi mewn tuniau a'i ddsbarthu.

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda nifer o gyrff er mwyn gwella gwaith ataliol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw dylai gychwyn trafodaethau gyda'r archfarchnadoedd mwyaf i roi terfyn ar yr arfer o werthu alcohol ar golled, a sicrhau nad yw mor hawdd i bobl sy'n agored i niwed allu ei gael. Mae hefyd yn bwysig gweithio gyda bragwyr a manwerthwyr i ddod o hyd i ffyrdd i gael y diwydiant i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am y niwed y gall ei gynnyrch ei achosi, ei gael i gefnogi cynlluniau atal a chlinigau triniaeth, a chyfleu neges yfed yn gyfrifol.

Lesley Griffiths: Yr wyf yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu mwy o leoedd ar gyfer triniaeth a chefnogaeth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddu. Yr wyf hefyd yn falch o'r arian sy'n cael ei roi i ddelio â goryfed mewn pyliau ac ymddygiad anghymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 2.36 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 2.36 p.m.*

The funding of recent years has meant that considerable progress has been made across the country on tackling these important issues, and the figures speak for themselves: 660 per cent increase of investment since 2003, resulting in the provision of an additional 5,500 treatment places across

Mae'r ariannu yn y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud drwy'r wlad wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn, ac mae'r ffigurau'n llefaru drostynt eu hunain: cynnydd o 660 y cant yn y buddsoddiad er 2003, sydd wedi golygu darparu 5,500 o leoedd ychwanegol ar

Wales. More specifically today, I want to address how these services affect north Wales. I recently visited the Hafan Wen unit in my constituency of Wrexham, which has been mentioned by colleagues, and which provides tier 4 services for north Wales patients. Hafan Wen provides an excellent service for the region, with a very good treatment rate for attending patients. However, I was struck by the number of spare places that remain at the centre, which could be used to treat north Wales patients. I was told that, more often than not, these places are filled by patients from Merseyside, with primary care trusts from Liverpool more than willing to purchase places at Hafan Wen owing to the oversubscription of tier 4 places in Merseyside. If we fund and provide such an excellent service for north Wales as we have in Wrexham, surely local health boards from across the region should be making full use of the service.

Another service that I would like to mention today is DAN 24/7, which is the first free drug and alcohol bilingual helpline for Wales. This is an excellent scheme, with trained staff available to provide support and guidance 24 hours of the day, seven days a week, supported by some excellent educational literature. However, I understand that there is some uncertainty surrounding the future of the scheme, and I will be writing to the Minister to get some figures on the take-up of the service.

Finally, although not directly funded by the Government, I want to mention a north Wales campaign that is managed by CAIS. This scheme is invaluable when it comes to educating maybe the most vulnerable of all about substance misuse. I am referring, of course, to our children and young people. *Don't Touch—Tell!* is a 30-minute performance, which I recently had the privilege of seeing at Acton Park Junior School in Wrexham. It is aimed at teaching primary pupils the dangers of drugs and what to do if they come across drugs paraphernalia. The performance also addresses the wider issue of the dangers of

gyfer triniaeth ledled Cymru. Yn fwy penodol heddiw, hoffwn sôn sut y mae'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar y gogledd. Ymwelais yn ddiweddar ag uned Hafan Wen yn fy etholaeth i, Wrecsam, y cyfeiriwyd ati gan fy nghyd-Aelodau, ac sy'n darparu gwasanaethau haen 4 i gleifion y gogledd. Mae Hafan Wen yn darparu gwasanaeth rhagorol i'r rhanbarth, ac mae'r cyfraddau trin cleifion yn dda iawn. Fodd bynnag, synnais fod cynifer o leoedd gweigion yn y ganolfan y gellid eu defnyddio i drin cleifion y gogledd. Dywedwyd wrthyf fod y lleoedd hyn, yn amlach na pheidio, yn cael eu llenwi gan gleifion o Lannau Mersi, a bod ymddiriedolaethau gofal sylfaenol o Lerpwl yn fwy na pharod i brynu lleoedd yn Hafan Wen gan fod prinder lleoedd haen 4 ar Lannau Mersi. Os ydym yn ariannu ac yn darparu gwasanaeth mor wych i'r gogledd ag sydd gennym yn Wrecsam, siawns na ddylai byrddau iechyd lleol o bob rhan o'r rhanbarth fod yn gwneud defnydd llawn o'r gwasanaeth?

Gwasanaeth arall yr hoffwn gyfeirio ato heddiw yw DAN 24/7, sef y llinell gymorth gyntaf yng Nghymru i gynnig cymorth dwyieithog yn ddi-dâl i bobl sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Mae hwn yn gynllun gwyb, gyda staff wedi eu hyfforddi ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, a chefnogaeth taflenni addysgol rhagorol. Fodd bynnag, deallaf fod ychydig ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y cynllun, a byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am rai ffigurau am y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn olaf, er nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth, hoffwn gyfeirio at ymgyrch yn y gogledd sy'n cael ei rheoli gan CAIS. Mae'r cynllun hwn yn amhrisiadwy pan ddaw'n fater o addysgu'r bobl a all fod fwyaf agored i niwed ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau. Yr wyf yn cyfeirio, wrth gwrs, at ein plant a'n pobl ifanc. Cefais y fraint yn ddiweddar o weld perfformiad o *Paid Cyffwrdd-Dwed!* yn Ysgol Iau Parc Acton yn Wrecsam. Mae'r perfformiad, sy'n para hanner awr, yn ceisio addysgu disgyblion cynradd ynglŷn â pheryglon cyffuriau, a beth i'w wneud os dônt o hyd i bethau sy'n gysylltiedig â

taking drugs. The campaign has now been running for 10 years in north Wales and every local authority helps to fund the creative scheme. Having seen a performance and how the children reacted, I believe that it is a really innovative way of getting the message across to children about the dangers of drugs and a very effective method in helping to build the life skills of our children. I urge the Government to look at the benefits that *Don't Touch—Tell!* brings to north Wales, with a view to using it as a template educational tool for the rest of Wales.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate, particularly because, as Mark Isherwood said, we are about to launch our 10-year strategy for consultation. The strategy will be launched with a written statement, and I anticipate that time will be found for a full debate towards the end of the consultation period.

The strategy will look at much wider range of issues than are covered specifically in this motion and it seeks to tackle the full range of harms associated with substance and alcohol misuse. I commend the comments made by Brynle Williams on this point; they were more than pertinent and well made. In the provision of this new consultation document, there will be particular reference to the importance of tier 4 services.

2.40 p.m.

We must acknowledge that clear progress has been made over the period of the current strategy, as Leanne, Peter Black and others said. It amazes me that Mark Isherwood can engage himself with interest in this subject and yet fail to meet people who seem to recognise the significant progress that has been made. We have been able to increase the budget, as Lesley said, by more than 600 per cent since 2003, and, in the current budget round, we will see a further 40 per cent increase in the money that is being made

chyffuriau. Mae'r perfformiad hefyd yn rhoi sylw i fater ehangach, sef peryglon cymryd cyffuriau. Mae'r ymgyrch ar waith ers 10 mlynedd bellach yn y gogledd, ac mae pob awdurdod lleol yn helpu ariannu'r cynllun creadigol. Ar ôl gweld y perfformiad a'r ffordd yr oedd y plant yn ymateb, credaf ei bod yn ffordd wirioneddol arloesol o gyfleu'r neges i blant am beryglon cyffuriau, ac y mae'n ffordd effeithiol iawn i helpu datblygu sgiliau byw ein plant. Anogaf y Llywodraeth i edrych ar y manteision sy'n dod i'r gogledd yn sgil *Paid Cyffwrdd-Dwed!*, gyda'r bwriad o'i ddefnyddio fel patrwm o offeryn addysgol ar gyfer gweddill Cymru.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon, yn enwedig, fel y dywedodd Mark Isherwood, gan ein bod ar fin lansio'n strategaeth 10 mlynedd ar gyfer ymgyngori. Caiff y strategaeth ei lansio gyda datganiad ysgrifenedig, a rhagwelaf y caiff amser ei neilltuo ar gyfer dadl lawn tua diwedd y cyfnod ymgyngori.

Bydd y strategaeth yn edrych ar ystod lawer ehangach o faterion nag a gynhwysir yn benodol yn cynnig hwn, a bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r holl wahanol effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â chamdefnyddio sylweddau ac alcohol. Cymeradwyaf y sylwadau a wnaethpwyd gan Brynle Williams ar y pwynt hwn; yr oeddent yn berthnasol iawn a chawsant eu cyflwyno'n dda. Bydd cyfeiriad penodol at bwysigrwydd gwasanaethau haen 4 yn y ddogfen ymgyngori newydd hon.

Rhaid inni gydnabod bod cynnydd pendant wedi'i wneud yn ystod cyfnod y strategaeth bresennol, fel y mae Leanne, Peter Black ac eraill wedi ei ddweud. Mae'n syndod i mi fod Mark Isherwood yn gallu dangos cymaint o ddiddordeb yn y pwnc hwn ac eto'n methu cyfarfod pobl sydd fel petaent yn cydnabod y cynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud. Yr ydym wedi gallu sicrhau cynnydd o dros 600 y cant yn y gyllideb er 2003, fel y dywedodd Lesley, ac yn y rownd gyllido gyfredol bydd cynnydd pellach o 40 y cant yn yr arian sy'n

available through the community safety partnerships, which are the key multidisciplinary organisations that will deliver this at a local level. I am aware of the campaign being led by councillor Chris Hughes in north Wales in relation to the dispensing machines. However, this matter is the subject of an appeal, so it would not be appropriate to comment on it any further.

The increases in funding, as Lesley said, have resulted in more than 5,500 extra places, and we expect another 3,500 places to be created. These are not just for drug misusers but also for alcohol misusers. We are developing an integrated strategy, contrary to what Mark suggested in his contribution.

Jenny Randerson's point in relation to prescribing drugs is important. This is one reason why dealing with inappropriate prescribing is part of the GP contract, and the repeat prescribing review of community pharmacists is a key part of that.

As well as providing increased funding, we have worked hard to provide better and stronger partnerships through our community safety partnerships, to which we have provided significant guidance and support. It is not just a case of providing the money; performance is now being more effectively monitored, and we are at last beginning to get a view of the needs of substance misusers of all types and of whether the services are effectively responding to those needs.

We acknowledge that more needs to be done, and this is as true in tier 4 areas as it is in other areas. It is for that reason that my predecessor, Edwina Hart, announced that she wanted to consider what further support was needed to commission tier 4 services. We established a national steering group last year, and its conclusion was that we should have a more detailed review of tier 4 services—and that is the document that was leaked to Mark Isherwood. The review was completed in November and the findings were presented to a national conference on 3 December. Front-line workers throughout

cael ei ddarparu drwy'r partneriaethau diogelwch cymunedol, sef y prif sefydliadau amlddisgyblaeth a fydd yn darparu hyn yn lleol. Yr wyf yn ymwybodol o'r ymgyrch sy'n cael ei harwain gan y cynghorydd Chris Hughes yn y gogledd mewn cysylltiad â'r peiriannau nodwyddau. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn destun apêl, felly, ni fyddai'n briodol rhoi pellach arno.

Mae'r arian ychwanegol, fel y dywedodd Lesley, wedi arwain at fwy na 5,500 o leoedd ychwanegol, a disgwylwch y caiff 3,500 o leoedd ychwanegol eu creu. Mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio alcohol yn ogystal â phobl sy'n camddefnyddio cyffuriau. Yr ydym yn datblygu strategaeth integredig, yn wahanol i'r hyn a awgrymodd Mark yn ei gyfraniad.

Mae pwynt Jenny Randerson ynglŷn â rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn yn bwysig. Dyna un rheswm pam y mae ymdrin â phresgripsiynau amhriodol yn rhan o gontract meddygon teulu, ac mae'r adolygiad o bresgripsiynau ailadrodd gan fferyllwyr cymunedol yn rhan bwysig o hynny.

Yn ogystal â rhoi mwy o arian, yr ydym wedi gweithio'n galed i ddarparu partneriaethau gwell a chryfach drwy ein partneriaethau diogelwch cymunedol, gan roi llawer iawn o arweiniad a chefnogaeth iddynt. Nid mater o ddarparu'r arian yn unig yw hyn; mae perfformiad bellach yn cael ei fonitro'n fwy effeithiol, ac yr ydym o'r diwedd yn cael barn am anghenion gwahanol fathau o bobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac a yw'r gwasanaethau'n ymateb yn effeithiol i'r anghenion hynny.

Cydnabyddwn fod angen gwneud mwy, ac mae hyn mor wir mewn meysydd haen 4 ag mewn meysydd eraill. Dyna pam y cyhoeddodd fy rhagflaenydd, Edwina Hart, ei bod yn awyddus i ystyried pa gefnogaeth arall yr oedd ei hangen i gomisiynu gwasanaethau haen 4. Sefydlwyd grŵp llywio cenedlaethol y llynedd, a daeth i'r casgliad y dylem gael adolygiad manylach o wasanaethau haen 4—a dyna'r ddogfen y daeth Mark Isherwood i wybod amdani. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Tachwedd a chyflwynwyd y darganfyddiadau i gynhadledd genedlaethol ar 3 Rhagfyr.

Wales were asked to come together in Merthyr Tydfil for a further meeting to consider this as a means of moving forward. That meeting was not meant to be a policy-making or decision-making meeting. A further meeting on how we move the agenda forward is taking place today, contrary to what Mark Isherwood has been told.

The review was clear that we need to improve tier 4 services, but we need to do that in the context of recognising that the quality of current services is patchy across Wales, and that the balance between community services and in-patient and residential is not right. Despite the work that is going on in trying to deal with tier 4 services, the quality of community services is improving, and I pay particular attention to the innovative scheme that the Government is supporting with the Royal College of General Practitioners, which involves not only community general practitioners but pharmacists, nurses and other front-line community workers.

We will respond to the challenge of improving tier 4 services, which has been highlighted in this resolution. We will be asking organisations in Wales to fully consider the report and how they intend to take it forward, not just at a local level, but also at a regional level. Regions will be expected to provide a timely action plan based on their local priorities. We know that this will be a challenge for some areas, but it is clearly an issue that needs to be taken forward on a local and regional basis.

We know that commissioning can be difficult because there is a lack of consensus in many areas as to where tier 4 services fit into the current care journey. There are concerns about the quality of the service being provided. All of these issues need to be addressed if we are to have tier 4 services that are fit for purpose in Wales.

I urge you to support amendment 1 in the name of Carwyn Jones, along with amendment 2 in the name of Kirsty Williams.

Gofynnwyd i weithwyr rheng flaen o bob cwr o Gymru ddod at ei gilydd ym Merthyr Tudful i gyfarfod arall i ystyried hyn fel ffordd i symud ymlaen. Ni fwriadwyd i'r cyfarfod hwnnw fod yn gyfarfod llunio polisiau na phenderfyniadau. Mae cyfarfod arall i drafod sut y byddwn yn symud ymlaen â'r agenda yn cael ei gynnal heddiw, yn wahanol i'r hyn a ddywedwyd wrth Mark Isherwood.

Yr oedd yr adolygiad yn dweud yn glir fod angen inni wella gwasanaethau haen 4, ond mae angen inni wneud hynny yng nghydestun cydnabod bod safon y gwasanaethau presennol yn ddarniog drwy Gymru, ac nad yw'r cydbwysedd yn iawn rhwng gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau preswyl a gwasanaethau i gleifion mewnol. Er gwaetha'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â gwasanaethau haen 4, mae ansawdd gwasanaethau cymunedol yn gwella, ac yr wyf yn rhoi sylw penodol i'r cynllun arloesol y mae'r Llywodraeth yn ei gefnogi gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, sy'n cynnwys fferyllwyr, nyrsys a gweithwyr cymunedol rheng flaen eraill yn ogystal ag ymarferwyr cyffredinol cymunedol.

Byddwn yn ymateb i'r her o wella gwasanaethau haen 4 y tynnwyd sylw ati yn y cynnig hwn. Byddwn yn gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried yr adroddiad yn ofalus a meddwl sut bwriadant ei weithredu, yn lleol ac yn rhanbarthol. Disgwylir i ranbarthau ddarparu cynllun gweithredu amserol yn seiliedig ar eu blaenoriaethau lleol. Gwyddom y bydd hyn yn her i rai ardaloedd, ond mae'n amlwg yn fater y mae angen rhoi sylw iddo yn lleol ac yn rhanbarthol.

Gwyddom fod comisiynu'n gallu bod yn anodd gan fod diffyg consensws mewn llawer ardal o ran ble y mae'r gwasanaethau haen 4 yn ffitio yn y daith ofal bresennol. Mae pryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae angen rhoi sylw i bob un o'r problemau hyn os ydym i gael gwasanaethau haen 4 sy'n addas at y diben yng Nghymru.

Anogaf chi i gefnogi gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, ynghyd â gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams. Fodd bynnag, pwysaf

However, I urge you to oppose amendment 3. It refers to a matter that is not devolved. We have made representations to the Home Office on this matter and it informed us that the service in Swansea was not continued because the performance and the outcomes were not to the expected standards. However, the service is being reviewed to be more in line with the role of Swansea prison as a local, relatively short-term prison. Work is being done through schemes such as the through the gate scheme to more effectively link up the work within the prison to community services.

I am grateful to the Conservatives for proposing this motion. I am also grateful for the extensive consensus that exists on many matters. However, I urge Members to support those amendments that I mentioned earlier.

Jonathan Morgan: In thanking all Assembly Members who have contributed to this worthwhile debate this afternoon, I wish to thank in particular my good friend and colleague, Mark Isherwood. Regardless of whether or not you agree with what he said, there can be no doubt that Mark is deeply committed to the topic that we have discussed this afternoon. He is extremely thorough; his speeches are always in depth, and he represents the best of what this institution should be about. I echo his view that we do not accept the Government rhetoric on the so-called success of the Assembly Government in tackling substance misuse, which Brian Gibbons repeated this afternoon. Mark has presented a coherent argument as to why the Welsh Government must do better in this field.

We know that commissioning is clumsy and ad hoc; we know that short-term funding schemes make it difficult for the voluntary sector to engage constructively over the longer term. Success in tackling substance misuse will not come about unless we engage the voluntary sector. The statutory sector cannot do this on its own. There are a variety of excellent bodies throughout Wales with committed individuals and professionals who want to do the job properly but who feel that

arnoch i wrthwynebu gwelliant 3. Mae hwnnw'n cyfeirio at fater nad yw wedi'i ddatganoli. Yr ydym wedi cyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn a chawsom wybod na pharhawyd â'r gwasanaeth yn Abertawe oherwydd nad oedd y perfformiad a'r canlyniadau'n cyrraedd y safonau disgwylidig. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu er mwyn iddo gydymffurfio'n fwy â rôl carchar Abertawe fel carchar lleol a chymharol dymor byr. Mae gwaith yn cael ei wneud drwy gynlluniau megis y cynllun drwy'r giât er mwyn cysylltu'r gwaith o fewn y carchar yn fwy effeithiol â gwasanaethau cymunedol.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig hwn. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd am y consensws helaeth mewn llawer maes. Fodd bynnag, pwysaf ar Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hynny y soniais amdanynt yn gynharach.

Jonathan Morgan: Wrth ddiolch i holl Aelodau'r Cynulliad sydd wedi cyfrannu at y ddadl werth chweil hon y prynhawn yma, hoffwn ddiolch yn fwyaf arbennig i fy nghyfaill da a'm cyd-Aelod, Mark Isherwood. P'un a ydych yn cytuno â'r hyn a ddywedodd ai peidio, nid oes amheuaeth nad yw Mark yn gwbl ymroddedig i'r pwnc a drafodwyd gennym y prynhawn yma. Mae'n drylwyr dros ben; mae ei areithiau'n fanwl dros ben bob amser, ac mae'n cynrychioli elfennau gorau'r sefydliad hwn. Yr wyf yn cyd-fynd â'i farn nad ydym yn derbyn rhethreg y Llywodraeth ar lwyddiant honedig Llywodraeth y Cynulliad o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, fel yr ailadroddwyd gan Brian Gibbons y prynhawn yma. Mae Mark wedi cyflwyno dadl resymegol pam y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud yn well yn y maes hwn.

Gwyddom fod comisiynu'n broses drwsgl ac ad hoc; gwyddom fod cynlluniau cyllido tymor byr yn ei gwneud yn anodd i'r sector gwirfoddol ymgysylltu mewn ffordd adeiladol dros y tymor hir. Ni fydd llwyddiant wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau oni bai ein bod yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol. Ni all y sector statudol wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae digonedd o gyrff ardderchog ledled Cymru gydag unigolion a gweithwyr

the system is against them. The Health, Wellbeing and Local Government Committee will undertake a performance review of local government, examining the role of local government in tackling drug and alcohol misuse, and identifying where local government can do a better job in commissioning the sort of services that we need. I hope that you will engage with that review. It is long overdue. We need to know what local government is doing to improve services in Wales.

Peter Black made an interesting contribution, but he said during the debate that there was not the same sense of crisis that existed some time ago. I accept that things have moved on, but the independent review report states that:

‘Referral and commissioning pathways are mostly bureaucratic; seemingly designed in many instances to prevent clients from accessing treatment.’

The report states that clients are being prevented from accessing treatment. You may think that the sense of crisis has disappeared, but I think that it still very much exists. That independent review was certain about where the problems lie in Wales that are preventing people from accessing those services.

Peter Black: I was not trying to say that there is not a crisis of any sort, because that sense of crisis has moved to a different arena. I was referring to the stories that we were hearing about people living in the Valleys, in particular, being unable to access services and suffering as a result. The success of community detox has helped to alleviate that particular problem.

2.50 p.m.

Jonathan Morgan: I am grateful for the intervention, but you must accept that a sense of crisis still exists. We have not moved on far enough in the past few years. We are not at a point where we can say that services in

proffesiynol ymroddedig sydd am wneud y gwaith yn dda ond sy'n teimlo bod y system yn eu herbryn. Bydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad perfformiad o lywodraeth leol, gan archwilio rôl llywodraeth leol wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a gweld lle mae angen i lywodraeth leol wneud yn well wrth gomisiynu'r math o wasanaethau y mae arnom eu hangen. Gobeithio y byddwch yn cyfrannu at yr adolygiad hwn. Mae'n hen bryd ei gael. Mae'n bwysig inni wybod beth y mae llywodraeth leol yn ei wneud i wella gwasanaethau yng Nghymru.

Cafwyd cyfraniad diddorol gan Peter Black, ond dywedodd yn ystod y ddadl nad oedd yr un ymdeimlad o argyfwng ag oedd beth amser yn ôl. Yr wyf yn derbyn bod pethau wedi newid, ond dywed adroddiad yr adolygiad annibynnol:

Mae llwybrau atgyfeirio a chomisiynu yn fiwrocataidd ar y cyfan; ac ymddengys eu bod wedi eu cynllunio'n aml i atal cleientiaid rhag cael triniaeth.

Dywed yr adroddiad fod cleientiaid yn cael eu hatal rhag cael triniaeth. Efallai eich bod yn credu bod yr ymdeimlad o argyfwng wedi diflannu, ond credaf yn bendant ei fod yn bodoli o hyd. Yr oedd yr adolygiad annibynnol hwn yn bendant ynghylch ble y mae'r problemau yng Nghymru sy'n atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau hynny.

Peter Black: Nid oeddwn yn ceisio dweud nad oes argyfwng o unrhyw fath, oherwydd bod yr ymdeimlad hwnnw o argyfwng wedi symud i faes arall. Cyfeirio yr oeddwn at y straeon a glywsom am bobl yn byw yn y Cymoedd, yn fwyaf arbennig, nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau ac yn dioddef o'r herwydd. Mae llwyddiant dadwenwyno cymunedol wedi helpu lleddfu'r broblem benodol honno.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ymyriad, ond rhaid ichi dderbyn bod yna ymdeimlad o argyfwng o hyd. Nid ydym wedi symud ymlaen ddigon yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nid ydym

Wales are achieving what they need to achieve. Darren Millar is right in saying that the Assembly Government appears, on one level, to be almost happy to ignore the voices of those who work to deliver the services that we need, and that we avoid and ignore the voluntary sector, and those professionals, at our peril.

I was interested in the contribution from Leanne Wood—again, Leanne is a Member who has taken huge interest in this field. When it comes to services being accessible, I would remind Leanne of the comments she made, back in August of last year, about the success of services in tackling drug and alcohol misuse. In the *Western Mail* of 31 August she pointed out that, in the south Wales Valleys, 0.28 people out of every 1,000 had asked for treatment for heroin, compared to 0.15 throughout the rest of Wales. Leanne said that existing services are not dealing with this worsening problem. That demonstrates, as does her own experience in the south Wales Valleys in particular, the extent of the problem that we need to get to grips with. In that sense, her contribution has been extremely valuable.

Eleanor Burnham was, as always, very positive, and I am grateful to her for recognising that we take this seriously as a political party. This issue cuts across party boundaries, and all Assembly Members should be aware of it, in terms of the role of this Assembly, and what we need to do to tackle this growing crisis.

While we know that the more deprived parts of Wales have the more acute problems, there are high levels of alcohol and drug misuse across Wales. I could take you to some nice, wealthy parts of my own constituency where the police tell me that we have a problem with drug and alcohol misuse; it does not just affect the poorer parts of Wales, but the wealthier parts as well. It knows no boundaries.

wedi cyrraedd pwynt lle gallwn ddweud bod gwasanaethau yng Nghymru'n cyflawni'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni. Mae Darren Millar yn gywir i ddweud bod Llywodraeth y Cynulliad, ar un lefel, i'w gweld yn hapus bron i anwybyddu lleisiau'r rheini sy'n gweithio i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnom, a gwae ni os ydym yn osgoi ac yn anwybyddu'r sector gwirfoddol, a'r gweithwyr proffesiynol hyn.

Yr oedd cyfraniad Leanne Wood yn un diddorol—unwaith eto, mae Leanne yn Aelod sydd wedi dangos diddordeb byw yn y maes hwn. Pan ddaw'n fater o allu cael gwasanaethau'n hwylus, hoffwn atgoffa Leanne o'i sylwadau, fis Awst y llynedd, am lwyddiant gwasanaethau i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Yn y *Western Mail* ar 31 Awst dywedodd fod 0.28 o bobl o bob 1,000 yng Nghymoedd y De wedi gofyn am driniaeth am ddefnyddio heroin, o'u cymharu â 0.15 yng ngweddill Cymru. Dywedodd Leanne nad yw'r gwasanaethau presennol yn llwyddo i ddelio â'r broblem hon sy'n gwaethygu. Mae hyn yn dangos, fel y mae ei phrofiad personol yng Nghymoedd y de yn benodol, beth yw maint y broblem y mae angen inni fynd i'r afael â hi. Yn hynny o beth, mae ei chyfraniad wedi bod yn arbennig o werthfawr.

Yr oedd Eleanor Burnham, fel arfer, yn gadarnhaol dros ben, ac yr wyf yn ddiolchgar iddi am gydnabod ein bod yn cymryd hyn o ddifrif fel plaid wleidyddol. Mae hwn yn fater sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau pleidiau, a dylai pob Aelod o'r Cynulliad fod yn ymwybodol ohono, o ran rôl y Cynulliad hwn, a'r hyn y mae ei angen inni ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng cynyddol hwn.

Er ein bod yn gwybod bod y problemau ar eu gwaethaf yn y rhannau mwy difreintiedig o Gymru, mae yna lefelau uchel o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau ledled Cymru. Gallwn fynd â chi i rannau braf a chyfoethog yn fy etholaeth lle dywed yr heddlu wrthyf fod gennym broblem camddefnyddio cyffuriau ac alcohol; nid ar rannau tlotaf Cymru'n unig y mae'n effeithio, ond ar y rhannau cyfoethocach hefyd. Nid yw'n cydnabod ffiniau.

Alun Ffred Jones: You mentioned that there is a great deal of consensus on this issue in the Chamber, but do you agree with your colleague William Graham, who has called for the re-classification of all drugs, including alcohol and tobacco, as class A drugs?

Jonathan Morgan: I have never heard William Graham call for that, and as I have not heard him express his views on the subject publicly, I am not in a position to comment. However, you cannot doubt our commitment to this debate this afternoon, and the seriousness with which we treat the subject. Brynle Williams touched on the subject of cheap alcohol sales, which is a major problem for us in Wales, and in the United Kingdom as whole. I have raised this issue with the Minister previously, and think that there is a real problem with the licensing laws as they stand in this country. There are few opportunities for local people to say 'no' to an application for new licensed premises, and few opportunities for local government to refuse a license. This is something that the Government of the United Kingdom, hopefully lobbied by the Assembly Government, must deal with. The problems of alcoholism, and young people accessing alcohol, will escalate unless radical action is taken.

Apart from the Minister's contribution, the only contribution from the Labour benches was from Lesley Griffiths. I am grateful to her for her contribution, particularly the reference to the management of rehabilitation places in Wales. If you look at the independent report that was published, it clearly states that assessment of need 'is inconsistent and lacking clarity' for both in-patient detoxification and residential rehabilitation. Unless we get the assessment of need done, and done early enough, and so know and understand what needs to be commissioned, then people in Wales will not have the opportunity to access rehabilitation places. That is a fundamental point in the independent report, and Lesley was right to highlight the way in which places and services are commissioned in Wales, and how people in Wales can access those services.

The Minister talked in his contribution about

Alun Ffred Jones: Dywedasoeh fod llawer iawn o gonsensws ar y mater hwn yn y Siambr, ond a ydych yn cytuno â'ch cyd-Aelod, William Graham, sydd wedi galw am aiddosbarthu pob cyffur, gan gynnwys alcohol a thybaco, yn gyffuriau dosbarth A?

Jonathan Morgan: Ni chlywais William Graham erioed yn galw am hynny, a chan nad wyf wedi ei glywed yn mynegi ei farn ar y pwnc yn gyhoeddus, nid wyf mewn sefyllfa i wneud unrhyw sylw. Fodd bynnag, ni allwch amau ein hymrwymiad i'r ddadl hon y prynhawn yma, na'n difrifoldeb wrth ymdrin â'r pwnc. Crybwyllodd Brynle Williams fater alcohol rhad, sy'n broblem fawr inni yng Nghymru, ac yn y Deyrnas Unedig gyfan. Codais y mater hwn gyda'r Gweinidog o'r blaen, a chredaf fod problem wirioneddol gyda'r deddfau trwyddedu fel y maent yn y wlad hon ar hyn o bryd. Ychydig gyfle sydd i bobl leol ddweud 'na' i gais am eiddo trwyddedig, ac nid oes llawer o gyfleoedd i lywodraeth leol wrthod trwydded. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn dilyn lobïo gan Lywodraeth y Cynulliad, gobeithio, fynd i'r afael ag ef. Bydd problemau alcoholiaeth, a phobl ifanc yn gallu cael alcohol, yn gwaethygu oni chymerir camau radical.

Heblaw am gyfraniad y Gweinidog, yr unig gyfraniad o'r meinciau Llafur oedd hwnnw gan Lesley Griffiths. Yr wyf yn ddiolchgar iddi am ei chyfraniad, yn enwedig y cyfeiriad at reoli lleoedd adsefydlu yng Nghymru. Os edrychwch ar yr adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd, dywed yn eglur fod asesu angen yn anghyson ac yn aneglur, a hynny ar gyfer dadwenwyno cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl. Oni chawn yr asesiad o angen, a hynny'n cael ei wneud yn ddigon cynnar, er mwyn gwybod a deall yr hyn y mae angen ei gomisiynu, yna ni chaiff pobl yng Nghymru gyfle i fanteisio ar leoedd adsefydlu. Mae hwn yn bwynt sylfaenol yn yr adroddiad annibynnol, ac yr oedd Lesley yn llygad ei lle i dynnu sylw at y ffordd y mae lleoedd a gwasanaethau'n cael eu comisiynu yng Nghymru, a sut y mae pobl yng Nghymru'n gallu manteisio ar y gwasanaethau hynny.

Soniodd y Gweinidog yn ei gyfraniad am y

the significant progress that has been made due to funding, but there are huge problems with how funding is allocated. There are a variety of commissioning bodies—not just within local government, but within local health boards. It is confusing, and it is difficult for practitioners to know who is responsible for what. It is time that the Minister took that into account. We are concerned about the state of the services in Wales that seek to tackle substance misuse. We believe that people outside this building are concerned too. This nation is storing up massive problems if it fails to tackle substance misuse. It is storing up those problems if it fails to understand the causes of it and how we need to treat it. Failure cannot be an option. Some humility from the Government might be useful, and recognition of the challenge by you, Minister, would be a good start.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that they do. Therefore, we will defer voting until voting time.

*Gohiriwyd y bleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Heddluoedd yng Nghymru Police Forces in Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of William Graham, amendment 2 in the name of Carwyn Jones and amendment 3 in the name of Kirsty Williams.

Mark Isherwood: I propose that

the National Assembly for Wales:

calls upon the Assembly Government to review the support it gives to Police Forces in Wales. (NDM3853)

I propose amendment 1 in the name of William Graham. Delete all after 'National

cynnydd sylweddol a wnaethpwyd o ganlyniad i gyllid, ond mae problemau enfawr yn gysylltiedig â'r modd y mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu. Ceir amrywiaeth o gyrrff comisiynu—nid yn unig o fewn llywodraeth leol, ond o fewn byrddau iechyd lleol. Mae'n achosi dryswch, ac mae'n anodd i ymarferwyr wybod pwy sy'n gyfrifol am beth. Mae'n hen bryd i'r Gweinidog gadw hynny mewn cof. Yr ydym yn pryderu am gyflwr y gwasanaethau yng Nghymru sy'n ceisio mynd i'r afael â chamdefnyddio sylweddau. Credwn fod pobl y tu allan i'r adeilad hwn hefyd yn pryderu. Bydd y genedl hon yn creu problemau enfawr iddi'i hun os na lwyddo i fynd i'r afael â chamdefnyddio sylweddau. Bydd yn creu'r problemau hyn os na fydd yn deall eu hachos a sut y dylem ddelio â hwy. Nid yw methu yn ddewis. Gallai ychydig ostyngeddwydd o gyfeiriad y Llywodraeth fod yn ddefnyddiol, a byddai eich clywed chi, Weinidog, yn cydnabod yr her yn ddechrau da.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, bydd y bleidlais yn cael ei gohirio tan yr amser pleidleisio.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Carwyn Jones, a gwelliant 3 yn enw Kirsty Williams.

Mark Isherwood: Cynigaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i Heddluoedd yng Nghymru. (NDM3853)

Cynigaf welliant 1 yn enw William Graham. Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol

Assembly for Wales' and replace with:

calls upon the Assembly Government to lobby the Westminster Government to honour the recent pay award for the police in full with immediate effect.

I am proud to propose the motion and amendment 1. I am sure that amendment 2 in the name of Carwyn Jones is sincerely meant, otherwise I would interpret the Assembly Government's actions as a betrayal of the men and women of the police service throughout Wales and the United Kingdom. Hundreds of serving officers have e-mailed me urging support for amendment 1, and thousands have e-mailed Members across the Chamber with the same plea. Do not betray them.

Yesterday, members of the Police Federation of England and Wales came to the Assembly to meet us. We were told that the umbilical cord of the special relationship between the police and Government has been cut. Its England and Wales general secretary, John Francis, stated his belief that the National Assembly for Wales could be an important stepping stone for the police and that the UK Government listens to devolved Government. He should know, because he has been negotiating directly with the Home Secretary. He stressed to us that if the Assembly were to come out in collective support for the police, it would make a big contribution to their campaign. He appealed to Labour and Plaid Cymru Members to stand by their principles and vote with integrity.

For 28 years, the annual increase in police pay was linked to pay in the private sector by an Office of Manpower Economics index. It was simple, fair and transparent. The police accepted it, even when the linkage meant lower pay rises than in the public sector. However, they state that the Government is now turning this around to suit itself by proposing a linkage with a basket of cherry-picked public sector pay settlements following two years of public pay sector constraint. The Home Secretary is now trying to get them into negotiations on a three-year deal but, as they state, they have had an effective and fair 28-year deal. The Wales

Cymru' ac yn ei le rhoi:

yn galw ar Lywodraeth y Cynlluniad i lobio Llywodraeth San Steffan i anrhydeddu'r dyfarniad cyflog diweddar ar gyfer yr heddlu'n llawn a hynny ar unwaith.

Yr wyf yn falch o'r cyfle i gyflwyno cynnig a gwelliant 1. Yr wyf yn siŵr fod gwelliant 2 yn enw Carwyn Jones yn un digon diffuant, neu byddwn yn dehongli gweithredoedd Llywodraeth y Cynulliad fel rhai sy'n bradychu dynion a menywod y gwasanaeth heddlu ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae cannoedd o swyddogion wedi anfon negeseuon e-bost ataf yn erfyn am gefnogaeth i welliant 1, ac mae miloedd wedi anfon e-bost at Aelodau ar draws y Siambr gyda'r un cais. Peidiwch â'u bradychu.

Ddoe, daeth aelodau Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr i'r Cynulliad i'n cyfarfod. Dywedwyd wrthym fod llinyn bogail y berthynas arbennig rhwng yr heddlu a'r Llywodraeth wedi'i dorri. Dywedodd ysgrifennydd cyffredinol y Ffederasiwn dros Gymru a Lloegr, John Francis, ei fod yn credu y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gyfrwng pwysig i'r heddlu a bod Llywodraeth y DU yn gwrando ar Lywodraethau datganoledig. Dylai wybod hynny, gan ei fod wedi bod yn negodi'n uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Pwysleisiodd wrthym petai'r Cynulliad yn mynegi ei gefnogaeth gyfunol i'r heddlu, y byddai hynny'n gyfraniad mawr at eu hymgyrch. Apeliodd at Aelodau Llafur a Phlaid Cymru i gadw at eu hegwyddorion a phleidleisio gyda'u cydwybod.

Ers 28 o flynyddoedd, mae'r cynnydd blynyddol yng nghyflog yr heddlu wedi'i gysylltu â chyflogau yn y sector preifat drwy fynegai Swyddfa Economeg y Gweithlu. Yr oedd hynny'n syml, yn deg ac yn dryloyw. Yr oedd yr heddlu'n derbyn hynny, hyd yn oed os oedd y cysylltiad hwnnw'n golygu codiadau cyflog is nag yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dywedant fod y Llywodraeth yn awr yn newid hyn i blesio'i hun drwy gynnig cysylltiad â basged o setliadau cyflog yn y sector cyhoeddus wedi'u dethol yn ofalus yn dilyn dwy flynedd o gyfyngu cyflogau'r sector cyhoeddus. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awr yn

chief constable stated:

'For the whole of my service... we have had harmonious industrial relations in the police, following a landmark national pay agreement in 1979.... No-one joins the police to get rich, but we have received the necessary fair deal from every government along the way... Until now... the Home Office, for the first time ever, has refused to honour the outcome.'

Eleanor Burnham: If the story is true, do you not think it perverse that a senior civil servant in the Home Office, who obviously earns a large salary already, has earned an enormous bonus for advising Jacqui Smith not to increase policemen's pay?

Mark Isherwood: That would be a matter of grave concern.

Such pay rises, even during the difficult economic times of the 1970s and 1980s, were honoured by successive Governments. In 2007, the business case for 3.9 per cent was put to the police negotiating board and to the independent arbitration. The index used to judge police pay for many years recommended 3.3 per cent. In 2007, the independent arbiters recommended 2.5 per cent. The Police Federation of England and Wales went into that arbitration in the full knowledge that it will be bound by that decision of 2.5 per cent. However, the Home Secretary refused to honour the pay award in full, reducing its value to 1.9 per cent. In contrast, civilian police community support officers will be getting their pay award backdated.

This issue, in many ways, as the federation says, is not about pay, as the sums involved are small; it is about the covenant that is central to the working relationship between politicians and the police and the trust that they invest in each other, for, without that, it says, we would not have an effective police

ceisio'u cael i drafod cytundeb tair blynedd, ond fel y dywedasant, maent wedi cael cytundeb effeithiol a theg am 28 mlynedd. Meddai un prif gwnstabl o Gymru:

Yn ystod fy nghyfnod yn yr heddlu... yr ydym wedi mwynhau cysylltiadau diwydiannol da yn yr heddlu, yn dilyn cytundeb cyflog cenedlaethol pwysig yn 1979... Nid oes neb yn ymuno â'r heddlu i fod yn gyfoethog, ond cawsom y fargen deg angenrheidiol gan bob llywodraeth ar hyd y daith... Tan hyn... mae'r Swyddfa Gartref, am y tro cyntaf erioed, wedi gwrthod derbyn y canlyniad.

Eleanor Burnham: Os yw'r stori'n wir, oni chredwch ei bod yn groes i'r graen fod uwch was sifil yn y Swyddfa Gartref, sy'n amlwg yn ennill cyflog mawr eisoes, wedi ennill bonws enfawr am gynghori Jacqui Smith i beidio â chynyddu cyflog yr heddlu?

Mark Isherwood: Byddai hynny'n achos pryder mawr.

Yr oedd codiadau cyflog o'r fath, hyd yn oed yn ystod y caledi economaidd yn y 1970au a'r 1980au, yn cael eu hanrhydeddu gan bob Llywodraeth. Yn 2007, cyflwynwyd yr achos busnes am 3.9 y cant i fwrdd negodi'r heddlu ac i'r cyflafareddwyr annibynnol. Argymhellodd y mynegai a ddefnyddiwyd i bennu cyflog yr heddlu am flynyddoedd lawer gynnydd o 3.3 y cant. Yn 2007, argymhellodd y cyflafareddwyr annibynnol 2.5 y cant. Aeth Ffederasiwn yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr at y cyflafareddiad hwnnw gan wybod yn iawn y byddai'n rhwym i dderbyn y penderfyniad hwnnw o 2.5 y cant. Fodd bynnag, gwrthododd yr Ysgrifennydd Cartref anrhydeddu'r dyfarniad cyflog yn llawn, gan ostwng ei werth i 1.9 y cant. I'r gwrthwyneb, bydd dyfarniad cyflog swyddogion sifil cymorth cymunedol yr heddlu yn cael ei ôl-ddyddio.

Nid yw'r mater hwn, mewn llawer ffordd, fel y dywed y ffederasiwn, yn fater o gyflog yn unig, gan fod y symiau dan sylw'n fach; mae'n fater o'r cyfamod sy'n hanfodol i'r berthynas weithio rhwng gwleidyddion a'r heddlu a'r ymddiriedaeth rhyngddynt. Heb hwnnw, meddent, ni fyddai gennym wasanaeth heddlu effeithiol.

service.
3.00 p.m.

Police officers regularly put themselves at risk to protect others. Their private and family lives are restricted. They are accountable for their actions at all times, on or off duty. On 23 January, 22,000 police officers marched through London; 180 of those came from my region of north Wales, illustrating the strength of their view. They received genuine cross-party support. Twenty-two Welsh MPs, from all parties, have signed an early day motion in their support. One officer told me, 'Thank you. As a born and bred Welshman, I was starting to feel let down by the Welsh Assembly. I have been a police officer for 20 years and have never seen police conditions so bad'. Another said, 'Many thanks. As secretary of the inspectors' branch board of the police federation, I shall circulate the response to my membership and other colleagues'.

The Police Federation of England and Wales has described a letter from the Home Secretary to the Chancellor as a truly dishonourable move, adding that, despite assurances that there would be full consultation before any decision was made, it was clear that the Home Secretary had already decided on a pay review body. It has also noted that the teachers' pay award blows out of the water the Government's spin that awards above 2 per cent will fuel inflation.

The new Secretary of State for Wales, Paul Murphy, has noted that most police authorities have budgeted for the recommended 2.5 per cent. North Wales Police Authority has written to the Home Secretary, stating that the necessary funds to meet the pay award from 1 September are already included in its budget. The chair of the North Wales Police superintendents association tells me that morale has been knocked and that officers and family and friends will look closely at the support, or otherwise, given by their local elected representatives. As one police officer stated yesterday—I will conclude with this—I ask that you support amendment 1 and show that

Mae swyddogion heddlu'n rhoi eu hunain mewn perygl yn rheolaidd i amddiffyn pobl eraill. Cyfyngir eu bywydau preifat a'u bywydau teuluol. Maent yn gyfrifol am eu gweithredoedd bob amser, wrth eu gwaith neu'r tu allan. Ar 23 Ionawr, gorymdeithiodd 22,000 o swyddogion heddlu drwy Lundain; deuai 180 o'r rheini o'm rhanbarth i, Gogledd Cymru, i ddangos cryfder eu barn. Cawsant gefnogaeth drawsbleidiol wirioneddol. Mae dau ar hugain o ASau Cymru, o bob plaid, wedi llofnodi cynnig cynnar-yn-y-dydd i'w cefnogi. Dywedodd un swyddog wrthyf, 'Diolch ichi. Fel un a aned ac a faged yng Nghymru, yr wyf yn dechrau teimlo bod y Cynulliad yn fy siomi. Bûm yn swyddog heddlu ers 20 mlynedd ac ni welais erioed amodau'r heddlu cynddrwg'. Meddai un arall, 'Diolch o galon. Fel ysgrifennydd bwrdd cangen arolygwyr ffederasiwn yr heddlu, byddaf yn anfon yr ymateb i'm haelodau ac i gydweithwyr eraill'.

Mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi disgrifio llythyr gan yr Ysgrifennydd Cartref at y Canghellor fel cam gwirioneddol gywilyddus, gan ychwanegu ei bod yn amlwg fod yr Ysgrifennydd Cartref eisoes wedi penderfynu ar gorff adolygu cyflogau, er gwaethaf sicrwydd y byddai ymgynghori llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Mae hefyd wedi sylwi bod y dyfarniad cyflog i athrawon yn chwalu sbin y Llywodraeth y bydd dyfarniadau uwchlaw 2 y cant yn megino chwyddiant.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol newydd, Paul Murphy, wedi sylwi bod y rhan fwyaf o awdurdodau heddlu wedi cyllidebu ar gyfer y 2.5 y cant a argymhellwyd. Mae Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref, gan ddweud bod yr arian angenrheidiol i dalu'r dyfarniad cyflog o 1 Medi ymlaen eisoes wedi'i gynnwys yn ei gyllideb. Dywed cadeirydd cymdeithas uwch-arolygwyr Heddlu Gogledd Cymru wrthyf fod morâl wedi cael ergyd ac y bydd swyddogion a theuluoedd a chyfeillion yn edrych yn ofalus ar y gefnogaeth, neu fel arall, a roir gan eu cynrychiolwyr etholedig lleol. Fel y dywedodd un swyddog heddlu ddod—gorffennaf gyda hyn—'Gofynnaf ichi

at least Assembly Members can act with honour, no matter what party you are from'. Please ponder that.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I propose amendment 2 in the name of Carwyn Jones. Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

commends the support provided by the Assembly Government to police forces in Wales and the actions taken by it to ensure that Welsh views, needs and circumstances in relation to police matters are made known to the Home Office.

Peter Black: I propose amendment 3 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion:

believes that the 101 single, non-emergency number provides valuable support to the police in dealing with community safety and anti-social behaviour and therefore calls on the Assembly Government to review its decision to not investigate rolling out this service across Wales.

I underline the Welsh Liberal Democrats' support for Mark Isherwood's words on the police pay issue. It is absolutely scandalous that the UK Government has failed to honour the agreement to meet the terms of this independent review. Its whole attitude towards the police, who, as we have been reminded, cannot go on strike or take industrial action, has shown it in a bad light.

There are comparisons with how the Government treated nurses. They also had a staged review and, because their pay and their profession is a devolved matter, the Welsh Assembly Government, to its credit, could step in and ensure that, in Wales at least, they received their full pay award. Unfortunately, police pay is not devolved in that way and, as a result, the Assembly Government cannot intervene directly to do this, which is a shame. I understand that the chief constable of North Wales Police was

gefnogi gwelliant 1 a dangos y gall o leiaf Aelodau'r Cynulliad weithredu'n anrhydeddus, ni waeth o ba blaidd yr ydych'. Ystyriwch hynny, os gwelwch yn dda.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Cynigiau welliant 2 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru.' a rhoi yn ei le:

yn cymeradwyo cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i heddluoedd yng Nghymru a'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn ymwybodol o safbwyntiau, anghenion ac amgylchiadau Cymru o ran materion sy'n ymwneud â'r heddlu.

Peter Black: Cynigiau welliant 3 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod yr un rhif 101 ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn achosion brys yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r heddlu ar gyfer delio â diogelwch cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac felly yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu ei benderfyniad i beidio ag ymchwilio i gyflwyno'r gwasanaeth hwn ledled Cymru.

Tanlinellaf gefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i eiriau Mark Isherwood ar fater cyflog yr heddlu. Mae'n gwbl warthus fod Llywodraeth y DU wedi methu ag anrhydeddu'r cytundeb i fodloni telerau'r adolygiad annibynnol hwn. Mae ei holl agwedd at yr heddlu, na allant fynd ar streic na gweithredu'n ddiwydiannol, fel y'n hatgoffwyd, wedi rhoi darlun anffafriol ohoni.

Mae yna gymariaethau â'r modd y cafodd nyrsys eu trin gan y Llywodraeth. Cawsant hwy hefyd adolygiad fesul cam, ac oherwydd bod eu cyflog a'u proffesiwn yn fater datganoledig, gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru, er clod iddi, gamu i mewn a sicrhau eu bod, yng Nghymru o leiaf, yn cael eu dyfarniad cyflog llawn. Yn anffodus, nid yw cyflog yr heddlu wedi'i ddatganoli fel hynny, ac o'r herwydd ni all Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd yn uniongyrchol i wneud hyn, ac mae hynny'n bechod. Deallaf fod prif

considering whether he was able to pay the award in full, but received legal advice that he was not able to do so. However, if we were able to do so, I would hope that the Government would take exactly the same position as it did over nurses, and pay it. Given that it is not able to make that decision, I hope that it will do the next best thing, and throw the entire weight of every party here behind the call to pay in full the pay rise to which the police are entitled and which this independent review has effectively awarded. The fact that the UK Government has reneged on a generation-old agreement with the police is a national scandal, which will come back to haunt it for many years.

The amendment that I move is particularly related to the 101 centre, on which the Welsh Liberal Democrats have tabled a debate in the past. You will recall from that debate that we understand that that centre is under threat—everyone regrets that the Home Office has ceased to fund it. The only hope for keeping that centre in place is if funding is found from the police authorities or from the Welsh Assembly Government. Those are the only sources of funding that appear to be available to keep that centre open.

As I said in the previous debate, there is precedence in terms of the Assembly Government stepping in to take over a Home Office function. It happened with regard to the money that it continues to put into Operation Tarian, which was set up to deal with drugs, based in Bridgend. I hope that, once the police funding issue comes through, and the local government settlement and the police settlement are resolved, the Assembly Government can sit down with the police forces to find a way not only to keep the 101 centre open in Cardiff, but to expand it across Wales, if possible.

My colleague, Jenny Randerson, who is a Cardiff Assembly Member, will expand more fully on the benefits that the 101 service bring to Cardiff. I have visited the centre twice—I have sat in and have listened to calls

gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried a allai dalu'r dyfarniad yn llawn, ond cafodd gyngor cyfreithiol na allai wneud hynny. Er hynny, pe gallem wneud hynny, byddwn yn gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn cymryd yr union safiad ag a wnaeth o safbwynt nyrsys, ac yn ei dalu. O gofio na all wneud y penderfyniad hwnnw, gobeithio y bydd yn gwneud y peth ail orau, ac yn rhoi holl bwysau pob plaid yma y tu ôl i'r galw i dalu'n llawn y codiad cyflog y mae gan yr heddlu yr hawl iddo ac sydd wedi ei ddyfarnu i bob pwrpas gan yr adolygiad annibynnol hwn. Mae'r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi torri cytundeb gyda'r heddlu sy'n bod ers cenedlaeth yn warth cenedlaethol a fydd yn dychwelyd i'w phoeni am flynyddoedd lawer.

Mae'r gwelliant a gynigaf yn ymwneud yn benodol â'r ganolfan 101, mater y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno dadl arno yn y gorffennol. Byddwch yn cofio o'r ddadl honno ein bod yn deall bod y ganolfan honno o dan fygythiad—mae pawb yn gresynu bod y Swyddfa Gartref wedi rhoi'r gorau i'w hariannu. Yr unig obaith i gynnal y ganolfan hon yw os darperir cyllid gan yr awdurdodau heddlu neu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ymddangos mai'r rheini yw'r unig ffynonellau cyllid sydd ar gael i gadw'r ganolfan honno ar agor.

Fel y dywedais yn y ddadl flaenorol, mae hynna gysail lle daeth Llywodraeth y Cynulliad i mewn i ysgwyddo un o swyddogaethau'r Swyddfa Gartref. Digwyddodd gyda'r arian y mae'n parhau i'w gyfrannu at Ymgyrch Tarian, a sefydlwyd i ddelio â chyffuriau, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gobeithio, ar ôl i fater cyllid yr heddlu ddod drwodd, ac ar ôl torri'r ddadl ynghylch y setliad llywodraeth leol a setliad yr heddlu, y gall Llywodraeth y Cynulliad eistedd i lawr gyda'r heddluoedd i ddod o hyd i ffordd nid yn unig i gadw canolfan 101 ar agor yng Nghaerdydd, ond i'w hehangu ar draws Cymru, os yw'n bosibl.

Bydd fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson, sy'n Aelod Cynulliad yng Nghaerdydd, yn ymhelaethu'n llawnach ar y manteision y mae'r gwasanaeth 101 yn eu dwyn i Gaerdydd. Yr wyf wedi ymweld â'r ganolfan

and talked to the operators there. There is no doubt in my mind that this service is a major boon, not only to Cardiff, but to other parts of south Wales that benefit from it, not through dialling 101, but through dialling other police station numbers and being put through to it. The 101 centre also operates as, to use the Irish term, the 'snitch-line' for the smoking ban, so that, if you ring up to complain that a pub landlord is in breach of the smoking ban, you will be put through to that 101 service.

The potential for how that service can be developed is enormous. I hope that the Assembly Government will recognise that, invest in it, and work with the police authorities, maybe even giving a bit of latitude on council tax, to ensure that that service will survive.

Alun Davies: I had originally planned to speak more generally about the role of the police and policing in our communities. However, the pay issue cannot be ignored in this debate, and I will return to that before I conclude my remarks.

The Welsh Assembly Government already has a close, valued and successful relationship with all four police forces in Wales. The success of this relationship was perhaps best demonstrated only a few weeks ago, when all the chief constables in Wales called for the devolution of the police and criminal justice system to this place. It is an indication of their confidence in the Welsh Assembly Government, and in this institution, that they made that statement.

Jonathan Morgan: Will you give way?

Alun Davies: Can you allow me to make my point first? This demonstrates how the debate over the police and devolution should proceed, based on a thorough and hard-headed examination of what is right for Wales, and how we best deliver public services for our communities throughout Wales.

ddwywaith-yr wyf wedi eistedd yno ac wedi gwrandao ar alwadau ac wedi sgwrsio â'r teleffonyddion yno. Nid oes gennyf ddim amheuaeth nad yw'r gwasanaeth hwn yn fendith, nid yn unig i Gaerdydd, ond i rannau eraill o'r de sy'n elwa ohono, nid drwy ddeialu 101 ond drwy ddeialu rhifau gorsafocedd heddlu eraill a chael eu rhoi drwodd iddo. Mae'r ganolfan 101 hefyd yn gweithredu fel y 'llynell brepian', i ddefnyddio'r term Gwyddelig, ar gyfer y gwaharddiad ar ysmegu, fel y byddwch, wrth ffonio i gwyno bod landlord tafarn yn gweithredu'n groes i'r gwaharddiad ar ysmegu, yn cael eich rhoi drwodd i'r gwasanaeth 101 hwnnw.

Mae'r potensial o safbwynt y ffordd y gellir defnyddio'r gwasanaeth hwnnw yn aruthrol. Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod hynny, yn buddsoddi ynddo, ac yn gweithio gyda'r awdurdodau heddlu, a hyd yn oed roi ychydig ryddid o safbwynt y dreth gyngor, hwyrach, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth hwnnw.

Alun Davies: Yr oeddwn yn wreiddiol wedi bwriadu siarad yn fwy cyffredinol am rôl yr heddlu a phlisma yn ein cymunedau. Er hynny, ni ellir anwybyddu cyflog yn y ddadl hon, a dychwelaf at hynny cyn imi gloi fy sylwadau.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eisoes berthynas glos, werthfawr a llwyddiannus â'r pedwar heddlu yng Nghymru. Hwyrach fod llwyddiant y berthynas hon wedi ei gweld ar ei gorau rai wythnosau'n ôl, pan alwodd yr holl brif gwnstabiliaid yng Nghymru am ddatganoli'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i'r lle hwn. Mae'r ffaith iddynt wneud y datganiad hwnnw yn arwydd o'u hyder yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn y sefydliad hwn.

Jonathan Morgan: A wnewch chi ildio?

Alun Davies: A gaf fi wneud fy mhwynt yn gyntaf? Dengys hyn sut y dylai'r ddadl ynghylch yr heddlu a datganoli fynd rhagddi, ar sail archwiliad trylwyr a grymus o'r hyn sy'n iawn i Gymru, a sut orau i ni ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'n cymunedau ledled Cymru.

Jonathan Morgan: Do you accept that the confidence that the police might have in this institution will be based on one thing this afternoon, namely how Assembly Members vote on this motion and these amendments, as to whether we believe the UK Government should be lobbied to pay the police pay rise in full?

Alun Davies: Police confidence in this place will be demonstrated day in, day out, by how this Government works with the police in communities up and down Wales, and not simply on the basis of a single vote. However, as I said, I will return to the issue of pay before I conclude my remarks.

I am lucky—I represent Mid and West Wales, most of which is covered by the Dyfed-Powys Police force; Dwyfor Meirionnydd is, of course, covered by the north Wales force. The Dyfed-Powys Police force has demonstrated that it is an innovative and effective force time and again, whether through pioneering new community links, such as its presence in Ysgol y Bedol in the Amman Valley, or through the local policing charter, which demonstrates the force's commitment to local community policing across one of the biggest police areas in England and Wales. The Dyfed-Powys area remains the safest place to live, work and visit in England and Wales, and it is the work of Dyfed-Powys Police, and the commitment of its officers, that keeps it safe.

It is in that spirit that I will return to the issue of pay. Like others, I have received much lobbying from police officers over the last few weeks, and, like others, I have agreed with much of what is being said. I find it unsettling, uncomfortable and unacceptable that the work of the independent arbitrator has been put aside by the Home Secretary. The Welsh Assembly Government has an excellent policy and record on implementing pay agreements; witness our decision as a minority Labour Government, early last summer, to award the nurses their full pay increase.

3.10 p.m.

Jonathan Morgan: A ydych yn derbyn y bydd yr hyder a fyddai gan yr heddlu yn y sefydliad hwn yn seiliedig ar un peth y prynhawn hwn, sef sut y bydd Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio ar y cynnig hwn a'r gwelliannau hyn, o ran a ydym yn credu y dylid llobio Llywodraeth y DU i dalu codiad cyflog yr heddlu yn llawn?

Alun Davies: Caiff hyder yr heddlu yn y lle hwn ei ddangos yn feunyddiol, drwy'r modd y mae'r Llywodraeth hon yn gweithio gyda'r heddlu mewn cymunedau ym mhob cwr o Gymru, ac nid ar sail un bleidlais yn unig. Er hynny, fel y dywedais, dychwelaf at gyflogau cyn imi gloi fy sylwadau.

Yr wyf yn ffodus—yr wyf yn cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o'r ardal yn dod dan heddlu Dyfed-Powys; mae Dwyfor Meirionnydd, wrth gwrs, yn perthyn i heddlu'r gogledd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dangos dro ar ôl tro ei fod yn heddlu arloesol ac effeithiol, boed drwy gysylltiadau cymunedol newydd arloesol, megis ei bresenoldeb yn Ysgol y Bedol yn Nyffryn Aman, neu drwy'r siarter blismona leol, sy'n dangos ymrwymiad yr heddlu i blismona cymunedol lleol ar draws un o'r ardaloedd heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Ardal Dyfed-Powys o hyd yw'r man mwyaf diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac ymweld ag ef yng Nghymru a Lloegr, a gwaith Heddlu Dyfed-Powys, ac ymroddiad ei swyddogion, sy'n ei gadw'n ddiogel.

Yn yr ysbryd hwnnw y dychwelaf at gyflogau. Fel eraill, mae nifer o swyddogion heddlu wedi fy llobio dros yr wythnosau diwethaf, ac fel eraill yr wyf wedi cytuno â llawer o'r hyn a ddywedir. Mae'n ysgytwol, yn anghysurus ac yn annerbyniol i mi fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod gwaith y cyflafareddwr annibynnol o'r neilltu. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi a record ardderchog o safbwynt gweithredu cytundebau cyflog, fel y tystia ein penderfyniad fel Llywodraeth Lafur leiafrifol, ddechrau'r haf diwethaf, i ddyfarnu i'r nyrsys eu codiad cyflog llawn.

We all recognise the importance of economic stability and pay restraint at times, but I do not believe the additional 0.6 per cent is a matter of the utmost national importance—it is a matter of the utmost national trust. I hope that that is something that the Home Secretary will recognise. I hope that she recognises the force of the argument of police officers, who put their lives at risk day in, day out, to maintain the safety of our communities. I also hope that she recognises that it is the right thing to do, the honourable thing to do and the decent thing to do. I hope that the Home Secretary will pay the award in full—I have written to her privately to say that, and I speak in public this afternoon—

Nick Bourne: The Member has not covered this yet, but I take it as read from what he is saying that he will vote for the amendment, so that we can ensure that all parties in the Assembly back the amendment, to put additional pressure on the Westminster Government.

Alun Davies: I am backing the police force, but I will not play politics with the police force. I will conclude my remarks by saying that I have made my position clear, and I hope that other Members will also make their position clear. I hope that the Home Secretary will pay the award in full, and I will continue to support police officers in Dyfed-Powys Police and North Wales Police to that extent.

William Graham: Over the last eight years, an issue that has united Members across the Chamber, on many occasions, in reflecting the views of their constituents is that of asking for more policemen to be on the streets. However, I do not think that many Members realised that having 22,000 policemen on the streets would acknowledge the failure of the Government to honour a promise.

There is a well-leaked Whitehall memo going around that states that the police are paid enough already, and reveals that the reason for having this fight now is that the position gets much worse next year. In other words,

Cydnabyddwn i gyd bwysigrwydd sefydlogrwydd economaidd a chyfyngu cyflogau ar adegau, ond ni chredaf fod y 0.6 y cant ychwanegol yn fater o'r pwysigrwydd cenedlaethol mwyaf—mater ydyw o'r ymddiriedaeth genedlaethol fwyaf. Gobeithio'i fod yn rhywbeth y bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn ei gydnabod. Gobeithio y bydd yn cydnabod grym dadl y swyddogion heddlu sy'n rhoi eu bywydau mewn perygl yn feunyddiol er mwyn cynnal diogelwch ein cymunedau. Gobeithio hefyd y bydd yn cydnabod mai dyma'r peth cyfiawn i'w wneud, y peth anrhydeddus i'w wneud a'r peth gweddus i'w wneud. Gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn talu'r dyfarniad yn llawn—yr wyf wedi ysgrifennu ati'n breifat i ddweud hynny, a siaradaf yn gyhoeddus y prynhawn yma—

Nick Bourne: Nid yw'r Aelod wedi sôn am hyn eto, ond cymeraf yn ganiataol o'r hyn a ddywed y bydd yn pleidleisio dros y gwelliant, fel y gallwn sicrhau y bydd pob plaid yn y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliant, i roi pwysau ychwanegol ar Lywodraeth San Steffan.

Alun Davies: Yr wyf yn cefnogi'r heddlu, ond ni wnaef chwarae gwleidyddiaeth â'r heddlu. Claf fy sylwadau drwy ddweud fy mod wedi datgan fy safiad yn glir, a gobeithio y bydd Aelodau eraill hefyd yn datgan eu safiad yn glir. Gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn talu'r dyfarniad yn llawn, a byddaf yn dal i gefnogi'r swyddogion heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru i'r graddau hynny.

William Graham: Dros yr wyth mlynedd diwethaf, un mater sydd wedi uno Aelodau ar draws y Siambr, droeon, wrth iddynt adlewyrchu safbwyntiau eu hetholwyr yw gofyn am gael mwy o swyddogion heddlu ar y strydoedd. Er hynny, ni chredaf fod llawer o Aelodau wedi sylweddoli y byddai cael 22,000 o swyddogion heddlu ar y strydoedd yn cydnabod methiant y Llywodraeth i anrhydeddu addewid.

Mae memo cwbl hysbys o Whitehall ar led yn dweud bod yr heddlu'n cael digon o gyflog eisoes, ac mae'n datgelu mai'r rheswm dros y frwydr hon yn awr yw y bydd y sefyllfa'n mynd yn llawer gwaeth y

the police will be a key test for the public sector pay freeze; crack them and it will be easier to take on the unions. However, all of this presumes that the police in England and Wales, not in Scotland, should be treated like any other part of the public sector. Yet, since the end of the first world war, when they last took industrial action, they have been treated differently.

The Desborough committee, meeting in 1919, said that, as an officer of the Crown, a policeman has responsibilities and obligations that are peculiar to his calling and distinguish him from other public servants. In 1962, the Royal Commission on the Police said that the constable is unique among subordinates in the nature and degree of the responsibility that he is required to exercise. Lord Edmund-Davies, in his inquiry in 1978, concurred and recommended a 45 per cent pay increase, which was implemented in full by the incoming Conservative Government as one of Mrs Thatcher's first decisions.

The indexation that underpinned the deal remained in place for 28 years, until this Labour Government decided to scrap it. This year's pay offer followed arbitration, which the police accuse the Home Secretary of failing to honour. A consequence of being treated differently is that police officers are forbidden by law from taking strike action. Lord Edmund-Davies said that this provision sprang from a conviction that it was necessary to ensure the matchless role of the police. Now that the Government is proposing to break a 90-year consensus by treating the police like any other part of the public sector, does it also intend to restore their right to strike?

By comparison with other public sector workers, it is almost unheard of for a local council worker to get shot at in the course of his duties, as happened to a member of Lancashire Constabulary who is now handing back his bravery award, because he feels so angry with the Government.

flwyddyn nesaf. Mewn geiriau eraill, bydd yr heddlu'n brawf allweddol ar gyfer rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus; lloriwch yr heddlu a bydd yn haws herio'r undebau. Er hynny, mae hyn i gyd yn rhagdybio y dylai'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, nid yn yr Alban, gael eu trin fel unrhyw ran arall o'r sector cyhoeddus. Eto, ers diwedd y rhyfel byd cyntaf, pan welwyd hwy'n gweithredu'n ddiwydiannol ddiwethaf, maent wedi eu trin yn wahanol.

Dywedodd y pwyllgor Desborough, pan gyfarfu yn 1919, fod gan heddwes, fel swyddog i'r Goron, gyfrifoldebau a rhwymedigaethau sy'n neilltuol i'w alwedigaeth ac sy'n ei wahaniaethu oddi wrth weithwyr cyhoeddus eraill. Yn 1962, dywedodd y Comisiwn Brenhinol ar yr Heddlu fod y cwnstabl yn unigryw ymysg is-weithwyr o ran natur a graddau'r cyfrifoldeb y mae'n ofynnol iddo ei ymarfer. Cytunodd yr Arglwydd Edmund-Davies, yn ei ymchwiliad yn 1978, gan argymhell codiad cyflog o 45 y cant, codiad a weithredwyd yn llawn gan y Llywodraeth Geidwadol newydd fel un o benderfyniadau cyntaf Mrs Thatcher.

Parhaodd y mynegeio a oedd yn sylfaen i'r fargen am 28 mlynedd, nes i'r Llywodraeth Lafur hon benderfynu ei daflu ar y domen. Daeth y cynnig cyflog eleni yn dilyn cyflafareddu, ac y mae'r heddlu'n cyhuddo'r Ysgrifennydd Cartref o fetu â'i anrhydeddu. Un canlyniad i gael eu trin yn wahanol yw bod y gyfraith yn gwahardd swyddogion heddlu rhag streicio. Dywedodd yr Arglwydd Edmund-Davies fod y ddarpariaeth hon yn deillio o argyhoeddiad ei bod yn angenrheidiol sicrhau rôl ddigymar yr heddlu. Gan fod y Llywodraeth yn awr yn cynnig torri consensws 90 mlwydd oed drwy drin yr heddlu fel unrhyw ran arall o'r sector cyhoeddus, a yw hefyd yn bwriadu adfer eu hawl i streicio?

O'u cymharu â gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus, bron na chlywyd erioed am rywun yn saethu at weithiwr cyngor lleol yng nghwrs ei ddyletswyddau, fel y digwyddodd i aelod o Heddlu Swydd Gaerhirfryn. Mae'n awr yn rhoi ei wobwr dewrder yn ôl, oherwydd ei fod yn teimlo mor ddig tuag at y Llywodraeth.

The 1979 reforms brought a large number of people into policing, many of whom are within a few years of retirement. The Government thinks that it can abandon the pay deal reached then with impunity, because there are plenty of potential recruits.

David Lloyd: Thank you for taking the intervention. I also support paying the full pay rise of 2.5 per cent for the police. Will William confirm that it is also the UK Conservative Party's policy to commit to the full 2.5 per cent pay rise in one go?

William Graham: Thank you for your intervention; you probably do not read Conservative press releases in great depth, but the leader of the party promised to do so in December of last year.

The full pay award has been made to police officers in Scotland, and community support officers throughout the United Kingdom have also had the award honoured in full. Labour has failed to honour this pay award and the staged implementation reduces its value to 1.9 per cent. The £30 million saved by the Government's refusal to implement the full 2.5 per cent award, and its offer 1.9 per cent instead, is about one two-thousandth of the amount that the Government has conjured up to rescue a failing bank.

The 1970s—that inglorious decade of wage controls, both voluntary and statutory—saw inflation average more than 13 per cent per year, peaking at some 27 per cent under Labour in 1975. Carelessness with the money supply has a far more direct impact on the cost of living, and that is solely the Government's responsibility. The Welsh Assembly Government contributes some 40 per cent of the cost of policing in Wales. The Minister may not have direct access to central Government negotiations, but today I suspect he will be a poor apologist for his Labour colleagues in Westminster. The Assembly Government has a moral authority that, in all decency, must influence the Labour Government to abide by the independent award and implement it in full, without further delay.

Daeth diwygiadau 1979 â nifer fawr o bobl i mewn i'r maes plismona, ac mae llawer o'r rheini o fewn ychydig flynyddoedd i ymddeol. Mae'r Llywodraeth yn credu y gall roi'r gorau i'r fargen gyflog a gafwyd bryd hynny yn ddigerydd, oherwydd mae yma ddiogonedd o ddarpar recriwtiaid.

David Lloyd: Diolch ichi am gymryd yr ymyriad. Yr wyf fi hefyd yn cefnogi'r codiad cyflog llawn o 2.5 y cant i'r heddlu. A wnaiff William gadarnhau ei bod yn bolisi hefyd gan Blaid Geidwadol y DU i ymrwymo i'r codiad cyflog llawn o 2.5 y cant mewn un tro?

William Graham: Diolch ichi am eich ymyriad; mae'n debygol nad ydych yn darllen y datganiadau i'r wasg gan y Ceidwadwyr yn fanwl iawn, ond addawodd arweinydd y blaid y byddai'n gwneud hynny fis Rhagfyr y llynedd.

Rhodddwyd y dyfarniad cyflog llawn i swyddogion heddlu'r Alban, ac anrhydeddwyd y dyfarniad yn llawn hefyd i swyddogion cymorth cymunedol ledled y Deyrnas Unedig. Mae Llafur wedi methu ag anrhydeddu'r dyfarniad cyflog hwn, ac mae ei weithredu fesul cam yn gostwng ei werth i 1.9 y cant. Mae'r £30 miliwn a arbedir wrth i'r Llywodraeth wrthod rhoi'r dyfarniad llawn o 2.5 y cant ar waith, a'i gynnig o 1.9 y cant yn lle hynny, oddeutu un rhan o ddwy fil o'r swm y mae'r Llywodraeth wedi dod o hyd iddo i achub banc sy'n methu.

Yn y 1970au-y degawd gwaradwyddus hwnnw o reolaeth, gwirfoddol a statudol, dros gyflogau-gwelwyd chwyddiant o dros 13 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd, ac ar ei uchaf yr oedd oddeutu 27 y cant dan Lafur yn 1975. Mae bod yn esgeulus â'r cyflenwad arian yn cael effaith lawer mwy uniongyrchol ar gostau byw, a chyfrifoldeb y Llywodraeth yn unig yw hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu rhyw 40 y cant o gost plismona yng Nghymru. Efallai nad oes gan y Gweinidog ran uniongyrchol yn nhrefodaethau'r Llywodraeth ganolog, ond tybiaf heddiw mai apolegwr gwael ydyw dros ei gyd-Aelodau Llafur yn San Steffan. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad awdurdod moesol, ac o ran parch, rhaid iddi ddylanwadu ar y Llywodraeth Lafur i anrhydeddu'r dyfarniad annibynnol a'i

weithredu'n llawn, heb oedi pellach.

Alun Ffred Jones: Mae'n dda clywed bod y Torïaid yn cefnogi'r heddlu, yn wahanol i'w hymosodiad arnynt yn y ddadl flaenorol. Yr ydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru'n Un i ailddatgan y dylai argymhelliad yr adolygiad tâl annibynnol gael ei anrhydeddu gan Lywodraeth San Steffan. Deallaf fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref er mwyn cyfleu teimladau pobl Cymru y dylai'r heddlu dderbyn y tâl sy'n ddyledus iddynt.

Alun Ffred Jones: It is good to hear the Tories support the police, in contrast to the attacks on them in the previous debate. We on this side of the Chamber welcome the decision by the One Wales Government to reiterate that the recommendation by the independent pay review should be honoured by the Westminster Government. I understand that the Minister has written to the Home Office to convey the feelings of the people of Wales that the police should receive the pay owing to them.

Mae Aelodau Plaid Cymru wedi dweud yn glir eu bod yn gwbl anffodlon fod y cynnydd o 2.5 y cant wedi ei ôl-ddyddio i Ragfyr yn unig, yn hytrach na mis Medi. Wedi'r cwbl, fel y mae eraill wedi dweud, mae swyddogion yn yr Alban wedi derbyn y cynnydd hwn eisoes. Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu ei bod yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i anrhydeddu argymhellion annibynnol, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n methu streicio ar sail eu cytundebau. Mae'r un peth yn wir am nyrsys, a buom ym Mhlaid Cymru yn weithgar iawn wrth sicrhau tâl iddynt hwy.

Plaid Cymru Members have stated clearly that they are dissatisfied that the increase of 2.5 per cent has been backdated only to December, rather than September. After all, as others have said, officers in Scotland have already received this increase. We in Plaid Cymru believe the Government has a duty to honour independent recommendations, particularly for those groups who cannot strike because of their contracts. The same is true of the nurses, and we in Plaid Cymru were very active in ensuring payment for them.

Nick Bourne: I am grateful to Alun Ffred for giving way on that point. I assume, from what he is saying, that he will be backing amendment 1, based on the fact that it calls on the Assembly Government to pressurise the Westminster Government to pay the pay settlement in full, which I understand, from what he is saying, is his stance and that of Plaid Cymru.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i Alun Ffred am ildio ar y pwynt hwnnw. Cymeraf, o'r hyn y mae'n ei ddweud, y bydd yn cefnogi gwelliant 1, ar sail y ffaith ei fod yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddwyn pwysau ar Lywodraeth San Steffan i dalu'r setliad cyflog yn llawn. Hynny, yn ôl a ddeallaf o'r hyn y mae'n ei ddweud, yw ei safbwynt ef a safbwynt Plaid Cymru.

Alun Ffred Jones: That remark, and Mark Isherwood's comment at the beginning, suggest to me that today's debate is more about political posturing than anything else. *[Interruption.]*

Alun Ffred Jones: Mae'r sylw hwnnw, a sylw Mark Isherwood ar y dechrau, yn awgrymu i mi fod a wnelo'r ddadl heddiw yn fwy ag ymhonni gwleidyddol na dim byd arall. *[Torri ar draws.]*

We were not born yesterday and I think that it is rather obvious from the repetition of this question that that is basically what you are doing this afternoon. There is a saying in Welsh, '*hael yw Hywel ar bwrs y wlad*'; that is, anybody can be generous with other people's money. Although William Graham alluded to the fact that David Cameron has promised to honour this agreement, I can find

Nid ddoe y cawsom ein geni, a chredaf ei bod braidd yn amlwg, yn sgil ailadrodd y cwestiwn hwn, mai dyna yn ei hanfod yr ydych yn ei wneud y prynhawn yma. Mae yna ddywediad yn y Gymraeg, '*hael yw Hywel ar bwrs y wlad*'; hynny yw, gall unrhyw un fod yn hael ag arian pobl eraill. Er bod William Graham wedi cyfeirio at y ffaith bod David Cameron wedi addo anrhydeddu'r

no record of the shadow chancellor committing any further spending to public pay, however limited. We know that this settlement will only cost an extra £30 million, which seems trifling compared with the furore that erupted on account of it, but the shadow home secretary, David Davies, refuses to say that he would cough up the cash. There is no record of him saying that. Therefore, why are the Tories in Westminster so silent on this issue? The answer is that they do not want to be seen to be softer on public sector pay than Labour. The police force is not safe in the hands of either party in Westminster and it needs to be devolved.

Paul Davies: Mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref i beidio â dilyn argymhellion y tribiwnlys a thalu i'r heddlu y cyflog y maent yn ei haeddu wedi achosi niwed enfawr i berthynas y Llywodraeth Brydeinig a'r heddlu. Mae hyn wedi tanseilio morâl yr heddlu a'r gwaith caled a wnânt. Mae'n hanfodol fod unrhyw Lywodraeth gyfrifol yn trin ein heddlu â'r parch y maent yn ei haeddu. Mae'r heddlu ar ein strydoedd bob dydd yn sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel. Maent yn peryglu'u bywydau wrth ymladd drosom i'n cadw'n ddiogel. Mae arnom ddyled iddynt fel cymdeithas, ac mae'n bwysig eu bod yn cael y chwarae teg y maent yn ei haeddu. Mae'n warthus bod y Llywodraeth yn trin yr heddlu yn y ffordd hon, yn enwedig pan wŷr Prif Weinidog Prydain a'r Ysgrifennydd Cartref fod yr heddlu yn methu â gweithredu'n uniongyrchol. Yr unig ffordd i atgyweirio'r diffyg ymddiriedaeth yw talu'r cyflog y mae'r heddlu yn ei haeddu. Dylai gwleidyddion gydweithio â'r heddlu ac ymddiried ynddynt. Heb yr ymddiriedaeth honno, sut all yr heddlu wneud eu gwaith?

3.20 p.m.

The failure to honour the recent pay award in full creates a truly a dire situation, and it is entirely unfair to the men and women who take significant risks to protect our communities on a daily basis. It is indicative of the Westminster Government's inability to recognise the true priorities within Britain's

cytundeb hwn, ni allaf ddod o hyd i unrhyw gofnod fod canghellor yr wrthblaid wedi ymrwymo unrhyw wariant pellach i gyflogau cyhoeddus, ni waeth pa mor fychan. Gwyddom na fydd y setliad hwn ond yn costio £30 miliwn ychwanegol, sy'n ymddangos yn ddibwys o'i gymharu â'r stŵr sydd wedi ffrwydro o'i herwydd. Ond mae ysgrifennydd cartref yr wrthblaid, David Davies, yn gwrthod dweud y byddai'n darparu'r arian. Nid oes cofnod ohono'n dweud hynny. Felly, pam mae'r Toriaid yn San Steffan mor dawel ar y mater hwn? Yr ateb yw nad ydynt am ymddangos yn fwy meddal na Llafur ar gyflogau'r sector cyhoeddus. Nid yw'r heddlu'n ddiogel yn nwylo'r naill blaid na'r llall yn San Steffan, ac mae angen iddo gael eu datganoli.

Paul Davies: The decision taken by the Home Secretary not to follow the recommendations of the tribunal and pay to the police the salary they deserve has caused huge damage to the relationship between the British Government and the police. This has undermined the morale of the police and the hard work they do. It is crucial that any responsible Government should treat our police with the respect they deserve. The police are on our streets every day ensuring that our communities are safe. They put their lives in danger to defend us and keep us safe. We owe them a debt as a society, and it is important that they get the fair play they deserve. It is appalling that the Government should treat the police in this way, particularly when the Prime Minister and the Home Secretary know that the police cannot take direct action. The only way to address this lack of trust is to pay the police the salary they deserve. Politicians should work with the police and trust them. Without that trust, how can the police do their work?

Mae'r methiant i anrhydeddu'r dyfarniad cyflog diweddar yn llawn yn creu sefyllfa wirioneddol resynus, ac mae'n gwbl annheg â'r dynion a'r menywod sy'n peryglu eu hunain yn sylweddol i amddiffyn ein cymunedau bob dydd. Mae'n arwydd o anallu Llywodraeth San Steffan i adnabod y

crime-riddled communities. The decision not to award the full pay award has had a detrimental effect on the relationship between our police forces and the Government, which will prove to have long-term consequences.

It is all very well for the Westminster Government to commend the invaluable work of the police services, but this below-par pay award suggests the price that they put on the work of our police officers. In its failure to lobby the Westminster Government, the Welsh Assembly Government is simply condoning this act and shirking its responsibility as regards Wales's police forces. While the police force pay bill is not a devolved matter, the Welsh Assembly Government cannot stand by and do nothing.

Brynle Williams: I believe that this house is supposed to be a house of honour; and I believe that the Government is supposed to be a Government of honour. I have always been led to believe, as a farmer, that when you make a bargain, you stick to it. A bargain has been made here and the Government is not prepared to stick to it. It has reneged on many bargains recently and this is but one.

Paul Davies: I agree with Brynle.

Morale among our officers is at an all-time low. Like many of my colleagues, I have been contacted by officers serving in my constituency expressing their disbelief and disillusionment over the settlement. Our police are dealing with ever-increasing demands. Growing violence on our streets is well documented and officers are expected to put themselves at risk on a far greater scale than in previous years. In my constituency, one of the priorities of the Pembrokeshire division of Dyfed Powys Police is to tackle violent crime. Over 70 per cent of this violent crime is alcohol related. Tackling this type of crime carries countless personal risks. Despite these risks, our policemen and women disregard their own safety to protect our communities on a daily basis. If this does not merit a full and fair pay award, what does?

gwir flaenoriaethau yng nghymunedau Prydain, lle mae troseddu'n rhemp. Mae'r penderfyniad i beidio â rhoi'r dyfarniad cyflog yn llawn wedi cael effaith niweidiol ar y berthynas rhwng ein heddluoedd a'r Llywodraeth, a gwelwn y bydd canlyniadau tymor hir i hynny.

Digon hawdd i Lywodraeth San Steffan gymeradwyo gwaith amhrisiadwy gwasanaethau'r heddlu, ond mae'r dyfarniad cyflog hwn, sy'n is na'r cyfartaledd, yn awgrymu'r pris a roddant ar waith ein swyddogion heddlu. Yn ei methiant i lobïo Llywodraeth San Steffan, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cydoddef y weithred hon ac yn osgoi ei chyfrifoldeb i heddluoedd Cymru. Er nad yw bil cyflogau'r heddlu yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru sefyll o'r neilltu a gwneud dim.

Brynle Williams: Credaf fod y tŷ hwn i fod yn dŷ anrhydeddus, a chredaf fod y Llywodraeth i fod yn Llywodraeth anrhydeddus. Cefais fy nysgu i gredu erioed, fel ffermwr, pan fyddwch yn taro bargaen, eich bod yn cadw ati. Mae bargaen wedi ei tharo yma ac nid yw'r Llywodraeth yn barod i gadw ati. Mae'r Llywodraeth wedi mynd yn ôl ar ei gair o safbwynt nifer o fargeinion yn ddiweddar, ac nid yw hon ond un ohonynt.

Paul Davies: Cytunaf â Brynle.

Mae morâl ymysg ein swyddogion yn is nag erioed. Fel nifer o'm cyd-Aelodau, mae swyddogion sy'n gwasanaethu yn fy etholaeth i wedi cysylltu â mi i fynegi eu hanghrediniaeth a'u dadrithiad ynglŷn â'r setliad. Mae ein heddlu yn delio â galwadau sy'n cynyddu'n barhaus. Mae'r trais cynyddol ar ein strydoedd wedi ei gofnodi'n helaeth, ac mae disgwyl i swyddogion beryglu eu bywydau ar raddfa lawer mwy nag yn y blynyddoedd a fu. Yn fy etholaeth i, un o flaenoriaethau adran sir Benfro o Heddlu Dyfed Powys yw mynd i'r afael â throseddu treisgar. Mae a wnelo dros 70 y cant o'r troseddu treisgar hwn ag alcohol. Mae mynd i'r afael â'r math hwn o droseddu yn golygu risgiau personol rif y gwylith. Er gwaethaf y risgiau hynny, mae ein plismyn a'n plismonesau yn anwybyddu eu diogelwch eu hunain i amddiffyn ein cymunedau bob

dydd. Os nad yw hyn yn haeddu dyfarniad cyflog llawn a theg, beth sydd?

If we expect our police to risk their safety in order to protect our communities, we must offer a pay award that reflects these risks. As has already been said, this is not just an issue of money; it is an issue of respect. I urge the Assembly Government and all Assembly Members here today to show that they respect our police forces by supporting the motion and amendment 1.

Os ydym yn disgwyl i'n heddlu beryglu eu diogelwch er mwyn amddiffyn ein cymunedau, rhaid inni gynnig dyfarniad cyflog sy'n adlewyrchu'r risgiau hynny. Fel y dywedwyd eisoes, nid mater o arian yn unig yw hyn; mae'n fater o barch. Anogaf Lywodraeth y Cynulliad a holl Aelodau'r Cynulliad yma heddiw i ddangos eu bod yn parchu ein heddluoedd drwy gefnogi'r cynnig a gwelliant 1.

Jenny Randerson: I will deal first with the Welsh Liberal Democrats' amendment. You will know that we have already raised here in a previous debate the importance of saving the 101 phone number. There are several statistics that indicate the success of the 101 phone number. For example, the service receives 500 calls a day, thereby reducing 999 calls in the area by 40 per cent, freeing up to 25 police officers for redeployment into community work, and cutting six days off the time to remove abandoned cars. Statistics also show that user satisfaction with the service stands at 90 per cent.

Jenny Randerson: Deliaf yn gyntaf â gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Gwyddoch ein bod yma, mewn dadl flaenorol, eisoes wedi trafod pwysigrwydd cadw'r rhif ffôn 101. Mae nifer o ystadegau penodol sy'n dynodi llwyddiant rhif ffôn 101. Er enghraifft, caiff y gwasanaeth 500 o alwadau'r dydd, ac o ganlyniad gwneir 40 y cant yn llai o alwadau 999 yn yr ardal. Mae hynny wedyn yn rhyddhau 25 o swyddogion heddlu i'w gosod ar waith cymunedol, a thorrwyd chwe diwrnod oddi ar yr amser a gymer i symud ceir sydd wedi eu gadael. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod lefel boddhad defnyddwyr â'r gwasanaeth yn 90 y cant.

The key issue for this pilot project is whether the service works. It clearly does work and I suspect that this community-based approach to tackling anti-social behaviour will be better for Wales than all the free laptop computers that the Government can offer.

Y mater allweddol i'r prosiect peilot hwn yw a yw'r gwasanaeth hwn yn gweithio. Mae'n amlwg yn gweithio, a thybiaf y bydd y dull hwn o weithredu, yn seiliedig yn y gymuned, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn well i Gymru na'r holl liniaduron rhad ac am ddim y gall y Llywodraeth eu cynnig.

When the chief constables came to the Assembly last week to encourage us to sign up to the Jigsaw project—[Inaudible.]—Assembly liaison scheme, I talked to the chief constable of South Wales Police about the 101 service. She was clear about its benefits and her wish for it to continue. She also emphasised the impact that it would have on police time if they were to go back to the old 999 process with an escalating number of calls. However, she stressed that the cost to the police of maintaining the 101 number will be the equivalent of withdrawing 10 front-line police officers from duty. Therefore, we require a bit of latitude from

Pan ddaeth y prif gwnstabiliaid i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf i'n hannog i ymrwymo i brosiect Jigsaw—[Anghlywadwy.]—cynllun cyswllt y Cynulliad, siaradais â phrif gwnstabl Heddlu De Cymru am y gwasanaeth 101. Yr oedd yn glir ynglŷn â'i fanteision a'i bod hi'n dymuno iddo barhau. Pwysleisiodd hefyd yr effaith a gâi ar amser yr heddlu petaent yn mynd yn ôl i'r hen broses 999 gyda nifer gynyddol o alwadau. Fodd bynnag, pwysleisiodd y bydd y gost i'r heddlu o gynnal y gwasanaeth 101 yn cyfateb i dynnu 10 o swyddogion rheng flaen oddi ar ddyletswydd. Felly, mae angen i'r Gweinidogion lacio rhywfaint ar y ffrwyn, fel

Ministers, to enable the police precept to rise perhaps a little higher in south Wales than it would normally—in other words, to breach the 5 per cent increase level—so that they can save the 101 number without having an impact on policing in other respects.

Throughout Wales, this number could produce tremendous benefits. A senior Wrexham county official has already said that the 101 number would benefit the area. It is clear that the chief constables in Wales regard it as an interesting and important development, and I urge Members to support the amendment that deals with this.

Turning to the police pay dispute, the position of the police is different from that of other public sector workers because they are not allowed to strike. The police are engaged in a dangerous and difficult profession. Here, we honoured the nurses' pay rise, which did not happen in England. If the Assembly had the power that it should over the police, the Government here would be in a position to support the police pay rise, as has happened in Scotland. It is appalling that the Government in London has taken it upon itself to break a generation-old agreement with the police. To renege on the outcome of arbitration is unforgivable.

All four Welsh Liberal Democrat MPs were at the march and went to speak to the police when they demonstrated in London. The key issue is that of trust. For a generation, police and the Government have trusted one another; they both set their trust in an independent body to decide on pay rises. For most police officers, the amount that they are owed is not the key issue; it is that the Government has destroyed that trust. The day when a police force is no longer able to trust its Government is a sad day indeed for a country.

Darren Millar: I too have been inundated with correspondence from concerned police officers about this shocking pay deal

y gall praesept yr heddlu godi ychydig yn uwch efallai yn ne Cymru nag a fyddai fel arfer—mewn geiriau eraill, i fynd uwchlaw'r lefel gynnydd o 5 y cant—fel y gallant achub y rhif 101 heb i hynny effeithio ar blismona mewn ffyrdd eraill.

Ledled Cymru, gallai'r rhif hwn arwain at fanteision aruthrol. Mae uwch swyddog sirol yn Wrecsam eisoes wedi dweud y byddai'r rhif 101 yn llesol i'r ardal. Mae'n amlwg fod prif gwnstabiliaid Cymru yn ei ystyried yn ddatblygiad diddorol a phwysig, ac anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant sy'n delio â hyn.

I droi at yr anghydfod ynglŷn â chyflogau'r heddlu, mae sefyllfa'r heddlu'n wahanol i sefyllfa gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus gan na chaniateir iddynt streicio. Mae'r heddlu'n gweithio mewn proffesiwn peryglus ac anodd. Yma, yr ydym wedi anrhydeddu codiad cyflog y nyrsys, er na ddigwyddodd hynny yn Lloegr. Petai gan y Cynulliad y grym hwnnw dros yr heddlu, byddai'r Llywodraeth yma mewn sefyllfa i gefnogi codiad cyflog yr heddlu, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Mae'n arswydus fod y Llywodraeth yn Llundain wedi penderfynu ohoni ei hun i dorri cytundeb gyda'r heddlu sydd wedi bodoli ers cenhedlaeth. Mae ymwrthod â chanlyniad cyflafareddu yn anfaddeuol.

Yr oedd pob un o bedwar AS Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn yr orymdaith, ac aethant i siarad â'r heddlu pan oeddent yn gwrthdystio yn Llundain. Yr ystyriaeth allweddol yw ymddiriedaeth. Ers cenhedlaeth mae'r heddlu a'r Llywodraeth wedi ymddiried y naill yn y llall; rhoddodd y naill a'r llall ei ymddiriedaeth mewn corff annibynnol i benderfynu ar godiadau cyflog. I'r rhan fwyaf o swyddogion heddlu, nid y swm sy'n ddyledus iddynt yw'r mater allweddol; y mater allweddol yw bod y Llywodraeth wedi dinistrio'r ymddiriedaeth honno. Mae'r diwrnod pan nad yw heddlu mwyach yn gallu ymddiried yn ei Lywodraeth ei hun yn ddiwrnod trist iawn yn wir i wlad.

Darren Millar: Yr wyf fi hefyd wedi cael pentwr o ohebiaeth gan swyddogion heddlu sy'n bryderus ynglŷn â'r cytundeb cyflog

proposed by the Westminster Government. As a former member of the North Wales Police Authority, until last summer, I have had the privilege of working alongside the extremely dedicated team of officers in the part of north Wales that I represent. I know the excellent work that they do, but I have also seen the hugely demoralising impact of the announcement by the Home Secretary not to award the pay settlement in full. I have seen the destruction of the trust that existed in the past between Government and the police force. The decision by the Home Secretary is, of course, wrong. It is wrong to ignore the recommendation of the Police Arbitration Tribunal, and, frankly, it is a kick in the teeth for the hard-working police officers of Wales and the rest of our nation.

The Police Federation of England and Wales has acted with integrity throughout these negotiations with the Government. The same cannot be said of the Home Secretary.

Alun Ffred Jones: Can you point me to the commitment by a Tory frontbencher that the Tories would honour the £30 million pay award?

Darren Millar: You heard that quite clearly from William Graham earlier when he responded to an intervention, and I should not think that we needed to repeat ourselves three times to you, but the fact is that David Cameron has made it quite clear that we would have paid this in full. That is why we propose this motion today. I accept that this is not a decision for the Welsh Assembly Government, and that it is not responsible for the Home Secretary's decision. However, surely the UK Government should listen to this Government. Where is the voice of strong Government in Wales? Where is the unified approach from the Labour-Plaid Government, backing our police officers to the hilt and not taking 'no' for an answer. What we have instead is the First Minister fobbing us off by saying, 'It is not a matter in which we participate, as this is not a devolved matter'. That is what he has been saying during First Minister's questions.

gwaradwyddus hwn sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth San Steffan. Fel cyn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, tan yr haf diwethaf, cefais y fraint o weithio ochr yn ochr â'r tîm swyddogion eithriadol ymroddgar yn y rhan o ogledd Cymru yr wyf yn ei chynrychioli. Gwn am y gwaith rhagorol a wnânt, ond gwelais hefyd effaith y cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Cartref i beidio â dyfarnu'r setliad yn llawn, sydd wedi achosi digalondid enfawr. Yr wyf wedi gweld yr ymddiriedaeth a oedd yn bod gynt rhwng y Llywodraeth a'r heddlu yn cael ei dinistrio. Mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref, wrth gwrs, yn anghywir. Ni ddylid anwybyddu argymhelliad Tribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu, ac i fod yn onest mae'n gic yn eu dannedd i swyddogion heddlu diwyd Cymru a gweddill ein cenedl.

Mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi gweithredu'n holl ddiwyll gydol y trafodaethau hyn gyda'r Llywodraeth. Ni ellir dweud yr un peth am yr Ysgrifennydd Cartref.

Alun Ffred Jones: A allwch dynnu fy sylw at yr ymrwymiad gan Dori sy'n eistedd ar y fainc flaen y byddai'r Torïaid yn anrhydeddu'r dyfarniad cyflog o £30 miliwn?

Darren Millar: Clywsoch hynny'n gwbl glir gan William Graham yn gynharach pan ymatebodd i ymyriad, ac ni fyddwn yn tybio bod angen inni ailadrodd ein hunain dair gwaith i chi. Ond y ffaith yw bod David Cameron wedi ei gwneud yn gwbl glir y byddem wedi talu hyn yn llawn. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Yr wyf yn derbyn nad yw hwn yn benderfyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac nad yw hi'n gyfrifol am benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref. Fodd bynnag, oni ddylai Llywodraeth y DU wrando ar y Llywodraeth hon? Ble mae llais Llywodraeth gref yng Nghymru? Ble mae'r gweithredu unedig gan Lywodraeth Lafur-Plaid, yn cefnogi ein swyddogion heddlu i'r carn ac yn gwrthod derbyn yr ateb 'na'? Yn hytrach, yr hyn sy'n digwydd yw bod y Prif Weinidog yn osgoi rhoi ateb inni drwy ddweud, 'Nid yw'n fater sy'n ymwneud â ni, nid yw'n fater datganoledig'. Dyna y mae wedi bod yn ei ddweud yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog.

3.30 p.m.

Today, you should choose to support our motion. You have the opportunity to send a clear message to the UK Government that this situation is unacceptable and to send a clear message to the police officers of Wales that they are valued and appreciated. If you are so committed to ensuring that this pay award is made, Alun Ffred and Alun Davies, why have we not had a Government debate in Government time on this important issue? Why has this proposal had to come from these benches? I acknowledge that there have been some rumblings of discontent from your benches, but, unfortunately, you are being ignored by the UK Government in the same way as our police officers are being ignored up and down the country.

The police are not asking the earth; they are just asking for recognition of the valuable work that they do and for the independent tribunal's recommendation to be honoured. They deserve to know today that this Labour-Plaid Government is doing all that it can to represent them, and to apply pressure to Westminster to see this pay increase delivered in full. Either this Labour-Plaid Government is not speaking to the UK Government—although we are told that it is—or its friends in Westminster are not listening, and that would not be the first time it has been ignored at Westminster. Either scenario has poor implications for the people of Wales, and calls into doubt the effectiveness and validity of your leadership in our country. Contrast that with the hard work being done by my party, and the efforts of our leader, Nick Bourne. We are doing all that we can, at Westminster and here in Wales, to ensure that the police get the pay award that they deserve, to see faith and trust restored in public sector pay awards in this country.

David Lloyd: Thank you for allowing me to intervene. Are you willing to confirm that the UK Conservatives have promised the full 2.5 per cent pay rise for the police in one go?

Heddiw, dylech ddewis cefnogi ein cynnig. Mae gennych gyfle i anfon neges glir at Lywodraeth y DU fod y sefyllfa'n annerbyniol ac i anfon neges glir at swyddogion yr heddlu yng Nghymru eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Os ydych mor ymrwymedig i sicrhau y caiff y dyfarniad cyflog hwn ei roi iddynt, Alun Ffred ac Alun Davies, pam na chawsom ddadl gan y Llywodraeth yn amser y Llywodraeth ar y mater pwysig hwn? Pam yr oedd yn rhaid i'r cynnig hwn ddod o'r meinciau hyn? Cydnabyddaf fod rhyw arlliw o anffodlonrwydd o'ch meinciau chi, ond yn anffodus, cewch eich anwybyddu gan Lywodraeth y DU fel y caiff y caiff swyddogion yr heddlu eu hanwybyddu ar hyd a lled y wlad.

Nid yw'r heddlu'n gofyn am grobris; y cyfan a ofynnant yw cydnabyddiaeth o'r gwaith gwerthfawr a wnânt ac i argymhellid y tribiwnlys annibynnol gael ei anrhydeddu. Maent yn haeddu gwybod bod y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru hon yn gwneud popeth o fewn ei gallu i'w cynrychioli, ac i roi pwysau ar San Steffan i sicrhau y caiff y dyfarniad cyflog hwn ei ddyfarnu'n llawn. Naill ai nid yw'r Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru hon yn siarad â Llywodraeth y DU—er y dywedir wrthym ei bod yn gwneud hynny—neu nid yw ei chyfeillion yn San Steffan yn gwranddo, ac nid dyna fyddai'r tro cyntaf iddi gael ei hanwybyddu yn San Steffan. Mae goblygiadau'r naill sefyllfa neu'r llall yn wael i bobl Cymru, ac yn bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd a dilysrwydd eich arweinyddiaeth yn ein gwlad. Mae hynny i'w gwrthwyneb yn llwyr i'r gwaith caled a wneir gan fy mhlaid i, ac ymdrechion ein harweinydd, Nick Bourne. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu, yn San Steffan ac yma yng Nghymru, i sicrhau bod yr heddlu'n cael y dyfarniad cyflog y maent yn ei haeddu, er mwyn adfer ffydd ac ymddiriedaeth y wlad hon yng nghodiadau cyflog y sector cyhoeddus.

David Lloyd: Diolch ichi am ganiatáu imi ymyrryd. A ydych yn fodlon cadarnhau bod Ceidwadwyr y DU wedi addo rhoi'r dyfarniad cyflog llawn o 2.5 y cant i'r heddlu i gyd gyda'i gilydd?

Darren Millar: This is the fourth time that we have made this clear. I wonder how dense people are on some benches, frankly. Yes, I can confirm that, Dai Lloyd.

David Lloyd: Tell that to George Osborne.

Rosemary Butler: Order. It might need repeating so often because Members find it very difficult to hear what is being said, given the chorus surrounding you. I am sure that you can manage without it. Please carry on, Darren.

Darren Millar: I am sure that they have heard it enough now, four times in a row, to ensure that it is absolutely clear.

Going by the amendment tabled by the Government, it is looking for another misplaced commendation on the good work that it is doing with the police forces in Wales. I accept that there is some good work, but this is grossly out of touch with reality. I want to leave you with this challenge: if you really support the police forces of Wales, you should do the right thing and support our motion today, show your commitment to the fair treatment of our police officers, forcibly lobby the UK Government to implement the recommendation of the Police Arbitration Tribunal in full, and restore the faith and trust of the hardworking employees of our police forces and Government. They will be looking closely at how you vote today, and so take note of that when it comes to pressing those buttons later on.

Lesley Griffiths: I will be brief, but I also want to speak about the police pay award. Like all other Members here, I have been lobbied quite vociferously by local police officers. I want to make it clear from the outset that I fully understand the UK Government's mantra in relation to holding the line on public sector pay. Irrespective of party politics, all Governments have to apply this stricture when talking about pay issues; it is just good governance.

Eleanor Burnham: Thank you for allowing

Darren Millar: Dyma'r pedwerydd tro inni bwysleisio hyn. Pa mor ddwl yw pobl ar rai meinciau? Gallaf gadarnhau hynny, Dai Lloyd.

David Lloyd: Dywedwch hynny wrth George Osborne.

Rosemary Butler: Trefn. Efallai bod angen ei ailadrodd mor aml am fod yr Aelodau'n ei chael hi'n anodd iawn clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud, o gofio'r côr sydd o'ch cwmpas. Yr wyf yn siŵr y gallwn ymdopi hebdo. Ewch ymlaen, Darren.

Darren Millar: Yr wyf yn siŵr eu bod wedi ei glywed yn ddigon aml bellach, bedair gwaith yn olynol, i sicrhau ei fod yn hollol glir.

Yn ôl y gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, mae'n edrych am ragor o ganmoliaeth gyfeiliornus am y gwaith da y mae'n ei wneud gyda'r heddluoedd yng Nghymru. Derbyniaf fod ychydig waith da yn cael ei wneud, ond mae hyn yn gwbl groes i'r realiti. Hoffwn gloi drwy osod yr her hon ichi: os ydych yn cefnogi heddluoedd Cymru o ddifrif, dylech wneud y peth iawn a chefnogi ein cynnig heddiw, dangos eich ymrwymiad i drin swyddogion heddlu'n deg, lobbio Llywodraeth y DU i weithredu'n llawn ar argymhelliad Tribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu, ac adfer ffydd ac ymddiriedaeth gweithwyr selog ein heddluoedd a'n Llywodraeth. Byddant yn edrych yn fanwl ar y ffordd y byddwch yn pleidleisio heddiw, ac felly cymerwch sylw o hynny pan fydd yn amser ichi bwysu'r botymau yn ddiweddarach.

Lesley Griffiths: Byddaf yn gryno, ond hoffwn i hefyd sôn am godiad cyflog yr heddlu. Fel pob Aelod arall yma, yr wyf wedi cael fy llobio'n eithaf croch gan swyddogion heddlu lleol. Hoffwn bwysleisio o'r cychwyn fy mod yn deall yn llwyr fantra Llywodraeth y DU ynghylch cadw cyflogau'r sector cyhoeddus dan reolaeth. I roi gwleidyddiaeth plaid o'r neilltu, rhaid i bob Llywodraeth gymhwyso'r cyfyngiad hwn wrth sôn am gyflogau; mae'n arwydd o lywodraethu da.

Eleanor Burnham: Diolch ichi am adael imi

me to intervene. How come an extremely well paid senior civil servant was given an enormous bonus for advising Jacqui Smith to keep the police on their low pay?

Lesley Griffiths: I cannot comment on that, sorry, as I was not aware of that.

There has to be discipline and even-handedness when it comes to public sector pay policy; otherwise, it would result in some kind of monetary carnage for whichever Government was in power. More pertinently, the vast majority of public sector employees fully understands that principle. They may not agree with the outcome, but the principle of how that is achieved is fully understood, accepted and adhered to, in the main.

However, in this particular issue, it is not the outcome that is in dispute, but the fact that the agreed outcome has not been honoured by the UK Government. That is the bone of contention for ordinary police officers, and it is one that I have come around to agreeing with. I am disappointed that the police have not been given the full pay award that was agreed in the negotiations and following arbitration. North Wales Police officers do fantastic work in my constituency of Wrexham, and I am disappointed that they have felt the need to resort to the kind of lobbying and campaigning that we have witnessed in recent weeks. I urge the UK Government to reconsider its position and accept in full the recommendations of the Police Arbitration Tribunal on the police pay award. There is a perceived grievance, which is understood throughout the public sector and wider society. In this particular case, I do not believe that any precedent is being set, or that a floodgate is being opened for other public sector workers' pay. I have also written to the Home Secretary to make my views known, and I hope that this matter can be resolved in the near future.

Jonathan Morgan: Like many of my colleagues, I wish to pay tribute to our police officers in Wales. We are extremely well served and well protected by them and it is

ymyrryd. Sut y cafodd uwch was sifil ar gyflog da iawn fonws enfawr am roi cyngor i Jacqui Smith i gadw'r heddlu ar eu cyflogau isel?

Lesley Griffiths: Ni allaf roi sylwadau ar hynny, mae'n ddrwg gennyf, gan nad oeddwn yn ymwybodol o hynny.

Rhaid bod yn ddisgybledig ac yn deg gyda pholisi cyflogau'r sector cyhoeddus, neu'r canlyniad fyddai rhyw fath o gyflafan ariannol i ba bynnag Lywodraeth fyddai mewn grym. Yn fwy perthnasol, mae'r mwyafrif llethol o weithwyr y sector cyhoeddus yn deall yr egwyddor honno'n llawn. Efallai na chytunant â'r canlyniad, ond ar y cyfan maent yn deall ac yn derbyn yr egwyddor y tu ôl i'r ffordd y caiff hynny ei gyflawni, ac yn cadw at yr egwyddor honno.

Fodd bynnag, gyda'r mater penodol hwn, nid y canlyniad yw testun y ddadl, ond y ffaith nad yw'r canlyniad y cytunwyd arno wedi ei anrhydeddu gan Lywodraeth y DU. Dyna asgwrn y gynnen i swyddogion heddlu cyffredin, ac yr wyf wedi dod i gytuno â hynny. Yr wyf yn siomedig nad yw'r heddlu wedi cael y dyfarniad cyflog llawn a gytunwyd yn y trafodaethau ac yn dilyn cyflafareddu. Mae swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud gwaith gwych yn fy etholaeth i yn Wrecsam, ac yr wyf yn siomedig eu bod yn teimlo bod angen troi at y math o lobïo ac ymgyrchu a welsom dros yr wythnosau diwethaf. Pwysaf ar Lywodraeth y DU i ailystyried ei safbwynt a derbyn yn llawn argymhellion Tribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu ynglŷn â chodiad cyflog i'r heddlu. Mae yna deimlad o anfodlonrwydd, sy'n ddealladwy yn y sector cyhoeddus cyfan ac mewn cymdeithas ynn gyffredinol. Yn yr achos penodol hwn, ni chredaf fod cysail yn cael ei gosod, nac ychwaith fod unrhyw lifddorau'n cael eu hagor ar gyfer cyflogau gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus. Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i fynegi fy marn, a gobeithio y gellir datrys y mater hwn yn y dyfodol agos.

Jonathan Morgan: Fel nifer o'm cyd-Aelodau, hoffwn roi teyrnged i swyddogion heddlu Cymru. Cawn wasanaeth da iawn ganddynt ac maent yn ein hamddiffyn yn dda.

time that we celebrated their service by pushing the UK Government to honour the decision of the independent arbiters. They, along with people throughout Wales, will be watching the proceedings in the Chamber this afternoon to see the attitude of Assembly Members. It is no good to get up and make speeches that say, 'Yes, we support the police; yes, we think that they should be paid in full', but then to oppose the motion and the amendment. The two positions simply do not match. The cries of 'hypocrisy' will be very loud if you do not honour the statements that you are making this afternoon.

I also wish to pay tribute to the Home Secretary. Unlike her Labour predecessors, she has achieved something quite remarkable. In one day, she got 22,000 police officers out on the streets of London, which previous Home Secretaries have not managed to do. [*Laughter.*] Admittedly, they were there for a different reason: to ensure that their rights are protected and enshrined by a Government, and successive governments, which they, as a profession, have come to trust. It is that breach of faith, that breakdown in trust that has led to this debate today. How on earth can a Labour Government, backing up previous Governments over the past 30 years, fail to understand the process that has existed for so long and has served the police and the Government so well?

The position on police pay has long been settled, and is honoured on the basis of trust between the police and the UK Government. It would have been unthinkable many months ago that the United Kingdom Government would decide not to honour the decision of the independent arbiter. It is that breach of trust and the failure to recognise and appreciate what the police do that forced so many police officers to protest, and to do so in numbers that have never been seen before in the history of the UK. That demonstrates the depth and severity of the problem that the UK Government faces today.

I applaud all the Labour Members of

Mae'n bryd inni ddathlu eu gwasanaeth drwy roi pwysau ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu penderfyniad y canolwyr annibynnol. Byddant hwy, ynghyd â phobl ledled Cymru, yn gwyllo'r trafodaethau yn y Siambr y prynhawn yma i weld agwedd Aelodau'r Cynulliad. Nid oes diben codi ar eich traed ac areithio gan ddweud, 'Ydym, yr ydym yn cefnogi'r heddlu; ydym, yr ydym yn credu y dylent gael eu talu'n llawn', ond yna'n gwrthwynebu'r cynnig a'r gwelliant. Nid yw'r ddwy sefyllfa'n cyfateb. Bydd cyhuddiadau croch o 'ragrith' os nad anrhydeddwch y datganiadau a wnewch y prynhawn yma.

Hoffwn hefyd roi teyrnged i'r Ysgrifennydd Cartref. Yn wahanol i'w rhagflaenwyr yn y blaid Lafur, mae wedi cyflawni rhywbeth digon nodedig. Mewn un diwrnod, llwyddodd i roi 22,000 o swyddogion yr heddlu ar strydoedd Llundain, rhywbeth na lwyddodd Ysgrifenyddion Cartref blaenorol i'w wneud. [*Chwerthin.*] Rhaid cydnabod eu bod yno am reswm gwahanol: sef sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu a'u gwarchod gan Lywodraeth, a llywodraethau olynol, y maent hwy, fel proffesiwn, wedi dod i ymddiried ynddi. Y ffaith fod yr hyder hwnnw wedi'i gollu a'r ymddiriedaeth honno wedi'i thorri sydd wedi arwain at y ddadl hon heddiw. Sut ar y ddaear na all Llywodraeth Lafur, gan gefnogi Llywodraethau blaenorol dros y 30 mlynedd diwethaf, ddeall proses sydd wedi bodoli ers cyhyd ac sydd wedi bod mor fuddiol i'r heddlu a'r Llywodraeth?

Mae'r sefyllfa ynghylch cyflogau'r heddlu wedi ei datrys ers tro, a chaiff ei anrhydeddu ar sail ymddiriedaeth rhwng yr heddlu a Llywodraeth y DU. Byddai gweld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn penderfynu peidio ag anrhydeddu penderfyniad canolwr annibynnol wedi bod y tu hwnt i amgyffred fisoedd lawer yn ôl. Mae hynny'n dor-ymddiriedaeth ac yn fethiant i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn mae'r heddlu'n ei wneud. Dyna sydd wedi gorfodi cynifer o swyddogion i brotestio, ac i wneud hynny mewn niferoedd na welwyd erioed o'r blaen yn hanes y DU. Mae hynny'n dangos dyfnder a difrifoldeb y broblem sy'n wynebu Llywodraeth y DU heddiw.

Canmolaf bob Aelod Seneddol Llafur yn San

Parliament at Westminster who have signed motions in the House of Commons to show their opposition to the attitude of Jacqui Smith and Gordon Brown. I also congratulate our new Secretary of State for Wales, Paul Murphy, on signing the early-day motion. It is no good for Assembly Members to waffle on about the challenges that our communities face, the increase in anti-social behaviour, the pressures that police stations face, and the bureaucracy that the police face unless we are willing to act as a national institution that represents the people of Wales, and tell the UK Government that we will not tolerate a situation in which our police forces are undervalued. The people of Wales and those who work for our police expect us to take a stand.

Months ago, we had a debate about nurses' pay, and we said how disgraceful it was that the independent pay body's recommendation would not be adhered to in full. Members across this Chamber urged the Minister for health to ensure that nurses in Wales received their full pay award. I remember that many Plaid Cymru Members were happy to say that nurses should be paid what they were entitled to. If it is good enough for nurses in Wales, why is it not good enough for our police forces?

3.40 p.m.

We then have the spectacle of the Home Secretary telling the people of the United Kingdom that it was of the utmost national importance that the police did not get the full pay award that they deserved. Her excuse, based purely on economics, is absolutely laughable. It does not stand up to scrutiny, and she should apologise to police forces across the United Kingdom for such an insult. I believe very strongly that there are people across the political divide in this building who value what our police officers do. If you value what they do, support this motion this afternoon and the amendment so that we can lobby the United Kingdom with one voice, to ensure that the people of Wales and the police officers of Wales get that valued support. They deserve to be paid in full and they will be watching today to see what action you take.

Steffan sydd wedi llofnodi cynigion yn Nhŷ'r Cyffredin i ddangos eu gwrthwynebiad i agwedd Jacqui Smith a Gordon Brown. Llongyfarchaf hefyd Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, Paul Murphy, am lofnodi'r cynnig cynnar-yn-y-dydd. Nid oes diben i Aelodau'r Cynulliad faldorddi am yr heriau sy'n wynebu'n cymunedau, y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, y pwysau sy'n wynebu gorsafoedd heddlu, a'r fiwrocratiaeth sy'n wynebu'r heddlu oni fyddwn yn barod i weithredu fel sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli pobl Cymru, a dweud wrth Lywodraeth y DU na fyddwn yn goddef sefyllfa lle na chaiff ein heddluoedd eu gwerthfawrogi. Mae pobl Cymru a'r rheini sy'n gweithio i'n heddluoedd yn disgwyl inni ddangos ein hochr.

Fisoedd yn ôl, cawsom ddadl ar gyflogau nyrsys, a dywedasom mor warthus oedd y ffaith na fyddai argymhelliad y corff cyflogau annibynnol yn cael ei weithredu'n llawn. Pwysodd Aelodau ar draws y Siambr hon ar y Gweinidog Iechyd i sicrhau bod nyrsys yng Nghymru yn cael eu dyfarniad cyflog llawn. Cofiaf i lawer Aelod Plaid Cymru ddweud y dylai nyrsys gael y tâl yr oeddent yn ei haeddu. Os yw'n ddigon da i nyrsys yng Nghymru, pam nad yw'n ddigon da i'n heddluoedd?

Yna'r sioe pan ddywedodd yr Ysgrifennydd Cartref wrth bobl y Deyrnas Unedig fod y ffaith na roddwyd y dyfarniad cyflog llawn yr oeddent yn ei haeddu i'r heddlu yn hollbwysig i'r genedl. Mae ei hesgus, a oedd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar economeg, yn hollol chwerthinllyd. Nid yw'n dal dŵr, a dylai hi ymddiheuro i heddluoedd ledled y Deyrnas Unedig am y fath sarhad. Credaf yn gryf iawn fod pobl ar draws y ffiniau gwleidyddol yn yr adeilad hwn yn gwerthfawrogi'r hyn a wnaiff swyddogion yr heddlu. Os ydych yn gwerthfawrogi'r hyn a wnânt, cefnogwch y cynnig hwn y prynhawn yma a'r gwelliant er mwyn inni allu llobio'r Deyrnas Unedig ag un llais, i sicrhau y caiff pobl Cymru a swyddogion heddluoedd Cymru y cymorth gwerthfawr hwnnw. Maent yn haeddu cael eu talu'n llawn a byddant yn gwylio heddiw i weld pa gamau a gymerwch.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I welcome the opportunity for an early discussion on police funding, on the support that the Assembly Government provides to the police and on what the police provide to the agenda of the Welsh Assembly Government. The Assembly Government fully supports the police service in Wales. As Alun Davies said in his contribution, the police have been a key partner of the Assembly Government's, and has worked with it from the very early days of devolution. We are working to further improve that relationship by holding regular meetings with the chief constables, as well as establishing a range of bilateral meetings between designated leading police officers and the relevant Assembly Government Ministers.

Police funding is a complex tripartite arrangement between the Home Office, the Assembly Government, and the UK department of Communities and Local Government. Its complexity would test even the analytical skills of Hercule Poirot. However, the level of funding available to the police is driven largely by the Home Office, as many people have acknowledged. Making the system more straightforward and transparent would be worth while, but we know that finding a formula that distributes a fixed pot between organisations of differing characteristics is far from easy. The big challenge in addressing police funding is to provide a mechanism that will take into account both the needs of urban policing, where the bulk of the population and, indeed, of crime tends to be, and the particular but no less important policing needs of a more dispersed population, which we have in many parts of Wales. I am happy to listen to any constructive suggestions from Assembly Members on this particular matter. However, the funding formula needs to be carefully looked at, and we need to balance these considerations very carefully indeed.

The Assembly Government's amendment to the motion best characterises the recent police settlement. It reads:

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Croesawaf y cyfle i gael trafodaeth gynnar ar ariannu'r heddlu, ar y cymorth a rydd Llywodraeth y Cynulliad i'r heddlu, a'r hyn y mae'r heddlu'n ei gyfrannu at agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru yn llwyr. Fel y dywedodd Alun Davies yn ei gyfraniad, yr oedd yr heddlu yn un o bartneriaid allweddol Llywodraeth y Cynulliad ac y maent wedi gweithio gyda hi ers dyddiau cynnar datganoli. Yr ydym yn gweithio i wella'r berthynas honno ymhellach drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r prif gwnstabiliaid, yn ogystal â sefydlu nifer o gyfarfodydd dwyochrog rhwng swyddogion arweiniol penodedig yr heddlu a Gweinidogion perthnasol Llywodraeth y Cynulliad.

Mae ariannu'r heddlu yn drefniant teiran cymhleth rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth y Cynulliad ac adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU. Byddai ei gymhlethdod yn rhoi prawf ar sgiliau dadansoddol Hercule Poirot hyd yn oed. Fodd bynnag, y Swyddfa Gartref sy'n penderfynu ar yr arian sydd ar gael ar gyfer yr heddlu i raddau helaeth, fel y cydnabu llawer o bobl. Byddai symleiddio'r system a'i gwneud yn fwy eglur yn werthfawr, ond gwyddom nad yw'n hawdd dod o hyd i fformiwla sy'n dosbarthu cronfa benodedig rhwng sefydliadau sydd â nodweddion gwahanol. Yr her fawr o ran datrys problem ariannu'r heddlu yw dod o hyd i ddull a fydd yn ystyried anghenion plismona trefol, lle mae trwch y boblogaeth, ac, yn wir, lle mae trwch y troseddau'n dueddol o ddigwydd, ac anghenion penodol plismona poblogaeth fwy gwasgaredig, fel sydd mewn llawer rhan o Gymru, sydd lawn mor bwysig. Yr wyf yn fodlon gwrandao ar unrhyw awgrymiadau adeiladol gan Aelodau'r Cynulliad ar y mater penodol hwn. Fodd bynnag, mae angen edrych yn ofalus ar y fformiwla ariannu, ac mae angen inni gydbwysu'r ystyriaethau hyn yn ofalus iawn.

Gwelliant Llywodraeth y Cynulliad sy'n disgrifio'r setliad diweddar ar gyfer yr heddlu orau. Dywed:

'commends the support provided by the Assembly Government to police forces in Wales and the actions taken by it to ensure that Welsh views, needs and circumstances in relation to police matters are made known to the Home Office.'

Jonathan Morgan: Minister, will you give way?

Brian Gibbons: Let me finish this point, and you can come back later.

Last week, the Home Office and the Assembly Government announced a settlement for police authorities for the three financial years between 2008-09 and 2010-11. For each of these three years, police authorities in Wales will receive an increase of approximately 2.6 per cent. The Home Office has provided a funding stream that ensures that no police authority will receive less than 2.5 per cent over this period. Support for police authorities in Wales will increase from £379 million in the current financial year to more than £400 million by 2010-11. This represents an 8 per cent increase, and the Assembly Government's contribution to this funding over a similar period will increase from £154 million to £167 million, which, again, is an increase of slightly over 8 per cent.

The three-year settlement for policing will provide continuity and a background against which police services and all stakeholders can plan in partnership with greater certainty and confidence. It will provide a sound basis to take forward the Assembly Government's comprehensive programme of commitments, as set out in the 'One Wales' agreement.

However, we acknowledge that this has been a tight budget, and the police settlement needs to reflect that as much as the settlement for other public sector organisations. As I said yesterday, we cannot spend what we do not have, and all public sector organisations must look for opportunities to make efficiencies in delivery, while protecting frontline services. I commend the police authorities in Wales on the work that they are undertaking to deliver more efficient

yn cymeradwyo'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad i heddluoedd yng Nghymru a'r camau a gymerwyd ganddi i sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn cael gwybod am farn, anghenion ac amgylchiadau Cymru mewn materion yn ymwneud â'r heddlu.

Jonathan Morgan: Weinidog, a ildiwch?

Brian Gibbons: Gadewch imi orffen y pwynt hwn, a chewch ddod yn ôl yn ddiweddarach.

Yr wythnos diwethaf cyhoeddodd y Swyddfa Gartref a Llywodraeth y Cynulliad setliad i awdurdodau'r heddlu am y tair blynedd ariannol rhwng 2008-09 a 2010-11. Ar gyfer pob un o'r blynnyddoedd hyn, bydd awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn cael cynnydd o ryw 2.6 y cant. Mae'r Swyddfa Gartref wedi darparu ffrwd ariannu sy'n sicrhau na fydd yr un awdurdod heddlu yn cael llai na 2.5 y cant dros y cyfnod hwn. Bydd cymorth i awdurdodau heddlu yng Nghymru yn cynyddu o £379 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol i fwy na £400 miliwn erbyn 2010-11. Mae hyn yn gynnydd o 8 y cant, a bydd cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad at y swm hwn dros gyfnod tebyg yn cynyddu o £154 miliwn i £167 miliwn, sydd, unwaith eto, yn gynnydd o ychydig dros 8 y cant.

Bydd y setliad tair blynedd ar gyfer plismona yn darparu parhad a chefnidir er mwyn i wasanaethau'r heddlu a'r holl randdeiliaid allu cynllunio mewn partneriaeth gyda mwy o sicrwydd a hyder. Bydd yn rhoi sail gadarn i weithredu rhaglen gynhwysfawr o ymrwymadau Llywodraeth y Cynulliad, fel y maent wedi eu gosod allan yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y gyllideb hon wedi bod yn un dynn, a bod angen i setliad yr heddlu adlewyrchu hynny gymaint â'r setliad i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Fel y dywedais ddoe, os nad yw'r arian gennym, ni allwn ei wario, a rhaid i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus chwilio am gyfleoedd i arbed arian wrth ddarparu gwasanaethau, heb beryglu gwasanaethau rheng flaen. Cymeradwyaf awdurdodau heddlu Cymru am y gwaith a wnânt i

collaborative services, based on joint procurement and workforce modification. The Assembly Government continues to support this collaborative work, and we would like to see that momentum maintained.

Jonathan Morgan: Do you accept that the problem with amendment 2 is that it in no way expresses what the view of the Welsh Assembly Government is? The people of Wales, and the police forces in Wales, have a right to know what the view of their Government is. Although this matter is not devolved, they need to know whether you are in favour of the police force getting its full pay award or not. What is the view of the Government?

Brian Gibbons: I will come to that Jonathan, but for the purposes of this debate, I want to demonstrate that the Assembly Government's support for the police goes much wider than the annual settlement. I have already mentioned the vital partnership that the police have maintained with us in helping to deliver our key strategic objectives—not just in community safety, but also in social justice. Reference has already been made to the joint work under Operation Tarian. Similarly, the police force is very supportive of the Welsh Assembly Government agenda in wider areas, such as promoting community regeneration through Communities First, and tackling domestic violence and substance misuse.

Turning to amendment 1 in the name of William Graham, which relates to police pay, it has already been said that police pay is not a devolved matter. However, as I have been personally subject to staged pay increases by Conservative Governments in the past, I detect a degree of political opportunism and cynicism in the timing of this amendment. Plaid Cymru is entitled to ask the question of the Conservatives on this matter, because we realise that the key to the Conservatives' spending pledges is George Osborne, and he has yet to declare his hand on this issue. I would like to hear a quotation from George Osborne in confirmation before I would be anything like willing to accept the commitments that we have heard from the Conservatives here.

ddarparu gwasanaethau cydweithredol mwy effeithlon, ar sail caffael ar y cyd ac addasu'r gweithlu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gefnogi'r cydweithio hwn a hoffem weld cynnal y momentwm hwnnw.

Jonathan Morgan: A wnewch chi dderbyn mai'r broblem gyda gwelliant 2 yw nad yw mewn unrhyw fodd yn mynegi barn Llywodraeth y Cynulliad? Mae gan bobl Cymru, a'r heddluoedd yng Nghymru, hawl i wybod beth yw barn eu Llywodraeth. Er nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, mae angen iddynt wybod a ydych o blaid rhoi i'r heddlu eu dyfarniad cyflog llawn ai peidio. Beth yw barn y Llywodraeth?

Brian Gibbons: Deuaf at hynny, Jonathan, ond at ddibenion y ddadl hon dymunaf ddangos bod cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r heddlu yn ehangach o lawer na'r setliad blynyddol. Yr wyf wedi sôn eisoes am y bartneriaeth hollbwysig rhyngom a'r heddlu o ran ein helpu i wireddu ein hamcanion strategol allweddol—nid ym maes diogelwch cymunedol yn unig, ond hefyd ym maes cyfiawnder cymdeithasol. Cyfeiriwyd eisoes at y gwaith ar y cyd dan Ymgyrch Tarian. Yn yr un modd, mae'r heddlu'n gefnogol iawn i agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn meysydd ehangach, megis hyrwyddo adfywio cymunedau drwy gyfrwng Cymunedau yn Gyntaf, a mynd i'r afael â thrais domestig a chamddefnyddio sylweddau.

I droi at welliant 1 yn enw William Graham, sy'n ymwneud â chyflogau'r heddlu, dywedwyd eisoes nad yw cyflogau'r heddlu yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, gan fy mod i'n bersonol wedi wynebu cynnydd fesul cam yn fy nghyflog gan Lywodraethau Ceidwadol yn y gorffennol, yr wyf yn synhwyro elfen o fachu ar gyfle gwleidyddol a sinigiaeth wrth amseru'r gwelliant hwn. Mae gan Blaid Cymru yr hawl i ofyn y cwestiwn i'r Ceidwadwyr ynghylch hyn, oherwydd sylweddolwn mai'r allwedd i addewidion gwario'r Ceidwadwyr yw George Osborne, ac nid yw ef wedi datgelu ei friad eto yn y cyswllt hwn. Hoffwn glywed dyfyniad gan George Osborne i gadarnhau hyn cyn imi hyd yn oed ystyried derbyn yr ymrwymadau yr

ydim wedi'u clywed gan y Ceidwadwyr yma.

This is a big issue, which we need to address and need to judge on its own merits.

Mae hwn yn fater o bwys y mae angen inni fynd i'r afael ag ef ac y mae angen inni ei farnu yn ôl ei haeddiant.

Ann Jones: I accept that police pay is not devolved to the Assembly, and I declare an interest in that I have a son who is a serving police officer with the North Wales Police force. My background is in the fire service, as many of you know, and, in 1977, we took the unprecedented step of going on strike and stayed out in order to get a formula and a pay agreement that would maintain industrial harmony. Would you consider talking to the Home Office about a formula whereby there could be industrial harmony and—*[Interruption.]* I have sat here and listened to you.

Ann Jones: Derbyniaf nad yw cyflogau'r heddlu yn fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, a datganaf fuddiant gan fod gennyf fab sy'n swyddog gyda Heddlu Gogledd Cymru. Yn y gwasanaeth tân y mae fy nghefnidir i, fel y gŵyr nifer ohonoch, ac yn 1977 cymerasom y cam digynsail o fynd ar streic, a pharhau ar streic er mwyn cael fformiwla a chytundeb cyflog a fyddai'n cynnal cytgorf diwydiannol. A fyddech yn ystyried siarad â'r Swyddfa Gartref am fformiwla a fyddai'n creu cytgorf diwydiannol a—*[Torri ar draws.]* Yr wyf wedi eistedd yma ac wedi gwrandao arnoch chi.

The Deputy Presiding Officer: Carry on please, and ignore the interruption.

Y Dirprwy Lywydd: Ewch yn eich blaen, os gwelwch yn dda, ac anwybyddu'r torri ar eich traws.

Ann Jones: Would the Minister consider talking to the Home Office about a pay formula to ensure industrial harmony? We do not want to see the police federation threatening a strike, because that would demand some terrible decisions of its members. Could we not, as an Assembly Government, talk to colleagues in the Home Office about looking for a pay formula that would give some stability on this issue within the police force?

Ann Jones: A fyddai'r Gweinidog yn ystyried siarad â'r Swyddfa Gartref am fformiwla gyflogau i sicrhau cytgorf diwydiannol? Nid ydym am weld ffederasiwn yr heddlu'n bygwth streic, oherwydd byddai hynny'n gofyn i'w aelodau wneud penderfyniadau ofnadwy. Oni allem ni, Llywodraeth y Cynulliad, siarad â'n cyfeillion yn y Swyddfa Gartref ynglŷn â chwilio am fformiwla gyflogau a fyddai'n rhoi ychydig sefydlogrwydd yn y mater hwn o fewn yr heddlu?

Brian Gibbons: I absolutely agree with you, Ann. We as an Assembly Government recognise that, for many public sector workers, the pay settlement will be based on an independent pay review. With an independent pay review in place, we have every expectation that its recommendations should be adhered to. That is entirely reasonable. Therefore, we, as an Assembly Government, are very disappointed that in this instance the independent review has not been adhered to, and we would look forward to the UK Government's being willing to do this. I know that this is a view that has been widely expressed in this Chamber, today and

Brian Gibbons: Cytunaf â chi'n llwyr, Ann. Yr ydym ni, Llywodraeth y Cynulliad, yn cydnabod bod y setliad cyflogau, i nifer o weithwyr yn y sector cyhoeddus, wedi'i seilio ar adolygiad cyflogau annibynnol. Gan fod adolygiad cyflogau annibynnol wedi'i sefydlu, disgwyliwn yn llwyr y dylid cadw at ei benderfyniadau. Mae hynny'n gwbl resymol. Felly, yr ydym ni, Llywodraeth y Cynulliad, yn siomedig iawn na chadwyd at benderfyniad yr adolygiad annibynnol y tro hwn, a byddem yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth y DU yn dangos parodrwydd i wneud hyn. Gwn fod y farn hon yn farn sydd wedi'i mynegi'n eang yn y Siambr hon,

in the past, and I have written to the Home Secretary to the Home Secretary already to state that that is the view of the Assembly Government, and of Assembly Members as well.

3.50 p.m.

In view of the two interventions, I will turn to—

The Deputy Presiding Officer: Order. You will get the same amount of time whether you accept one, two or three interventions.

Brian Gibbons: We have debated the 101 service before and, as an Assembly Government, we have indicated our appreciation of the value of this pilot scheme. We cannot be the unconditional funders of last resort for programmes of non-devolved bodies or bodies for which we are not responsible, but we have previously given our commitment to engage constructively with the police service and other public authorities in Wales, and we remain committed to that.

Nick Bourne: This debate has been important. The Minister welcomed it, but it took us to table it; the Minister did not. I understand from what has been said that he or somebody else in the Government has written a letter urging for this arbitration award to be paid in full. Could that be circulated to Assembly Members? I do not believe that we have seen it. If there is such a letter, I am surprised that the Government intends to vote against the spirit of it by voting against our amendment.

I will begin by talking about the police service in general, because we have some powers in relation to the police, on finance and community support officers—and, in passing, community support officers are not being effectively rolled out in Powys, Minister. There is a case for devolution of the police to this establishment, and the four chief police officers agree. I do not think that I have ever before experienced a debate in which 41 Members vehemently believe in the issue, but will vote the other way. It seems

heddiw ac yn y gorffennol, ac yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref yn dweud mai dyna farn Llywodraeth y Cynulliad, a barn Aelodau'r Cynulliad hefyd.

Yn sgil y ddau ymyriad, trof at—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Cewch yr un faint o amser p'un a dderbyniwch un, dau neu dri ymyriad.

Brian Gibbons: Yr ydym wedi cael dadl ar y gwasanaeth 101 o'r blaen, ac fel Llywodraeth y Cynulliad yr ydym wedi dweud ein bod yn gwerthfawrogi gwerth y cynllun peilot hwn. Ni allwn dalu'n ddiamod am raglenni cyrff sydd heb eu datganoli, neu gyrff nad ydym yn gyfrifol amdanynt, ond yr ydym eisoes wedi ymrwymo i feithrin cysylltiad adeiladol â'r gwasanaeth heddlu ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru, ac yr ydym yn dal wedi ymrwymo i hynny.

Nick Bourne: Mae hon wedi bod yn ddadl bwysig. Yr oedd y Gweinidog yn ei chrosawu, ond bu'n rhaid i ni ei chyflwyno; ni wnaeth y Gweinidog hynny. Deallaf o'r hyn sydd wedi'i ddweud ei fod ef neu rywun arall yn y Llywodraeth wedi ysgrifennu llythyr yn annog talu dyfarniad y cyflafareddu hwn yn llawn. A fyddai modd dangos y llythyr hwnnw i Aelodau'r Cynulliad? Ni chredaf inni ei weld. Os oes llythyr o'r fath, yr wyf yn synnu bod y Llywodraeth yn bwriadu pleidleisio yn erbyn ysbryd y llythyr hwnnw drwy bleidleisio yn erbyn ein gwelliant.

Dechreuaf drwy sôn am y gwasanaeth heddlu'n gyffredinol, oherwydd mae gennym rai pwerau mewn cysylltiad â'r heddlu, o ran ariannu a swyddogion cymorth cymunedol—a chyda llaw, Weiniidog, nid yw swyddogion cymorth cymunedol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ym Mhowys. Gellir dadlau o blaid datganoli'r heddlu i'r sefydliad hwn, ac mae'r pedwar prif swyddog heddlu yn cytuno. Ni chredaf imi erioed glywed dadl o'r blaen lle mae 41 o'r Aelodau'n credu'n angerddol yn y mater, ac eto'n bwriadu

extraordinary that we have Assembly Members, representing their constituents, saying that they vehemently believe in this, that this should be done and that the Government should do it, but intending to vote the other way. That is deeply shaming of honourable Assembly Members.

We have a historic opportunity here today.

The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies): Will you give way?

Nick Bourne: I am not taking any interventions. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

The Police Federation of England and Wales has told us that it believes that we as an Assembly have a historic opportunity to influence the Westminster Government, and so we do. This is a chance to show our muscle and power as an Assembly. Listening to the Minister and some of the interventions, you would not think that a pay formula was in place. There is a pay formula. It has been in operation for 28 years and it has been honoured, in fairness, by successive Labour and Conservative Governments in lean times and in better economic times. It was even applied by Dennis Healey when things were not so good and he was called back from Heathrow because the International Monetary Fund was coming in. Now, apparently, the Home Secretary says that it is a matter of national importance and that we cannot afford to pay this settlement. Nobody here seriously believes that. Nobody believes that it is an inflation-busting settlement; we all know that it is not.

The police have a special position. They cannot strike; that is in the agreement. They undertook to accept this arbitration award in advance; the Government has now reneged on the deal. There is, in parallel, a judicial review going on, based on human rights, because the European Convention on Human Rights says that there is a right to strike, which I believe in, as we all do, I am sure. However, there is a caveat. In certain circumstances, such as in the case of the police, who do not have a right to strike,

pleidleisio yn ei erbyn. Ymddengys yn rhyfedd iawn fod gennym Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli eu hetholwyr ac sy'n dweud eu bod yn credu'n angerddol yn hyn, y dylid gwneud hyn a'r llall ac y dylai'r Llywodraeth ei wneud, ond yn bwriadu pleidleisio i'r gwrthwyneb. Mae hynny'n gywilydd mawr ar Aelodau anrhydeddus y Cynulliad.

Mae gennym gyfle hanesyddol yma heddiw.

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies): A wnewch chi ildio?

Nick Bourne: Nid wyf am dderbyn yr un ymyriad [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O']

Mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi dweud wrthym ei fod yn credu bod gennym ni, y Cynulliad, gyfle hanesyddol i ddylanwadu ar Lywodraeth San Steffan, ac mae hynny'n wir. Dyma gyfle i ddangos ein maint a'n grym fel Cynulliad. O wrando ar y Gweinidog ac ar rai o'r ymyriadau, ni fydech yn credu bod gennym fformiwla gyflogau. Mae yna fformiwla gyflogau. Mae ar waith ers 28 mlynedd ac wedi ei hanrhydeddu, i fod yn deg, gan Lywodraethau Llafur a Cheidwadol o'r bron ar adegau anodd ac ar adegau pan oedd y sefyllfa economaidd yn well. Cadwyd at y fformiwla hyd yn oed gan Dennis Healey pan nad oedd pethau cystal, a phan gafodd ei alw'n ôl o Heathrow am fod y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn camu i mewn. Yn awr, i bob golwg mae'r Ysgrifennydd Cartref yn dweud ei fod yn fater o bwys cenedlaethol ac na allwn fforddio talu'r setliad. Nid oes neb yma'n wirioneddol yn credu hynny. Nid oes neb yn credu ei fod yn setliad sy'n chwalo chwyddiant; gwyddom i gyd na fydd.

Mae sefyllfa'r heddlu yn un arbennig. Ni allant streicio; mae hynny yn y cytundeb. Addawsant dderbyn dyfarniad y cyflafareddu hwn ymlaen llaw; mae'r Llywodraeth yn awr wedi cefnu ar y fargen. Ochr yn ochr â hyn, mae adolygiad barnwrol ar waith a hwnnw'n seiliedig ar hawliau dynol, oherwydd yn ôl y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan bawb hawl i streicio, ac yr wyf yn credu yn hynny, fel yr ydym i gyd, mae'n siŵr. Fodd bynnag, mae eithriad i hyn. Dan rai amgylchiadau, megis yn achos yr heddlu,

there must be an alternative mechanism. That alternative mechanism is the arbitration award. The police have a strong case, and could easily win in the courts. Why are the Assembly Members in the two governing parties, which are beginning to look like one governing party—Plaid Cymru in the Assembly is beginning to look like Labour’s patsies, because, at Westminster, Elfyn Llwyd is saying one thing while, here, the party is doing something completely different, whether it is on identity cards or now on police pay—going to vote against their conscience?

Andrew Davies: Will you give way?

Nick Bourne: I will not.

I will tell you why: it is because of the Prime Minister’s obsession with control. He controls the Home Secretary and the Labour Cabinet—[*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. Although Members usually take interventions as a matter of courtesy, the leader of the opposition has decided that he will not take any. Therefore, kindly be quiet and listen to what he has to say.

Nick Bourne: Thank you, Madam Deputy Presiding Officer. The Prime Minister controls the Home Secretary, the Cabinet at Westminster, the Labour Party here—we now know that—and perhaps somewhat more surprisingly, or perhaps not, he also controls Plaid Cymru here. The Labour Party used to be characterised as the party of the working man and woman. There is no chance of that sticking after today. It is betraying them. We have heard some warm words, but they lack the courage, guts and vision to vote to back them up. At least you can say that that is consistent with what is happening at Westminster—at least it involves the same party. Plaid Cymru is strangely silent on what it would do. It will not vote in accordance with its conscience. Last week, we heard warm words in support of the police from Janet Ryder. She believed totally in their case, but she will not back that up this week with her vote. Plaid Cymru is acting very differently from its leader at Westminster. So,

nad oes ganddynt hawl i streicio, rhaid cael mecanwaith amgen. Y mecanwaith amgen yw’r dyfarniad cyflafareddu. Mae gan yr heddlu achos cryf, a gallent yn rhwydd ennill yn y llysoedd. Pam mae Aelodau’r Cynulliad yn y ddwy blaid sy’n llywodraethu, sy’n dechrau edrych fel un blaid sy’n llywodraethu—mae Plaid Cymru yn y Cynulliad yn dechrau edrych fel cŵn bach i Lafur, oherwydd, yn San Steffan, mae Elfyn Llwyd yn dweud un peth, ac yma, mae’r blaid yn gwneud rhywbeth cwbl wahanol, boed ynglŷn â chardiau adnabod ynteu yn awr ynglŷn â chyflogau’r heddlu—yn bwriadu pleidleisio’n groes i’w cydwybod?

Andrew Davies: A wnewch chi ildio?

Nick Bourne: Na wnaif.

Dywedaf wrthyich pam: oherwydd obsesiwn y Prif Weinidog â chadw rheolaeth. Mae’n rheoli’r Ysgrifennydd Cartref a’r Cabinet Llafur—[*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Er bod Aelodau fel rheol yn derbyn ymyriadau o ran cwrteisi, mae arweinydd y gwrthbleidiau wedi penderfynu na wnaiff dderbyn yr un ymyriad. Felly, byddwch cystal â bod yn ddistaw a gwranddo ar yr hyn sydd ganddo i’w ddweud.

Nick Bourne: Diolch, Madam Ddirprwy Lywydd. Mae’r Prif Weinidog yn rheoli’r Ysgrifennydd Cartref, y Cabinet yn San Steffan, y Blaid Lafur yma—gwyddom hynny’n awr—a’r hyn sy’n dipyn mwy o syndod, neu efallai nad yw—ei fod hefyd yn rheoli Plaid Cymru yma. Plaid y werin oedd y Blaid Lafur ers talwm. Nid oes gobaith i hynny fod yn wir ar ôl heddiw. Mae’n ei bradychu. Clywsom ychydig eiriau cynnes, ond nid oes ganddynt na’r dewrder, na’r asgwrn cefn na’r weledigaeth i droi’r geiriau’n bleidlais. O leiaf, gallwch ddweud bod hynny’n gyson â’r hyn sy’n digwydd yn San Steffan—o leiaf mae’n cynnwys yr un blaid. Mae Plaid Cymru’n rhyfedd o dawel ynglŷn â’r hyn y byddai’n ei wneud. Bydd yn pleidleisio yn ôl ei chydwybod. Yr wythnos diwethaf, clywsom eiriau cynnes yn cefnogi’r heddlu gan Janet Ryder. Yr oedd yn credu’n llwyr yn eu hachos, ond nid yw’n fodlon cefnogi hynny yr wythnos hon gyda’i phleidlais. Mae Plaid Cymru’n ymddwyn yn

there you have Plaid Cymru—once the proud, ferocious tiger for Wales and now Gordon Brown’s ornamental hearth rug. I urge support of our police—they deserve nothing less.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that that is the case, therefore we will defer the votes until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Y Setliad Llywodraeth Leol The Local Government Settlement

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

Jenny Randerson: I propose that

the National Assembly for Wales:

1. notes that the poor local government settlement will cause higher than expected council tax increases.

2. notes with alarm that council tax increases will disproportionately affect the poor, and that the poorest in Wales will be paying a higher proportion of their income for their council services than the wealthiest. (NDM3851)

Over the last few weeks, we have talked at length in the Chamber about the local government settlement and everyone’s views here are well known by now. Until now, we have talked about it exclusively from the point of view of the Assembly or of local councils. The Welsh Liberal Democrats’ debate today will focus on what the settlement will mean for ordinary residents and council tax payers throughout Wales—what it will mean for our constituents.

The derisory local government settlement

wahanol iawn i’w harweinydd yn San Steffan. Felly, dyna ichi Blaid Cymru—a fu unwaith yn deigr balch a ffyrnig dros Gymru ac sydd bellach yn fat bach del ar aelwyd Gordon Brown. Fe’ch anogaf i gefnogi ein heddlu—nid ydynt yn haeddu dim llai.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod, felly, gohiriwn y pleidleisio tan yr amser pleidleisio.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Jenny Randerson: Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi y bydd y setliad gwael ar gyfer llywodraeth leol yn achosi cynnydd uwch na’r disgwyl yn y dreth gyngor;

2. yn nodi â braw y bydd cynnydd yn y dreth gyngor yn effeithio ar y bobl dlawd mewn modd anghymesur, ac y bydd y bobl dlotaf yng Nghymru yn talu cyfran uwch o’u hincwm ar gyfer eu gwasanaethau cyngor na’r bobl gyfoethocaf. (NDM3851)

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, yr ydym wedi sôn yn helaeth yn y Siambr am y setliad i lywodraeth leol, ac mae barn pawb yma’n ddigon hysbys erbyn hyn. Hyd yn hyn yr ydym wedi sôn amdano’n llwyr o safbwynt y Cynulliad neu o safbwynt cynghorau lleol. Bydd dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw’n canolbwyntio ar yr hyn y bydd y setliad yn ei olygu i drigolion cyffredin ac i bobl sy’n talu’r dreth gyngor ledled Cymru—yr hyn y bydd yn ei olygu i’n hetholwyr.

Bydd y setliad chwerthinllyd i lywodraeth

will, as we know, either result in council tax increases or service cuts or both. Many in the Chamber have talked about the fact that the Assembly's budget has increased by 89 per cent since 1999. However, the revenue support grant has only increased by 49 per cent over that same period. There is a third figure that should be quoted alongside those two: council tax has increased by almost 100 per cent over that period. So, from the start, it is clear that local authorities have had to rely increasingly on raising more income locally to offset the shortfall centrally. What is wrong with that? We know that the money has to come from somewhere, so why not from council tax? The answer to that is: because council tax is regressive and there is no link to earnings or ability to pay. Those on low incomes pay a higher proportion of their income in council tax than those on higher incomes. With every increase, the poor are disproportionately affected. That is what will happen when council tax is forced up again this year. Even if it is capped, a 5 per cent increase will take up a higher proportion of a poorer person's income than a wealthy person's income. So any council tax rises, especially those caused by the local government settlement, will hit the poorest hardest.

The Welsh Liberal Democrats recognise this and the authorities that we lead have led by example and have tried to keep increases as low as possible. Since 2004, the average Liberal Democrat council tax increase has been just 3.7 per cent, compared to an average of 4.6 per cent for Labour and Conservative councils and 6 per cent for Plaid Cymru councils.

The failure of the council tax as an equitable source of revenue is obvious. Look at the wide array of discounts, exemptions, reductions, rebates and benefits that have been worked into the system to help pensioners, people on low incomes, students, people with disabilities and those living on their own. The fact that the Assembly has to

leol, fel y gwyddom, naill ai'n arwain at gynydd yn y dreth gyngor, at leihau gwasanaethau neu at y ddau. Mae llawer yn y Siambr wedi sôn bod cyllideb y Cynulliad wedi cynyddu 89 y cant er 1999. Fodd bynnag, mae'r grant cynnal refeniw wedi cynyddu dim ond 49 y cant dros yr un cyfnod. Mae trydydd ffigur y dylid ei ddyfynnu ochr yn ochr â'r ddau hynny: mae'r dreth gyngor wedi cynyddu bron 100 y cant dros y cyfnod hwnnw. Felly, o'r cychwyn mae'n amlwg bod awdurdodau lleol wedi gorfod dibynnu fwyfwy ar godi mwy o incwm yn lleol er mwyn cydbwysu'r diffyg o'r canol. Beth sydd o'i le ar hynny? Gwyddom ei bod yn rhaid i'r arian ddod o rywle, felly, pam nad o'r dreth gyngor? Yr ateb i hynny yw: am fod y dreth gyngor yn effeithio'n waeth ar y bobl dlotaf ac am nad oes cysylltiad o gwbl rhyngddi ag enillion nac â'r gallu i dalu. Bydd y rheini sy'n ennill incwm isel yn talu cyfran uwch o'u hincwm mewn treth gyngor na'r rheini sy'n ennill incwm uwch. Gyda phob cynnydd, effeithir yn fwy ar bobl dlawd nag ar bobl fwy cefnog. Dyna a fydd yn digwydd pan wthir y dreth gyngor i fyny eto eleni. Hyd yn oed os caiff ei gapio, bydd cynnydd o 5 y cant yn llyncu cyfran fwy o incwm rhywun tlawd nag o incwm rhywun cyfoethog. Felly, bydd unrhyw godiadau yn y dreth gyngor, yn enwedig rhai sy'n digwydd oherwydd y setliad i lywodraeth leol, yn taro'r tlotaf galetaf.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n sylweddoli hyn, ac mae'r awdurdodau yr ydym yn eu harwain wedi arwain drwy esiampl ac wedi ceisio cadw'r cynnydd cyn ised ag y bo modd. Er 2004, mae'r dreth gyngor yng nghynghorau'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cynyddu 3.7 y cant yn unig ar gyfartaledd, o'i chymharu â 4.6 y cant ar gyfartaledd yng nghynghorau Llafur a'r Ceidwadwyr, a 6 y cant yng nghynghorau Plaid Cymru.

Mae'n amlwg fod y dreth gyngor yn fethiant fel ffynhonnell refeniw deg. Edrychwch ar yr holl amrywiol ddisgowntiau, eithriadau, gostyngiadau, ad-daliadau a budd-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y system i helpu pensynwyr, pobl ar incwm isel, myfyrwyr, pobl ag anabledau a'r rheini sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae'r ffaith fod y Cynulliad

cap council tax levels also highlights the unfairness and unsustainability of the tax and that it is not working. No other tax has such a complex scheme of relief and the fact that council tax requires such complexity serves as an indictment of the system in general.

4.00 p.m.

All these relief schemes to offset the burden are just sticking-plasters over gaping wounds. Even after taking all these benefits and discounts into account, it still does not come anywhere close to functioning as a fair and successful tax. The regressive element of the tax is still present, in a statistical sense, after the council tax benefit is taken into account.

In fact, even council tax benefit is failing. Take-up levels of the benefit are low, especially among older people, highlighting the failure even of the benefits to redress the problems within the council tax system. On average, between 65 and 71 per cent of those eligible actually claim the benefit, but only 56 to 62 per cent of pensioners claim it. That is an especially worrying statistic, as pensioners make up 75 per cent of those who do not take up the benefit. Those figures indicate that the majority of people entitled to benefit are themselves pensioners. Another important statistic is that £1.8 billion was left unclaimed in 2004-05 from the money set aside for benefit.

Council tax is the only tax paid by the bulk of the population that involves an active payment. By that I mean that it is not taken at source by the employer or retailer, but requires a specific bill payment by the taxpayer to the local authority. This is not unique to council tax; various other taxes, such as self-assessment income tax and stamp duty, require specific payments, but these are not paid by the bulk of the population or by those, generally, on low incomes. Therefore, they intrude very little on the public consciousness.

Perhaps for this reason, council tax is regarded as the most visible form of tax.

yn gorfod capio lefelau'r dreth gyngor hefyd yn pwysleisio'i bod yn annheg ac yn anghynaliadwy ac nad yw'n gweithio. Nid oes i'r un dreth arall gynllun lliniaru mor gymhleth, ac mae'r ffaith fod angen y fath gymhlethdod yn y dreth gyngor yn feirniadaeth ar y system yn gyffredinol.

Dim ond rhoi plastr dros glwyfau agored yw'r holl gynlluniau lliniaru hyn i leihau'r baich. Hyd yn oed ar ôl ystyried yr holl fudd-daliadau a'r disgowntiau hyn, y mae ymhell o fod yn gweithio fel treth deg a llwyddiannus. Mae elfen atchweliadol y dreth yn parhau, yn ystadegol, ar ôl cymryd budd-dal treth gyngor.

A dweud y gwir, mae hyd yn oed budd-dal treth gyngor yn methu. Ychydig bobl sy'n manteisio ar y budd-dal, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, sy'n tanlinellu methiant hyd yn oed budd-daliadau i gywiro'r problemau yn y system dreth gyngor. Ar gyfartaledd, rhwng 65 a 71 y cant o'r rheini sy'n gymwys sy'n hawlio'r budd-dal mewn gwirionedd, ond dim ond 56 i 62 y cant o bensiynwyr sy'n ei hawlio. Mae hwnnw'n ystadegyn sy'n perigofid sylweddol, gan fod pensiynwyr yn 75 y cant o'r bobl nad ydynt yn manteisio ar y budd-dal. Dengys y ffigurau hynny fod mwyafrif y bobl sydd â hawl i gael y budd-dal yn bensiynwyr eu hunain. Ystadegyn pwysig arall yw fod £1.8 biliwn heb ei hawlio yn 2004-05 o'r arian a neilltuwyd ar gyfer budd-daliadau.

Y dreth gyngor yw'r unig dreth a delir gan drwch y boblogaeth sy'n golygu taliad gweithredol. Wrth hynny, golygaf nad yw'n cael ei chymryd o'i darddiad gan y cyflogwr neu'r adwerthwr, ond yn golygu talu bil penodol gan y trethdalwr i'r awdurdod lleol. Nid yw hyn yn unigryw i'r dreth gyngor; mae amrywiol drethi eraill, megis treth incwm hunanasesu a threth stamp, hefyd yn golygu taliadau penodol, ond ni thelir y rhain gan drwch y boblogaeth na chan bobl sydd, yn gyffredinol, ar incwm isel. Felly, ychydig iawn o effaith a gânt ar ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Efallai mai dyna pam yr edrychir ar y dreth gyngor fel y math mwyaf gweladwy o dreth.

Therefore, despite the fact that revenues from VAT and income tax dwarf those from council tax in terms of their total, people are generally much more concerned about being able to pay their council tax. The Joseph Rowntree Foundation's recent study of people who struggle to pay council tax identified that the main reason for non-payment or delayed payment of council tax was either low income or just a general struggle to make ends meet by those who might not, necessarily, be defined as being on low incomes. The impact of the council tax in Wales is an especially sensitive issue, as we have had the added impact of rebanding. As a Cardiff Assembly Member, I assure you that my constituents have not forgotten the massive impact that that had on their council tax payments.

It seems that, for the bulk of people, council tax is at best a nuisance to their household money management, and at worst a matter of serious concern. For this reason alone, more people would benefit from having their local tax deducted at source by their employer, rather than having to pay a large lump sum payment directly to the council. Add to this the need for a progressive tax that is related to income, and I believe that you are led inevitably to local income tax as an ideal replacement. The point is that, when council tax is low, it causes problems for people; when it rises, as we anticipate that it will, the problems will become considerably worse.

I urge the Government parties to seriously consider the issues that this debate raises, to stop burying their heads in the sand, and to acknowledge that council tax is a bad tax. Council tax affects the poorest of those we serve most seriously, and the Government should be working with us in the Welsh Liberal Democrats—and the Liberal Democrats throughout the UK—to ensure that, throughout the country, we have a more effective, fairer and progressive system of local taxation.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 4.05 p.m.
William Graham took the Chair at 4.05 p.m.*

Nick Ramsay: I propose the following amendments in the name of William Graham.

Felly, er bod refeniw o TAW a'r dreth incwm, o ran eu cyfanswm, yn gwneud i'r dreth gyngor ymddangos yn bitw, mae pobl ar y cyfan yn poeni lawer mwy am allu talu eu treth gyngor. Dangosodd astudiaeth yn ddiweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree o bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor mai'r prif reswm dros beidio â thalu'r dreth gyngor neu ei thalu'n hwyr oedd naill ai incwm isel neu frwydr gyffredinol i gael dau benllinyn ynghyd gan y rheini na fyddent efallai, o reidrwydd, yn cael eu diffinio fel pobl ar incwm isel. Mae effaith y dreth gyngor yng Nghymru yn fater arbennig o sensitif oherwydd inni weld effaith ychwanegol ail-fandio. Fel Aelod Cynulliad dros Gaerdydd, gallaf eich sicrhau nad yw fy etholwyr i wedi anghofio'r effaith enbyd a gafodd hynny ar eu taliadau treth gyngor.

I'r mwyafrif o bobl, ymddengys fod y dreth gyngor ar y gorau yn niwsans wrth reoli arian eu haelwyd, ac ar y gwaethaf yn fater o bryder difrifol. Oherwydd hyn yn unig, byddai mwy o bobl yn elwa o gael eu treth leol wedi'i thynnu'n ôl yn ei tharddiad gan eu cyflogwr, yn hytrach na gorfod talu un taliad mawr yn uniongyrchol i'r cyngor. Ychwanegwch at hyn yr angen am dreth gynyddol sy'n gysylltiedig ag incwm, a chredaf y cewch eich tywys yn anochel at dreth incwm leol fel y dewis delfrydol yn ei lle. Y pwynt yw, pan fydd y dreth gyngor yn isel, mae'n achosi problemau i bobl; pan fydd yn codi, fel y rhagwelwn a wnaiff, bydd y problemau'n mynd yn sylweddol waeth.

Anogaf bleidiau'r Llywodraeth i ystyried yn ddifrifol y materion a godir gan y ddatl hon, i roi'r gorau i gladdu eu pennau yn y tywod, a chydabod bod y dreth gyngor yn dreth ddrwg. Mae'r dreth gyngor yn taro galetaf y bobl dlotaf a wasanaethwn, a dylai'r Llywodraeth fod yn gweithio gyda ni, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—a'r Democratiaid Rhyddfrydol ledled y DU—i sicrhau bod gennym, ledled y wlad, system decach a chynyddol o drethu lleol.

Nick Ramsay: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant

Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

notes the negative impact this funding settlement will have on the ability of local authorities to maintain and improve front line services.

Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to increase the support given to pensioners for their council tax.

Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to review the factors used to calculate the standard spending assessment.

The discussion on council tax has been made necessary by the appalling local government settlement meted out to local authorities, which we have debated at some length since it became clear how bad the settlement would be. It has been so easy to get drawn into a detailed discussion of the statistics, such as those in the Finance Committee report that we debated yesterday, that it is easy to forget that, beyond terms like revenue support grant, yearly uplift, baseline figures and all the other jargon that we use, we are actually talking about people, namely the 3 million people across Wales, young and old, healthy and vulnerable, parents and children, who rely heavily on the funding that comes from this place to provide their local services—local services that are now endangered by this year's settlement and which are causing the increased pressure on council tax.

In yesterday's debate, I spoke about the deadly game of dominos that seems to be unfolding before us. The first domino to fall was the appalling 2.3 per cent average increase in the revenue support grant announced by the Minister, and I am afraid that the last domino to fall will be the bills that hit doormats across Wales later this year. We all know that council tax bills will not be as high as they might have been. Yesterday, the Minister confirmed that he is prepared to

1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r effaith negyddol a gaiff y setliad cyllido hwn ar allu awdurdodau lleol i gynnal ac i wella gwasanaethau'r rheng flaen.

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r gefnogaeth a roddir i bensiynwyr ar gyfer eu treth gyngor.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo'r asesiad o wariant safonol.

Yr oedd yn ofynnol y ddadl ar y dreth gyngor oherwydd y setliad llywodraeth leol echrydus a roddwyd i awdurdodau lleol, ac yr ydym wedi tafod hwnnw'n helaeth ers iddi ddod yn amlwg mor wael fyddai'r setliad hwnnw. Mor hawdd fu cael ein tynnu i drafodaeth fanwl am yr ystadegau, fel y rheini yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid y buom yn ei drafod ddoe, nes ei bod hi'n rhwydd anghofio, y tu hwn i eiriau fel grant cefnogi refeniw, codiad blynyddol, ffigurau sylfaenol a'r holl jargon arall a ddefnyddiwn, ein bod yn y bôn yn siarad am bobl, hynny yw, y 3 miliwn o bobl ledled Cymru, yn ifanc ac yn hen, yn iach ac yn agored i niwed, yn rhieni ac yn blant, sy'n dibynnu'n helaeth ar y cyllid a ddaw o'r fan hon i ddarparu eu gwasanaethau lleol—gwasanaethau lleol sydd yn awr mewn perygl oherwydd setliad eleni, ac sy'n achosi'r pwysau ychwanegol ar y dreth gyngor.

Yn y ddadl ddoe siaradais am y gêm farwol o ddominos sydd fel pebae'n datblygu o'n blaenau. Y domino cyntaf i syrthio oedd y cynnydd cyfartalog erchyll o 2.3 y cant yn y grant cynnal refeniw a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, ac mae gennyf ofn mai'r domino olaf i syrthio fydd y biliau a ddaw drwy'r drws ym mhob cwr o Gymru yn ddiweddarach eleni. Gwyddom i gyd na fydd y biliau treth gyngor mor uchel ag y gallasant fod. Ddoe, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod

cap authorities that increase council tax above the 5 per cent level. That will be a relief to the already overburdened council tax payer, but it has only been made necessary by a wholly inappropriate and unjust local government settlement. I had to laugh when I read the recent comment from the Minister that extra money given to councils meant that there was no excuse for exceptional hikes. Minister, if you really think that raising the average RSG by 0.1 per cent will solve all our problems, we are in far deeper trouble than I imagined.

The Welsh Local Government Association's reaction to this year's settlement has been telling. In stark contrast to the Minister's comments, Councillor Derek Vaughan of the WLGA spoke volumes when he said, earlier this month, that the Assembly Government has shunted its problems onto local councils, and, as a result, onto council tax payers. As he pointed out, by limiting council tax increases, the Assembly Government is effectively saying that the only option for councils is to cut services—the bonfire of local services that we have heard about so often. The WLGA has welcomed the additional millions to raise the lowest funding councils to a 2 per cent baseline—we all welcome that—but, as it said, that is merely tinkering at the edges of a settlement that is rotten to the core. The settlements for Conwy and Powys were not the only poor examples—they were simply the worst. I know that we are told that the settlement is equitable, but increases in local government funding have not kept pace with a decade's worth of increases in the Assembly's budget. That is why we are now in this position, faced with councils that must cut services or increase council tax.

However, we are where we are, and, on the issue of whether council tax should be replaced with another tax, the problem is that you must find the money from somewhere. If it does not come from the Assembly Government, councils will have to push council tax up. We can argue about whether that should be a local income tax or a council tax, but the money must come from

yn barod i gapio awdurdodau a fydd yn codi'r dreth gyngor fwy na 5 y cant. Bydd hynny'n gysur i'r rheini sy'n talu treth gyngor ac sydd eisoes yn gwegian dan y baich, ond yr hyn sydd wedi ei hachosi yw setliad llywodraeth leol cwbl amhriodol ac anghyfiawn. Ni allwn ond chwerthin pan ddarllenais sylw'r Gweinidog yn ddiweddar fod yr arian ychwanegol a roddwyd i gynghorau'n golygu nad oedd esgus o gwbl dros godiadau eithriadol. Weinidog, os ydych yn wir yn credu y bydd codi cyfartaledd GCR 0.1 y cant yn datrys ein holl broblemau, yr ydym mewn dyfroedd llawer dyfnach nag a dybiais.

Yr oedd ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r setliad eleni yn ddadlennol iawn. Yn gwbl groes i sylwadau'r Gweinidog, yr oedd y Cynghorydd Derek Vaughan o CLILC yn adrodd cyfrolau pan ddywedodd, yn gynharach yn y mis, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwthio'i phroblemau ar gynghorau lleol, ac o ganlyniad ar bobl sy'n talu treth gyngor. Fel y dywedodd, drwy gyfyngu codiadau'r dreth gyngor, mae Llywodraeth y Cynulliad, yn y bôn, yn dweud mai'r unig ddewis sydd gan gynghorau yw tocio gwasanaethau-y goelcerth o wasanaethau lleol yr ydym wedi clywed amdani mor aml. Mae CLILC wedi croesawu'r miliynau ychwanegol i godi'r cynghorau cyllido isaf i waelodlin o 2 y cant-yr ydym i gyd yn croesawu hynny-ond fel y dywedais, nid yw hynny ond chwarae ag ymylon setliad sy'n bwdr i'w seiliau. Nid setliadau Conwy a Phowys oedd yr unig enghreifftiau gwael-yn syml, hwy oedd y gwaethaf. Gwn y dywedir wrthym fod y setliad yn deg, ond nid yw codiadau yng nghyllid llywodraeth leol wedi dal eu tir yn erbyn gwerth degawd o godiadau yng nghyllideb y Cynulliad. Dyna pam yr ydym yn y sefyllfa hon heddiw, yn wynebu cynghorau sy'n gorfod tocio gwasanaethau ynteu cynyddu'r dreth gyngor.

Fodd bynnag, dyma sut y mae pethau, ac ar y mater a ddylid disodli'r dreth gyngor gan dreth arall, y broblem yw ei bod yn rhaid ichi ddod o hyd i'r arian o rywle. Os na ddaw oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, bydd yn rhaid i gynghorau wthio'r dreth gyngor i fyny. Gallwn ddadlau a ddylai hon fod yn dreth incwm leol ynteu'n dreth gyngor, ond rhaid i'r arian ddod o rywle. Y broblem

somewhere. The basic problem is that local authorities are not funded to the level that they should be funded.

Now that the settlement is done and dusted, I hope that the Minister will do all that he can to ensure that local authorities are in the best position to make the best use of that money. It is ironic that the Minister for local government is also the Minister for social justice, because this settlement, and the resulting impact on council tax payers and local services, is anything but social justice. It is a slap in the face for local authorities and a betrayal of those people who look to this place for support in their day to day lives, and who have been badly let down by this Plaid-Labour Assembly Government.

Peter Black: I support much of what Nick Ramsay said; it is important to understand the impact that the local government settlement will have on ordinary people who must pay the bill that comes through their door for local government services.

4.10 p.m.

The reason for proposing today's motion was not to have yesterday's debate again, but to underline the basic unfairness of council tax, given the impact that it has on ordinary people, the fact that it does not relate to people's incomes in any way whatsoever, and the fact that pensioners in particular will be hardest hit by this. As the Conservatives' second amendment points out, the promised support for pensioners will not come through in the next financial year. Therefore, those increases, albeit capped at 5 per cent by the Assembly Government, will hit those pensioners just as hard as previous years' increases. Many pensioners are on fixed incomes, and they will not have the wherewithal to meet the increases, particularly given increases to other costs, such as fuel, which are hitting them particularly hard.

The outcome of this whole process is that, in terms of proportion of income paid out on council tax, it is those who are worst off who will pay the highest proportion of their

sylyfaenol yw nad yw awdurdodau lleol wedi eu cyllido at y lefel y dylent gael eu cyllido.

Gan fod y setliad yn hen hanes bellach, gobeithio y gwnaiff y Gweinidog bopeth o fewn ei allu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i wneud y defnydd gorau o'r arian hwnnw. Mae'n eironig mai'r Gweinidog dros lywodraeth leol yw'r Gweinidog dros gyfiawnder cymdeithasol hefyd, oherwydd mae'r setliad hwn, a'r effaith ddilynol ar bobl sy'n talu treth gyngor a gwasanaethau lleol, yn bopeth ond cyfiawnder cymdeithasol. Mae'n sarhau awdurdodau lleol ac yn bradychu'r bobl hynny sy'n troi at y lle hwn am gefnogaeth yn eu bywydau beunyddiol, ac sydd wedi eu siomi'n enbyd gan Lywodraeth Plaid-Llafur y Llywodraeth hon.

Peter Black: Cefnogaf lawer o'r hyn a ddywedodd Nick Ramsay; mae'n bwysig deall yr effaith a gaiff y setliad llywodraeth leol ar bobl gyffredin sy'n gorfod talu'r bil a ddaw drwy eu drws am wasanaethau llywodraeth leol.

Y rheswm dros roi cynnig heddiw gerbron oedd nid ail-gynnal dadl ddoe, ond tanlinellu annhegwch sylfaenol y dreth gyngor, yn wyneb yr effaith y mae'n ei chael ar bobl gyffredin, y ffaith nad yw'n gysylltiedig ag incwm pobl mewn unrhyw ffordd o gwbl, a'r ffaith mai pensiynwyr, yn benodol, a fydd yn cael eu taro galetaf. Fel y dywed ail welliant y Ceidwadwyr, ni fydd y gefnogaeth a addawyd i bensiynwyr yn dwyn ffrwyth yn y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, bydd y codiadau hynny, er iddynt gael eu capio ar 5 y cant gan Lywodraeth y Cynulliad, yn taro'r pensiynwyr hynny lawn cyn galeted â chodiadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae nifer o bensiynwyr ar incwm sefydlog, ac ni fydd ganddynt y modd i dalu'r codiadau, yn enwedig o gofio'r codiadau mewn costau eraill, megis tanwydd, sy'n eu taro'n arbennig o galed.

Canlyniad yr holl broses hon, o ran cyfran yr incwm sy'n mynd ar y dreth gyngor, yw mai'r rheini sydd â lleiaf o fodd a fydd yn talu'r gyfran fwyaf o'u hincwm. Bydd y rhai

income. Those who are better off will pay a much lower proportion of their income. That cannot be a fair tax; it is certainly a regressive tax. In my view, and I think in the view of all Liberal Democrats, it is a tax that needs to be reformed and replaced with a local income tax.

Jenny Randerson very ably outlined the thrust of our argument on income tax. I will touch on the impact of the settlement on services, and particularly on some vital services that many older people rely on. For example, social services in councils all around Wales are already struggling to meet statutory requirement, because they do not have the necessary funding. There are issues to do with the recruitment of social workers, but there are also issues of charging, because councils need to increase charges to raise income to meet their statutory obligations. There are cases of people who have to wait for homecare, assessments for adaptations and for a whole list of services; they should not have to wait such a length of time for those services. That comes down partly to the fact that local government is essentially underfunded.

On several occasions, Members, and Joyce Watson in particular, have raised the issue of Swansea social services. I will answer those points, because, on two occasions, she has said that Swansea social services are failing. That is not the case. Swansea social services have had one aspect of the service criticised. However, there are many other social services around Wales that are in a far worse position, and the reasons for that include recruitment issues, management issues, and funding issues—all of which are to do with the inadequate settlement with which local councils must deal. With regard to housing issues, the housing revenue account is separate from the normal council revenue account, but councils must deal with increased homelessness and increased demand on their services. There are 87,000 housing applications on waiting lists across Wales, and that disguises the number of people who are affected.

If we were to look at the reports that the

cyfoethocaf yn talu cyfran lawer llai o'u hincwm. Ni all honno fod yn dreth deg; mae'n sicr yn dreth atchweliadol. Yn fy marn i, ac ym marn pob Democrat Rhyddfrydol, mi gredaf, mae'n dreth y mae angen ei diwygio a'i disodli gan dreth incwm leol.

Amlinellodd Jenny Randerson fyrddwn ein dadl am dreth incwm yn gelfydd iawn. Cyfeiriaf at effaith y setliad ar wasanaethau, ac yn enwedig ar rai gwasanaethau hollbwysig y mae nifer o bobl hŷn yn dibynnu arnynt. Er enghraifft, mae gwasanaethau cymdeithasol mewn cynghorau ledled Cymru eisoes yn ei chael hi'n anodd bodloni gofyniad statudol am nad oes ganddynt y cyllid angenrheidiol. Mae yna faterion yn ymwneud â recriwtio gweithwyr cymdeithasol, ond mae materion hefyd yn ymwneud â chodi tâl, am fod angen i gynghorau gynyddu taliadau i godi incwm i fodloni eu hymrwymadau statudol. Mae yna enghreifftiau o bobl yn gorfod disgwyl am ofal cartref, asesiadau ar gyfer addasiadau a rhestr faith o wasanaethau; ni ddylent orfod disgwyl cyhyd am y gwasanaethau hynny. Mae hynny'n rhannol oherwydd bod diffyg cyllid, yn y bôn, mewn llywodraeth leol.

Mae Aelodau, a Joyce Watson yn benodol, wedi codi mater gwasanaethau cymdeithasol Abertawe droeon. Atebaf y pwyntiau hynny, oherwydd ar ddau achlysur mae hi wedi dweud bod gwasanaethau cymdeithasol Abertawe yn methu. Nid yw hynny'n wir. Mae gwasanaethau cymdeithasol Abertawe wedi eu beirmiadu am un agwedd ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae nifer o wasanaethau cymdeithasol eraill ledled Cymru sydd mewn sefyllfa lawer gwaeth, ac mae'r rhesymau dros hynny'n cynnwys materion recriwtio, materion rheoli, a materion cyllido—y cyfan yn ymwneud â'r setliad annigonol y mae cynghorau lleol yn gorfod delio ag ef. Yng nghyswllt materion tai, mae'r cyfrif refeniw tai ar wahân i gyfrif refeniw arferol y cyngor, ond rhaid i gynghorau ddelio â mwy o ddigartrefedd, a mwy o alw ar eu gwasanaethau. Mae 87,000 o geisiadau am dai ar restrri aros ledled Cymru, ac mae hynny'n celu nifer y bobl yr effeithir arnynt.

Petaem yn edrych ar yr adroddiadau y mae

Welsh Local Government Association submits on spending pressures to the Welsh Assembly Government, we would see that many of those pressures are never going to be met in full. There are spending pressures with regard to highways, schools and school buildings; they all require more money. Everyone in the Chamber would acknowledge that the Assembly Government does not have a bottomless pit of money, but what it does have is the wherewithall to at least pass on to local government the sort of settlement, of 3.4 per cent, that it received itself from the Westminster Government. I am talking about 3.4 per cent of unhypothecated revenue, and not just the direct grants for obligations that the Assembly Government has imposed on local government. It is revenue that local authorities should be able to expect, given the important role that they have in delivering the Assembly Government's agenda.

Therefore, I hope that the Government would at least support the motion in recognition of the inequity of council tax—it does not reflect people's income or their ability to pay—and in recognition of the fact that there should be some sort of reform. At best, there would be a local income tax, but, if not that, some other form of tax is required that relates to people's ability to pay.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddafl hon ar setliad llywodraeth leol a'r dreth gyngor. Nodwyd ddoe bod £3.8 biliwn ar gael i lywodraeth leol, yn ogystal â thros £600 miliwn mewn grantiau penodol, sy'n golygu cynnydd o 3.4 y cant. Mae'n deg nodi, fel y dywedasom yn ystod y drafodaeth ddoe, fod y Gweinidog wedi symud rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol, drwy gyflwyno'r mecanwaith llawr a fydd yn rhoi isafswm o ryw 2 y cant o gynnydd i bob sir.

Y darlun ehangach yw fformiwla Barnett, a ddefnyddir i ddosrannu arian i Gymru ar sail poblogaeth, nid ar sail anghenion. Yr oedd Peter Black yn ddilornus o hyn ddoe ac yn mynnu canolbwyntio ar y manylion. Yn y pen draw, os nad ydyw'r gacen yn ddigon mawr, pa bynnag ffordd y rhannwch y gacen ariannol honno, bydd pethau'n dynn. Felly, £3.8 biliwn a £600 miliwn mewn grantiau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru am bwysau gwariant, gwelem na fydd llawer o'r pwysau hynny byth yn cael eu lleddfu'n llwyr. Mae pwysau gwariant gyda phrifferdd, ysgolion ac adeiladau ysgol; mae angen mwy o arian ar y cyfan. Byddai pawb yn y Siambwr yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad bwl diwaelod o arian, ond yr hyn sydd ganddi yw'r modd, o leiaf, i drosglwyddo i lywodraeth leol y math o setliad, sef 3.4 y cant, a gafodd hi ei hun gan Lywodraeth San Steffan. Yr wyf yn sôn am 3.4 y cant o refeniw heb ei neilltuo, nid yn unig y grantiau uniongyrchol ar gyfer ymrwymadau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi eu gosod ar lywodraeth leol. Refeniw yw hwn y dylai awdurdodau lleol allu ei ddisgwyl, o gofio'u rôl bwysig wrth gyflawni agenda Llywodraeth y Cynulliad.

O'r herwydd, gobeithio y byddai'r Llywodraeth o leiaf yn cefnogi'r cynnig i gydnabod annhegwch y dreth gyngor—nid yw'n adlewyrchu nac incwm y bobl na'u gallu i dalu—ac i gydnabod y dylid cael rhyw fath o ddiwygiad. Ar y gorau, byddai treth incwm leol, ond os nad hynny, mae angen rhyw fath o dreth sy'n berthnasol i allu pobl i dalu.

David Lloyd: I am pleased to contribute to this debate on the local government settlement and council tax. It was said yesterday that £3.8 billion was available to local government, in addition to more than £600 million in specific grants, which meant an increase of 3.4 per cent. It is fair to say, as was said during yesterday's debate, that the Minister did move his position between the draft and final budgets, by introducing the floor mechanism which will give all counties a minimum increase of 2 per cent.

The wider picture in this respect is the Barnett formula, used to apportion funds to Wales based on population, not on need. Peter Black was dismissive of this yesterday and insisted on concentrating on the details. At the end of the day, if the cake is not big enough, no matter how you share that financial cake, things will be tight. Therefore, £3.8 billion and £600 million in specific

penodol sydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru. Ar ben hynny, gall llywodraeth leol fenthyg a chodi trethi, sef y dreth gyngor. Mae'n werth nodi mai dyma'r ddau beth na fedr y Cynulliad eu gwneud ar hyn o bryd, sef benthyg a chodi treth. Serch hynny, gall ein cynghorau sir wneud y ddau beth hwnnw. Mae lefel y dreth gyngor yn anodd i nifer fawr o bobl, yn enwedig pobl ag incwm isel, a phensiynwyr sydd ag incwm sefydlog. Mae'n siŵr gennyf fod llawer ohonom wedi bod i lawer o gyfarfodydd a chlywed y dadleuon ar hyd y blynyddoedd. Yn naturiol, mae'r blaidd hon yn derbyn y dadleuon, ac yr ydym o blaidd treth incwm lleol—yr unig dreth sy'n deg oherwydd ei bod yn gofyn i bobl dalu'r hyn y gallant ei fforddio. Nid oes dwywaith fod pethau'n anodd o safbwynt y dreth gyngor, ac, yn y pen draw, hoffwn weld treth incwm lleol.

Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn addo cymorth ychwanegol i bensiynwyr i dalu'r dreth gyngor, a chroesawaf hynny'n fawr oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes gennym y pwerau i gyflwyno treth incwm lleol. Fel y dywedodd Peter Black ddoe, nid faint o arian sydd ar gael i lywodraeth leol yw diwedd y gân ond, yn hytrach, yr hyn a wna llywodraeth leol â'r arian hwnnw. Yn Abertawe, lle gwelwn Peter Black a'i gyfeillion yn arwain y cyngor, mae'r cyngor yn gwario £83 miliwn ar raglen ffaeiddig e-lywodraeth. Yr ydym hefyd wedi gweld Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwario dros £11 miliwn ar arbenigwyr allanol, sydd bron wyth gwaith gymaint â'r hyn a wariwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd yn ffinio ag Abertawe. Felly, rhaid ystyried nid yn unig y swm a roddir, ond yr hyn a wnaiff cynghorau â'r arian hwnnw. Gallwn barhau i rwgnach a dadlau am sut yr ydym yn rhannu'r arian a'i wario. Dau beth sy'n aros yn y pen draw: mae cymorth penodol i bensiynwyr yn 'Cymru'n Un' i dalu'r dreth gyngor; ac, yn ail, mae gwir angen mynd i'r afael â'r darlun ehangach o safbwynt cael fformiwla ariannu deg i Gymru.

Mick Bates: This is a timely debate, and taken with previous debates, it is interesting to note that council tax could double, which would mean that the public sector would receive half—2.5 per cent of possibly a 5 per

grants are available to local government in Wales. In addition, local government can borrow and it can raise taxes—council tax. It is worth noting that these are two things which the Assembly cannot do at present—to borrow and to raise taxes. Nevertheless, county councils are able to do those things. The level of council tax is difficult for many people, especially those on low incomes and pensioners on fixed incomes. I am sure many of us, over the years, have attended numerous meetings where we have heard the arguments. Naturally, this party accepts those arguments, and we are in favour of a local income tax—the only tax that is equitable, since it asks people to pay what they can afford. There is no doubt that things are difficult with regard to council tax, and ultimately we would wish to see a local income tax introduced.

The 'One Wales' agreement includes a pledge of additional assistance for pensioners to pay their council tax, which I warmly welcome, because at present we do not have the powers to introduce a local income tax. As Peter Black said yesterday, the bottom line is not the amount of funding available to local government, but what local government does with it. In Swansea, where Peter Black and his colleagues are in charge, the council is spending £83 million on a failing e-government programme. We have also seen the council of the City and County of Swansea spending over £11 million on external advisers, which is almost eight times as much as that spent by neighbouring Neath Port Talbot County Borough Council. Therefore, not only must we consider the amount of money given but also what councils do with it. I could continue to complain and to argue how we allocate and spend the money, but at the end of the day, two facts remain: 'One Wales' includes specific assistance for pensioners to pay council tax; and secondly, we really need to get to grips with the wider issue of securing a fair funding formula for Wales.

Mick Bates: Mae hon yn ddadl amserol, ac o'i hystyried ochr yn ochr â dadleuon blaenorol mae'n ddiddorol sylwi y gallai'r dreth gyngor ddyblu. Byddai hynny'n golygu y byddai'r sector cyhoeddus yn cael hanner—

cent increase. That is why I personally support the introduction of a local income tax.

I would like to see a real shift in the balance of funding to local determination. That is a part of democratic accountability, which we must not overlook in this debate. As others have said, local income tax is a progressive tax; it is related to the ability to pay not to a notional property value. I am almost certain, given the advances in modern technology, that it would cost less to collect than is the case under our current system.

4.20 p.m.

Just like every Government, the Welsh Assembly Government is constantly introducing new initiatives that bring more financial responsibilities and commitments to local authorities. We all approve of many of these new commitments: we all want to see better housing standards and want to fulfil the landfill targets, for example. These are excellent and ambitious initiatives, but they cost money. The point is that, ultimately, it is the local council tax payer who pays when Government does not provide enough money to pay for such improvements.

The 101 service referred to by my colleague, Jenny Randerson, is a perfect example of that. The funding has stopped and now a decision has to be made whether to drop the whole service, even though it is proving to be a great success. People were using the service and it was freeing up police time, therefore it is an obvious thing to retain. However, what are people to do? Are local authorities to cut the service that people had already adjusted to, begun to use regularly, and the police had welcomed? Should the council get rid of it or put up council tax? Similarly, community safety grants are being cut. New UK legislation is being processed that will change the rules and increase the costs to local authorities. The list goes on, but the constant feature in all such cases is that the UK or Assembly Governments introduce a new initiative, the money ceases and the council tax payer picks up the bill.

2.5 y cant o gynnydd posibl o 5 y cant. Dyna paham yr wyf fi'n bersonol o blaid cyflwyno treth incwm leol.

Hoffwn weld symudiad gwirioneddol yn y cydbwysedd cyllid at benderfynu'n lleol. Mae hynny'n rhan o atebolrwydd democrataidd na ddylem ei anghofio yn y ddadl hon. Fel y mae eraill wedi'i ddweud, mae treth incwm leol yn dreth flaengar; mae'n gysylltiedig â'r gallu i dalu, nid â phrisiau tybiedig eiddo. Yr wyf bron yn sicr, o gofio'r cynnydd mewn technoleg fodern, y byddai'n costio llai i'w chasglu nag y mae casglu dan ein system bresennol yn ei gostio.

Fel pob Llywodraeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyson yn cyflwyno mentrau newydd sy'n gosod mwy o gyfrifoldeb ariannol ac ymrwymadau ar awdurdodau lleol. Yr ydym i gyd yn cymeradwyo llawer o'r ymrwymadau newydd hyn: yr ydym i gyd am weld gwell safonau tai ac am gyrraedd y targedau tirlenwi, er enghraifft. Mae'r rhain yn fentrau ardderchog ac uchelgeisiol, ond maent yn costio arian. Y pwynt yw hyn: yn y pen draw, y sawl sy'n talu treth gyngor leol sy'n talu pan na fydd y Llywodraeth yn darparu digon o arian i dalu am welliannau o'r fath.

Mae'r gwasanaeth 101 y cyfeiriwyd ato gan fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson, yn enghraifft berffaith o hynny. Mae'r arian wedi dod i ben, ac yn awr rhaid penderfynu a ddylid dileu'r holl wasanaeth, er ei fod yn llwyddiant mawr. Yr oedd pobl yn defnyddio'r gwasanaeth ac yr oedd yn rhyddhau amser yr heddlu, felly, yr oedd yn beth amlwg i'w gadw. Ond beth all pobl ei wneud? A ddylai awdurdodau lleol dorri'r gwasanaeth yr oedd pobl eisoes wedi dod yn gyfarwydd ag ef, wedi dechrau ei ddefnyddio, a'r heddlu wedi ei groesawu? A ddylai'r cyngor ei ddileu ynteu cynyddu'r dreth cyngor? Yn yr un modd, mae grantiau diogelwch cymunedau'n cael eu torri. Mae deddfwriaeth newydd yn y DU yn cael ei phrosesu a fydd yn newid y rheolau ac yn cynyddu'r costau i awdurdodau lleol. Mae'r rhestr yn parhau, ond y nodwedd gyson ym mhob achos o'r fath yw bod Llywodraeth y DU neu Lywodraeth y Cynulliad yn

cyflwyno menter newydd, daw'r arian i ben, a'r rheini sy'n talu treth gyngor sy'n talu'r bil.

We support the Conservatives' amendment 2 to give help to pensioners. As one of the most vulnerable groups in society, pensioners need protection from this grossly unfair tax. However, we must stress that our support for this amendment is tempered by the fact that it is only a short-term solution. The only way to guarantee fairness to all groups of people, not just pensioners, is to get rid of this unfair tax. Council tax, in its current form, only exists because it was introduced as a hasty replacement for the doomed poll tax. It was never thought out properly and it is no way to defend it to say that it is better than the worst tax that went before it. Considering how damaging the poll tax was, it amazes me that we ended up with a system that is so unfair.

The Conservatives' amendment 3 calls for a review of the factors used in calculating the standard spending assessment. As a party, we are not wholly convinced that a review will produce anything better than the existing system. As we discussed yesterday, we are still dealing with the same pot of money—the quantum is the same—and any alternative method of distributing that money will ultimately take money away from one authority and give it to another. Whatever happens, there will still be an element of unfairness. To demonstrate that, look at comparisons. If you are in the same tax band, whether you are a pensioner, engineer, barrister, nurse, taxi driver or even the Prime Minister, you pay the same council tax. As has been said before, the poorest spend a greater share of their income on council tax: the poorest 20 per cent of people in our country spend 4.7 per cent of their income on council tax, while the top 20 per cent only spend 1.4 per cent of their income.

I will end with a statement from the Lyons report, that fair taxation is based on the ability to pay or income, not notional property values. I urge everyone to support the amendments and the motion.

Yr ydym yn cefnogi gwelliant 2 gan y Ceidwadwyr i roi cymorth i bensiywyr. Fel un o'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, mae angen amddiffyn pensiywyr rhag y dreth hon sy'n hynod annheg. Fodd bynnag, rhaid inni bwysleisio ein bod yn cefnogi'r gwelliant hwn ar yr amod mai ateb dros dro yw hyn. Yr unig ffordd i sicrhau tegwch i bob grŵp o bobl, nid pensiywyr yn unig, yw dileu'r dreth annheg hon. Yr unig reswm pam y mae treth gyngor yn bodoli yn ei ffurf bresennol yw oherwydd iddi gael ei chyflwyno'n gyflym i gymryd lle treth y pen a oedd wedi ei chondemnio. Ni chafodd ei hystyried yn drwyadl, ac ni ddylid ei hamddiffyn drwy ddweud ei bod yn well na'r dreth waethaf a'i rhagflaenodd. O gofio mor niweidiol oedd treth y pen, yr wyf yn rhyfeddu inni gael yn y diwedd system sydd mor annheg.

Mae gwelliant 3 gan y Ceidwadwyr yn galw am adolygu'r ffactorau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r asesiad o wariant safonol. Fel plaid, nid ydym yn gwbl argyhoeddedig y bydd adolygiad yn cynhyrchu unrhyw beth gwell na'r system bresennol. Fel y trafodwyd ddoe, yr ydym yn dal i ddelio â'r un gronfa ariannol—yr un yw'r cwantwm—ac yn y pen draw bydd unrhyw ddull arall o ddsbarthu'r arian hwnnw yn cymryd arian oddi ar un awdurdod a'i roi i awdurdod arall. Beth bynnag a ddigwydd, bydd elfen o annhegwch yn parhau. I ddangos hynny, edrychwch ar gymariaethau. Os ydych yn yr un band treth, p'un a ydych yn bensiywyr, yn beiriannydd, yn fargyfreithiwr, yn nyrs, yn yrrwr taei neu'n Brif Weinidog hyd yn oed, yr ydych yn talu'r un dreth cyngor. Fel y dywedwyd o'r blaen, mae'r bobl dlotaf yn gwario rhan fwy o'u hincwm ar dreth gyngor: mae'r 20 y cant tlotaf o bobl ein gwlad yn gwario 4.7 y cant o'u hincwm ar dreth cyngor, ond 1.4 y cant o'u hincwm yn unig y bydd yr 20 y cant uchaf yn ei wario.

Gorffennaf gyda datganiad o'r adroddiad Lyons, sef bod trethiant teg yn seiliedig ar y gallu i dalu neu ar incwm, nid ar brisiau tybiedig eiddo. Anogaf bawb i gefnogi'r gwelliannau a'r cynnig.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.23 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.23 p.m.*

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I have a bit of a groundhog-day feeling about some of these Liberal Democrat debates. Two weeks ago, we had a debate on ID cards that merely served to confirm the well-established position of the Welsh Assembly Government on ID cards and, today, we have a debate on the local government settlement that we discussed no later than yesterday. Indeed, we also had a wider debate on council tax just before Christmas. So, I am not altogether clear why the Lib Dems have put this motion forward.

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

Brian Gibbons: Let me just finish this point. Jenny Randerson said in her opening remarks that she wished to highlight the fact that any increase would disadvantage the most financially vulnerable, although, in the previous debate, she called for an increase in the police precept that would, of course, have a knock-on effect on council tax payers. Therefore, I see a lack of joined-up thinking in relation to what precisely the Liberal Democrats are trying to achieve in this debate.

Since devolution, local government has been a high priority for the Welsh Assembly Government, and this year is no different, although we have to acknowledge that we are in a new era of public expenditure, and gone are the days of record increases of 5 per cent to 10 per cent. Those days are unlikely to return, because no matter what Government is—

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

Brian Gibbons: Yes.

Jenny Randerson: This goes back to several paragraphs ago in your speech. I made it clear in my opening remarks that the reason

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Gyda rhai o'r dadleuon hyn gan y Democratiaid Rhyddfrydol, teimlaf ein bod yn dod yn ôl i'r unfan dro ar ôl tro. Bythefnos yn ôl, cawsom ddadl am gardiau adnabod, a'i hunig effaith oedd cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gardiau adnabod, safbwynt sydd wedi'i sefydlu'n dda, a heddiw cawn ddadl ar y setliad llywodraeth leol a drafodwyd gennym ddoe ddiwethaf. Yn wir, ar drothwy'r Nadolig cawsom ddadl ar y dreth gyngor. Felly, nid wyf yn gwbl sicr pam y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r cynnig hwn.

Jenny Randerson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brian Gibbons: Gadewch imi orffen y pwynt hwn. Dywedodd Jenny Randerson yn ei sylwadau agoriadol ei bod yn dymuno tynnu sylw at y ffaith y byddai unrhyw gynnydd yn anfantais i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, er iddi, yn y ddadl flaenorol, alw am gynnydd ym mhraesept yr heddlu, cynnydd a fyddai, wrth gwrs, yn cael effaith ganlyniadol ar y rheini sy'n talu treth gyngor. Felly, yr wyf yn gweld diffyg cydgyssylltu o ran beth yn union y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio'i gyflawni yn y ddadl hon.

Ers datganoli, mae llywodraeth leol wedi bod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac nid yw eleni'n wahanol, er ei bod yn rhaid inni gydnabod ein bod mewn cyfnod newydd o wariant cyhoeddus a bod dyddiau'r cynnydd mwyaf erioed o 5 y cant a 10 y cant wedi dod i ben. Go brin y bydd y dyddiau hynny'n dychwelyd, oherwydd pa Lywodraeth bynnag —

Jenny Randerson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brian Gibbons: Gwnaf.

Jenny Randerson: Mae hyn yn mynd yn ôl nifer o baragraffau yn eich araith. Eglurais yn fy sylwadau agoriadol mai'r rheswm pam yr

why we were bringing forward this debate today was because the previous debates that we have all had have discussed the issue from the point of view of either the Assembly or local authorities, and that today we were to discuss the point of view of our constituents, which is, after all, what we are all about.

Brian Gibbons: Yes, and that is why you made the point that any increase would be unacceptable, whereas you are calling for an increase in the previous debate, no less.

We have to recognise the reality of the new public expenditure environment in which we are operating. A failure to acknowledge this is the politics of the playground or just plain grandstanding.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Brian Gibbons: No, not at this stage.

Of any party in this Assembly, the Conservative Party has the least credibility in criticising this because over its last four years in Government, there was a 7 per cent real cut in local government expenditure. The local government settlement is determined by two factors: the size of the cake and how it is sliced up. I think that Dai Lloyd is right: the Welsh Assembly Government is in a fairly unique situation as, of all public bodies, we neither have the capacity to raise additional revenue or to borrow. Therefore, we have an absolute obligation to live within the Welsh block grant. Taking into account the overall comprehensive spending review and the annual uplift for the Welsh Assembly Government of 3.4 per cent, the increase in local government revenue of 3.3 per cent is real, and it is artificial to exclude the hypothecated grants from that sum, because those hypothecated grants are targeted at precisely the priorities that the Welsh local government has highlighted. Therefore, the 3.3 per cent figure is the real figure and, in the context of the 3.4 per cent uplift, the position we have taken is fair in a difficult situation.

Historically, that is in line with what we have achieved, because the overall uplift in the

ydym yn cyflwyno'r ddadl hon heddiw yw bod y dadleuon blaenorol yr ydym i gyd wedi'u cael wedi trafod y mater o safbwynt naill ai'r Cynulliad ynteu awdurdodau lleol, ac y byddem heddiw yn trafod safbwynt ein hetholwyr, ac wedi'r cyfan dyna yr ydym ynglŷn ag ef.

Brian Gibbons: Ie, a dyna pam y gwnaethoch y pwynt y byddai unrhyw gynnydd yn annerbyniol, tra ydych yn galw am gynnydd yn y ddadl flaenorol, a dim llai.

Rhaid inni gydnabod realiti'r amgylchedd newydd mewn gwariant cyhoeddus yr ydym yn gweithredu ynddo. Gwleidyddiaeth y maes chwarae neu ymdrech bur i greu argraff yw methu â chydabod hynny.

Eleanor Burnham: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brian Gibbons: Na wnaif, ddim ar hyn o bryd.

O bob plaid yn y Cynulliad hwn, y Blaid Geidwadol sydd â'r hygreddedd lleiaf, oherwydd dros ei phedair blynedd diwethaf mewn Llywodraeth, bu toriad gwirioneddol o 7 y cant yng ngwariant llywodraeth leol. Caiff setliad llywodraeth leol ei benderfynu gan ddau ffactor: maint y deisen a sut y caiff ei thorri. Credaf fod Dai Lloyd yn gywir: mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa unigryw gan nad oes gennym ni, o'r holl gyrrff cyhoeddus, y gallu i godi cyllid ychwanegol na benthyg. Felly, yr ydym dan rwymedigaeth lwyr i fyw o fewn grant bloc Cymru. Gan ystyried yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r uwchraddio blynyddol o 3.4 y cant i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r cynnydd o 3.3 y cant yng nghyllid llywodraeth leol yn un gwirioneddol, ac artiffisial yw hepgor o'r swm hwnnw y grantiau sydd wedi'u neilltuo, oherwydd mae'r grantiau hynny sydd wedi'u neilltuo yn targedu'r union flaenoriaethau y mae llywodraeth leol Cymru wedi tynnu sylw atynt. Felly, 3.3 y cant yw'r ffigur gwirioneddol, ac yng nghyd-destun yr uwchraddio o 3.4 y cant, mae'r safbwynt yr ydym wedi'i gymryd yn un teg mewn sefyllfa anodd.

Yn hanesyddol, mae hyn yn gyson â'r hyn a gyflawnwyd gennym, oherwydd nid yw'r

revenue support grant is not below 50 per cent, but it is much closer to 60 per cent, and, indeed, over the time of this Assembly, the overall revenue that has gone to local government, including the ring-fenced grants, has been something of the order of 80 per cent. That is a clear commitment from this Welsh Assembly Government to supporting our partners and colleagues in local government and, of course, I do not think that we have had any acknowledgment of the extra money that my colleague, the Minister for Health and Social Services, has announced in relation to continuing NHS responsibilities and the Grogan judgment, which will have a significant impact on easing some of the pressures on social care in Wales.

However, in the context of this motion and the points that have been raised around it, we need to be aware of the importance of looking at how the money available to local government is allocated, and it is important that the formula that we use to allocate resources does not become static or fixed. The needs of local government are continually changing, in terms of the patterns of need and the changing demography. We need to realise that we have introduced a three-year funding agreement with local government, which is to be welcomed. That means that any radical change to the formula will be on a three-yearly cycle as well, but that is not to say that over the three-year period, demographic changes cannot be taken into account. It is important that we acknowledge that point; this is the work that the consultative forum on finance and the distribution sub-group visits on a year-to-year basis.

4.30 p.m.

Given the thrust of the Liberal Democrats' motion, I am sure that they will welcome the decision to retain the deprivation grant as part of the overall local government settlement. That has been in place for a number of years and has been among the most important elements of the overall settlement, which has brought some parity, equity and fairness to the overall settlement, particularly for authorities that serve socially disadvantaged

uwchraddio cyffredinol yn y grant cynnal refeniw o dan 50 y cant, ond lawer yn nes at 60 y cant. Yn wir, yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn, mae'r refeniw cyffredinol sydd wedi mynd i lywodraeth leol, gan gynnwys y grantiau wedi'u neilltuo, wedi bod oddeutu 80 y cant. Mae hynny'n ymrwymiad eglur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'n partneriaid a'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol. Wrth gwrs, ni chredaf ychwaith inni gael unrhyw gydnabyddiaeth am yr arian ychwanegol y mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi ei gyhoeddi mewn cysylltiad â chyfrifoldebau'r GIG sy'n parhau, a'r dyfarniad Grogan a fydd yn cael effaith sylweddol ar liniaru rhywfaint o'r pwysau sydd ar ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fodd bynnag, yng nghyd-destun y cynnig hwn a'r pwyntiau a godwyd ynglŷn ag ef, mae angen inni fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried sut y caiff yr arian sydd ar gael i lywodraeth leol ei neilltuo, ac mae'n bwysig gofalu na fydd y fformiwla a ddefnyddiwn i neilltuo adnoddau yn mynd yn statig neu'n sefydlog. Mae anghenion llywodraeth leol yn newid yn barhaus, o ran y patrymau angen a'r ddemograffeg sy'n newid. Mae angen inni sylweddoli ein bod wedi cyflwyno cytundeb ariannu tair blynedd gyda llywodraeth leol, ac mae hynny i'w groesawu. Mae'n golygu y bydd unrhyw newid sylweddol yn y fformiwla hefyd yn dilyn cylch tair blynedd, ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud na ellir ystyried newidiadau demograffig dros y cyfnod o dair blynedd. Mae'n bwysig cydnabod hynny; dyma'r gwaith y mae'r fforwm ymgynghorol ar gyllid a'r is-grŵp dosbarthu yn rhoi sylw iddo'n gyson o flwyddyn i flwyddyn.

I gofio byrdwn cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol, yr wyf yn siŵr y byddant yn croesawu'r penderfyniad i gadw'r grant amddifadedd yn rhan o'r setliad cyffredinol i lywodraeth leol. Mae hwnnw wedi'i ddarparu ers llawer blwyddyn, ac y mae wedi bod yn un o'r elfennau pwysicaf yn y setliad cyffredinol, sydd wedi dod â rhywfaint o gydraddoldeb, cyfiawnder a thegwch i'r setliad cyffredinol, yn enwedig i awdurdodau

area. I look forward to the continuing Liberal Democrat support for the deprivation grant.

I am sure that the Liberal Democrats will also wish to welcome the additional £1 million for the benefits up-take scheme, which we hope will go some way towards addressing the massive amount of unclaimed council tax benefits in Wales. In this context, I am pleased to acknowledge the work that the Department for Work and Pensions is beginning to do, to try to create more effective links between income support and housing benefit, to allow a form of passporting across for recipients. That work has not yet been completed, but we would like progress to be made in that direction, and that forms part of our submission to the Lyons review.

On local income tax, the Assembly Government has pointed out on many occasions that it favours a more pluralist tax base for local government finance, because a local government finance system based on a single mechanism is open to some of the difficulties that were outlined by the Liberal Democrats. I do not think that people across Wales would welcome the introduction of a local income tax, particularly if it resulted in the income tax bills of individual households increasing by between £500 and £1,000.

There is a degree of unanimity on this issue, but I feel that the case for the motion has not been made, and I urge Members to reject it and the amendments.

The Deputy Presiding Officer: I call on the leader of the Welsh Liberal Democrat group to respond to the debate.

Michael German: I will comment on some of the issues that the Minister referred to in a moment. First, I want to reinforce the point made by Jenny Randerson in her intervention, namely that this is about placing more pressure on the poorest people in the country. Just look at the facts. I have UK figures, but the figures will be slightly worse

sy'n gwasanaethu ardaloedd sydd dan anfantais gymdeithasol. Edrychaf ymlaen at weld y Democratiaid Rhyddfrydol yn parhau i gefnogi'r grant amddifadedd.

Yr wyf yn siŵr y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn dymuno croesawu'r swm ychwanegol o £1 filiwn ar gyfer y cynllun defnyddio budd-daliadau. Gobeithiwn y bydd i ryw raddau yn delio â'r swm anferth o daliadau budd-dal treth gyngor nad ydynt yn cael eu hawlio yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, yr wyf yn falch cydnabod y gwaith y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dechrau arno, i geisio creu cysylltiadau mwy effeithiol rhwng cymhorthdal incwm a budd-dal tai, i ganiatáu math o broses basbort rhwng y naill a'r llall i'r rheini sy'n eu cael. Nid chwblhawyd yw'r gwaith hwnnw wedi ei gwblhau eto, ond hoffem weld cynnydd i'r cyfeiriad hwnnw, ac mae hynny'n rhan o'r sylwadau yr ydym wedi'u cyflwyno i'r adolygiad Lyons.

Ynghylch treth incwm leol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi esbonio droeon ei bod o blaid cael sylfaen dreth fwy amryfath ar gyfer cyllid llywodraeth leol, gan fod system cyllid llywodraeth leol sydd wedi'i seilio ar un mecanwaith yn agored i rai o'r anawsterau a ddisgrifiwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni chredaf y byddai pobl ledled Cymru'n hoffi gweld cyflwyno treth incwm leol, yn enwedig os byddai'n golygu bod biliau treth incwm rhai aelwydydd yn codi rhwng £500 a £1,000.

Mae rhywfaint o unfrydedd ar y mater hwn, ond teimlaf na chyflwynwyd dadl argyhoeddiadol o blaid y cynnig, ac anogaf Aelodau i'w wrthod ac i wrthod y gwelliannau.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i ymateb i'r ddadl.

Michael German: Gwnaf sylw am rai o'r materion y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn y man. Yn gyntaf, dymunaf ategu'r pwynt a wnaeth Jenny Randerson yn ei hymyriad, sef bod hyn yn golygu rhoi mwy o bwysau ar y rhai tlotaf yn y wlad. Edrychwch ar y ffeithiau. Mae'r ffigurau gennyf ar gyfer y DU, ond bydd y ffigurau ar gyfer Cymru

in Wales because we have more poorer people than the UK as a whole. For every £100 the poorest 20 per cent earn, £4.90 goes on council tax; the top 20 per cent—and I noticed that the First Minister defended these poor people whose income tax will increase—have to pay only £1.70 per £100 of their income on council tax. That must surely be unfair. The problem is that the gap between those figures has widened over the years. The amount paid by the poorest 20 per cent has increased over the years while the amount paid by the wealthiest 20 per cent has shrunk.

Your Government in London, Minister, decided that it would try to tackle that inequality by undertaking a big review. Gordon Brown—remember him?—appointed Michael Lyons to try to sort this matter out and produce a report, but Michael Lyons has since been transferred to the BBC. What happened to that report? It was buried in an announcement that was made when some major event in the life of the UK Government was taking place, because it made some unpalatable judgments. It is not easy to make those choices. Ducking the review means that, for years to come, we must face the reality of the poorest people in our country paying more council tax and the richest paying less. I have read the whole Lyons report. Even if you put a bit of effort into trying to tackle the benefits system, all that you will do is change the figures by a notch or two. You will not address the fundamental inequality that comes about because of council tax.

Brian Gibbons: Given that you are quoting the Lyons report, would you agree that one of its conclusions is that property tax should remain one plank of local government funding? Your proposal is to get rid of property tax totally.

Michael German: He said that there ought to be a mixture of taxes, but that was not a firm conclusion. He also said in his conclusion that a local income tax could work, with provisos. There were provisos, and we all know what those provisos would

ychydig yn waeth am fod gennym fwy o bobl dlawd nag sydd yn y DU gyfan. Am bob £100 y mae'r 20 y cant tlotaf yn ei ennill, aiff £4.90 ar dalu'r dreth gyngor; yn achos yr 20 y cant uchaf—a sylwais fod y Prif Weinidog wedi amddiffyn y trueiniaid hyn y bydd eu treth incwm yn cynyddu—rhaid iddynt dalu dim ond £1.70 am bob £100 o'u hincwm at y dreth gyngor. Mae'n sicr bod hynny'n annheg. Y broblem yw bod y bwlch rhwng y ffigurau hynny wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Mae'r swm a delir gan yr 20 y cant tlotaf wedi cynyddu dros y blynyddoedd tra bu gostyngiad yn y swm a delir gan yr 20 y cant cyfoethocaf.

Weinidog, penderfynodd eich Llywodraeth yn Llundain y byddai'n ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwnnw drwy ymgymryd ag adolygiad mawr. Penododd Gordon Brown—a ydych yn ei gofio?—Michael Lyons i geisio datrys y mater hwn a llunio adroddiad, ond mae Michael Lyons wedi'i drosglwyddo ers hynny i'r BBC. Beth a ddigwyddodd i'r adroddiad hwnnw? Fe'i claddwyd mewn cyhoeddiad a wnaethpwyd pan fu rhyw ddigwyddiad o bwys yn hanes Llywodraeth y DU, gan fod ynddo rai dyfarniadau annymunol. Nid peth hawdd yw gwneud y dewisiadau hynny. Oherwydd anwybyddu'r adolygiad, rhaid inni wynebu'r ffaith y bydd y rhai tlotaf yn ein gwlad, am rai blynyddoedd i'r dyfodol, yn talu mwy o dreth gyngor a'r rhai cyfoethocaf yn talu llai. Yr wyf wedi darllen adroddiad Lyons o glawr i glawr. Hyd yn oed os ymdrechwch i geisio delio â'r system budd-daliadau, y cyfan a wnewch fydd newid y ffigurau y mymryn lleiaf. Ni fyddwch yn delio â'r anghydraddoldeb sylfaenol sy'n digwydd oherwydd y dreth gyngor.

Brian Gibbons: Gan eich bod yn dyfynnu o adroddiad Lyons, a fydddech yn derbyn mai un o'i gasgliadau yw y dylai treth ar eiddo barhau'n un elfen yng nghyllid llywodraeth leol? Yr hyn yr ydych chi'n ei gynnig yw dileu treth ar eiddo'n gyfan gwbl.

Michael German: Dywedodd y dylid cael cymysgedd o drethi, ond nid oedd hwnnw'n gasgliad cadarn. Dywedodd hefyd yn ei ddiweddglo y gallai treth incwm leol weithio, dan amodau. Yr oedd amodau, a gwyddom i gyd beth fyddai'r amodau hynny'n ei olygu,

mean, because the report talks about the collection system and the technology that would be needed to go with it. I understand all of those points. However, that debate has passed. Lyons's report was buried, and a buried report will never resurrect itself. Therefore, we face the prospect of the poorest in our country paying more and the richest paying less for their services, as a percentage of their income. We should remember who that falls upon: pensioners. Supporting the people who are the most disadvantaged are the people on fixed incomes, and pensioners are the largest such group.

I ask you also to consider what happens when you have a tight political settlement, as we have just had for this particular round of local government funding. What happens is that those services that are used mostly by the poorest in our society will be hurt and affected the most, such as housing and social services.

The Minister has just talked about the Grogan judgment. I would be interested to know whether the Minister at some stage had decided to fund local health boards to pay that extra money. However, two or three weeks ago, local health boards in Wales were told that they would not be funded for the implications of the outcome of Grogan. That will mean a deficit of between £2 million and £2.5 million by the end of this financial year for many local health boards, including those in my part of the world. That makes it even more difficult for them to fund the sort of care that they need to provide for the oldest, most infirm, and poorest in our society.

We have not met the needs of inflation. Regardless of what the Minister says about the amounts, I remind him that the 2008-09 expenditure sub-group looked at the percentage increases for key services. The increase for the construction industry is 6.4 per cent; for local bus contracts, it is 10.4 per cent; school transport, 6.4 per cent; waste collection contracts, 10.4 per cent; waste disposal, 10 per cent; on residential home fees, for care homes, it is 3.6 per cent, for

gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at y system gasglu a'r dechnoleg y byddai galw amdani i'w hategu. Yr wyf yn deall pob un o'r pwyntiau hynny. Fodd bynnag, mae'r ddadl honno wedi bod. Claddwyd adroddiad Lyons, ac ni fydd adroddiad a gladdwyd byth yn dod i'r wyneb eto. Felly, yr ydym yn wynebu dyfodol lle bydd y rhai tlotaf yn ein gwlad yn talu mwy a'r rhai cyfoethocaf yn talu llai am eu gwasanaethau, fel canran o'u hincwm. Dylem gofio pwy a fydd yn dwyn y baich hwnnw: pensïynwyr. Y rhai sy'n cynnal y bobl fwyaf difreintiedig yw'r rheini sydd ar incwm sefydlog, a phensïynwyr yw'r grŵp mwyaf o'r fath.

Gofynnaf ichi ystyried hefyd beth a ddigwydd pan gewch setliad gwleidyddol tynn, fel yr un yr ydym newydd ei gael ar gyfer y cylch hwn o ariannu i lywodraeth leol. Y gwasanaethau hynny a ddefnyddir amlaf gan y rhai tlotaf yn ein cymdeithas, fel gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn dioddef ac yn teimlo'r effaith fwyaf.

Mae'r Gweinidog newydd sôn am ddyfarniad Grogan. Hoffwn wybod a oedd y Gweinidog rywbryd wedi penderfynu ariannu byrddau iechyd lleol er mwyn talu'r arian ychwanegol hwnnw. Fodd bynnag, ddwy neu dair wythnos yn ôl dywedwyd wrth fyrrdau iechyd lleol yng Nghymru na chaent gyllid i ddelio â goblygiadau'r canlyniad i ddyfarniad Grogan. Oherwydd hynny, bydd rhwng £2 filiwn a £2.5 miliwn o ddiffyg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon gan nifer o fyrrdau iechyd lleol, gan gynnwys y rheini yn fy ardal i. Bydd hynny'n ei gwneud yn anos byth iddynt ariannu'r math o ofal y mae angen iddynt ei ddarparu ar gyfer y bobl hynaf, y bobl fwyaf eiddil a'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

Nid ydym wedi bodloni'r anghenion o ran chwyddiant. Beth bynnag a ddywed y Gweinidog am y symiau, yr wyf yn ei atgoffa bod yr is-grŵp gwariant ar gyfer 2008-09 wedi ystyried canran y codiadau ar gyfer gwasanaethau allweddol. Y cynnydd yn achos y diwydiant adeiladu yw 6.4 y cant; yn achos contractau bysiau lleol mae'n 10.4 y cant; yn achos cludiant ysgol mae'n 6.4 y cant; yn achos contractau casglu gwastraff mae'n 10.4 y cant; ar gyfer gwaredu

nursing homes, it is 4.8 per cent, and for the residential care of looked-after children, it was 8 per cent. Those are the undisputed inflationary figures for those basic council and social care services. Given the pressure on local government, and the way in which this Government is treating it, providing a settlement that is below inflation and below the increase awarded to other services in Wales, we will lose out on core services, the ones that matter.

The people who will be affected by this are our poorest. As the Minister rushes on his horse towards Sherwood forest to distribute the money that he has taken from the poor to give to the rich, I ask him to think once more about resurrecting the idea that the poorest in our society need the most help, and that that is what this Government is supposed to deliver.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that they do. Therefore, I will defer the votes until voting time.

As we have made up some time this afternoon, I propose to begin the short debate now. Voting time will begin immediately after that.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Fer Short Debate

Treialu Canolfannau Galw i Mewn—yr Achos dros Gaerdydd Piloting Walk-in Centres—the Case for Cardiff

Jenny Randerson: I am delighted to have the opportunity to present this short debate. I have agreed to allow Jonathan Morgan, Chris Franks, and Lorraine Barrett the opportunity to contribute to this debate.

When the Minister announced that she was putting in place a pilot scheme for national health service walk-in centres in Wales, I was hugely relieved, as were many other

gwastraff mae'n 10 y cant; ar gyfer ffioedd cartrefi preswyl, ar gyfer cartrefi gofal mae'n 3.6 y cant, ar gyfer cartrefi nyrsio mae'n 4.8 y cant, ac ar gyfer gofal preswyl i blant sy'n cael gofal yr oedd yn 8 y cant. Dyna'r ffigurau chwyddiant diamau ar gyfer y gwasanaethau cyngor a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sylfaenol hynny. Oherwydd y pwysau sydd ar lywodraeth leol, a'r modd y mae'r Llywodraeth hon yn ei thrin, wrth ddarparu setliad sy'n is na chyfradd chwyddiant ac yn is na'r cynnydd a roddwyd i wasanaethau eraill yng Nghymru, byddwn yn colli gwasanaethau craidd, y rhai sy'n cyfrif.

Y bobl y bydd hyn yn effeithio arnynt yw'r rhai tlotaf. Wrth i'r Gweinidog rithro ar gefn ei geffyl tua choedwig Sherwood i rannu'r arian y mae wedi'i gymryd oddi ar y tlawd i'w roi i'r cyfoethog, gofynnaf iddo feddwl unwaith eto am atgyfodi'r syniad mai ar y rhai tlotaf yn ein cymdeithas y mae'r angen mwyaf am gymorth, ac mai hynny y mae'r Llywodraeth hon i fod i'w wneud.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.

Gan ein bod wedi ennill ychydig amser y prynhawn yma, bwriadaf ddechrau'r ddadl fer yn awr. Bydd yr amser pleidleisio'n dechrau'n syth ar ôl hynny.

Jenny Randerson: Yr wyf wrth fy modd cael y cyfle i gyflwyno'r ddadl fer hon. Yr wyf wedi cytuno i roi cyfle i Jonathan Morgan, Chris Franks, a Lorraine Barrett gyfrannu i'r ddadl hon.

Pan gyhoeddodd y Gweinidog ei bod yn cyflwyno cynllun peilot ar gyfer canolfannau galw i mewn yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, teimlais ryddhad

Members around the Chamber. This is a commitment that has long gone unfulfilled, and I am strongly support the Minister in moving ahead on this topic. I remind Members that the previous Assembly committed itself to establishing walk-in centres well over a year ago.

4.40 p.m.

Walk-in centres in England have acted as a pressure valve, easing the burden on overstretched and underfunded accident-and-emergency departments, putting access to simple, effective healthcare at the heart of overstretched health communities, and playing a large part in improving the general health of the localities in which they are situated.

How many constituents have contacted you with tales of woe about sitting in accident-and-emergency departments for hours waiting to be seen, even when nursing only minor injuries? How many times have you heard of the dread that people feel when setting out to visit large, centralised health services, not because they do not appreciate the national health service and the wonderful opportunities it can and should provide to all in this country, but because they are scared of the wait in accident and emergency, and scared of being told to take a ticket and join the queue, rather as we do at the deli counter in Sainsbury's, while LCD displays tell them how many hours and minutes they must wait.

This shows that many people will not even attend hospital when they should do so. Just as NHS Direct has given patients a source of help and advice when they are not sure whether they should visit hospital or their GP, so NHS walk-in centres could facilitate the treatment of many patients with minor symptoms.

Without wishing to pre-judge them, I have no doubt that the proposed pilot schemes will provide clear conclusions and lessons, and the case for the development of walk-in

mawr, fel nifer o Aelodau eraill o gwmpas y Siambr. Mae hwn yn ymrwymiad a fu'n rhy heb ei gyflawni, ac yr wyf yn gefnogol iawn i'r Gweinidog wrth symud ymlaen ar y mater hwn. Atgoffaf Aelodau fod y Cynulliad blaenorol wedi ymrwymo i sefydlu canolfannau galw i mewn ymhell dros flwyddyn yn ôl.

Mae canolfannau galw i mewn yn Lloegr wedi gweithio fel falf pwysedd, gan leihau'r baich ar adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n cael eu hestyn i'r eithaf ac sy'n brin o arian, gan roi lle canolog i ofal iechyd syml ac effeithiol mewn cymunedau iechyd sy'n cael eu hestyn i'r eithaf, a bod hyn rhan fawr o'r gwaith o wella iechyd cyffredinol yn yr ardaloedd lle y maent wedi'u lleoli.

Faint o etholwyr sydd wedi cysylltu â chi gyda hanesion digalon am eistedd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys am oriau yn disgwyl i rywun eu gweld, hyd yn oed pan oedd yr anafiadau'n rhai mân? Sawl gwaith y clywsoch am yr ofn sydd ar ofn bobl wrth gychwyn allan i ymweld â gwasanaethau iechyd mawr, canoledig, nid am nad ydynt yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth iechyd gwladol a'r cyfleoedd rhyfeddol y gall ac y dylai eu cynnig i bawb yn y wlad hon, ond am fod arnynt ofn disgwyl yn yr adran damweiniau ac achosion brys, a chael gorchymyn i gymryd tocyn ac aros eu tro. Mae'n debyg braidd i'r hyn a wnawn wrth y cownter deli yn siop Sainsbury, tra bydd sgriniau arddangos LCD yn dweud wrthynt faint o oriau a munudau y mae'n rhaid iddynt aros.

Mae hyn yn dangos bod llawer o bobl na fyddant yn mynd i'r ysbyty hyd yn oed pan ddylent wneud hynny. Yn union fel y mae Galw Iechyd Cymru wedi cynnig ffynhonnell cymorth a chyngor i gleifion pan na fyddant yn sicr a ddylent fynd i'r ysbyty ynteu at eu meddyg teulu, felly y gallai canolfannau galw i mewn dan y GIG hwyluso triniaeth i lawer o gleifion sydd â symptomau llai.

Heb ddymuno eu rhagfarnu, yr wyf yn sicr y bydd y cynlluniau peilot arfaethedig yn cynnig casgliadau a gwersi clir, ac y caiff yr achos ei gyflwyno dros ddatblygu

centres, providing access to services for people in all parts of Wales, will be made. I see no reason why the situation here should be different from that in England. When the case is made, I hope that the political will is strong enough to turn it into a truly revolutionary change to our entire mindset.

Just when the public have moved firmly to what I call a 'supermarket approach' to healthcare—one that is available 24 hours a day, seven days a week, and is based around choice—we have taken away one of their most popular choices: the availability of GPs at weekends or in the evening. People have reacted badly to that change. They have not turned to the out-of-hours service, in many cases; they have turned, often inappropriately, to accident-and-emergency departments, which have had to take the strain. We must also remember the knock-on impact on the ambulance service, because when the accident-and-emergency department is oversubscribed, the queue of waiting ambulances means that they will be delayed.

However, at the moment, we are where we are. We do not have a public decision on anything beyond the principle of a pilot scheme. Just last week, when I asked him, the First Minister gave a range of options for the location of pilot schemes, for how long they might run, and for how they will be organised, operated and managed. While I have no doubt that the Minister for health is hard at work ironing out the details of a proposal, I hope that these decisions are made quickly.

My aim is not to advocate one specific model of service, although I believe that the nurse-led model is more appropriate to large towns and cities, while the pharmacy-led model may be more practical elsewhere. However, that is a personal view. The Minister told me in a letter last week that she believes that there is scope to achieve benefits beyond some of the traditional English models. This is to be hugely welcomed, and I commend

canolfannau galw i mewn, gan ddarparu mynediad i wasanaethau i bobl ym mhob rhan o Gymru. Ni welaf reswm pam y dylai'r sefyllfa yma fod yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr. Pan gyflwynir yr achos, gobeithio y bydd yr ewyllys gwleidyddol yn ddigon cryf i'w droi'n newid gwirioneddol chwyldroadol yng nghyfeiriad meddwl pob un ohonom.

Ar yr union adeg pan yw'r cyhoedd wedi troi'n gadarn at yr hyn a alwaf yn 'dull yr uwchfarchnad' o ymdrin â gofal iechyd—un sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, ac sy'n seiliedig ar ddewis—yr ydym wedi cymryd oddi arnynt un o'u dewisiadau mwyaf poblogaidd: meddygon teulu sydd ar gael ar y penwythnos neu gyda'r hwyr. Mae pobl wedi ymateb yn wael i'r newid hwnnw. Nid ydynt wedi troi at y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, mewn llawer achos; maent wedi troi, a hynny'n amhriodol yn aml, at adrannau damweiniau ac achosion brys, sydd wedi gorfod ysgwyddo'r baich. Rhaid inni gofio hefyd am yr effaith ganlyniadol ar y gwasanaeth ambiwlans, oherwydd pan fydd galw gormodol ar yr adran damweiniau ac achosion brys, bydd y cerbydau ambiwlans yn cael eu dal yn ôl am eu bod yn gorfod aros eu tro.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhaid inni ddelio â'r sefyllfa fel y mae. Nid ydym wedi cael penderfyniad cyhoeddus ar ddim heblaw egwyddor y cynllun peilot. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, pan ofynnais iddo, cynigiodd y Prif Weinidog amryw o ddewisiadau ar gyfer lleoliadau'r cynlluniau peilot, pa mor hir y gallent barhau, a sut y cânt o'u trefnu, eu gweithredu a'u rheoli. Er fy mod yn sicr bod y Gweinidog dros iechyd wrthi'n galed yn penderfynu manylion cynnig, yr wyf yn gobeithio y gwneir y penderfyniadau hyn yn fuan.

Nid yw'n fwriad gennyf ddadlau dros un model gwasanaeth penodol, er fy mod yn credu bod y model dan arweiniad nyrsys yn fwy priodol mewn trefi mawr a dinasoedd, tra gallai'r model dan arweiniad fferyllfa fod yn fwy ymarferol mewn mannau eraill. Fodd bynnag, barn bersonol yw honno. Dywedodd y Gweinidog wrthyf mewn llythyr yr wythnos diwethaf ei bod yn credu bod lle i sicrhau manteision y tu hwnt i rai o'r

the Minister for her vision in this regard. I understand her desire to ensure that the evidence available is used in designing the pilot project or projects, but it is that evidence that I want to look at today.

The Minister's announcement followed a visit on 7 January to a walk-in centre in the south of Bristol, one of about 90 across England, including places like Sheffield, Nottingham, Exeter, central London, Norwich and Manchester. I hope that, in five or 10 years' time, we will be in the position of having a similar list apply to Wales, so that we can talk about walk-in centres in Barry, Wrexham, Merthyr, Llandudno, Aberystwyth, Carmarthen, Haverfordwest, and elsewhere. However, when we are looking at sites for these first pilot projects, I believe that there is an obvious choice that should be included, and that is Cardiff.

Like many of the cities in England with walk-in centres—like Bristol, in fact—Cardiff is under huge pressure from commuters, visitors and tourists. It is estimated that 80,000 people enter Cardiff from outside for work and play each day. The city, of course, with its welcoming character, is glad to welcome these commuters and visitors. There is little doubt, however, that the sheer numbers put Cardiff's services under an incredible amount of pressure, not least when it comes to healthcare. Additional pressure comes from the number of students living in Cardiff and the number of second-home owners, many of whom are not registered with a local GP. Then there are the health pressures of all big cities: the higher percentage of ethnic minority populations with specific health needs; the asylum seekers who come here; and the tendency of those with mental health problems and drug and alcohol problems to become homeless and drift towards the anonymity of the capital city.

Cardiff is regarded as relatively prosperous in Wales, but it is worth noting that more people are living in poverty within the city of Cardiff

modelau traddodiadol yn Lloegr. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, a chanmolaf y Gweinidog am ei gweledigaeth yn hyn o beth. Yr wyf yn deall ei hawydd i sicrhau y caiff y dystiolaeth sydd ar gael ei defnyddio wrth ddylunio'r prosiect neu'r prosiectau peilot, ond y dystiolaeth honno yw'r hyn y dymunaf ei ystyried heddiw.

Cafwyd y cyhoeddiad gan y Gweinidog ar ôl ymweliad ar 7 Ionawr â chanolfan galw i mewn yn ne Bryste, un o blith tua 90 ledled Lloegr, gan gynnwys lleoedd fel Sheffield, Nottingham, Caer-wysg, canol Llundain, Norwich a Manceinion. Gobeithio y byddwn mewn sefyllfa, ymhen pum neu 10 mlynedd, lle bydd gennym restr debyg mewn cysylltiad â Chymru, fel y gallwn sôn am ganolfannau galw i mewn yn y Barri, Wrecsam, Merthyr, Llandudno, Aberystwyth, Caerfyrddin, Hwlfordd, a mannau eraill. Fodd bynnag, wrth inni ystyried safleoedd ar gyfer y prosiectau peilot cyntaf hyn, credaf fod dewis amlwg y dylid ei gynnwys, sef Caerdydd.

Fel nifer o ddinasoedd yn Lloegr sydd â chanolfannau galw i mewn—fel Bryste, yn wir—mae Caerdydd dan bwysau enfawr oherwydd cymudwyr, ymwelwyr a thwristiaid. Amcangyfrifir bod 80,000 o bobl bob dydd yn dod i mewn i Gaerdydd o'r tu allan i weithio a chwarae. Mae'r ddinas, wrth gwrs, gyda'i chymeriad croesawgar, yn falch croesawu'r cymudwyr a'r ymwelwyr hyn. Nid oes fawr o amheuaeth, fodd bynnag, nad yw'r niferoedd enfawr yn rhoi pwysau rhyfeddol ar wasanaethau Caerdydd, yn anad dim wrth ystyried gofal iechyd. Daw pwysau ychwanegol yn sgil nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghaerdydd a nifer y perchnogion ail gartrefi, lawer ohonynt heb fod wedi cofrestru gyda meddyg teulu lleol. Yna mae'r pwysau iechyd sy'n digwydd ym mhob dinas fawr: y ganran uwch o boblogaethau o leiafrifoedd ethnig sydd ag anghenion iechyd penodol; y ceiswyr lloches sy'n dod yma; a'r tueddiad i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol eu cael eu hunain yn ddigartref a symud yn araf tuag at y brifddinas, lle nad oes neb yn adnabod neb.

Caiff Caerdydd ei hystyried yn gymharol lewyrchus yng Nghymru, ond mae'n werth sylwi bod mwy o bobl yn byw mewn tldi yn

than there are in any other single location probably throughout Wales—though in raw numbers and not as a percentage of the population.

Every Assembly Member for this region and beyond is aware of the problems at the University Hospital of Wales: the waiting times and the difficulties that patients face. Cardiff AMs will be aware of the chronic shortage of GP capacity and the scale of list closures. I would never argue that a Cardiff-based walk-in centre would be some kind of panacea, alleviating all these pressures overnight, but it would go a long way towards giving Cardiff the flexibility that it needs in health services, which is all the more necessary because of its unique problems and pressures.

The Minister saw for herself how the south Bristol walk-in centre was improving the health of the city as well as its economy. Instead of employees being sent home to their own doctors when they are unwell, they go straight to the walk-in centre to be assessed. That is sure to save employers tens of thousands of pounds in the costs of staff absences, particularly for employees who commute. For those employees, a simple trip to their doctor can cost them an entire day's work.

I know that Members, local authorities and communities will all want their own area to be one of the sites for the pilot centres, and I understand why. As I have said before, I hope that the day will come when these facilities serve the whole country. However, in deciding where these scarce pilot sites should be, the Minister should, in my view, include Cardiff. Areas where the demand is greatest and the pressure highest should be the first priority and, when Cardiff and any other pilot sites show how effective walk-in centres can be, the rest of Wales will surely follow.

This issue has genuine cross-party support. Many Members, for many years, from all

ninas Caerdydd nag mewn unrhyw un man arall ledled Cymru yn ôl pob tebyg—er bod hynny ar ffurf niferoedd crai ac nid fel canran o'r boblogaeth.

Mae pob Aelod Cynulliad dros y rhanbarth hwn a thu hwnt yn ymwybodol o'r problemau yn Ysbyty Athrofaol Cymru: yr amseroedd aros a'r anawsterau sy'n wynebu cleifion. Bydd ACau Caerdydd yn ymwybodol o'r prinder cronig o gapasiti meddygon teulu a'r raddfa cau rhestrau. Ni fyddwn byth yn dadlau y byddai canolfan galw i mewn yng Nghaerdydd rywfodd yn ateb pob problem, gan liniaru'r holl bwysau hyn dros nos, ond byddai'n mynd ymhell tuag at roi i Gaerdydd yr hyblygrwydd y mae arni ei angen o ran gwasanaethau iechyd, sydd hyd yn oed yn fwy angenrheidiol oherwydd ei phroblemau a'i phwysau unigryw.

Gwelodd y Gweinidog drosti ei hun fel yr oedd y ganolfan galw i mewn ym Mryste yn gwella iechyd y ddinas yn ogystal â'i heconomi. Yn hytrach na bod gweithwyr yn cael eu hanfon adref at eu meddygon eu hunain pan nad ydynt yn teimlo'n dda, maent yn mynd yn syth i'r ganolfan galw i mewn i gael eu hasesu. Mae hynny'n siŵr o arbed degau o filoedd o bunnoedd i gyflogwyr o ran costau absenoldeb staff, yn enwedig o safbwynt gweithwyr sy'n cymudo. I'r gweithwyr hynny, gall ymweliad syml â'u meddyg gostio diwrnod cyfan o waith.

Gwn y bydd Aelodau, awdurdodau lleol a chymunedau i gyd am i'w hardal hwy fod yn un o'r safleoedd ar gyfer y canolfannau peilot, ac yr wyf yn deall pam. Fel y dywedais eisoes, gobeithio y daw'r dydd pan fydd y cyfleusterau hyn yn gwasanaethu'r wlad gyfan. Fodd bynnag, wrth benderfynu ymhle y dylai'r safleoedd peilot prin hyn gael eu sefydlu, dylai'r Gweinidog, yn fy marn i, gynnwys Caerdydd. I ardaloedd lle mae'r galw ar ei fwyaf a'r pwysau ar eu trymaf y dylid rhoi'r flaenoriaeth gyntaf, a phan fydd Caerdydd ac unrhyw safleoedd peilot eraill yn dangos mor effeithiol y gall canolfannau galw i mewn fod, bydd gweddill Cymru'n siŵr o ddilyn.

Mae cefnogaeth wirioneddol ar draws y pleidiau i'r mater hwn. Mae nifer o Aelodau,

parties have argued for the introduction of walk-in centres. Stories of old ladies being left on trolleys in accident-and-emergency departments and people waiting to be seen for hours in pain and discomfort have been raised in the Chamber over the past eight years, and all of those examples could have been eased had there been walk-in centres. Only a fortnight ago, a constituent complained to me that his elderly father had been kept waiting for seven and a half hours for the result of an x-ray at Cardiff's accident-and-emergency department. He had had the x-ray within the four-hour target, but there was simply no-one available to give him the results. He eventually went home without the results of the x-ray, hoping that he did not have a fracture.

Cardiff needs extra capacity now. With a pilot walk-in centre, the city would be a healthier and wealthier place. The pressure on services at UHW and our oversubscribed GP surgeries would be eased, which would benefit people in communities way beyond the city and some of our poorest communities.

Let us not forget that Cardiff Local Health Board was ready and willing to have a walk-in centre and had plans worked up, but there was not adequate funding. Deciding what a walk-in centre would do for health services in the city is clearly a clinical judgment to be made. I hope that the Minister will give Cardiff the chance to lead the way and show what walk-in centres can do, not just for our capital, but for our country.

4.50 p.m.

Finally, I want to emphasise that I am raising this issue partly to give the Minister the opportunity to put her thoughts on record and to flesh out her ideas, and I look forward to hearing from her.

Jonathan Morgan: I thank Jenny Randerson for allowing me to contribute to this useful and interesting debate. We are many months

ers blynyddoedd lawer, o bob plaid wedi dadlau o blaid cyflwyno canolfannau galw i mewn. Mae straeon am fenywod oedrannus yn cael eu gadael ar droliau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a phobl yn disgwyl am oriau mewn poen ac anghysur i rywun ddod i'w gweld, wedi cael eu codi yn y Siambr dros yr wyth mlynedd diwethaf, a gellid bod wedi lliniaru'r enghreifftiau hynny i gyd petasai yna ganolfannau galw i mewn. Bythefnos yn unig yn ôl, cwynodd un o'm hetholwyr wrthyf fod ei dad oedrannus wedi gorfod disgwyl am saith awr a hanner am ganlyniad pelydr X yn adran damweiniau ac achosion brys Caerdydd. Cafodd yr archwiliad pelydr X o fewn y targed o bedair awr, ond nid oedd neb ar gael i roi'r canlyniadau iddo. Maes o law aeth adref heb ganlyniadau'r pelydr X, gan obeithio nad oedd wedi torri asgwrn.

Mae angen capasiti ychwanegol ar Gaerdydd yn awr. Byddai'r ddinas yn lle iachach a mwy cyfoethog pe bae yma ganolfan beilot ar gyfer galw i mewn. Byddai'r pwysau ar wasanaethau yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac ym meddygfeydd gorbrysur ein meddygon teulu yn lleihau, a byddai hynny o fudd i bobl mewn cymunedau ymhell y tu hwnt i'r ddinas ac i rai o'n cymunedau tlotaf.

Gadewch inni beidio ag anghofio bod Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd yn barod ac yn fodlon cael canolfan galw i mewn a bod ganddo gynlluniau wedi'u paratoi, ond nad oedd digon o gyllid. Yn amlwg, barn glinigol yw beth y byddai canolfan galw i mewn yn ei wneud ar ran y gwasanaethau iechyd yn y ddinas. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi'r cyfle i Gaerdydd i arwain y ffordd a dangos yr hyn y gall canolfannau galw i mewn ei wneud, nid i'n prifddinas yn unig, ond i'n gwlad.

Yn olaf, yr wyf am bwysleisio fy mod yn codi'r mater hwn yn rhannol i roi'r cyfle i'r Gweinidog gofnodi ei barn ac i ymhelaethu ar ei syniadau, ac edrychaf ymlaen at glywed ganddi.

Jonathan Morgan: Diolch i Jenny Randerson am adael imi gyfrannu at y ddadl fuddiol a diddorol hon. Mae misoedd lawer

beyond the consultation on the delivering emergency care service strategy and we are all waiting to find out what the Government will do to expand capacity in the NHS to deal with unscheduled and emergency care. The investment will have to be quite considerable to get this right. The nurse-led walk-in centres should play a key and central part in delivering that strategy.

I place on record my thanks to the Royal College of Nursing, which played an immensely proactive and positive role in ensuring that this campaign did not falter. As a result of that campaign, people across the Assembly can see that delivering nurse-led walk-in centres would be valuable for the people of Wales.

Chris Franks: Thank you for the opportunity to speak. Walk-in centres could be useful, as indicated, for areas such as Cardiff due to the vast number of commuters who come here by train and bus. In England, such walk-in centres are located close to railway stations and they focus mainly on providing services to out-of-area patients who find it difficult to find time to see a GP in their community during office hours. However, there are problems with the nature of walk-in centres. Medical staff treating patients may not be able to pick up long-term trends because they do not have patients' notes.

Plaid Cymru advocates wellbeing centres. We have to move the health system into the twenty-first century, not just in relation to treating sickness, but also in promoting wellbeing. That is why I welcome the 'One Wales' financial commitment to establishing wellbeing centres in communities throughout Wales. I hope that the Minister will consider areas such as Rhondda Cynon Taf, and Cardiff and the Vale as locations for such pilots.

Lorraine Barrett: I thank Jenny for the opportunity to contribute. I can see the benefit of walk-in centres in a city such as Cardiff, where there is a large student population, a huge influx of visitors, and asylum seekers. I would just issue a health

wedi mynd heibio ers yr ymgynghori ar y strategaeth darparu gwasanaethau gofal brys, ac yr ydym i gyd yn edrych ymlaen at weld beth a wnaiff y Llywodraeth i ehangu'r capasiti yn y GIG i ddelio â gofal heb ei drefnu a gofal brys. Bydd yn rhaid i'r buddsoddiad fod yn bur sylweddol i gael hyn yn iawn. Dylai'r canolfannau galw i mewn dan arweiniad nyrsys fod yn rhan allweddol a chanolog o roi'r strategaeth honno ar waith.

Hoffwn gofnodi fy niolch i Goleg Brenhinol y Nyrsys, a chwaraeodd rôl hynod o ragweithiol a chadarnhaol yn sicrhau na fyddai'r ymgyrch hon yn pallu. O ganlyniad i'r ymgyrch honno, gall pobl ar draws y Cynulliad weld y byddai canolfannau galw i mewn dan arweiniad nyrsys yn werthfawr i bobl Cymru.

Chris Franks: Diolch ichi am y cyfle i siarad. Gallai canolfannau galw i mewn fod yn ddefnyddiol, i ardaloedd fel Caerdydd oherwydd nifer enfawr y cymudwyr sy'n dod yma ar drenau a bysiau. Yn Lloegr, mae canolfannau o'r fath yn cael eu gosod yn agos at orsafoedd rheilffordd, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau i gleifion o'r tu allan i'r ardal sy'n cael anhawster i gael yr amser i weld meddyg teulu yn eu cymuned yn ystod oriau swyddfa. Fodd bynnag, mae yna broblemau o ran natur canolfannau galw i mewn. Efallai na fydd staff meddygol sy'n trin cleifion yn sylwi ar dueddiadau tymor hir am nad yw nodiadau cleifion ganddynt.

Mae Plaid Cymru yn argymhell canolfannau lles. Rhaid inni symud y gyfundrefn iechyd i'r unfed ganrif ar hugain, nid o ran trin salwch yn unig, ond hefyd o ran hyrwyddo lles. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad ariannol yn 'Cymru'n Un' i sefydlu canolfannau lles mewn cymunedau ledled Cymru. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf, a Chaerdydd a'r Fro fel manau ar gyfer cynlluniau peilot o'r fath.

Lorraine Barrett: Diolch i Jenny am y cyfle i gyfrannu. Gallaf weld mantais canolfannau galw i mewn mewn dinas fel Caerdydd, lle mae poblogaeth fawr o fyfyrwyr, llif enfawr o ymwelwyr, a cheiswyr lloches. Ond hoffwn gyhoeddi rhybudd iechyd o ran sicrhau, pan

warning on ensuring that patients, when we get them, are provided with clear information so that they know when it is appropriate to attend a walk-in centre, their GP surgery or an accident-and-emergency department.

Community pharmacies feel strongly that they can provide some element of these walk-in centres. They have premises in our communities and the expertise, and they are keen to expand the minor ailment scheme. They want to be part of the jigsaw of this health provision. However, in principle, I support Jenny in this suggestion.

The Deputy Presiding Officer: I call on the Minister for Health and Social Services, Edwina Hart, to reply to the debate.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I thank Jenny Randerson for initiating this debate today. It has been a useful discussion on walk-in centres. What is the difference between a walk-in centre and a health and wellbeing centre? That is an area that we will have to explore when deciding how to deliver the service in Wales.

I had the opportunity, at the invitation of the Royal College of Nursing, to visit the NHS walk-in centre in Bristol. The centre was based in the suburbs and served three quite large estates in the area. Interestingly, the building was located with a GP surgery on one side and a renal unit on the other. It was based in a large building and in the centre of the building, but not integral to the centre itself, was a cafe that provided healthy meals, and walking clubs and community activities used that cafe as their base, so there was quite a holistic approach taken as regards the building itself. It was not just a walk-in centre. It was pouring with rain on the January day that we visited, and the people from the club decided not to go for their walk but to sit down and have a nice cup of coffee instead.

I also had the opportunity to meet the centre's staff, including its manager and the nursing staff, and I was impressed by what happened there generally, not just by the fact that

gawn ni hwy, fod cleifion yn cael gwybodaeth glir er mwyn iddynt wybod pryd y mae'n briodol mynd i ganolfan galw i mewn, i feddygfa eu meddyg teulu ynteu i adran damweiniau ac achosion brys.

Mae fferyllfeydd cymunedol yn teimlo'n gryf y gallant ddarparu rhyw elfen o'r canolfannau hyn. Mae ganddynt adeiladau yn ein cymunedau a'r arbenigedd, ac y maent yn awyddus i ehangu'r cynllun mân anhwylderau. Maent am fod yn rhan o jig-so y ddarpariaeth iechyd hon. Fodd bynnag, fel egwyddor yr wyf yn cefnogi Jenny yn yr awgrym hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart, i ymateb i'r ddadl.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Diolch i Jenny Randerson am gychwyn y ddadl hon heddiw. Mae wedi bod yn drafodaeth fuddiol am ganolfannau galw i mewn. Beth yw'r gwasanaeth rhwng canolfan galw i mewn a chanolfan iechyd a lles? Mae hwnnw'n faes y bydd yn rhaid inni ei archwilio pan fyddwn yn penderfynu sut i ddarparu'r gwasanaeth yng Nghymru.

Cefais y cyfle, ar wahoddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys, i ymweld â'r ganolfan galw i mewn dan y GIG ym Mryste. Yr oedd y ganolfan yn y maestrefi ac yn gwasanaethu tair ystâd bur fawr yn yr ardal. Yn ddiddorol, yr oedd yr adeilad wedi'i leoli rhwng meddygfa meddygon teulu ar y naill ochr ac uned arenol ar yr ochr arall. Yr oedd mewn adeilad mawr, ac yng nghanol yr adeilad, ond nid yn rhan integredig o'r ganolfan ei hun, yr oedd caffî'n darparu prydau iach. Yr oedd clybiau cerdded a gweithgareddau cymunedol yn defnyddio'r caffî hwnnw fel eu canolfan, felly, yr oedd dull digon cyfannol ar waith o ran yr adeilad ei hun. Yr oedd yn arllwys y glaw y diwrnod y buom yn y lle ym mis Ionawr, a phenderfynodd y bobl o'r clwb beidio â mynd am dro ond eistedd i lawr a chael cwpanaid da o goffi yn lle hynny.

Cefais gyfle hefyd i gwrdd â staff y ganolfan, gan gynnwys ei rheolwr a'r staff nyrsio, a gwnaed argraff arnaf gan yr hyn a oedd yn digwydd yno'n gyffredinol, nid yn unig

people just walked in from the nearby estates, but also by the number of clinics that were run there, all of which were accessible to the community. A large percentage of children also attended the walk-in centre. The centre had nursing staff who had been trained as paediatric nurses, so it could deal with the volume of children who came in with their parents off these three estates. As Jenny mentioned, the relationship with businesses in the area was interesting. If someone was taken ill, or was not feeling well, at work, businesses referred them to the walk-in centre. That prompted me to think about the role that occupational health services could play in walk-in centres. It is important that we look at what is available.

This centre in Bristol is currently discussing whether it should also have GPs in the centre for the walk-in provision. I was particularly interested in the difference between the clientele that came to the walk-in centre in the suburbs and those who came to the one in the city. Jenny talked about the case for a pilot walk-in centre in the city today, and I am keen to do further work to look at the nature of who is coming in and who is doing what, and what is required.

I am also keen to look at other issues, which we need to discuss. We need to discuss the issue of medical records, and how you deal with records when people walk in to these centres. Not everyone remembers what drugs they are on, and people are not necessarily always truthful, as any GP will tell you, about their health issues. Therefore, there are many issues around that, which I know the British Medical Association has been particularly concerned about, if medication is being given out and so on.

I am also keen on the point that Jenny and Lorraine made about the student population in Cardiff. I have been discussing the many issues with regard to student health and access to facilities with the National Union of Students. Walk-in centres might be an answer sometimes for the student population in terms of providing sexual health, family planning,

oherwydd bod pobl yn cerdded i mewn o'r ystadau cyfagos, ond hefyd nifer y clinigau a oedd yn cael eu cynnal yno, a'r rheini i gyd yn gyfleus i'r gymuned. Yr oedd canran fawr o blant hefyd yn mynd i'r ganolfan galw i mewn. Yr oedd gan y ganolfan staff nyrsio wedi eu hyfforddi fel nyrsys pediatrig, felly, gallai ddelio â'r nifer mawr o blant a ddeuai i mewn gyda'i rhieni o'r tair ystâd. Fel y soniodd Jenny, yr oedd y berthynas â busnesau yn yr ardal yn ddiddorol. Os oedd rhywun yn mynd yn sâl neu os nad oedd yn teimlo'n dda yn y gwaith, byddai busnesau'n yn ei gyfeirio i'r ganolfan galw i mewn. Ysgogodd hynny fi i feddwl am y rôl a allai fod i wasanaethau iechyd galwedigaethol mewn canolfannau galw i mewn. Mae'n bwysig inni edrych ar yr hyn sydd ar gael.

Mae'r ganolfan hon ym Mryste wrthi ar hyn o bryd yn trafod a ddylai hefyd gael meddygon teulu yn y ganolfan ar gyfer y ddarpariaeth galw i mewn. Yr oedd gennyf ddiddordeb neilltuol yn y gwahaniaeth rhwng y cwsmeriaid a ddeuai i'r ganolfan yn y maestrefi a'r rhai a ddeuai i'r ganolfan yn y ddinas. Soniodd Jenny heddiw am yr achos o blaid canolfan beilot yn y ddinas, ac yr wyf yn awyddus i wneud rhagor o waith i edrych ar natur y bobl sy'n dod i mewn a phwy sy'n gwneud beth, a'r hyn sy'n angenrheidiol.

Yr wyf yn awyddus hefyd i edrych ar faterion eraill y mae angen inni eu trafod. Mae angen inni drafod mater cofnodion meddygol, a sut i ddelio â chofnodion pan fydd pobl yn cerdded i mewn i'r canolfannau hyn. Nid yw pawb yn cofio pa gyffuriau y maent yn eu cymryd, ac nid yw pobl wastad yn dweud y gwir o reidrwydd, fel y byddai unrhyw feddyg teulu yn ei ddweud wrthy, am eu materion iechyd. Felly, mae nifer o ystyriaethau ynglŷn â hynny y gwn fod Cymdeithas Feddygol Prydain wedi bod yn arbennig o bryderus yn eu cylch, os caiff meddyginiaeth ei rhoi, ac ati.

Yr wyf yn frwd hefyd dros y pwynt a wnaeth Jenny a Lorraine ynglŷn â phoblogaeth y myfyrwyr yng Nghaerdydd. Yr wyf wedi bod yn trafod y materion niferus am iechyd myfyrwyr a gallu cael cyfleusterau gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Efallai y byddai canolfannau galw i mewn yn ateb weithiau i'r boblogaeth myfyrwyr o ran

and that type of advice. Students cannot necessarily go back to their home GPs, because they may be a long way away, and sometimes want access to services quickly.

Therefore, all I can say to Members today is that I have to be aware of many issues. I have to be aware not only of the needs in urban areas of Wales, where it is easy to talk about providing walk-in centres, but of rural areas. Lorraine's point about the use of pharmacy drop-in centres is also valuable in this discussion. When I look at pilot schemes, I will not just be looking at schemes in city centres or urban areas, but at rural Wales as well. I also need to look at the issues around medical records.

You are right, Jenny, to say that there are some good models about, and, because England has gone first, we can look at the models that have developed, and are still developing, there. Therefore, I hope to make some progress on this, because I see walk-in centres and health and wellbeing centres as the future in Wales.

The Deputy Presiding Officer: We will now adjourn the meeting for five minutes while the bell is rung; we will then return for voting time.

darparu iechyd rhyw, cynllunio teulu, a'r math hwnnw o gyngor. Ni all myfyrwyr o reidrwydd fynd yn ôl at eu meddygon teulu gartref, oherwydd gallant fod ymhell i ffwrdd, ac weithiau byddant am allu cael gwasanaethau'n gyflym.

Felly, y cyfan y gallaf ei ddweud wrth yr Aelodau heddiw yw ei bod yn rhaid imi fod yn ymwybodol o nifer o faterion. Rhaid imi fod yn ymwybodol nid yn unig o'r anghenion mewn ardaloedd trefol yng Nghymru, lle mae'n hawdd siarad am ddarparu canolfannau galw i mewn, ond yn yr ardaloedd gwledig. Mae pwynt Lorraine ynglŷn â defnyddio canolfannau galw i mewn mewn fferyllfeydd hefyd yn werthfawr yn y drafodaeth hon. Pan fyddaf yn edrych ar gynlluniau peilot, nid ar gynlluniau yng nghanol dinasoedd neu mewn ardaloedd trefol yn unig y byddaf yn edrych, ond ar y Gymru wledig hefyd. Bydd angen hefyd imi edrych ar y materion sy'n ymwneud â chofnodion meddygol.

Yr ydych yn iawn, Jenny, i ddweud bod yna rai modelau da, a chan fod Lloegr wedi gwneud hyn gyntaf gallwn edrych ar y modelau sydd wedi datblygu, ac sy'n dal i ddatblygu, yno. Felly, gobeithiaf wneud rhywfaint o gynnydd ar hyn, oherwydd credaf mai canolfannau galw i mewn a chanolfannau iechyd a lles yw'r dyfodol yng Nghymru.

Y Dirprwy Lywydd: Gohiriwn yn awr am bum munud tra bydd y gloch yn cael ei chanu; wedyn dychwelwn i bleidleisio.

*Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn rhwng 4.57 p.m. a 5.03 p.m.
Plenary adjourned between 4.57 p.m. and 5.03 p.m.*

Amser Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM3852: O blaid 37, Ymatal 0, Yn erbyn 16.
Amendment 1 to NDM3852: For 37, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick

Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

Burnham, Eleanor
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

*Gwelliant 2 i NDM3852: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
 Amendment 2 to NDM3852: For 52, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Jocelyn
 Davies, Paul
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Neagle, Lynne

Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment carried.

Gwelliant 3 i NDM3852: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 36.

Amendment 3 to NDM3852: For 17, Abstain 0, Against 36.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Law, Trish
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David

Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Motion NDM3852 as amended: that

Cynnig NDM3852 fel y'i diwygiwyd: bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. welcomes the progress in addressing substance misuse and looks forward to the publication next month of the Assembly Government's draft consultation document on its substance misuse strategy;

1. yn croesawu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ac yn edrych ymlaen at weld dogfen ymgynghori ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei chyhoeddi mis nesaf ar ei strategaeth camddefnyddio sylweddau;

2. believes that adequate treatment and rehabilitation services should be the cornerstone of substance misuse policy.

2. yn credu y dylai gwasanaethau trin ac adsefydlu digonol fod yn gonglfaen i bolisi camddefnyddio sylweddau.

Cynnig NDM3852 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 10.

Motion NDM3852 as amended: For 42, Abstain 0, Against 10.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary

Bourne, Nick
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Williams, Brynle

Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM3852 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM3852 as amended carried.*

*Gwelliant 1 i NDM3853: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 36.
 Amendment 1 to NDM3853: For 17, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Law, Trish
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 2 i NDM3853: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
Amendment 2 to NDM3853: For 36, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 3 i NDM3853: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 36.
Amendment 3 to NDM3853: For 16, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley

Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

Motion NDM3853 as amended: that

Cynnig NDM3853 fel y'i diwygiwyd: bod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

commends the support provided by the Assembly Government to police forces in Wales and the actions taken by it to ensure that Welsh views, needs and circumstances in relation to police matters are made known to the Home Office.

yn cymeradwyo cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i heddluoedd yng Nghymru a'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn ymwybodol o safbwyntiau, anghenion ac amgylchiadau Cymru o ran materion sy'n ymwneud â'r heddlu.

*Cynnig NDM3853 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 16.
Motion NDM3853 as amended: For 36, Abstain 0, Against 16.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM3853 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM3853 as amended carried.*

*Gwelliant 1 i NDM3851: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 36.
 Amendment 1 to NDM3851: For 17, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Law, Trish
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 2 i NDM3851: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
Amendment 2 to NDM3851: For 17, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 3 i NDM3851: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 36.
Amendment 3 to NDM3851: For 17, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian

Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM3851): O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
Motion (NDM3851): For 17, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Law, Trish
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sinclair, Karen

Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion defeated.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.09 p.m.
 The meeting ended at 5.09 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
 Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)

Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)